Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN | EXTRAORDINGARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD MAWRTH, 29 GORFFENNAF, 2014 | TUESDAY, 29 JULY 2014 |
| → am 2 o'r gloch ← | → at 2.00 o'r gloch ← |

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol a pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**A G E N D A**

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**3. CYFARWYDDYD CYNLLUNIO ATODOL ADEILAD NIWCLIAR NEWYDD YN WYLFA**

(a) Cyflwyno dyfyniad o gofnodion y Pwyllgor Gwaith a gafwyd ar 14 Gorffennaf, 2014 :-

"Penderfynwyd argymell y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) Adeilad Niwclear Newydd (ANN) i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2014.

(b) Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) a Uwch Swyddogion eraill mewn perthynas â'r uchod.

Papurau cefndir ychwanegol :-
http://www.ynysmon.gov.uk/busnes/ynys-ynni/newyddion-ynys-ynni/gorsaf-niwclear-newydd-yn-wylfa-canllawiau-cynllunio-atodol/123431.article?redirect=false

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyfarfod Arbenning o'r Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **29 Gorffennaf 2014** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd J. Arwel Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arthur Owen** |
| **Pwnc:** | **Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa** |

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw darparu trosolwg o nod, sgôp, strwythur ac egwyddorion y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Adeilad Niwclear Newydd (ANN) yn Wylfa er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r ddogfen.

1.2 Mae'n hanfodol bod y CCA yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn ystod mis Gorffennaf 2014 er mwyn iddo ragflaenu unrhyw weithiau galluogi mewn perthynas â'r ANN a datblygiadau cysylltiedig o ran Ceisiadau Cynllunio Gwlad a Thref gan Horizon Nuclear Power (HNP) ac/neu unrhyw ymgynghori cyn cyflwyno cais gan y datblygwr (wedi ei drefnu ar hyn o bryd ar gyfer Medi 2014).

1.3 Oherwydd graddfa, cymhlethdod ac amserlenni'r ANN arfaethedig, mae angen i'r Cyngor Sir roi blaenoriaeth i baratoi a mabwysiadu CCA. Bydd y CCA yn cyfrannu tuag at sicrhau bod yr effeithiau tebygol yr ANN sy'n wybyddus a'i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi, eu hosgoi, eu lliniaru ac y gwneir iawn amdanynt lle bynnag y mae hynny'n bosibl; a bod y manteision cymdeithasol-economaidd sy'n gysylltiedig â'r adeiladu â gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu gwireddu'n llawn.

**2. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Caniatáu'r Cyngor Sir**

2.1 A Bydd y CCA ANN yn hanfodol i alluogi'r Cyngor Sir i gyflawni ei swyddogaeth allweddol yn y broses ganiatáu statudol mewn perthynas â phrosiect ANN. Mae'r ANN yn 'Brosiect Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol' dan Ddeddf Cynllunio 2008. Mae hyn yn golygu bod angen i'r datblygwyr gyflwyno cais Gorchymyn Caniatáu Datblygu (GCD) i'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd yr Arolygiaeth yn gwneud argymhelliad ar y cais i'r Ysgrifennydd Gwladol Dros Ynni a Newid Hinsawdd, sy'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol ar y GCD.

2.2 Bydd y CCA ANN yn atgyfnerthu ac yn cynnig gwybodaeth ar gyfer ymgysylltiad y Cyngor Sir yn y broses GCD, yn cynnwys ymateb i'r amrywiol gyfnodau o ymgynghori cyhoeddus, paratoi Datganiad o Dir Cyffredin gyda'r datblygwr, cyflwyno adroddiad o'r Effaith ar yr Ardal Leol, paratoi ymrwymiad cynllunio drafft a chynrychiolaeth yn yr ymchwiliad GCD.

2.3 Bydd y CCA hefyd yn galluogi'r Cyngor Sir i wneud penderfyniadau cadarn ar yr holl waith galluogi mewn perthynas â'r ANN a cheisiadau datblygu cysylltiedig (Cynllunio Gwlad a Thref) y bydd yn eu derbyn. Mae ceisiadau am ddatblygiadau cysylltiedig fel gwaith priffyrdd, llety gweithwyr, cyfleusterau parcio a theithio a chanolfannau logisteg i gyd yn faterion sydd wedi eu datganoli yng Nghymru, ac felly byddant yn cael eu hystyried a'u penderfynu gan y Cyngor Sir fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y CCA felly yn darparu cyfle i'r Cyngor Sir ddylanwadu ar natur, graddfa a dosbarthiad datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r ANN ar yr Ynys, yn ogystal â chwarae ei rôl lawn yn y proses GCD.

## 3. Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd Wylfa

3.1 Mae'r datblygiadau ynni mawr arfaethedig ar yr Ynys, yn arbennig yr ANN yn Wylfa, yn rhoi cyfle unigryw a digymar i Gyngor Sir Ynys Môn gyfrannu'n gadarnhaol tuag at drawsnewidiad cymdeithasol-economaidd yr Ynys (a'r rhanbarth ehangach). Mae'r CCA'u yn ffordd o nodi cyfarwyddyd safle benodol neu thematig manwl ar y ffordd y bydd polisïau cenedlaethol a lleol yn cael eu defnyddio mewn amgylchiadau neu feysydd penodol.

3.2 O ystyried y diffyg o ran fframwaith polisi cynllunio lleol cadarn mewn perthynas â phrosiect o raddfa a chyfansoddiad yr ANN a hyd nes caiff y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ei fabwysiadu, pwrpas y CCA ANN yw darparu cyfarwyddyd lefel uchel (yn seiliedig ar dystiolaeth) i ddylanwadu ac i hysbysu proses HNP ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cynnwys cyngor atodol ar faterion uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n bwysig yn lleol ac yn amlinellu ymateb y Cyngor Sir i bolisïau a strategaethau cenedlaethol a lleol yng nghyd-destun prosiect ANN Wylfa.

3.3 Bwriadwyd CCA ANN fel cyfarwyddyd prosiect penodol sy'n cael ei ddatblygu y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn esblygu, ond bydd y ddwy ddogfen yn rhannu'r un sail tystiolaeth ac y mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi bod â rhan fawr yn y gwaith o baratoi'r CCA ANN (fel rhan o'r Grŵp Llywio). Nodwch os gwelwch yn dda nad yw'r CCA yn gallu dyrannu tir (swyddogaeth yw honno i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd). Mae'r CCA ANN yn nodi safleoedd a ffefrir neu leoliadau ar gyfer defnyddiau arbennig drwy ardaloedd chwilio eang e.e. Caergybi a'r Parthau.

3.4 Mae'r gwaith o baratoi'r CCA wedi ei gydlynu gan y Gwasanaeth Economaidd ac Adfywio Cymunedol dan gyfarwyddyd nifer o Uwch Swyddogion y Cyngor Sir. Bu AMEC Environment & Infrastructure (darparwyr cefnogaeth ac arbenigedd amlddisgyblaethol y Cyngor Sir) yn gyfrifol am ddrafftio'r ddogfen. Sicrhawyd adnoddau i ariannu'r broses o ddarparu'r CCA drwy'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio gyda HNP.

3.5 Mae'n bwysig nodi bod y CCA ANN yn canolbwyntio ar nodi, osgoi, lliniaru a gwneud iawn am effeithiau negyddol tebygol a gwneud y mwyaf o'r manteision cadarnhaol o'r prosiect, yn hytrach nag egwyddorion pŵer niwclear (gan fod hyn wedi ei gynnwys ym Mholisi Cenedlaethol Llywodraeth y DU).

## 4. Strwythur CCA ANN Wylfa

4.1 O ystyried graddfa ac arwyddocâd y prosiect ANN, yn y CCA fe geir:

- Trosolwg o'r prosiect ANN a'i ddatblygiadau cysylltiedig;
- Crynodeb o'r fframwaith polisi cenedlaethol a lleol presennol;
- Gweledigaeth y Cyngor Sir mewn perthynas â'r prosiect ANN;
- Cyfarwyddyd strategol lefel uchel / prosiect-eang mewn perthynas â materion/pynciau allweddol, yn cynnwys:
  - Datblygu Economaidd
  - Twristiaeth
  - Llety Gweithwyr Adeiladu
  - Poblogaeth a Chymuned
  - yr Iaith Gymraeg a Diwylliant
  - Cludiant
  - Cyfleustodau
  - Gwastraff
  - Newid Hinsawdd
  - Amgylchedd Naturiol
  - Amgylchedd Hanesyddol
  - Hwyluso'r Datblygiad
  - Gweithrediad a Monitro
- Cyfarwyddyd lleoliadol yn amlinellu ble y gellid lleoli datblygiadau cysylltiedig ar yr Ynys;
- 10 Papur Pwnc (sef sail tystiolaeth y CCA);
- Cyfres o asesiadau statudol o'r CCA (Gwerthusiad Cynaliadwyaeth, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, Asesiad Rheoliadau Cynefin ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd).

4.2 Ni ellir gor-ddweud pa mor bwysig yw'r CCA i'r Cyngor Sir ac i HNP. Bydd y CCA yn darparu cyfarwyddyd yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi ei gysylltu i bolisi, a bydd holl waith galluogi ANN a'r ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiol yn cael eu hasesu yn ei erbyn. Bydd hefyd yn darparu eglurder i ddatblygwr y prosiect mewn perthynas â dyheadau a disgwyliadau'r Cyngor Sir os bydd y prosiect ANN arfaethedig yn mynd yn ei flaen.

## 5. Ymgynghori Cyhoeddus

5.1 Bu'r CCA ANN drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am 6 wythnos yn ystod 17 Chwefror – 31 Mawrth 2014. Roedd y broses ymgynghori yn cynnwys:

- Cyhoeddi'r CCA ANN drafft a dogfennau cysylltiol ar wefan y Cyngor Sir a darparu copïau caled mewn llefydd adneuo allweddol.
- Cyhoeddi hysbysebion a datganiad i'r wasg.
- Darparu holiadur ar-lein.
- Gwneud defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol i sicrhau ymgysylltiad gyda chymaint o gydranddeiliaid ag sy'n bosibl.
- Arddangosfeydd cyhoeddus am dri diwrnod llawn yng Nghemaes, Caergybi a Llangefni.

5.2 Gwahoddwyd holl Aelodau'r Cyngor Sir i sesiynau briffio ffurfiol ar 17 Ionawr ac 17 Mawrth 2014 i wella eu dealltwriaeth o bwrpas ac egwyddorion y CCA ANN. Mae fersiwn derfynol y CCA wedi ei diwygio yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau hyn.

5.3 Derbyniwyd 52 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan ystod o ymgynghorai a chydranddeiliaid, yn cynnwys gwasanaethau'r Cyngor Sir, awdurdodau lleol eraill, ymgyngoreion statudol, sefydliadau cynrychioliadol, perchnogion tir, datblygwyr, HNP, trigolion lleol a grwpiau a diddordeb.

5.4 Roedd natur y sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys yr angen i:

- Sicrhau swyddi i bobl leol, yn arbennig pobl ifanc
- Gwneud y mwyaf o gyfleon contract a chadwyn gyflenwi i fusnesau lleol
- Darparu hyfforddiant sgiliau priodol
- Sicrhau bod gweithwyr adeiladu yn cael eu lletya mewn lleoliadau addas
- Lleihau unrhyw effeithiau negyddol i sector twristiaeth yr Ynys
- Lleihau effeithiau gwelliannau ffyrdd ar hyd yr A5025
- Lliniaru effeithiau tebygol ar gymunedau lleol a'r Iaith Gymraeg

(Mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg, mae'r Cyngor Sir (drwy'r Rhaglen Ynys Ynni) a HNP wedi cytuno mewn egwyddor i gydariannu secondiad o Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru i ddatblygu mesurau lliniaru ac integreiddio priodol).

5.5 Cafwyd sylwadau hefyd ynglŷn â diogelwch technoleg niwclear, yn ogystal â storio gwastraff niwclear ar y safle a chael gwared arno wedyn. Mae'r materion hyn y tu allan i sgôp y CCA ANN ac y mae'r sylwadau wedi eu hanfon ymlaen i'r datblygwr a rheoleiddwyr perthnasol er gwybodaeth/ystyriaeth (yn arbennig fel rhan o ymgynghori cyn-ymgeisio HNP).

5.6 Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi eu hamlinellu mewn mwy o fanylder yn y 'Rhestr o Ymatebion Ymgynghori' sydd hefyd yn cynnwys ymateb y Cyngor Sir i bob mater a godwyd ac yn nodi a yw'r CCA drafft wedi ei addasu/newid o ganlyniad.

## 6. Crynodeb o'r Adborth gan y Pwyllgor Sgriwtini

6.1 Gellir crynhoi'r sylwadau ar y CCA o'r cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio (11 Gorffennaf 2014) fel a ganlyn:

- Yr angen i sicrhau gwelliannau i'r briffordd er mwyn cefnogi cyfleon cyflogaeth yn lleol
- Pryderon ynghylch storio gwastraff niwclear yn yr orsaf newydd.
- Effaith y prosiect ANN ar y farchnad dai leol
- Pwysigrwydd gwella hyfforddiant a chyfleon cyflogaeth yn lleol
- Yr angen i ystyried rhoddi mwy o gefnogaeth i fusnesau lleol yn arbennig felly o ran recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr a sicrhau bod cyn lleied â phosib o weithwyr yn symud oddi yma.
- Lliniaru'r effeithiau ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.
- Pryderon ynglŷn â'r cyfeiriadau at Land & Lakes.

6.2 Mae'r fersiwn derfynol o'r CCA ANN wedi cael ei hadolygu a'i diwygio yn dilyn y Pwyllgor Sgriwtini. Mae newidiadau'n cynnwys cyfeiriad at yr angen i HNP gefnogi busnesau lleol sy'n colli staff i'r prosiect ANN; rhoddi rhagor o eglurder ar sgôp y CCA a chyfrifoldebau'r Cyngor Sir o ran cyfleusterau ar gyfer storio gwastraff niwclear a gwneud i ffwrdd â'r cyfeiriadau penodol at Land & Lakes.

**7. Casgliadau**

7.1 Mae graddfa a chymhlethdod y prosiect ANN arfaethedig a'i holl elfennau yn gwneud y gwaith o baratoi a mabwysiadu'r CCA yn weithgaredd y mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth iddo.

7.2 Bydd y CCA ANN yn darparu'r cyd-destun angenrheidiol a'r sail tystiolaeth gadarn i ddylanwadu a chyfarwyddo proses gwneud penderfyniadau datblygwr y prosiect ac yn fodd i'r Cyngor Sir gyflawni ei gyfrifoldebau statudol mewn ffordd gadarn ac effeithiol.

7.3 Mae'r CCA yn canolbwyntio ar nodi, osgoi, lliniaru a gwneud iawn am yr effeithiau tebygol y gwyddys amdanynt ac a fydd yn deillio o'r ANN a'i ddatblygiadau cysylltiedig.

7.4 Bydd y CCA yn galluogi'r Cyngor Sir i gyfrannu'n llawn at y broses GCD 'Prosiect Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol', yn ogystal â phenderfynu ar yr holl Geisiadau am ddatblygiadau cysylltiedig o ran Cynllunio Gwlad a Thref y bydd yn eu derbyn.

7.5 Bydd y CCA ANN yn helpu i atgyfnerthu ymrwymiadau cynllunio statudol (e.e. cytundebau adran 106) i sicrhau bod mesurau lliniaru angenrheidiol a chadarn yn cael eu sefydlu ar gyfer yr holl effeithiau tebygol sy'n wybyddus.

7.6 Bydd y CCA ANN hefyd yn helpu'r Cyngor Sir i sicrhau cyfleon trawsnewid economaidd sylweddol i Ynys Môn. Bydd yn alluogwr hanfodol i gyflawni dyheadau economaidd y Cyngor Sir drwy ddefnyddio'r system cynllunio defnydd tir e.e. defnydd etifeddol o safleoedd a ddefnyddiwyd dros dro gan HNP.

7.7 Bydd y CCA yn helpu i hysbysu cynigion a phroses gwneud penderfyniadau hyrwyddwr y prosiect drwy ddarparu eglurder mewn perthynas â dyheadau a disgwyliadau'r Cyngor Sir o ran y prosiect ANN arfaethedig.

**8. Argymhellion**

Argymhellir bod y Cyngor Sir:

**a) Yn nodi pwrpas sgôp ac egwyddorion y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar gyfer Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa.**

**b) Yn cydnabod rôl y Cyngor Sir yn y broses ganiatáu statudol ar gyfer yr Adeilad Niwclear newydd Arfaethedig.**

**c) Yn cefnogi ac yn mabwysiadu yn ffurfiol Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol yr Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa.**

Adroddiad gan: Christian Branch (ar ran Arthur Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy)
Teitl Swydd: Prif Swyddog Datblygu Strategaeth
Gwasanaeth: Economaidd ac Adfywio Cymunedol
Dyddiad: Gorffennaf 2014.

**Atodiadau**

**Atodiad A:** Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd

**Atodiad B**: Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd: Rhestr o'r Ymatebion i'r Ymgynghori

**Atodiad C**: Trosolwg o'r Ceisiadau Cynllunio ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd

**Penderfyniadau Blaenorol Perthnasol y Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith**
Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith (2 Rhagfyr 2013) – Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s3191/Gorsaf%20Niwclear%20Newydd%20yn%20Wylfa%20Canllawiau%20Cynllunio%20Atodol%20CCA.pdf?LLL=1

Adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr (18 Mehefin 2012) - Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/Data/Bwrdd%20y%20Comisiynwyr/20120618/Agenda/(Papur%20'G').pdf

# Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa: Canllawiau Cynllunio Atodol

ioacc

@angleseycouncil



Gorffennaf 2014

www.ynysmon.gov.uk

www.anglesey.gov.uk

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | **4** |
| **1** | **Cyflwyniad** | **6** |
| 1.1 | Prosiect Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa | 7 |
| 1.2 | Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn | 10 |
| 1.3 | Paratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn | 12 |
| 1.4 | Trefn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn | 17 |
| **2** | **Fframwaith Polisi** | **19** |
| 2.1 | Datganiadau Polisi Cenedlaethol | 19 |
| 2.2 | Polisi Cenedlaethol | 20 |
| 2.3 | Polisi Lleol | 20 |
| **3** | **Gweledigaeth ac Amcanion** | **26** |
| 3.1 | Gweledigaeth | 26 |
| 3.2 | Amcanion | 28 |
| **4** | **Canllawiau ar gyfer y Prosiect Cyfan** | **42** |
| 4.1 | Datblygu Economaidd | 44 |
| 4.2 | Twristiaeth | 52 |
| 4.3 | Poblogaeth a Chymunedau | 56 |
| 4.4 | Llety i Weithwyr Adeiladu a Marchnad Dai Ynys Môn | 65 |
| 4.5 | Y Gymraeg a'i Diwylliant | 73 |
| 4.6 | Trafnidiaeth | 75 |
| 4.7 | Cyfleustodau | 79 |
| 4.8 | Gwastraff | 81 |
| 4.9 | Y Newid yn yr Hinsawdd | 85 |
| 4.10 | Yr Amgylchedd Naturiol | 90 |
| 4.11 | Yr Amgylchedd Hanesyddol | 96 |
| 4.12 | Hwyluso Datblygu | 99 |
| 4.13 | Gweithredu a Monitro | 105 |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Canllawiau ar Leoli** | **106** |
| 5.1 | Prif Safle GNN Wylfa | 109 |
| 5.2 | Caergybi a'r Cylch | 114 |
| 5.3 | Llangefni a'r Cylch | 124 |
| 5.4 | Amlwch a'r Cylch | 132 |
| 5.5 | Coridor yr A55/A5 | 139 |
| 5.6 | Coridor yr A5025 | 148 |
| 5.7 | Cemaes a'r Cylch | 154 |
| 5.8 | Gweddill Ynys Môn | 161 |
| **Rhestr Byrfoddau** | | **168** |
| **Atodiad A** | | **170** |

# Rhagair

Mae'r Orsaf Niwclear Newydd (GNN) yn Wylfa, ynghyd â datblygiadau mawr eraill sydd wedi'u cynnig yn Ynys Môn, yn gyfle unwaith mewn oes i drawsnewid economi a chymunedau Ynys Môn.

Er mwyn helpu i sicrhau trawsnewid o'r fath a gofalu bod unrhyw effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn llawn a'u lliniaru, mae angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) penodol.

Rhaid gosod canllawiau o'r fath yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan eu seilio ar bolisi lleol presennol a'i ategu. Felly rhaid i'r canllawiau fod yn gynhwysfawr o ystyried graddfa a natur a goblygiadau pellgyrhaeddol GNN Wylfa, a rhaid eu seilio ar dystiolaeth gadarn.

Felly, pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa (CCA GNN Wylfa) yw rhoi cyngor atodol ar faterion pwysig sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag ardaloedd lleol, ac egluro ymateb Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor Sir) i'r strategaethau a'r polisïau lleol a chenedlaethol yng nghyd-destun Prosiect GNN Wylfa. Bydd y CCA hyn yn galluogi'r Cyngor Sir i chwarae rhan lawn yn y prosesau caniatâd cynllunio ar gyfer GNN Wylfa, boed fel ymgynghorai ar gyfer y Gorchymyn Caniatâd Datblygu, neu wrth ystyried ceisiadau o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref am ddatblygiadau cysylltiedig.

Nid yn unig mae CCA GNN Wylfa yn darparu rhan o fframwaith ar gyfer penderfyniadau'r Cyngor Sir yn y dyfodol, byddant hefyd yn helpu i lywio ceisiadau a phenderfyniadau hyrwyddwr y prosiect drwy egluro'n fanwl ein dyheadau a'n disgwyliadau o'r orsaf niwclear newydd arfaethedig.

Bydd GNN Wylfa yn arwain at oblygiadau pwysig i economi Ynys Môn, ei chymunedau a'i hamgylchedd. Mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i sicrhau bod effeithiau niweidiol posibl GNN Wylfa a'r datblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi a'u hosgoi lle bynnag y bo modd. Os na fydd modd osgoi effeithiau niweidiol, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl (mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y CCA hyn) i hyrwyddwr y prosiect roi mesurau lliniaru a/neu gydbwyso priodol ar waith. Bydd y Cyngor Sir hefyd yn ceisio sicrhau bod y buddion economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o adeiladu a rhedeg yr orsaf bŵer newydd yn cael eu gwireddu'n llawn er mwyn cynnig cefnogaeth hirdymor i Ynys Môn a'i chymunedau. Yn y cyd-destun hwn, mae CCA GNN Wylfa wedi'u seilio ar y buddion sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa, ac yn ceisio amlhau'r buddion hynny.

Bydd y CCA hyn yn allweddol i sicrhau bod y Cyngor Sir yn gwybod pa gyfleoedd a heriau a fydd yn codi yn sgîl yr orsaf niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa, ac yn ymateb yn briodol iddynt.

# 1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyrraedd y targed sydd wedi'i osod mewn cyfraith i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% o leiaf erbyn 2050, o'u cymharu â'r lefelau ym 1990[1]. Gan fod pŵer niwclear yn ffynhonnell ynni carbon isel, mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir fod lle pwysig iddo mewn amrywio'r galw am drydan a'i ddatgarboneiddio. Mae cynhyrchu pŵer niwclear hefyd yn gallu helpu i sicrhau bod cyflenwad ynni'r DU yn ddibynadwy.

1.1.2 Polisi Llywodraeth y DU[2] yw y bydd pŵer niwclear yn cyfrannu'n helaeth at ateb yr angen cenedlaethol am allu cyflenwi newydd, fel un o nifer o fathau o ynni sy'n cynnwys ynni adnewyddadwy a thanwyddau ffosil gyda chyfleusterau dal a storio carbon. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y DU yn credu ei bod yn bwysig bod datblygiadau niwclear newydd yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Mae hyn wedi'i ailddatgan yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol (NPS) am Ynni – EN-1 (2011) ac mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear – EN-6 (2011) er mwyn egluro polisi a cheisio hwyluso'r broses o ddarparu gorsafoedd pŵer newydd yn amserol.

1.1.3 Mae NPS EN-6 yn enwi wyth safle a all fod yn addas i ddatblygu gorsafoedd niwclear newydd, ac mae un o'r rhain ar benrhyn yr Wylfa ger adeiladau'r orsaf bŵer Magnox bresennol. Mae camau'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i ddatblygu'r safle Gorsaf Niwclear Newydd (GNN) yn Wylfa gan Pŵer Niwclear Horizon (Horizon).

1.1.4 Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei strategaeth newid i economi carbon isel[3], a Chyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor Sir) ill dau'n cydnabod y cyfraniad pwysig posibl gan orsafoedd pŵer niwclear newydd at y cymysgedd ynni yn y DU ac at ddiogelu'r cyflenwad trydan, ac mae'r ddau ohonynt o blaid yr egwyddor o ddatblygu gorsaf pŵer niwclear newydd yn Wylfa. Maent hefyd yn rhagweld y bydd datblygu gorsaf pŵer niwclear newydd yn Wylfa a'r datblygiadau cysylltiedig (sydd, at ddibenion y ddogfen hon, yn cael eu

YNYS YNNI MÔN
ANGLESEY ENERGY ISLAND

[1] Wedi'i bennu yn *Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*.
[2] Gweler Llywodraeth y DU (2011) *The Carbon Plan: Delivering Our Low Carbon Future*: DECC: Llundain.
[3] Llywodraeth Cymru (2012) *Ynni Cymru: Newid i Economi Carbon Isel.* Llywodraeth Cymru: Caerdydd.

galw'n 'Brosiect GNN Wylfa') yn ffactor allweddol ar gyfer sbarduno twf economaidd yn Ynys Môn ac yn rhanbarth Gogledd Cymru yn gyffredinol. Mae pwysigrwydd strategol allweddol Prosiect GNN Wylfa wedi'i gydnabod yn llawn yn rhaglen Ynys Ynni Môn (YYM) ac yn Ardaloedd Menter[4] Llywodraeth Cymru sydd, gyda'i gilydd, yn ceisio creu canolbwynt rhagoriaeth daearyddol ar gyfer datblygu, gweithredu a chynnal a chadw mentrau ynni carbon isel.

1.1.5 Rhagwelir y byddai YYM yn gallu cyfrannu at ddenu buddsoddiad o gymaint â £2.5 biliwn i economïau Ynys Môn a Gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf, gan gynnig cyfle heb ei ail i sicrhau manteision hirdymor cynaliadwy i wead economaidd-gymdeithasol Ynys Môn a'r rhanbarth. Er hynny, mae'n hanfodol sicrhau, wrth gyflawni Prosiect GNN Wylfa, y bydd cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd o gael effeithiau niweidiol ar adnoddau amgylcheddol a diwylliannol unigryw Ynys Môn a'i chymunedau a'i gweithgareddau economaidd sefydledig.

1.1.6 Bwriad y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yw ategu polisi cynllunio cenedlaethol a lleol presennol er mwyn helpu i lywio'r gwaith o uwchgynllunio, dylunio a sicrhau effeithlonrwydd ar gyfer Prosiect GNN Wylfa a sicrhau manteision dros gyfnod hir i Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru. Mae **Atodiad A** yn dangos sut mae Egwyddorion Arweiniol y CCA yn berthnasol i bolisi cynllunio lleol a chenedlaethol.

## 1.1 Prosiect Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa

1.1.7 Mae'r safle 254 hectar (ha) sydd wedi'i nodi fel lleoliad ar gyfer gorsaf pŵer niwclear newydd yn Wylfa wedi'i ddangos yn **Ffigur 1.1**. Mae Horizon yn bwriadu darparu dau Adweithydd Dŵr Berw Uwch a fydd yn cynhyrchu o leiaf 2,700MW ar y safle hwn.

[4] Mae rhaglen Ynys Ynni Môn yn bartneriaeth gyhoeddus-preifat sy'n ceisio rhoi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygu, cynhyrchu a chynnal a chadw ym maes ynni. Mae'n rhan o Fframwaith Ynys Fenter y Cyngor Sir ar gyfer defnyddio statws Ardal Fenter i gyflymu'r buddsoddi sydd ei angen i sicrhau dyfodol i'r ynys fel lleoliad blaenllaw ar gyfer arloesi, cynhyrchu ac arddangos ym maes ynni carbon isel. Bydd hyn yn cynnwys anghenion o ran adfywio, seilwaith ac adeiladau, yn ogystal â TGCh, pŵer, trafnidiaeth a dŵr ar gyfer safleoedd allweddol yn yr Ardal Fenter.

**Ffigur 1.1 Lleoliad Safle'r Orsaf Niwclear Newydd Arfaethedig**




1.1.8 Mae adeiladu gorsaf pŵer niwclear newydd yn Brosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (PSCA) o dan Ddeddf Cynllunio 2008. O dan y ddeddfwriaeth, mae prosiectau fel GNN Wylfa yn cael eu hystyried mor bwysig i'r DU o ran eu harwyddocâd posibl fel bod proses wahanol i'r un "arferol" o roi caniatâd gan awdurdod cynllunio lleol yn cael ei defnyddio. Drwy'r broses hon, mae Horizon yn cynnig cyflwyno cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ar gyfer codi'r orsaf bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd (yr Ysgrifennydd Gwladol). Cyflwynir y cais drwy'r Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn rhoi argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl archwilio'r cais, ynghylch a ddylid rhoi caniatâd datblygu neu beidio. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu'n derfynol ynghylch rhoi neu wrthod caniatâd datblygu[5].

[5] Mae mwy o wybodaeth ar gael am broses ymgeisio'r GCD ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: http://infrastructure.planningportal.gov.uk/application-process/the-process/.

1.1.9 Er nad y Cyngor Sir yw'r awdurdod a fydd yn penderfynu ynghylch caniatáu'r PSCA, bydd yn ceisio sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n parchu polisïau strategol ac egwyddorion y Cynllun Datblygu sydd, ar hyn o bryd, yn cynnwys Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996), y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol, polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol Cymru, y Cynllun Datblygu Unedol a Ataliwyd (CDU), Canllawiau Cynllunio Atodol a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Y CDLlC fydd y cynllun gofodol a fydd yn gweithredu Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn ac YYM, ymysg pethau eraill. Bydd y CCA hyn yn cael eu hadolygu ac, os bydd angen, eu diweddaru ar ôl mabwysiadu'r CDLlC.

1.1.10 Yn ogystal â'r cais am GCD, bydd yn ofynnol bod Horizon ac unrhyw drydydd parti sy'n hyrwyddo prosiectau sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa (er enghraifft, ceisiadau am lety i weithwyr adeiladu) yn cael caniatâd, o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r datblygiad (datblygiadau cysylltiedig). Gellir gwneud cais am ddatblygu cysylltiedig ar brif safle GNN Wylfa cyn cymeradwyo'r cais am GCD a/neu am waith ar dir y tu allan i'r safle. Nid yw ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig yn dod o dan Ddeddf Cynllunio 2008 yng Nghymru, ac felly'r Cyngor Sir fydd yn penderfynu arnynt (oni bai fod Llywodraeth Cymru wedi galw'r cais i mewn).

1.1.11 Nid yw'r holl fathau o ddatblygu cysylltiedig y bydd ei angen ar gyfer Prosiect GNN Wylfa wedi'u diffinio eto ond gallai gynnwys:

- Gwaith hwyluso a pharatoi ar y safle ar gyfer yr orsaf bŵer newydd;
- Gwella ffyrdd a rheilffyrdd;
- Canolfan Logisteg Cludo Nwyddau;
- Cyfleusterau Parcio a Theithio;
- Llety i'r gweithlu;
- Safleoedd ac adeiladau i gwrdd ag anghenion cadwynau cyflenwi;
- Cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.

1.1.12 Yn y cyd-destun hwn, wrth alw'r prosiect yn GNN Wylfa yn y CCA hyn, golygir y gwaith datblygu ar safle Wylfa yn ogystal â cheisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig. Er hynny, nid yw Prosiect GNN Wylfa yn cynnwys y gwaith datblygu i greu cysylltiadau â'r seilwaith trosglwyddo trydan (h.y. y Grid Cenedlaethol), y bydd eu hangen i wasanaethu'r orsaf pŵer niwclear newydd.

Mae'r PSCA hwn (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru) yn cael ei hyrwyddo gan y Grid Cenedlaethol a bydd yn dilyn proses ymgeisio ar wahân am GCD.

1.1.13 Mae'r term 'hyrwyddwr prosiect' yn cynnwys Horizon ac unrhyw drydydd parti sy'n gwneud cais am ddatblygu mewn ymateb uniongyrchol i ddatblygiad GNN Wylfa (er enghraifft, am ddarparu llety i weithwyr adeiladu neu fathau eraill o ddefnydd sy'n ymwneud â chyflogaeth).

## 1.2 Pwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn

1.2.1 Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol yw rhoi canllawiau manwl ynghylch themâu neu safleoedd penodol sy'n ymwneud â'r ffordd y bydd polisïau mewn cynlluniau datblygu yn cael eu cymhwyso mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. **Pwrpas Canllawiau Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa (CCA GNN Wylfa) yw rhoi cyngor atodol ar faterion pwysig sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag ardaloedd lleol, ac egluro ymateb y Cyngor Sir i'r strategaethau a'r polisi lleol a chenedlaethol yng nghyd-destun Prosiect GNN Wylfa**. Er nad yw dogfen y CCA yn atodol i'r CDLIC sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, mae'n fwriad iddi fod yn gyson â'r cyfeiriad polisi sydd yn y cynllun sy'n datblygu.

1.2.2 Pwrpas CCA GNN Wylfa yw:

- Cyfrannu at benderfynu'r safbwynt y bydd y Cyngor Sir yn ei fabwysiadu yn ei Adroddiad ar yr Effaith Leol [6] a'r adrannau perthnasol yn y Datganiad Tir Cyffredin[7];
- Darparu fframwaith cynllunio (ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu a chanllawiau eraill ar bolisi cynllunio) a fydd yn helpu i gyfarwyddo'r ymgeisydd/ymgeiswyr ac yn dylanwadu ar y broses o ddylunio a datblygu elfennau o Brosiect GNN Wylfa er mwyn sicrhau canlyniadau cynaliadwy, gan roi sylw i ddatblygu cysylltiedig yn bennaf;
- Llywio trafodaethau cyn ymgeisio sy'n ymwneud â phrif safle GNN Wylfa a'r datblygiadau cysylltiedig;
- Cynnig canllawiau atodol ar lefel leol, sy'n gyson â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol, y gall yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried yn bwysig a pherthnasol i'r broses benderfynu;

[6] Yn ystod proses Deddf Cynllunio 2008, bydd y Cyngor Sir yn cael ei wahodd i gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol a fydd yn manylu ar effaith debygol Prosiect yr orsaf niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa, Ynys Môn. Mae mwy o wybodaeth am baratoi adroddiadau ar yr effaith leol ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: http://infrastructure.planningportal.gov.uk/wp-content/uploads/2013/04/Advice-note-1v2.pdf.

7 Mae datganiad tir cyffredin yn ddatganiad ysgrifenedig sy'n cael ei baratoi ar y cyd gan yr ymgeisydd a pharti neu bartïon eraill fel y Cyngor Sir, sy'n nodi unrhyw faterion y maent yn cytuno arnynt. Mae datganiadau tir cyffredin yn gymorth wrth ystyried y gwahaniaethau barn pwysig rhwng y prif bartïon.

- Bod yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu unrhyw geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref sy'n ymwneud â Phrosiect GNN Wylfa a gyflwynir gan Horizon neu hyrwyddwyr datblygu neu fusnesau eraill sydd â buddiant yn y prosiect neu sy'n ceisio cael buddiant ynddo.

1.2.3 Dylid nodi na ellir defnyddio'r CCA i ffurfio polisïau newydd nac i 'neilltuo' tir ar gyfer datblygu; ni ddylid ystyried bod arweiniad yn y CCA hyn yn gwneud hynny. Ni ellir defnyddio'r CCA chwaith i farnu ar addasrwydd ac egwyddorion y bwriad i ddatblygu gorsaf bŵer newydd, sef y brif elfen ym Mhrosiect GNN Wylfa. Mae hyn yn fater i'w ystyried gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol.

1.2.4 Mae hefyd yn bwysig nodi, gan mai PSCA sydd dan sylw, fod y ddadl o blaid codi gorsafoedd pŵer niwclear newydd, gan gynnwys un yn Wylfa, wedi'i derbyn eisoes ar lefel y DU drwy Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n sail i benderfyniadau'r Arolygiaeth Gynllunio. O ganlyniad i hyn, nid yw polisi'r Cynllun Datblygu na'r CCA yn cynnwys meini prawf polisi ynghylch a yw adeiladu a rhedeg gorsaf pŵer niwclear yn dderbyniol. Er hynny, mae Adran 104(2)(b) a (d) o Ddeddf Cynllunio 2008 yn datgan bod rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio/Ysgrifennydd Gwladol roi sylw i unrhyw Adroddiad ar yr Effaith Leol sydd wedi'i baratoi gan yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol ynghyd ag unrhyw faterion eraill y maent yn credu eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i'w penderfyniad. Yn ogystal â hyn, bydd angen cael caniatâd gan y Cyngor Sir ar gyfer gwaith hwyluso a datblygiadau cysylltiedig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd). Mae hefyd yn bosibl y bydd angen sicrhau mathau eraill o ganiatâd cyn i'r datblygiad fynd yn ei flaen.

1.2.5 Felly mae'r CCA hyn (ynghyd â'r Cynllun Datblygu a chanllawiau eraill ar bolisi cynllunio) yn galluogi'r Cyngor Sir i wneud penderfyniadau cadarn ynghylch pob datblygiad cysylltiedig sy'n ymwneud â GNN Wylfa, gan gynnwys ceisiadau am waith hwyluso o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Mae'r CCA yn nodi rhai o effeithiau posibl Prosiect GNN Wylfa rydym eisoes yn gwybod amdanynt ac yn disgrifio mesurau posibl ar gyfer lliniaru a gwella er mwyn osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol, neu eu lleihau os na ellir eu hosgoi, ac er mwyn gwireddu'r buddion economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a rhedeg yr orsaf bŵer newydd.

1.2.6 Er nad yw'n briodol i'r CCA hyn roi arweiniad ar gyfer datblygiadau y tu hwnt i Ynys Môn, mae pwysigrwydd Prosiect GNN Wylfa yn golygu ei fod yn debygol o gael effeithiau pellgyrhaeddol y tu hwnt i Ynys Môn. Hefyd, er mwyn gwireddu nifer o'r buddion economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer newydd, bydd angen cynlluniau strategol a chydweithio trawsffiniol â Chyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, er enghraifft, fel yr awdurdodau lleol cyfagos. Felly, mae'r CCA hyn

yn nodi'r effeithiau trawsffiniol posibl er mwyn llywio'r cydweithio rhwng y Cyngor Sir, hyrwyddwr y prosiect a rhanddeiliaid eraill ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.


1.2.7 Nid yw'r CCA ar gyfer GNN Wylfa yn ymdrin â datgomisiynu'r orsaf gan ei bod yn anodd rhagweld cyfeiriad polisi cynllunio yn y dyfodol a'r prif amodau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol a fydd yn bod ar adeg datgomisiynu (mwy na 50 mlynedd i'r dyfodol yn ôl pob tebyg). Rhagwelir hefyd y bydd rheolaethau digonol ar waith o hyd i ddatgomisiynu'r orsaf pŵer niwclear yn ddiogel, yn unol â chynllun datgomisiynu y cytunir arno. Er hynny, mae'r CCA hyn yn gosod canllawiau ynghylch datgomisiynu datblygiadau dros dro y bydd eu hangen ar gyfer adeiladu GNN Wylfa.

## 1.3 Paratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn

1.3.1 Mae'r broses o baratoi'r CCA ar gyfer GNN Wylfa wedi cynnwys pum cam allweddol, sydd wedi'u dangos yn Ffigur 1.2. Maent wedi'u seilio'n bennaf ar y canlynol:

- Papurau pwnc;
- Astudiaethau sylfaen dystiolaeth;
- Asesiadau ac arfarniadau;
- Ymgynghoriad cyhoeddus.

**Ffigur 1.2 Camau Allweddol wrth Ddatblygu'r CCA ar gyfer GNN Wylfa**




**Papurau Pwnc**

1.3.2 Datblygwyd y papurau pwnc er mwyn dod â'r sylfaen dystiolaeth a'r cyd-destun polisi at ei gilydd mewn 10 maes pwnc. Nod y papurau pwnc oedd ategu'r gwaith canlynol:

- Pennu'r prif faterion i'w hystyried wrth ddrafftio'r CCA;
- Darparu canllaw ynghylch sut y gallai'r CCA ymateb i'r heriau a chyfleoedd a nodir;
- Cyflwyno mwy o wybodaeth i sefydliadau rhanddeiliaid ac i'r cyhoedd ar gyfer yr ymgynghoriad ar y CCA drafft.

1.3.3 Mae **Blwch 1** yn cynnwys rhestr lawn o'r papurau pwnc a gafodd eu paratoi ar gyfer y CCA.

| Blwch 1 | Papurau Pwnc a baratowyd ar gyfer CCA GNN Wylfa |
|---|---|
| Papur Pwnc 1: Yr Amgylchedd Naturiol | |
| Papur Pwnc 2: Yr Amgylchedd Hanesyddol | |
| Papur Pwnc 3: Tai | |
| Papur Pwnc 4: Datblygu Economaidd | |
| Papur Pwnc 5: Trafnidiaeth | |
| Papur Pwnc 6: Amwynder | |
| Papur Pwnc 7: Newid yn yr Hinsawdd | |
| Papur Pwnc 8: Seilwaith | |
| Papur Pwnc 9: Gwastraff | |
| Papur Pwnc 10: Poblogaeth a Chymunedau | |

**Astudiaethau Sylfaen Dystiolaeth**

1.3.4 Ymgymerwyd â nifer o astudiaethau sylfaen dystiolaeth dechnegol ar gyfer y CCA gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr, gwastraff, seilwaith cymunedol a chludiant ar reilffyrdd ac ar ddŵr. Gwnaed defnydd hefyd o ganfyddiadau o astudiaethau sylfaen dystiolaeth sydd wedi'u paratoi ar gyfer y CDLIC sy'n cael ei ddatblygu lle'r oedd hynny'n briodol.

1.3.5 Mae rhestr lawn o ddogfennau'r sylfaen dystiolaeth ar gael ar wefan y Cyngor Sir.

**Asesu ac Arfarnu**

1.3.6 Wrth ddatblygu'r CCA hyn, cynhaliodd y Cyngor Sir nifer o asesiadau technegol i sicrhau bod y gwahanol effeithiau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol a allai ddeillio ohonynt yn cael eu deall, bod effeithiau niweidiol arwyddocaol yn cael eu lliniaru a bod effeithiau cadarnhaol yn cael eu hyrwyddo. Roedd yr asesiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol;
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;
- Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg;
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd.

*Arfarniad o Gynaliadwyedd*

1.3.7 O dan adran 62(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol bod awdurdod cynllunio lleol, wrth ddatblygu cynllun datblygu lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal:

a) yn cynnal arfarniad o'r cynllun ar sail cynaliadwyedd;

b) yn paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r arfarniad.

1.3.8 Wrth gwrdd â'r gofyniad hwn, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol hefyd fodloni gofynion Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar Asesu Effeithiau Cynlluniau a Rhaglenni Penodol ar yr Amgylchedd, a elwir fel arfer yn Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Mae'r gyfarwyddeb hon wedi'i gweithredu yng Nghymru drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

1.3.9 Ni fwriedir i'r CCA ar gyfer GNN Wylfa ategu'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu ac nid yw'n ofyniad statudol i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd. Er hynny, o ystyried graddfa, cwmpas ac effeithiau posibl y ddogfen a'r ffaith ei bod yn cyfateb yn fras i'r diffiniad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol sydd yn y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ac mewn rheoliadau cenedlaethol, penderfynodd y Cyngor Sir y dylid cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r CCA hefyd (gan gwrdd â gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol).

1.3.10 Yn dilyn hynny, cafodd effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tebygol y canllawiau drafft eu nodi, eu disgrifio a'u harfarnu gan gofnodi'r canfyddiadau mewn Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd[8]. Mae argymhellion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael eu cynnwys yn y ddogfen hon lle bo'n briodol.

*Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd*

1.3.11 I gydymffurfio â Rheoliad 61(1) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (SI 2010 Rhif 490) ('Y Rheoliadau Cynefinoedd'), mae'r Cyngor Sir wedi cynnal ymarfer sgrinio o dan Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)[9]. Roedd yr ymarfer hwn yn ceisio penderfynu a fyddai'r CCA ar gyfer GNN Wylfa yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safleoedd â dynodiad Ewropeaidd, gan gynnwys:

[8] Cyngor Sir Ynys Môn (2014) *Arfarniad o Gynaliadwyedd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa - Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd* .

[9] Cyngor Sir Ynys Môn (2014) *Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa – Adroddiad Sgrinio.*

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) sydd wedi'u dynodi o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid;
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) sydd wedi'u dynodi o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC ar Gadwraeth Adar Gwyllt;
- Safleoedd Ramsar sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar 1976 (nid yw safleoedd Ramsar yn safleoedd Ewropeaidd ond maent wedi'u diogelu i'r un graddau o dan bolisi'r DU).

1.3.12 Nodwyd argymhellion yn ystod y broses sgrinio, ac maent wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon er mwyn sicrhau nad yw'r CCA ar gyfer GNN Wylfa yn debygol o gael unrhyw effeithiau arwyddocaol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd.

*Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg*

1.3.13 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG)[10] i bennu effaith y CCA ar gyfer GNN Wylfa ar yr iaith Gymraeg yn Ynys Môn. Canfu'r AEIG y byddai'r CCA drafft yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, a nododd nifer o argymhellion sydd wedi bod yn sail i'r ddogfen hon.

1.3.14 Mae AEIG y CCA drafft yn gwbl ar wahân i unrhyw AEIG sy'n ymwneud â Phrosiect GNN Wylfa, ac mae'r Cyngor Sir yn llwyr ddisgwyl y bydd hyrwyddwr y prosiect yn cynnal AEIG ar gyfer Prosiect GNN Wylfa. Yn y cyd-destun hwn, mae **Adran 4.5** o'r CCA hyn yn ystyried ymhellach effeithiau posibl Prosiect GNN Wylfa ar y Gymraeg a'i diwylliant, ac yn rhoi arweiniad penodol o ran AEIG y prosiect.

*Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*

1.3.15 Mae'r ddyletswydd i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) yn deillio o Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr AEG, rhaid ystyried yr effeithiau ar bob aelod o'r gymuned beth bynnag fo'i hil, oed, anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred er mwyn helpu i sicrhau cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol.

1.3.16 Cynhaliwyd AEG yng nghyswllt y CCA drafft ar gyfer GNN Wylfa yn unol â'r canllawiau ym mhecyn cymorth y Cyngor Sir ar gyfer cynnal AEG, a nododd

[10] Cyngor Sir Ynys Môn (2014) *Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa: Canllawiau Cynllunio Atodol – Adroddiad yr Asesiad.*

Adroddiad yr AEG[11] y byddai'r CCA draft yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar gydraddoldeb.

*Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd*

1.3.17 Cynigiwyd y diffiniad canlynol o swyddogaeth yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI):

"*assess the potential health impacts – positive and negative – of policies, programmes and projects….and to improve the quality of public decision making through recommendations to enhance predicted positive health impacts and minimise negative ones*" (Scott-Samuel *et al*., 1998).

1.3.18 Mae'r Cyngor Sir wedi datblygu ei becyn cymorth ei hun ar gyfer cynnal AEI, ac fe'i defnyddiwyd i gynnal asesiad cyflym o effaith y CCA drafft ar gyfer GNN Wylfa ar iechyd. Mae argymhellion yr asesiad yn cael eu cyflwyno yn Adroddiad yr AEI[12] ac maent wedi bod yn sail i'r ddogfen hon.

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**

1.3.19 Cynhaliodd y Cyngor Sir ymgynghoriad ffurfiol ar y CCA drafft ar gyfer GNN Wylfa dros gyfnod o chwe wythnos, rhwng 17[eg] Chwefror ac 31[ain] Mawrth 2014. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cafodd y CCA drafft eu cyhoeddi i bobl gyflwyno sylwadau arnynt (gan gynnwys holiadur ar-lein) a chynhaliwyd tair arddangosfa gyhoeddus yng Nghemaes, Caergybi a Llangefni.

1.3.20 Mae Rhestr o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad[13] wedi cael ei pharatoi ac mae'n nodi sut mae'r sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi bod yn sail i'r fersiwn derfynol hon o'r CCA.

## 1.4 Trefn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn

1.4.1 Mae'r CCA hyn:

- yn disgrifio'r fframwaith polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol (gan gynnwys Datganiadau Polisi Cenedlaethol) sy'n gyd-destun i'r canllawiau hyn (**Adran 2**);
- yn egluro Gweledigaeth y Cyngor Sir a'r amcanion cysylltiedig ar gyfer Prosiect GNN Wylfa a'r CCA hyn (**Adran 3**);

[11] Cyngor Sir Ynys Môn (2014) *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa – Adroddiad yr Asesiad.*
[12] Cyngor Sir Ynys Môn (2014) *Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd: Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd.*
[13] Cyngor Sir Ynys Môn (2014) *Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa: Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft – Rhestr o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad.*

- yn darparu canllawiau ar gyfer y prosiect cyfan sy'n ymwneud â'r prif effeithiau posibl tebygol sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa ac yn ceisio helpu i sicrhau bod datblygiadau cysylltiedig wedi'u lleoli'n gynaliadwy, gan ystyried y sylfaen dystiolaeth bresennol a thystiolaeth newydd a pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol (**Adran 4**);

- yn darparu canllawiau ar ddatblygu prif safle GNN Wylfa ac yn nodi Ardaloedd Chwilio a fydd o gymorth i gyfeirio datblygu cysylltiedig er mwyn sicrhau bod ei leoliad a'i raddfa'n briodol, gan ystyried yr amodau amgylcheddol a chymdeithasol presennol a rhai y mae'n rhesymol eu rhagweld (**Adran 5**).

| **Sut i ddefnyddio'r CCA hyn** |
|---|
| Wrth baratoi ceisiadau ar gyfer Prosiect GNN Wylfa, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect roi ystyriaeth lawn i'r canllawiau ar gyfer y prosiect cyfan yn **Adran 4 a hefyd** i'r canllawiau ar leoli yn **Adran 5**, ynghyd â Datganiadau Polisi Cenedlaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol (gan gynnwys polisi sy'n cael ei ddatblygu) sy'n berthnasol.<br>Bydd y Cyngor Sir yn defnyddio'r canllawiau ar gyfer y prosiect cyfan a'r canllawiau ar leoli sydd yn y CCA hyn, a pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol (gan gynnwys polisi sy'n cael ei ddatblygu) i:<br>• ymateb i unrhyw ymgynghori gan hyrwyddwr y prosiect;<br>• paratoi ei Adroddiad ar yr Effaith Leol a Datganiad Tir Cyffredin;<br>• i'w helpu i wneud penderfyniadau ar geisiadau gan hyrwyddwr y prosiect (gan gynnwys trydydd partïon) am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu cysylltiedig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref;<br>Ni fydd y canllawiau'n berthnasol i'r un graddau i bob cais y mae'r Cyngor Sir yn ei gael, am fod y ceisiadau'n debygol o amrywio o ran eu natur a'u graddfa, felly penderfynir arnynt fesul un. |

1.4.2 Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn iaith arall, mewn print bras neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r:

**Swyddfa Rheoli Prosiectau,**
**Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol,**
**Cyngor Sir Ynys Môn,**
**Canolfan Fusnes Môn,**
**Llangefni,**
**LL77 7XA,**

💻 **PMO@anglesey.gov.uk**
☎ **(01248) 752435**


# 2 Fframwaith Polisi

2.1.1 Mae'r CCA ar GNN Wylfa yn ymhelaethu ac yn darparu cyd-destun lleol ar gyfer y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol a pholisi cynllunio cenedlaethol, yn ogystal â pholisi sydd wedi'i fabwysiadu yn y Cynllun Datblygu a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu. Hefyd bydd y CCA a chynlluniau a rhaglenni eraill (rhai sy'n ymwneud â chynllunio ac eraill) yn gallu dylanwadu ar ei gilydd ar lefel ryngwladol/Ewropeaidd, genedlaethol, ranbarthol a lleol. Yn yr adran hon rydym yn cynnig trosolwg byr ar y prif gyd-destun polisi i'r CCA. Mae cynlluniau a rhaglenni eraill o bob math wedi'u hystyried hefyd wrth ddatblygu dogfen y CCA hyn, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y papurau pwnc sydd gyda'r ddogfen hon ac yn **Adran 4** ac **Adran 5** fel y bo'n briodol.

## 2.1 Datganiadau Polisi Cenedlaethol

**Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar Ynni (EN-1) ac ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6)**

2.1.2 Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn gosod y meini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau am brosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae NPS EN-1 (2011) yn ymwneud â seilwaith ynni ac NPS EN-6 yn trafod cynhyrchu pŵer niwclear: y ddwy ddogfen hyn fydd y prif fframwaith ar gyfer penderfyniadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar GNN Wylfa. Maent yn rhoi cyngor ar nifer o effeithiau cyffredinol a rhai sy'n ymwneud yn benodol â phŵer niwclear a allai godi o brosiectau gorsafoedd pŵer niwclear newydd gan gynnwys materion fel bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol, ansawdd ac adnoddau dŵr ac effeithiau economaidd-gymdeithasol.





2.1.3 Fel y nodwyd yn **Adran 1**, mae NPS EN-6 yn nodi bod tir ger adeiladau'r orsaf pŵer niwclear bresennol yn Wylfa yn safle addas ar gyfer datblygiad niwclear newydd, ar yr amod bod materion dylunio sy'n ymwneud â'r safle a thechnoleg ac asesiadau o effeithiau cysylltiedig yn cael eu cwblhau'n foddhaol.

## 2.2 Polisi Cenedlaethol

### Polisi Cynllunio Cymru

2.2.1 Polisi Cynllunio Cymru (2014), ynghyd â Nodiadau Cyngor Technegol, Cylchlythyrau a dogfennau ategol eraill yw'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu ac maent yn cynnwys polisïau Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir. Nod y cwbl o'r dogfennau hyn yw hybu datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal, a gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol.




### Cynllun Gofodol Cymru (2008)

2.2.2 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn cyflwyno fframwaith strategol i lywio datblygu ac ymyriadau polisi yng Nghymru yn y dyfodol. Mae Ynys Môn yn rhan o Ardal Gogledd-orllewin Cymru: Eryri a Môn. Mae'r cynllun yn pennu'r weledigaeth ganlynol ar gyfer yr ardal hon:

"*A high-quality natural and physical environment supporting a cultural and knowledge-based economy that will help the area to maintain and enhance its distinctive character, retain and attract back young people and sustain the Welsh language*".

## 2.3 Polisi Lleol

### Y Cynllun Datblygu

2.3.1 Mae'r fframwaith polisi presennol ar gyfer cynllunio yn Ynys Môn yn cynnwys Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996); y dogfennau hyn gyda'i gilydd yw'r 'Cynllun Datblygu' ar gyfer Ynys Môn. Roedd Cynllun Fframwaith Gwynedd yn darparu arweiniad strategol ar ddatblygu yn Ynys Môn ar gyfer y cyfnod rhwng 1991 a 2006. Mae'r Cynllun Lleol yn gosod polisïau ar gyfer datblygu yn Ynys Môn i ategu'r Cynllun Fframwaith ehangach. Yn y Cynllun Lleol, nodwyd ei bod yn bosibl y byddai dyfodol yr orsaf pŵer niwclear bresennol yn Wylfa yn cael ei benderfynu yn ystod oes y cynllun (hyd at 2001), a bod cau'r orsaf yn fygythiad sylweddol i economi Ynys Môn.

2.3.2 Er nad yw’r Cynllun Fframwaith na’r Cynllun Lleol yn cynnwys polisi ynghylch GNN yn Wylfa, mae nifer mawr o’u polisïau’n berthnasol o hyd i wahanol agweddau ar Brosiect GNN Wylfa a’i effeithiau posibl. Mae mwy o fanylion am y polisïau hynny sy’n berthnasol i GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig yn **Atodiad A** a'r papurau pwnc sydd gyda’r ddogfen hon.

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Ataliwyd**

2.3.3 Roedd y CDU a Ataliwyd yn cael ei ddatblygu i ddarparu fframwaith ar gyfer datblygu a chadwraeth o 2001-2016. Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus a chafwyd adroddiad ar yr ymchwiliad gan yr Arolygydd. Fodd bynnag, yn 2005 penderfynodd y Cyngor Sir atal y gwaith ar y CDU er mwyn mabwysiadu system newydd y cynllun datblygu lleol. Mae cynnwys y CDU a Ataliwyd yn ystyriaeth berthnasol yng nghyswllt rheoli datblygu, ond nid yw ei statws mor uchel â chynlluniau sydd wedi’u mabwysiadu.

2.3.4 Mae’r CDU a Ataliwyd yn cyflwyno’r weledigaeth ganlynol ar gyfer Ynys Môn: “*Hyrwyddo cymunedau cynaliadwy ar Ynys Môn trwy hybu datblygiad cynaliadwy sy’n gwella a chynyddu’r economi leol er mwyn atal gostyngiad yn y boblogaeth a darparu diogelwch neu welliannau effeithiol i’r amgylchedd*”. Mae’r weledigaeth hon wedi’i hategu gan 15 o amcanion a gallai pob un ohonynt fod yn berthnasol i Brosiect GNN Wylfa a’r CCA hyn. Dyma’r amcanion mwyaf perthnasol i geisiadau sy’n ymwneud â GNN Wylfa:

- Hyrwyddo cyfleoedd economaidd fydd yn help i ddarparu swyddi gwerth chweil sy’n ddiogel ac yn talu’n dda, a thrwy hynny lleihau nifer y bobl sy’n gadael yr Ynys i chwilio am waith;
- Diogelu a hybu’r iaith Gymraeg a’i diwylliant;
- Diogelu a gwella’r amgylchedd naturiol, diwylliannol, hanesyddol a gweledol;
- Rhoi cefnogaeth i barhad cymunedau cynaliadwy a sicrhau bod ystod eang o wasanaethau o fewn cyrraedd;
- Sicrhau gwelliannau yn seilwaith sylfaenol yr Ynys er mwyn diogelu’r amgylchedd a chefnogi gwelliannau i’r economi;
- Hyrwyddo ac annog datblygu a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy (pan fo’n briodol) a hyrwyddo datblygu a dylunio ynni-effeithlon.

2.3.5 Ceir nifer o bolisïau ar bynciau penodol hefyd yn y CDU a Ataliwyd a all fod yn berthnasol i Brosiect GNN Wylfa gan gynnwys, er enghraifft, y rheini sy’n

ymwneud â diogelu a gwella'r amgylchedd, er nad yw'r un ohonynt yn ymwneud yn benodol â chynigion ar gyfer gorsaf niwclear newydd.

### Rhaglen Ynys Ynni Môn

2.3.6 Pwrpas Rhaglen Ynys Ynni Môn (YYM) yw datblygu'r sector ynni carbon isel yn Ynys Môn. Nod y rhaglen yw creu canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu, arddangos a chynnal a chadw mentrau ynni carbon isel. Mae'n cwmpasu datblygiadau arfaethedig ar gyfer ynni carbon isel sy'n amrywio o orsaf pŵer niwclear newydd, aráe lanw, biomas ac ynni gwynt ar y môr, a fydd yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol. Yn ogystal â swyddi yn y diwydiant ynni, mae'r rhaglen yn tynnu sylw at gyfleoedd i wella seilwaith trafnidiaeth lleol, tai, a chyfleusterau twristiaeth a hamdden.

### Ardal Fenter Ynys Môn

2.3.7 Nod yr Ardal Fenter yw ategu rhaglen YYM a hybu twf y sector ynni carbon isel yn Ynys Môn. Mae'n ceisio hyrwyddo buddsoddi mewn cynhyrchu ynni carbon isel; sefydlu cyfleusterau o'r radd flaenaf i arloesi ac arddangos ym maes ynni carbon isel; a sicrhau bod y gadwyn gyflenwi yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer gwaith cynnal a chadw.


2.3.8 Mae Ardal Fenter Ynys Môn yn cynnwys y sir gyfan a'r nod yw canoli buddsoddiadau mewn wyth safle allweddol sydd wedi'u dewis am eu bod yn addas i ddiwallu anghenion busnesau**.** Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys:

- Aliwminiwm Môn (AF1);
- Parc Cybi (AF2);
- Ystad Ddiwydiannol Penrhos (AF3);
- Porthladd Caergybi (AF4);
- Ystad Ddiwydiannol Bryn Cefni (AF5);
- Tir yr Hufenfa i'r Gogledd o Fferm Lledwigan (AF6);
- Ystad Ddiwydiannol Gaerwen (AF7);
- Rhos-goch (AF8).

### Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn - 2013 i 2025 (2012)

2.3.9 Mae Cynllun Integredig Sengl (CIS) Ynys Môn yn cyfuno pedwar cynllun lleol a'u blaenoriaethau cyffredin (y Strategaeth Gymunedol; y Strategaeth Iechyd,

Gofal Cymdeithasol a Lles; y Cynllun Plant a Phobl Ifanc; a'r Cynllun Diogelwch Cymunedol). Mae'n canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd pobl leol a chymunedau drwy hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y ffyrdd canlynol:




- Gwella perfformiad economaidd a sgiliau i greu a chynnal swyddi, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd dysgu gydol oes;
- Galluogi cymunedau ac unigolion i gynnal a datblygu eu hannibyniaeth;
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl ifanc aros yn Ynys Môn i fyw a gweithio;
- Diwallu anghenion unigolion a chymunedau gan ddefnyddio llai o arian cyhoeddus;
- Lleihau tlodi a darparu gwasanaethau effeithiol sy'n diwallu anghenion grwpiau sy'n agored i niwed;
- Hyrwyddo a chynnal amgylchedd a diwylliant cyfoethog Ynys Môn.

2.3.10 Mae'r Ardal Fenter a chyfleoedd yn y sector ynni carbon isel yn cael eu hystyried yn hanfodol i wella perfformiad economaidd a sgiliau'r gweithlu yn Ynys Môn. Mae'r CIS yn cydnabod rhaglen YYM a'r posibilrwydd y bydd yn cyfrannu £2.5 biliwn i economïau Ynys Môn a Gogledd Cymru yn y 15 mlynedd nesaf, a'i nod yw elwa o'r holl gynigion ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith ynni strategol yn Ynys Môn, gan gynnwys GNN Wylfa.

2.3.11 Dylid nodi bod gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i lunio CIS ar y cyd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd a fydd, ar ôl ei fabwysiadu, yn cymryd lle CIS Ynys Môn.


### Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

2.3.12 Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC) ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd yn cymryd lle Cynllun Fframwaith Gwynedd, Cynllun Lleol Ynys Môn a'r CDU a Ataliwyd. Bydd yn gosod y fframwaith polisi a'r nodau strategol ar gyfer datblygu a defnydd tir rhwng 2011 a 2026.

2.3.13 Ymgynghorwyd ar Hoff Strategaeth ddrafft y CDLIC ym Mai 2013. Mae'r Hoff Strategaeth yn cynnig y weledigaeth ganlynol ar gyfer ardal y Cynllun:

*"Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu cymunedau ffyniannus a llawn bywyd sy'n dathlu eu diwylliant, treftadaeth a'u hamgylchedd unigryw ac yn rhywle y bydd pobl yn dewis byw ynddynt. Mae hyn yn golygu y bydd ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn:*

- *lle mae anghenion tai cymunedau lleol yr ardal yn cael eu diwallu'n well o ran cyflenwad, math, ansawdd, effeithlonrwydd ynni, lleoliad a fforddiadwyedd;*
- *lle mae'r preswylwyr a busnesau'n gallu achub ar y cyfleoedd economaidd newydd i ffynnu;*
- *sy'n brolio gweithlu medrus priodol ac economi amrywiol, eang, gynaliadwy gyda chysylltiadau da sy'n gwneud y defnydd gorau o gryfderau lleol a chyfleoedd lle mae'r manteision sy'n deillio ohonynt yn aros yn lleol;*
- *sy'n gartref i rwydweithiau egnïol o gymunedau cynhwysol lle mae'r preswylwyr yn mwynhau iechyd a lles da;*
- *lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o gymunedau;*




- *sy'n addasu ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r sialensiau a gyflwynir gan y newid hinsawdd;*
- *lle mae cymeriad unigryw ei threftadaeth adeiledig a diwylliannol, ei chefn gwlad a'i thirwedd, a'i hamgylchedd, yn cael ei werthfawrogi, ei warchod a'i wella;*
- *lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â hi."*

2.3.14 Mae'r weledigaeth hon wedi'i hategu gan nifer o amcanion gan gynnwys un ar gyfer "*arallgyfeirio economi wledig a threfol ardal y CDLl ar y Cyd er mwyn hwyluso economi gymysg a ffyniannus sy'n adeiladu ar gyfleoedd, gan gynnwys y rhai a gyflwynir gan y sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r diwydiannau gwybodaeth.*" Mae Polisi Strategol PS7, sy'n ymwneud yn benodol â datblygu ynni niwclear yn Wylfa, yn pennu nifer o feini prawf y bydd y Cyngor Sir yn ceisio eu bodloni wrth gyflawni ei rôl fel awdurdod penderfynu ar gyfer datblygu cysylltiedig, neu fel prif ymgynghorai yng nghyswllt y cais am GCD. Un o'r meini prawf hyn yw y bydd CCA perthnasol "*yn siapio'r agwedd tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer datblygiad yn ymwneud â niwclear ac*

*unrhyw ddatblygiad neu isadeiledd cysylltiedig*" (er y dylid nodi nad yw'r CCA hyn yn rhai atodol i'r CDLlC).

2.3.15 Ar ôl ymgynghori ar Hoff Strategaeth Ddrafft y CDLlC, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio'n awr ar baratoi'r Cynllun Adneuo. Disgwylir i'r Cynllun gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ei archwilio ym mis Rhagfyr 2015, gyda'r nod o'i fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2016.

**Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013-2017**

2.3.16 Mae Cynllun Corfforaethol Ynys Môn ar gyfer 2013-17 yn cydnabod pwysigrwydd rhaglen YYM o ran cynnig cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu nifer sylweddol o swyddi newydd o ganlyniad i'r buddsoddi arfaethedig a thwf posibl yn y sector ynni carbon isel. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi bod angen i'r Cyngor Sir ddatblygu cynlluniau a fydd yn creu mwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifanc, yn gwella seilwaith ac yn cynnal y gadwyn gyflenwi.

# 3 Gweledigaeth ac Amcanion

3.1.1 Mae'r orsaf niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa yn cynnig cyfle unigryw ar gyfer cydweithio rhwng y Cyngor Sir a hyrwyddwyr y prosiect i gyfrannu at drawsnewid economaidd-gymdeithasol yn Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru yn gyffredinol. Er mwyn crisialu'r cyfle hwn, mae'r Cyngor Sir wedi datblygu Gweledigaeth ar gyfer Prosiect GNN Wylfa. Mae'r Weledigaeth hon yn disgrifio'n glir ac yn gryno beth yw dyheadau'r Cyngor ar gyfer y prosiect, ac mae'r rhain wedi'u hategu gan set o amcanion sy'n dangos sut y bydd y Weledigaeth hon yn cael ei gwireddu.

3.1.2 Mae'r Weledigaeth a'r amcanion wedi'u datblygu drwy adolygu amcanion presennol, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi yn y CDLlC sy'n cael ei ddatblygu a'r CIS, yn ogystal â Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol, polisi cynllunio cenedlaethol a chynlluniau a rhaglenni eraill. Roeddent hefyd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn ystod y broses o ddatblygu'r CCA hyn.

## 3.1 Gweledigaeth

3.1.3 Mae Gweledigaeth y Cyngor Sir ar gyfer Prosiect GNN Wylfa yn glir ac uchelgeisiol ac yn gyson â'i ddyheadau cyffredinol ar gyfer gwelliannau economaidd-gymdeithasol a'r gwaddol yng nghyswllt pob datblygiad sylweddol yn Ynys Môn. Dyma'r Weledigaeth:

***Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn sbardun ar gyfer trawsnewid yr economi a chymunedau yn Ynys Môn a fydd yn darparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol.***

3.1.4 Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd y gwaith o adeiladu a rhedeg yr orsaf pŵer niwclear newydd a datblygiadau cysylltiedig:

- yn cyfrannu at ddiwallu angen y DU am ynni carbon isel dibynadwy a fforddiadwy;
- yn bodloni'r holl ofynion am ddiogelwch pobl ac eiddo er mwyn sicrhau bod y prosiect yn sicr a diogel ac y bydd darpariaethau effeithiol ar gyfer cynllunio at argyfwng yn ystod y cyfnod o adeiladu a rhedeg y prosiect;

- yn cyfrannu'n sylweddol at dwf economaidd cynaliadwy hirdymor a ffyniant lleol drwy ddarparu cyfleoedd o ansawdd da ar gyfer cyflogaeth, hyfforddi a datblygu'r gweithlu;
- yn hyrwyddo ffyniant busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd priodol drwy'r gadwyn gyflenwi a mewnfuddsoddi;
- yn hybu cynaliadwyedd, egni ac ansawdd bywyd yn Ynys Môn a'i chymunedau (gan gynnwys cymorth ar gyfer y Gymraeg a'i diwylliant) ac yn hyrwyddo ffyrdd o fyw ac ymddwyn sy'n isel ar garbon;
- yn ystyried effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd ac iechyd ac yn lliniaru a/neu gydbwyso unrhyw effeithiau niweidiol gan amlhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol;
- yn cyfrannu at wella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedau lleol;
- yn hyrwyddo moddau trafnidiaeth cynaliadwy ac yn gwella seilwaith er mwyn lleihau effaith y datblygiad ar allu a chydnerthedd lleol a hybu cysylltedd;
- yn cyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth yn Ynys Môn ac at ansawdd ei hamgylchedd naturiol;
- yn cydnabod y gefnogaeth gan gymunedau lleol ar gyfer cynnal Prosiect GNN Wylfa (yn ystod y cyfnod o'i adeiladu a'i redeg a hyd at adeg ei ddatgomisiynu) drwy gydbwyso effeithiau nad oes modd eu lliniaru a sicrhau ewyllys da a dealltwriaeth poblogaeth yr Ynys gyfan.

3.1.5 Caiff y Weledigaeth ei gwireddu drwy ymrwymiad gan yr holl bartïon perthnasol i sicrhau'r canlyniadau hyn drwy ddulliau statudol a gwirfoddol[14].

[14] D.S. Wrth ddatblygu a hyrwyddo'r weledigaeth hon, nid yw'r Cyngor Sir yn ymrwymo i weithredu mewn unrhyw ffordd nad yw'n unol â'i bwerau a dyletswyddau statudol.

## 3.2 Amcanion

3.2.1 Mae'r Cyngor Sir yn rhagweld y bydd y Weledigaeth yn cael ei gwireddu drwy'r saith amcan isod:

1. Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn cyfrannu at gyflawni rhaglen Ynys Ynni Môn, ac Ardal Fenter Ynys Môn, gan roi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygu, cynhyrchu a chynnal a chadw ym maes ynni;

2. Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn sbarduno trawsnewid yn economïau Ynys Môn a Gogledd Cymru ac yn amlhau cyfleoedd ar gyfer cyflogi ac uwchsgilio pobl leol;

3. Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn dod â buddion sylweddol a pharhaus i seilwaith cymunedau yn Ynys Môn;

4. Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn cefnogi gwella ansawdd bywyd (gan gynnwys iechyd, tai, lles ac amwynder) preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr yn Ynys Môn yn ystod y cyfnod y bydd yn cael ei adeiladu a'i weithredu;

5. Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn cydnabod ac yn cryfhau hunaniaeth unigryw Ynys Môn a'i chymunedau;

6. Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o symud pobl a deunyddiau a'i fod yn darparu seilwaith cludiant cydnerth sy'n gallu ysgogi a chynnal twf economaidd a chreu cymunedau cynaliadwy;

7. Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn cadw a gwella amgylchedd ac adnoddau unigryw Ynys Môn, gan ystyried y newid yn yr hinsawdd.

**Amcan 1: Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn cyfrannu at gyflawni rhaglen Ynys Ynni Môn, ac Ardal Fenter Ynys Môn, gan roi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygu, cynhyrchu a chynnal a chadw ym maes ynni.**

3.2.2 Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Ysgogi twf a mewnfuddsoddi yn enwedig yn y sector ynni ac mewn diwydiannau seiliedig ar wybodaeth;
- Amlhau cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ymchwil a datblygu ym maes ynni carbon isel;
- Datblygu hyfforddiant ar gyfer sgiliau sydd eu hangen i gyflawni Prosiect GNN Wylfa, a chynnal y sgiliau hyn ar ôl cyflawni'r Prosiect;
- Hyrwyddo prosiectau ynni carbon isel;
- Sicrhau'r seilwaith strategol sydd ei angen i gynnal Prosiect GNN Wylfa a hybu twf economaidd ehangach;
- Canfod cyfleoedd i gydweithio ag Ardaloedd Menter eraill yng Ngogledd Cymru.

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| • EA 1 i 4;<br>• EA 25 i 33. | • Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Hyrwyddwr Prosiect GNN Wylfa;<br>• Darparwyr Addysg;<br>• Llywodraeth Cymru;<br>• Fforwm Strategol yr Ynys Ynni. | • Cynllun Fframwaith Gwynedd;<br>• Cynllun Lleol Ynys Môn;<br>• Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Ataliwyd;<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd;<br>• Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn;<br>• Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn 2004-15;<br>• Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Ardal Fenter Ynys Môn;<br>• Rhaglen Ynys Ynni Môn. |

**Amcan 2: Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn sbarduno trawsnewid yn economïau Ynys Môn a Gogledd Cymru ac yn amlhau cyfleoedd ar gyfer cyflogi ac uwchsgilio pobl leol.**

3.2.3 Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Uwchsgilio gweithlu'r rhanbarth a sicrhau bod cyfleoedd gwaith newydd yn dod â budd i breswylwyr presennol neu rai blaenorol/sy'n dychwelyd ac yn enwedig pobl ifanc lle bynnag y bo modd;
- Lleihau tlodi ac anweithgarwch economaidd drwy helpu preswylwyr i ailddechrau gweithio;
- Amlhau'r buddion o ddatblygu i fusnesau yng Ngogledd Cymru drwy arferion caffael cadarnhaol;
- Manteisio ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â datgomisiynu'r orsaf bŵer bresennol gan gynnwys ailhyfforddi staff sydd wedi'u cyflogi ar y safle presennol i weithio yn yr orsaf pŵer niwclear newydd;
- Mynd ati'n uniongyrchol i hybu twf busnesau yn y gadwyn gyflenwi a mathau o ddefnydd cyflogaeth sy'n gysylltiedig;
- Sicrhau bod safleoedd datblygu cysylltiedig (fel rhai at ddefnydd cyflogaeth, trafnidiaeth a logisteg) mewn lleoliadau addas i gael mynediad effeithiol at brif safle GNN Wylfa a hefyd yn cyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol perthnasol a pholisïau cynllunio gofodol lleol perthnasol er mwyn darparu defnydd buddiol at gyflogaeth wedi i'r prosiect ddod i ben;
- Diogelu'r economi twristiaeth a chwilio am gyfleoedd i dyfu'r sector hwn drwy Brosiect GNN Wylfa;
- Rheoli effaith Prosiect GNN Wylfa ar y ddarpariaeth addysg.

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| • EA 2 i 5;<br>• EA 25 i 33. | • Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Hyrwyddwr Prosiect GNN Wylfa;<br>• Darparwyr Addysg;<br>• Llywodraeth Cymru;<br>• Fforwm Strategol yr Ynys Ynni;<br>• Menter Iaith Môn; | • Cynllun Fframwaith Gwynedd;<br>• Cynllun Lleol Ynys Môn;<br>• Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Ataliwyd;<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd;<br>• Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn; |

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA** ***(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol** ***(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| | • Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. | • Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn 2004-15;<br>• Ardal Fenter Ynys Môn;<br>• Rhaglen Ynys Ynni Môn;<br>• Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Cynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Siapio'r Dyfodol;<br>• Cynllun Rhannu Prentisiaeth Adeiladu Gogledd Cymru. |

**Amcan 3: Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn dod â buddion sylweddol a pharhaus i seilwaith cymunedau yn Ynys Môn.**

3.2.4 Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Gwella cysylltedd a symudiadau pobl, gan alluogi preswylwyr i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o Brosiect GNN Wylfa a lleihau problemau teithio a thagfeydd;
- Darparu llety i weithwyr adeiladu heb i hynny gael effaith niweidiol ar y farchnad dai leol nac ar arlwy llety i dwristiaid Ynys Môn, a sicrhau bod y datblygiad hwn yn rhoi budd parhaol ar ôl i'r cyfnod adeiladu ddod i ben;
- Darparu seilwaith a gwasanaethau cymunedol priodol sy'n angenrheidiol i gynnal Prosiect GNN Wylfa, a sicrhau bod cyfleusterau o'r fath wedi'u hintegreiddio yng nghymunedau presennol Ynys Môn;
- Sicrhau bod ceisiadau yn ategu gwasanaethau a chyfleusterau presennol, gan gynnwys y ddarpariaeth manwerthu yng nghanol trefi Ynys Môn;
- Sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i liniaru a/neu gydbwyso effeithiau negyddol arwyddocaol ceisiadau, a chynorthwyo cymunedau lleol lle mae effeithiau o'r fath yn codi;
- Sicrhau bod seilwaith priodol (seilwaith trafnidiaeth, cyfleustodau ayb) sydd ei angen ar gyfer Prosiect GNN Wylfa yn cael ei ddarparu a bod cymunedau Ynys Môn a Gogledd Cymru yn cael budd parhaus ohono wedi i'r prosiect ddod i ben;
- Annog lleoli datblygiadau cysylltiedig mewn modd sy'n helpu cymunedau yn nhrefi a chefn gwlad Ynys Môn i fod yn gynaliadwy.

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| • EA 6;<br>• EA 8 i 12;<br>• EA 15 i 16;<br>• EA 25 i 33. | • Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Hyrwyddwr Prosiect GNN Wylfa;<br>• Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd;<br>• Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig;<br>• Cymunedau yn Gyntaf;<br>• Llywodraeth Cymru;<br>• Darparwyr Cyfleustodau;<br>• Fforwm Strategol yr Ynys Ynni. | • Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn;<br>• Strategaeth Tai Ynys Môn;<br>• Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Cynllun Fframwaith Gwynedd;<br>• Cynllun Lleol Ynys Môn;<br>• Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Ataliwyd;<br>• Canllawiau Cynllunio Atodol eraill;<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y |

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| | | Cyd Ynys Môn a Gwynedd;<br>• Datganiad Sefyllfa Cyngor Sir Ynys Môn ar Lety Gweithwyr Adeiladu;<br>• Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE. |

**Amcan 4: Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn cefnogi gwella ansawdd bywyd (gan gynnwys iechyd, tai, lles ac amwynder) preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr yn Ynys Môn yn ystod y cyfnod y bydd yn cael ei adeiladu a'i weithredu.**

3.2.5 Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r effeithiau o ran sŵn, dirgryndod, amwynder gweledol ac ansawdd aer sy'n codi wrth adeiladu a rhedeg Prosiect GNN Wylfa drwy fesurau lliniaru priodol;
- Hyrwyddo a gwella'r ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys mannau agored, cyfleusterau hamdden ac adloniant, a gwasanaethau brys a gofal iechyd;
- Ceisio sicrhau pecyn cynhwysfawr o gyfleusterau o ansawdd uchel, sy'n cynnwys cyfleusterau newydd neu welliannau i gyfleusterau presennol, sy'n cwrdd ag anghenion gweithwyr adeiladu ac yn darparu cyfleoedd i'r gymuned ehangach eu defnyddio wedi i'r cyfnod adeiladu ddod i ben;
- Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn ategu blaenoriaethau lleol a blaenoriaethau Gogledd Cymru yn gyffredinol ar gyfer adfywio ac yn dod â buddion i gymunedau difreintiedig yn Ynys Môn;
- Diogelu'r atyniadau presennol i ymwelwyr a sicrhau bod digon o lety i ymwelwyr yn cael ei gadw sydd o fath ac sydd mewn lleoliad sy'n denu ymwelwyr;
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio mewn ffordd sy'n lleihau cyfleoedd ar gyfer troseddu ac anhrefn gyhoeddus;
- Sicrhau bod effeithiau niweidiol gweddilliol nad oes modd eu lliniaru yn cael eu cydbwyso.

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| • EA 6 i 8;<br>• EA 25 i 33. | • Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Hyrwyddwr Prosiect GNN Wylfa;<br>• Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd;<br>• Heddlu Gogledd Cymru;<br>• Darparwyr Addysg;<br>• Darparwyr Gwasanaethau Iechyd; | • Cynllun Fframwaith Gwynedd;<br>• Cynllun Lleol Ynys Môn;<br>• Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Ataliwyd;<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd;<br>• Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn. |

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| | • Llywodraeth Cymru;<br>• Fforwm Strategol yr Ynys Ynni. | |

**Amcan 5: Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn cydnabod ac yn cryfhau hunaniaeth unigryw Ynys Môn a'i chymunedau.**

3.2.6 Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Diogelu a gwella tirweddau, amgylchedd arfordirol, trefluniau ac asedau treftadaeth ddiwylliannol Ynys Môn gan gynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi fel yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn Ynys Môn, yr Arfordir Treftadaeth, Gerddi Cestyll a Chastell Biwmares;
- Cynnal nodweddion unigryw lleol, a gwarchod a hyrwyddo cymeriad hanesyddol;
- Atal effeithiau niweidiol o lety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu a'r mewnlifiad o weithwyr adeiladu ar les, cydlyniant a hunaniaeth cymunedau drwy sicrhau bod safleoedd datblygu cysylltiedig yn sensitif o ran eu lleoliad, graddfa, dyluniad a'r dull o'u rheoli;
- Sicrhau bod ceisiadau'n gwarchod ac yn cryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant, gan gefnogi nod y Cyngor Sir i hyrwyddo a sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Gymraeg;
- Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel a gwella tir y cyhoedd;
- Sicrhau bod delwedd Ynys Môn yn cael ei chynnal a'i gwella;
- Hyrwyddo'r neges bod Ynys Môn yn 'agored i fusnes' ar gyfer twristiaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu;
- Sicrhau bod effeithiau niweidiol gweddilliol nad oes modd eu lliniaru yn cael eu cydbwyso.

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| • EA 9 i 10;<br>• EA 13;<br>• EA 20 i 22;<br>• EA 25 i 33. | • Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Hyrwyddwr Prosiect GNN Wylfa;<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru;<br>• Cadw;<br>• Fforwm Iaith Gymraeg;<br>• Llywodraeth Cymru;<br>• Fforwm Strategol yr Ynys Ynni;<br>• Menter Iaith Môn. | • Cynllun Fframwaith Gwynedd;<br>• Cynllun Lleol Ynys Môn;<br>• Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Ataliwyd;<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd;<br>• Canllawiau Cynllunio Atodol eraill;<br>• Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn; |

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| | | • Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn;<br>• Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn. |

**Amcan 6: Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o symud pobl a deunyddiau a'i fod yn darparu seilwaith cludiant cydnerth sy'n gallu ysgogi a chynnal twf economaidd a chreu cymunedau cynaliadwy.**

3.2.7 Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Lleihau traffig ffyrdd a phroblemau teithio sy'n gysylltiedig â'r gwaith o adeiladu a rhedeg yr orsaf bŵer newydd a safleoedd datblygu cysylltiedig;
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael o ran seilwaith cludiant presennol Ynys Môn gan gynnwys Porthladd Caergybi a'r rhwydwaith rheilffyrdd;
- Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o brif reilffordd Arfordir Gogledd Cymru yn gyswllt trafnidiaeth i weithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu;
- Darparu mynediad da i safle'r orsaf bŵer newydd a sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy da ar gyfer datblygiadau cysylltiedig;
- Sicrhau bod cysylltiadau da rhwng llety i weithwyr adeiladu a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ynghyd â phrif safle GNN Wylfa;
- Pennu gwelliannau allweddol yn y seilwaith trafnidiaeth sydd eu hangen ar gyfer datblygu safle'r orsaf bŵer newydd ac a fydd o werth parhaol wedi i'r prosiect ddod i ben (gan gynnwys gwelliannau sydd wedi'u nodi eisoes yn y Datganiad Sefyllfa ar Drafnidiaeth ar gyfer Gorsaf Pŵer Niwclear Newydd Wylfa (2011), y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd neu strategaethau penodol sy'n ymwneud â phriffyrdd/trafnidiaeth fel y Strategaeth Beicio sy'n cael ei datblygu);
- Cysoni ceisiadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a strategaethau trafnidiaeth cyffredinol ar gyfer Ynys Môn gan gynnwys Cynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru, ac ystyried ceisiadau eraill am ddatblygiadau seilwaith mawr yn Ynys Môn;
- Sicrhau bod effeithiau niweidiol gweddilliol nad oes modd eu lliniaru yn cael eu cydbwyso.

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| • EA 3;<br>• EA 6;<br>• EA 8;<br>• EA 10; | • Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Hyrwyddwr Prosiect GNN Wylfa;<br>• Llywodraeth Cymru; | • Cynllun Fframwaith Gwynedd;<br>• Cynllun Lleol Ynys Môn;<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y |

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA** ***(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol** ***(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| • EA 14;<br>• EA 18;<br>• EA 25 i 33. | • Gweithredwyr Trafnidiaeth;<br>• Fforwm Strategol yr Ynys Ynni. | Cyd Ynys Môn a Gwynedd;<br>• Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Ataliwyd;<br>• Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn;<br>• Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd;<br>• Strategaeth Beicio;<br>• Cynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru;<br>• Rhaglen Buddsoddi mewn Priffyrdd. |

**Amcan 7: Sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn cadw a gwella amgylchedd ac adnoddau unigryw Ynys Môn, gan ystyried y newid yn yr hinsawdd.**

3.2.8 Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Cadw integredd safleoedd yn Ynys Môn a'i chyffiniau sydd wedi'u dynodi ar lefel Ewropeaidd, genedlaethol neu leol oherwydd eu gwerth o ran cadwraeth natur;
- Lleihau effeithiau uniongyrchol sy'n arwain at golli cynefinoedd bywyd gwyllt ac effeithiau ar rywogaethau sy'n werthfawr o ran cadwraeth yn ystod cyfnod adeiladu a gweithredu'r prosiect a cheisio sicrhau mesurau i wella bioamrywiaeth yn barhaol gan gynnwys darparu seilwaith gwyrdd;
- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau fel dŵr a deunyddiau crai drwy gydol oes y datblygiad, gan sicrhau bod cyfleusterau presennol yn cael eu hailddefnyddio i'r graddau mwyaf posibl a chwilio am gyfleoedd i integreiddio anghenion Prosiect GNN Wylfa a'r rhai ar gyfer datblygiadau eraill yn Ynys Môn;
- Lleihau maint y sylweddau a allai achosi llygredd sy'n cael eu rhyddhau i'r aer, ar dir ac i ddŵr;
- Lliniaru a gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd;
- Sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar wastraff (yn unol â'r hierarchaeth gwastraff a strategaethau rheoli gwastraff sydd wedi'u gosod ar gyfer Ynys Môn);
- Lleihau'r perygl o lifogydd ar safleoedd sydd wedi'u cynnig ar gyfer datblygu a'r tu allan iddynt;
- Gwella tirwedd ac amgylchedd arfordirol unigryw Ynys Môn, gan gydnabod y cysylltiadau pwysig â'r amgylchedd hanesyddol;
- Sicrhau bod effeithiau niweidiol gweddilliol nad oes modd eu lliniaru yn cael eu cydbwyso.

| **Egwyddor Arweiniol (EA) Allweddol y CCA *(gweler Adran 4 ac Adran 5)*** | **Prif Bartneriaid Cyflawni** | **Cynlluniau a Rhaglenni Lleol Allweddol *(gweler Atodiad A)*** |
|---|---|---|
| • EA 16 i 21;<br>• EA 25 i 33. | • Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Hyrwyddwr Prosiect GNN Wylfa;<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru;<br>• Dŵr Cymru;<br>• Llywodraeth Cymru;<br>• Fforwm Strategol yr Ynys Ynni. | • Cynllun Fframwaith Gwynedd;<br>• Cynllun Lleol Ynys Môn;<br>• Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd;<br>• Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Ataliwyd;<br>• Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn;<br>• Prosiect Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru;<br>• Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn;<br>• Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn;<br>• Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr – Dŵr Cymru;<br>• Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru;<br>• Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2;<br>• Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru. |

# 4 Canllawiau ar gyfer y Prosiect Cyfan

4.1.1 Mae Prosiect GNN Wylfa yn gyfle unigryw i drawsnewid economi Ynys Môn a Gogledd Cymru yn gyffredinol, a sicrhau buddsoddi sylweddol mewn cyflogaeth, y gadwyn gyflenwi, gwasanaethau a seilwaith. Gall y prosiect fod yn gatalydd hefyd ar gyfer newid mewn diwylliant ac ymddygiad, gan sicrhau datblygu economaidd cynaliadwy, cydlyniant cymunedol ac ansawdd bywyd gwell i breswylwyr Ynys Môn. Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a rhedeg Prosiect GNN Wylfa yn rhai sylweddol a all gael effeithiau niweidiol ar amgylchedd adeiledig a naturiol unigryw Ynys Môn (a'r rhanbarth ehangach), ei chymunedau, ei seilwaith presennol, busnesau lleol a'r sector twristiaeth. Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw effeithiau niweidiol posibl yn cael eu nodi a'u hasesu. Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa geisio osgoi effeithiau niweidiol yn y lle cyntaf. Os na fydd modd osgoi effeithiau niweidiol, dylid rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith i wrthbwyso'r effeithiau niweidiol arwyddocaol sydd wedi'u pennu a'u cydnabod. Disgwylir mesurau cydbwyso o ran effeithiau gweddilliol nad oes modd eu lliniaru.

4.1.2 Yn yr adran hon o'r CCA mae canllawiau ar gyfer y prosiect cyfan sy'n cyd-fynd â'r hierarchaeth osgoi, lliniaru a chydbwyso, sydd hefyd yn ceisio amlhau'r buddion sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa. Mae'r canllawiau hyn ar ffurf cyfres o 'Egwyddorion Arweiniol' (EA) sydd, gyda'i gilydd, yn ceisio cyflawni'r Weledigaeth a'r amcanion sydd wedi'u disgrifio yn **Adran 3**. Mae'r EA yn cynnwys y pynciau canlynol:

- Datblygu Economaidd;
- Twristiaeth;
- Poblogaeth a Chymunedau;
- Llety i Weithwyr Adeiladu a Marchnad Dai Ynys Môn;
- Y Gymraeg a'i Diwylliant;
- Trafnidiaeth;
- Cyfleustodau;
- Gwastraff;
- Y Newid yn yr Hinsawdd;
- Yr Amgylchedd Naturiol;

- Yr Amgylchedd Hanesyddol;
- Hwyluso Datblygu;
- Gweithredu a Monitro.

4.1.3 Bydd y Cyngor Sir yn defnyddio'r canllawiau hyn, ynghyd â'r canllawiau ar leoli yn **Adran 5** o'r ddogfen CCA hon a pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol (gan gynnwys polisi sy'n cael ei ddatblygu), i ymateb i ymgynghori gan hyrwyddwr y prosiect, i baratoi ei Adroddiad ar yr Effaith Leol ac i'w helpu i benderfynu ar geisiadau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ar gyfer datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys ceisiadau am waith hwyluso a gwaith i baratoi safleoedd y gellid eu cyflwyno cyn gwneud cais am GCD (mae'r berthynas rhwng y canllawiau ar gyfer y prosiect cyfan a pholisi perthnasol arall mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol a dogfennau polisi cynllunio lleol a chenedlaethol wedi'i disgrifio yn **Atodiad A**). Bydd y graddau y mae'r EA yn berthnasol i bob cais y mae'r Cyngor Sir yn ei gael yn amrywio ac felly, am fod y ceisiadau'n debygol o amrywio o ran eu natur a'u graddfa, bydd yn rhaid penderfynu arnynt fesul un.

4.1.4 Mae'r canllawiau isod yn tynnu sylw at yr angen i ystyried yr effeithiau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol cronnol o Brosiect GNN Wylfa (gan gynnwys yr effeithiau ar y cyd a fydd yn deillio o'r gwaith o adeiladu a gweithredu prif safle GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig), seilwaith trosglwyddo trydan a cheisiadau datblygu eraill yn Ynys Môn gan gynnwys datblygiadau strategol mawr. Mae'r Cyngor Sir wedi datblygu Dull a Methodoleg ar gyfer Asesu Effeithiau Amgylcheddol ac Asesu Effeithiau Cronnol y dylai hyrwyddwr y prosiect eu dilyn wrth bennu ac asesu effeithiau cronnol.

## 4.1 Datblygu Economaidd

### Rhaglen Ynys Ynni Môn ac Ardal Fenter Ynys Môn

4.1.5 Sicrhau dyfodol economaidd hirdymor Cymru drwy drawsnewid i economi carbon isel yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru (sydd wedi'i diffinio yn Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Newydd i Gymru (2009)). Yn Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (2010), sy'n egluro gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd, nodir bod sector Ynni a'r Amgylchedd yn bwysig i Gymru a'i fod yn cynnig cyfleoedd mawr i'r economi. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y gellir cael buddsoddiadau o £50 biliwn mewn cynhyrchu ynni carbon isel yng Nghymru yn ystod y 10 i 15 mlynedd nesaf[15].

4.1.6 Mae Prosiect GNN Wylfa yn fuddsoddiad mawr a allai helpu economi Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru yn gyffredinol, ac ategu nod Llywodraeth Cymru i drawsnewid i economi carbon isel. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi nodi bod y prosiect yn flaenoriaeth strategol ar gyfer newid cydbwysedd economaidd Gogledd Cymru a'i fod yn cynnig cyfle hefyd i ddelio â rhai o'r problemau economaidd sy'n gysylltiedig â natur ymylol Ynys Môn. Mae'r Cyngor Sir wedi ymateb i'r cyfleoedd sy'n codi yn sgîl GNN Wylfa a phrosiectau eraill drwy sefydlu rhaglen Ynys Ynni Môn (YYM). Nod YYM yw creu canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu, arddangos a chynnal a chadw mentrau ynni carbon isel yn ogystal â thynnu sylw at y lle pwysig sydd i fewnfuddsoddi o ran gwella seilwaith trafnidiaeth lleol, tai, cyfleusterau twristiaeth a hamdden, hyfforddiant a sgiliau.

4.1.7 Mae'r pwysigrwydd y mae'r Cyngor Sir yn ei weld yn rhaglen YYM wedi'i adlewyrchu hefyd ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i ddyfarnu statws Ardal Fenter i Ynys Môn. Mae Ardal Fenter Ynys Môn yn cynnwys y sir gyfan a'r nod yw canoli buddsoddiadau mewn wyth safle allweddol sydd wedi'u dewis am eu bod yn addas i ddiwallu anghenion busnesau (gweler **Ffigur 4.1**). Diben yr Ardal Fenter yw ategu rhaglen YYM a hybu twf yn y sector ynni carbon isel yn Ynys Môn. Ei phwrpas yw hyrwyddo buddsoddi mewn cynhyrchu ynni carbon isel; sefydlu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer arloesi ac arddangos ym maes ynni carbon isel; a sicrhau bod y gadwyn gyflenwi yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Y nod ar gyfer yr Ardal Fenter yw y bydd yn creu 1,300 o swyddi ac yn cynyddu Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) 10 – 13% erbyn 2025 yn Ynys Môn.

15 Gweler http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/sectors/energyandenvironment/?lang=en.

**Ffigur 4.1 Safleoedd Ardal Fenter Ynys Môn**




4.1.8 Mae polisïau ar gyfer cyflawni rhaglenni YYM a'r Ardal Fenter yn y CDLIC sy'n cael ei ddatblygu. Byddant yn darparu ar gyfer tir at gyflogaeth a'r seilwaith a chyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer datblygu economaidd (gweler, er enghraifft, Polisi Strategol PS8: Darparu cyfle ar gyfer economi ffyniannus, Hoff Strategaeth ddrafft y CDLIC). Bydd hefyd yn gofyn am gydweithio trawsffiniol, gan gynnwys gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr awdurdodau lleol cyfagos, er mwyn sicrhau bod buddion rhanbarthol ehangach y buddsoddiadau strategol mawr, gan gynnwys Prosiect GNN Wylfa, yn cael eu gwireddu.

| **EA 1** | **Cefnogi Rhaglen Ynys Ynni Môn ac Ardal Fenter Ynys Môn** |
|---|---|
| Bydd y Cyngor Sir yn mynnu bod hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa yn helpu i gyflawni rhaglen Ynys Ynni Môn ac Ardal Fenter Ynys Môn, gan amlhau'r cyfleoedd economaidd i gymunedau lleol Ynys Môn. Gellir cyflawni hyn drwy nifer o fesurau ar y cyd, gan gynnwys: | |

| EA 1 | Cefnogi Rhaglen Ynys Ynni Môn ac Ardal Fenter Ynys Môn |
|---|---|
| | • Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu gan ganolbwyntio'n benodol ar dechnolegau carbon isel;<br>• Cymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn technoleg carbon isel a gwasanaethau cymorth gan gynnwys rhai ar gyfer ailhyfforddi cyn-weithwyr gorsaf Wylfa;<br>• Hyrwyddo cyfleoedd mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy (gan gynnwys ynni carbon isel);<br>• Sicrhau bod cyfleoedd o ran cyflogaeth, y gadwyn gyflenwi a chaffael yn cael eu hysbysebu ac ar gael yn lleol;<br>• Darparu cytundebau llafur lleol;<br>• Sefydlu Canolbwynt Corfforaethol yn Ynys Môn;<br>• Cyfrannu at gymorth ar gyfer hyfforddi ac uwchsgilio mewn technoleg carbon isel;<br>• Rhoi cymorth i hyrwyddo mewnfuddsoddi gan ganolbwyntio ar sefydlu/denu cwmnïau sy'n gysylltiedig â thechnoleg carbon isel ar safleoedd yr Ardal Fenter;<br>• Canfod cyfleoedd i gydweithio ag Ardaloedd Menter eraill yng Ngogledd Cymru.<br>• Rhaid cyflwyno asesiadau economaidd-gymdeithasol gyda cheisiadau cynllunio ym mhrosesau'r GCD a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref. Rhaid i'r asesiadau hyn roi sylw, ymysg pethau eraill, i gyfnodau adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa ac effeithiau cronnol y datblygiadau ar y cyd â datblygiadau mawr eraill sydd wedi'u cynnig yn Ynys Môn. Os nodir effeithiau negyddol a all fod yn arwyddocaol, bydd y Cyngor Sir yn mynnu bod mesurau lliniaru penodol yn cael eu pennu a'u gweithredu i ddelio â'r effeithiau hyn. Dylid nodi cynlluniau cydbwyso ar gyfer yr achosion pan na fydd modd lliniaru'r effeithiau. |

**Creu Swyddi a Datblygu Sgiliau**

4.1.9 Er bod nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar yn Ynys Môn yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU, mae cyflogau'r rheini sydd mewn gwaith yn llai hefyd. Mae cyfran fawr o'r rheini sydd mewn gwaith yn cymudo yn ôl ac ymlaen i Ynys Môn bob dydd. Ceir all-lif net o gymudwyr o Ynys Môn, gan fod tua 200 o bob 1,000 o'r preswylwyr sydd mewn gwaith yn gadael i weithio mewn mannau eraill. Gan fod tua 9,400 yn cymudo o Ynys Môn a dim ond 3,500 yn cymudo i mewn, ceir all-lif net o tua 5,900 o bobl.



4.1.10 Mae NPS EN-1 yn nodi'r materion economaidd-gymdeithasol y dylai hyrwyddwr y prosiect eu hystyried. Mae'r materion hynny sy'n berthnasol i ddatblygu economaidd yn cynnwys cyfleoedd i greu swyddi a hyfforddi. Bydd anghenion sylweddol o ran cyflogaeth ar gyfer Prosiect GNN Wylfa (yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu) a pho fwyaf o'r rhain y gellir eu diwallu drwy ddefnyddio gweithlu Ynys Môn, mwyaf fydd y budd economaidd o'r prosiect i economi Môn. Mae'n bwysig nodi bod gweithlu Ynys Môn yn cynnwys gweithwyr sydd â sgiliau yn y diwydiant niwclear. Fodd bynnag, er bod y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer Prosiect GNN Wylfa yn gyfatebol, gallent fod yn wahanol oherwydd anghenion penodol ar gyfer cyflawni'r prosiect. Mae'r Cyngor Sir yn canolbwyntio ar sicrhau bod newydd-ddyfodiaid i'r farchnad swyddi yn cael y sgiliau sydd eu hangen i lenwi swyddi yn y cyfnodau adeiladu a gweithredu a ddylai fod ar gael iddynt.

4.1.11 Amcan y mesurau sydd wedi'u disgrifio yn EA2 isod yw helpu i sicrhau bod y gweithlu lleol – gan gynnwys preswylwyr sy'n ddi-waith ac yn economaidd anweithgar a grwpiau difreintiedig – yn gallu manteisio ar y cyfleoedd a all godi o brosiect GNN Wylfa gan helpu i fynd i'r afael â diweithdra, codi lefelau incwm a gostwng y gyfradd allgymudo, heb gael effaith andwyol ar fusnesau sydd eisoes yn bodoli. Mae'n hanfodol bod hyrwyddwr y prosiect yn ceisio rhoi'r camau hyn ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod cronfa o bobl leol fedrus ar gael ar ddechrau Prosiect GNN Wylfa. Felly bydd yn hanfodol cynnal trafodaethau cynnar rhwng hyrwyddwr y prosiect, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys Undebau Llafur a hyrwyddwyr prosiectau buddsoddi strategol mawr eraill yn Ynys Môn, er enghraifft) er mwyn cyrraedd y nod hon.

**EA 2 Creu Swyddi Lleol a Datblygu Sgiliau**

Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa baratoi a gweithredu Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau. Nod y strategaeth hon fydd:

- Rhoi cefnogaeth amserol i sefydliadau addysgol presennol a darparwyr addysg lleol gyda phwyslais ar hyrwyddo Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg. Gallai hyn gynnwys ehangu cyfleusterau i elwa o'r buddion sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa, a gwrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol ar y ddarpariaeth bresennol;
- Rhoi cymorth i ddatblygu Academi Alwedigaethol Rhaglen Ynys Ynni Môn a hysbysebu cyfleoedd i gael prentisiaethau ymysg pobl leol;
- Ategu gwaith asiantaethau sgiliau a mentrau lleol a rhanbarthol presennol sy'n cynnwys, ar hyn o bryd, prosiect Cyrraedd y Nod, Partneriaeth Addysg Gymunedol Ynys Môn a'r rhaglen Siapio'r Dyfodol;
- Gwneud y defnydd gorau o ganolfan ymwelwyr GNN Wylfa at ddibenion addysgol;
- Hwyluso a chefnogi'r gwaith o ailhyfforddi staff sydd wedi'u cyflogi yn yr orsaf pŵer niwclear Magnox bresennol fel y gallant elwa o gyfleoedd gwaith eraill sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa;
- Rhoi cymorth i gymunedau difreintiedig a phobl leol ifanc Ynys Môn gan gynnwys cymorth drwy raglenni allgymorth a mentrau hyfforddi lleol fel y gallant elwa o gyfleoedd gwaith sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa;
- Sicrhau bod gweithwyr adeiladu lleol a gweithwyr crefftus eraill yn gallu manteisio ar gyfleoedd gwaith yn ystod cyfnod adeiladu GNN Wylfa, a dod o hyd i waith arall ar ôl y cyfnod adeiladu;
- Sicrhau a hwyluso hyfforddiant parhaus i weithwyr yng ngorsaf bŵer GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig o ran y Gymraeg, a rhoi mesurau ar waith i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle;
- Gwneud y defnydd mwyaf posibl o lafur lleol drwy gontractau cyflogaeth a chytundebau llafur lleol, mentrau cyflogaeth lleol, caffael oddi wrth fusnesau a gwasanaethau sy'n cyflogi pobl leol, a hysbysebu swyddi. Dylai hyn gynnwys sefydlu marchnad lafur i siaradwyr Cymraeg;
- Cefnogi busnesau lleol pan fydd y staff yn ymwneud â Phrosiect GNN. Dylai hyn gynnwys hyfforddi mewn meysydd sgiliau lle cydnabyddir bod prinder, er mwyn cynyddu nifer y bobl sydd ar gael yn gyffredinol.

Disgwylir i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad cysylltiedig a pherthnasol ddangos sut bydd y datblygiad arfaethedig yn cyflawni nodau'r Strategaeth Cyflogaeth a Sgiliau. Dylai lefel y manylder a gyflwynir i gefnogi unrhyw gais cynllunio fod yn gymesur â'r math o ddatblygiad a gynigir a'i faint.

Dylai hyrwyddwr y prosiect sicrhau hefyd fod cyfleoedd gwaith ar safle GNN Wylfa ac ar safleoedd datblygu cysylltiedig yn hawdd eu cyrraedd drwy foddau trafnidiaeth cynaliadwy, yn enwedig ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig ac anodd eu cyrraedd yn Ynys Môn.

**Defnyddio Tir ar gyfer Cyflogaeth, Logisteg a Thrafnidiaeth**

4.1.12 Bydd y gwaith o adeiladu a rhedeg Prosiect GNN Wylfa yn creu galw am wahanol fathau o ddefnydd tir at gyflogaeth ledled Ynys Môn. Bydd y mathau defnydd hyn yn darparu gwasanaethau uniongyrchol neu anuniongyrchol ar gyfer adeiladu a rhedeg y prosiect. Hefyd bydd y prosiect yn galw am gludo nwyddau, deunyddiau a phobl i Ynys Môn ac ar ei thraws. Mae'n debygol y bydd gweithgareddau o'r fath yn cael eu hwyluso drwy ddarparu canolfannau rheoli ar gyfer gweithwyr, logisteg a chludo nwyddau gan gynnwys Canolbwynt Corfforaethol.

4.1.13 Mae'r Cyngor Sir yn credu mai ei rôl ef yw hwyluso datblygu o'r fath, ar yr amod y caiff ei leoli'n briodol a'i fod yn diwallu anghenion y prosiect a'r cymunedau lleol gan sicrhau hefyd y bydd defnydd a buddion ar gael ohono wedi i'r prosiect ddod i ben. Mae'r canllawiau sydd wedi'u mabwysiadu ar bolisi cynllunio yng Nghynllun Lleol Ynys Môn yn gefnogol i ddatblygiadau sy'n creu cyflogaeth ar safleoedd sydd o fewn neu ar gyrion aneddiadau cydnabyddedig os byddant ar raddfa ac o fath sy'n gydnaws â'r ardal o'u cwmpas a pholisïau eraill yn y cynllun. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y cefnogir datblygu y tu allan i'r aneddiadau presennol, lle y mae cyfiawnhad clir dros yr angen i'w leoli yno a manteision i'r economi a seilwaith o wneud hynny.

| EA 3 | Cefnogi Defnydd Tir ar gyfer Cyflogaeth, Logisteg a Thrafnidiaeth |
|---|---|

Bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau i ddarparu mathau o ddefnydd tir at gyflogaeth, logisteg a thrafnidiaeth ar gyfer Prosiect GNN Wylfa, ar yr amod bod y datblygu hwnnw'n gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol a'r strategaeth ofodol a pholisïau yn y Cynllun Lleol a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, a'i fod yn unol â'r canllawiau ar leoli yn **Adran 5** o'r CCA hyn. Dylai ceisiadau fod yn rhai sydd:

- yn addasu a/neu'n ailddefnyddio'r seilwaith sy'n gysylltiedig â'r orsaf bŵer Magnox bresennol os yw hyn yn ymarferol ac os nad yw'r mathau defnydd presennol yn amharu ar amwynder ac ansawdd bywyd;
- yn sicrhau bod y safleoedd datblygu cysylltiedig a ddewisir wedi'u hintegreiddio â defnydd cyflogaeth presennol, a bod modd eu cyrraedd yn hawdd drwy amrywiaeth o foddau trafnidiaeth cynaliadwy. Dylid lliniaru a/neu gydbwyso unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar gymeriad tirwedd a threfwedd yr ardal gyfagos;
- os cynigir gweithrediadau 24 awr, yn nodi a mynd i'r afael ag effeithiau ar amwynder ac ansawdd bywyd a busnesau presennol drwy ystyried lleoliad, lleoli adeiladau a gweithgareddau, protocolau gweithredu a ffyrdd i mewn ac allan, ymysg pethau eraill;
- yn helpu i gyflawni rhaglen Ardal Fenter Ynys Môn drwy ddefnyddio safleoedd yr Ardal Fenter, o dan yr amodau sydd wedi'u nodi uchod;

| EA 3 | Cefnogi Defnydd Tir ar gyfer Cyflogaeth, Logisteg a Thrafnidiaeth |
|---|---|
| | • yn sicrhau defnydd buddiol o'r safleoedd wedi i'r prosiect ddod i ben, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio canolfannau logisteg yn y dyfodol ar gyfer trawslwytho nwyddau drwy Borthladd Caergybi, neu waith priodol i adfer safle a oedd wedi'i ddatblygu o'r blaen sy'n addas i'w ddefnyddio yn y dyfodol. |
| Os yw natur lleoliad y safle arfaethedig a'r defnydd ohono yn golygu na fydd yn addas i'w ddefnyddio wedi i'r prosiect ddod i ben, bydd y Cyngor Sir yn gosod amodau perthnasol ar unrhyw ganiatâd i fynnu bod safleoedd yn cael eu hadfer yn briodol yn ôl bodlonrwydd y Cyngor Sir. | |

**Busnesau Lleol sy'n Cynnig Gwasanaethau ac yn Rhan o'r Gadwyn Gyflenwi**

4.1.14 Bydd Prosiect GNN Wylfa hefyd yn cynnig cyfleoedd yn anuniongyrchol i fusnesau a gwasanaethau yn y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Ymysg y busnesau a allai elwa y mae arlwywyr, glanhawyr a chwmnïau cludo nwyddau. Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i sicrhau'r cyfleoedd gwaith mwyaf posibl i'r gweithlu lleol ac, os bydd y galw'n arwain at sefydlu busnesau newydd neu at adleoli busnesau i Ynys Môn, y bydd y galw hwnnw'n creu cyfleoedd i gyflogi gweithwyr lleol.



4.1.15 Mae'r Cyngor Sir yn paratoi Rhaglen Datblygu Cadwynau Cyflenwi ar gyfer prosiectau ynni gyda'i bartneriaid yng Ngogledd Cymru, a'i phrif amcan yw sicrhau'r buddion a chyfleoedd mwyaf posibl i fusnesau yn Ynys Môn ac yn rhanbarth Gogledd Cymru.

| **EA 4** | **Cefnogi Busnesau Lleol sy'n Cynnig Gwasanaethau ac yn Rhan o'r Gadwyn Gyflenwi** |
|---|---|
| Bydd y Cyngor Sir yn gefnogol i geisiadau am ddatblygu busnesau lleol newydd, neu i ehangu rhai presennol, sydd heb gysylltiad uniongyrchol â Phrosiect GNN Wylfa ond a allai elwa o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cyfnodau adeiladu a gweithredu, er mwyn cynnig gwasanaethau a chymryd rhan yn y gadwyn gyflenwi. Dylai ceisiadau o'r fath fod yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol, gan gynnwys y CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, a dilyn y canllawiau ar leoli yn **Adran 5** o'r CCA hyn. Byddant yn cael eu hyrwyddo lle y maent:<br>• yn ategu amcanion cyffredinol rhaglen Ynys Ynni Môn ac Ardal Fenter Ynys Môn gan gynnwys mentrau cysylltiedig ar gyfer hyfforddi, sgiliau a'r gadwyn gyflenwi;<br>• yn cynnig cyfle i ffurfio clystyrau o wasanaethau cysylltiedig y gellir eu hysbysebu fel un o gynhyrchion Ynys Môn. | |

## 4.2 Twristiaeth


4.2.1 Twristiaeth yw un o'r prif ddiwydiannau sy'n creu cyfoeth yn Ynys Môn ar hyn o bryd, gan ei fod yn cyfrannu tua 4,043 o swyddi a refeniw o £256 miliwn i'w heconomi[16]. Mae twristiaeth Ynys Môn yn ddiwydiant mawr sy'n cynnwys nifer o fusnesau bach, ond pwysig, mewn nifer o sectorau gan gynnwys llety, atyniadau, bwytai, llongau mordeithiau ac arfordir a chefn gwlad unigryw Ynys Môn. Hefyd Ynys Môn yw'r prif borth i Iwerddon drwy Borthladd Caergybi, sy'n datblygu'r arlwy hwn ymhellach.

4.2.2 Mae'r diwydiant twristiaeth yn hollbwysig i economi Ynys Môn, ac un o brif elfennau arlwy twristiaeth yr ynys yw ansawdd ac amrywiaeth ei hamgylcheddau hanesyddol a naturiol. Mae hyn yn cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn, arfordir 125 milltir o hyd a'r traethau di-ri sy'n cael eu gwasanaethu gan drefi glan môr bach traddodiadol sydd wedi'u cysylltu gan Lwybr Arfordir Cymru.

4.2.3 Mae twristiaeth hefyd yn ffactor bwysig o ran cynnal ansawdd bywyd preswylwyr Ynys Môn. Mae presenoldeb ymwelwyr a'r arian maent yn ei wario yn Ynys Môn yn helpu i wneud y canlynol:

- Rhoi gwaith i'r gymuned leol;
- Sicrhau bod atyniadau, llefydd bwyta a siopau Ynys Môn yn dal yn hyfyw;
- Creu diddordeb mewn prosiectau amgylcheddol, adfywio ac arallgyfeirio gwledig;
- Denu diddordeb entrepreneuriaid o ddiwydiannau eraill, fel y nifer cynyddol o bobl sy'n ymwneud â chelf a chrefft sydd wedi dewis ymgartrefu yn Ynys Môn.

4.2.4 Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2030: Partneriaeth ar gyfer Twf (2013) yn ceisio sicrhau "twf cynaliadwy mewn twristiaeth, a gwneud mwy o gyfraniad at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru". Cynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan Ynys Môn (CGRhC, 2012) yw'r strategaeth ar gyfer rheoli arlwy Ynys Môn i ymwelwyr mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae'n cyflwyno'r weledigaeth ganlynol ar gyfer economi ymwelwyr Ynys Môn:




[16] Ar sail data ar gyfer 2013 yn *Adroddiad STEAM* Cyngor Sir Ynys Môn (2013).

"*Cyrchfan sy'n adnabyddus yn rhyngwladol am arfordir prydferth, treftadaeth a diwylliant arbennig; yn hawdd i'w gyrraedd ond yn braf o wahanol. Cyrchfan gwyliau i deuluoedd ac un sy'n arwain y farchnad o ran twristiaeth gweithgareddau awyr agored o bob math. Digon yn digwydd ar bob adeg o'r flwyddyn, beth bynnag fo'r tywydd, gyda diwylliant sy'n fywiog ac yn fyw. Man fydd yn cael sylw yn y cyfryngau oherwydd ansawdd y bwyd, y croeso a lleoedd diddorol i aros. Ynys sy'n gofalu am ei hadnoddau naturiol ac yn croesawu ymwelwyr*."

4.2.5 Er mwyn gwireddu nod Strategaeth y Bartneriaeth ar gyfer Twf a gweledigaeth CGRhC, bydd angen ymateb i nifer o heriau gan gynnwys yr angen i ddefnyddio'r broses gynllunio i reoli datblygiadau a allai fygwth ansawdd amgylchedd yr arfordir, sef y prif beth sy'n denu ymwelwyr i Ynys Môn, neu effeithio'n ormodol ar fusnesau twristiaeth cyhoeddus a phreifat. Yn hyn o beth, byddai'r gwaith o adeiladu a rhedeg Prosiect GNN Wylfa yn gallu creu goblygiadau pellgyrhaeddol ar gyfer economi twristiaeth Ynys Môn, gan gynnwys effeithiau ar y canlynol:

- Yr amgylcheddau naturiol ac adeiledig sy'n hanfodol i lwyddiant Ynys Môn fel cyrchfan i ymwelwyr;
- Amwynder ymwelwyr;
- Argaeledd llety i ymwelwyr;
- Canfyddiad ymwelwyr o Ynys Môn.

4.2.6 Mae Polisi Strategol PS9 Hoff Strategaeth ddrafft y CDLlC yn cynnig bod y Cyngor Sir yn hybu'r diwydiant twristiaeth gan gynnwys atal datblygu a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar nodweddion neu ardaloedd o ddiddordeb i ymwelwyr neu ar eu hamgylchoedd. Yn NPS EN-1 (paragraff 5.12.3) nodir y bydd asesiadau economaidd-gymdeithasol o geisiadau am brosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd yn cynnwys ystyriaeth i effeithiau ar dwristiaeth a darparu cyfleusterau i ymwelwyr. Yn unol â'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu a'r canllawiau yn NPS EN-1, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl bod hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa yn rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu ar brif safle GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig ar dwristiaeth ac, os yw'n briodol, y bydd yn darparu mesurau lliniaru a/neu gydbwyso i ddelio ag effeithiau niweidiol arwyddocaol. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir hefyd yn disgwyl y bydd hyrwyddwr y prosiect yn pennu ac yn cymryd mesurau i hyrwyddo Ynys Môn fel cyrchfan i ymwelwyr a hybu potensial Ynys Môn ar gyfer twristiaeth.

| **EA 5** | **Hybu'r Economi Twristiaeth** |
|---|---|

Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa sicrhau na fydd y gwaith o adeiladu a rhedeg GNN Wylfa ac unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig yn amharu ar werth a phwysigrwydd twristiaeth i Ynys Môn. Ym marn y Cyngor Sir, dylid cyflwyno asesiad manwl o'r effeithiau posibl o GNN Wylfa ac, os yw'n briodol, o ddatblygiadau cysylltiedig ar dwristiaeth (ar eu pen eu hunain ac ar y cyd â cheisiadau eraill) gyda'r cais am GCD a cheisiadau am ganiatâd cynllunio i'r Cyngor Sir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Dylai'r asesiadau manwl gynnwys effeithiau o geisiadau ar y canlynol, ymysg pethau eraill:

- Trafnidiaeth, gan gynnwys creu problemau teithio, tagfeydd ac amseroedd teithio;
- Amwynder ymwelwyr, gan gynnwys sŵn ac effeithiau gweledol;
- Delwedd Ynys Môn a chanfyddiad ymwelwyr o'r diwydiant niwclear;
- Mynediad at asedau amgylcheddol naturiol ac adeiledig Ynys Môn, gan gynnwys Hawliau Tramwy (mae hyn yn cynnwys sut gall datblygu gyfrannu at gyflawni'r camau gweithredu sydd yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy 2008-18 y Cyngor Sir;
- Cymeriad tirwedd/trefwedd a golygfeydd tuag at ac oddi wrth asedau amgylcheddol naturiol ac adeiledig;
- Diwylliant, hunaniaeth a nodweddion unigryw Ynys Môn;
- Atyniadau/cyfleusterau i ymwelwyr yn Ynys Môn;
- Llety i ymwelwyr (gweler hefyd **EA12**).

Os yw'n bosibl y bydd effeithiau niweidiol, dylid pennu a chyflawni mesurau lliniaru a/neu gydbwyso ar sail y camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan Ynys Môn drwy gytundeb rhwng hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa a'r Cyngor Sir, er mwyn diogelu economi ymwelwyr Ynys Môn a'i hyrwyddo. Dyma rai mesurau posibl:

- Diogelu a gwella asedau amgylcheddol naturiol ac adeiledig Ynys Môn (gweler hefyd **EA20** ac **EA21**);
- Cynnal a gwella mynediad at yr arfordir ynghyd â gwella Llwybr Arfordir Cymru;
- Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau strategol ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy, llwybrau beicio a rhwydweithiau o lwybrau cerdded;
- Marchnata cyrchfannau ar lefel ryngwladol, genedlaethol, ranbarthol a lleol drwy gydgysylltu â Croeso Cymru, Partneriaeth y Cynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan a'r Cyngor Sir, gan gynnwys gweithgareddau i ymdrin â safbwyntiau negyddol am GNN Wylfa;
- Hysbysebu prif gyrchfannau Ynys Môn ar gyfer ymwelwyr;
- Darparu/gwella seilwaith i gynnal twristiaeth gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth ar gyfer twristiaeth fel cyfleusterau rheilffyrdd a phorthladdoedd;
- Gwella adnoddau dynol ym maes twristiaeth, mewn cysylltiad â hyfforddiant a datblygu sgiliau yn gyffredinol (gan gynnwys o ran y

| EA 5 | Hybu'r Economi Twristiaeth |
|---|---|

Gymraeg).

Dylai unrhyw fesurau a roddir ar waith i amddiffyn a gwella economi ymwelwyr Ynys Môn fodloni gofynion **EA20** a **EA21**, a helpu i gyflawni potensial twristiaeth yr ynys heb gael effaith niweidiol ar unrhyw safleoedd cadwraeth natur sydd â dynodiad Ewropeaidd neu genedlaethol (na'u nodweddion nodedig), yn enwedig o ran pwysau yn sgîl nifer yr ymwelwyr.

Dyhead y Cyngor Sir yw y bydd canolfan arfaethedig i ymwelwyr yn Wylfa yn brif atyniad i ymwelwyr, a fydd yn ategu ac yn gwella'r arlwy presennol yn Ynys Môn. Dylai'r ganolfan ymwelwyr fod yn hawdd ei chyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'i dylunio'n unol â'r cysyniad carbon isel sy'n sail i raglen Ynys Ynni Môn.

## 4.3 Poblogaeth a Chymunedau

### Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol

4.3.1 Mae adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa yn cynnig cyfle unigryw i wneud cymunedau Ynys Môn yn fwy cynaliadwy. Bydd y cyfleoedd gwaith newydd a'r mewnlifiad o weithwyr adeiladu a gweithredu yn creu mwy o alw am gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol pwysig fel iechyd ac addysg, gan gynnwys yn ardaloedd yr awdurdodau cyfagos, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n bwysig nodi y bydd y buddsoddi mewn seilwaith o ganlyniad i Brosiect GNN Wylfa yn gallu cyfrannu at wella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, gan greu buddion i gymunedau Ynys Môn a fydd yn parhau wedi i'r prosiect ddod i ben.




4.3.2 Fodd bynnag, mae nodweddion poblogaeth a chymunedau Ynys Môn yn gosod nifer o heriau o ran darparu gwasanaethau a seilwaith. Er enghraifft, mae poblogaeth breswyl Ynys Môn, a oedd yn 69,750 ar adeg Cyfrifiad 2011, yn un wledig gan mwyaf ac mae hyn yn creu anawsterau o ran darparu gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, mae amcanestyniadau'n dangos bod poblogaeth Ynys Môn yn mynd yn hŷn a rhagwelir y bydd yn cyrraedd uchafbwynt o 70,274 yn 2020 ac wedyn yn gostwng i lefelau sy'n is na'r ffigurau ar gyfer 2011 erbyn 2036 (i 68,053) ac mae hyn yn creu goblygiadau pwysig ar gyfer darparu gwasanaethau a galwadau ar y ddarpariaeth.

4.3.3 Mae'r Cyngor Sir yn credu ei bod yn hollbwysig bod Prosiect GNN Wylfa yn cael ei integreiddio â'r broses o ddarparu cyfleusterau a seilwaith cymunedol fel y ceir buddion parhaol i gymunedau Ynys Môn wedi i'r prosiect ddod i ben. Yn NPS EN-1 (paragraff 5.12.3) nodir y bydd asesiadau o effeithiau economaidd-gymdeithasol yn ystyried, ymysg pethau eraill, yr angen i ddarparu gwasanaethau lleol ychwanegol a gwelliannau mewn seilwaith lleol a'r effaith bosibl o gael mewnlifiad o weithwyr ar ddynameg y boblogaeth leol a'r galw am wasanaethau a chyfleusterau. Yn ogystal â hynny, mae paragraff 5.12.8 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystyried unrhyw ddarpariaethau cadarnhaol perthnasol y mae'r datblygwr wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud i liniaru effeithiau arwyddocaol, ac unrhyw fuddion a all barhau wedi i'r prosiect ddod i ben.

| EA 6 | Cynnal a Gwella Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol |
|---|---|

Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, gan gynnwys cyfleusterau addysg, gofal iechyd a hamdden a gwasanaethau brys, yn barod ar gyfer cyfnodau adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig. Dylai'r ddarpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau newydd fod yn gynaliadwy ac wedi'u hintegreiddio, gan roi buddion i gymunedau Ynys Môn a fydd yn parhau wedi i'r prosiect ddod i ben.

Yn benodol, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect wneud y canlynol drwy gydgysylltu â darparwyr gwasanaethau allweddol ac ar sail asesiadau o'r cyflenwad a'r galw:

- Darparu cyfleusterau, gwasanaethau a seilwaith newydd, neu adleoli neu wella rhai presennol, er mwyn cwrdd ag anghenion gweithwyr adeiladu a gweithredu a lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar y ddarpariaeth bresennol o ganlyniad i Brosiect GNN Wylfa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â cheisiadau eraill;
- Sicrhau y bydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd, neu rai sydd wedi'u hadleoli, yn rhai a fydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd a darparu ar gyfer eu defnyddio'n barhaol wedi i'r prosiect ddod i ben gan sicrhau bod modd cynnal cyfleusterau a gwasanaethau o'r fath ar ôl y cyfnod adeiladu;
- Darparu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol mewn mannau mae modd eu cyrraedd drwy foddau trafnidiaeth cynaliadwy gan weithwyr a'r cyhoedd yn unol â strategaeth ofodol y Cyngor Sir (sydd wedi'i diffinio yn y CDLIC sy'n cael ei ddatblygu);
- Sicrhau bod y seilwaith a'r cyfleusterau cymunedol newydd yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir addas sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen a dyluniadau o ansawdd uchel, ac yn amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig Ynys Môn;
- Sicrhau bod cyfleoedd i ategu mentrau presennol yn Ynys Môn, yn ogystal â buddsoddiadau sydd wedi'u creu gan geisiadau eraill sy'n cynnwys buddsoddiadau mawr, yn cael eu gwireddu.

**Iechyd a Lles**

4.3.4 Yn NPS EN-1 (paragraff 4.13.3) nodir bod adeiladu a gweithredu seilwaith ynni yn gallu arwain at amrywiaeth o effeithiau uniongyrchol ar iechyd gan gynnwys rhai sy’n gysylltiedig â chynnydd mewn traffig, llygredd aer a dŵr, llwch, sylweddau peryglus a gwastraff a sŵn. Mae’n pennu gofynion ar gyfer asesu effeithiau o’r fath a chymryd camau i liniaru effeithiau niweidiol os byddant yn codi. Mae polisïau yng Nghynllun Lleol Ynys Môn hefyd yn ceisio diogelu iechyd cyhoeddus rhag effeithiau sy’n gysylltiedig â gweithfeydd peryglus ac mae gofyniad yn y CDLlC sy’n cael ei ddatblygu i gynnal asesiad cynhwysfawr o’r effeithiau ar iechyd ac amwynder sy’n gysylltiedig â cheisiadau am brosiectau seilwaith mawr.

4.3.5 Mae pwysigrwydd iechyd a lles hefyd yn cynnwys y gweithwyr a fydd yn adeiladu ac yn gweithredu Prosiect GNN Wylfa, yn enwedig os yw problemau iechyd neu lefelau lles isel yn arwain at oblygiadau i gymunedau neu ddarpariaeth gwasanaethau Ynys Môn.

4.3.6 Felly mae’r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa yn rhoi ystyriaeth lawn i’r effeithiau posibl o geisiadau ar iechyd a lles preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr yn Ynys Môn (gan gynnwys gweithlu GNN Wylfa). Dylid pennu amrywiaeth briodol o fesurau lliniaru i ddelio ag effeithiau niweidiol, gan ystyried effeithiau drwy aflonyddu yn ogystal â rhai cronnol.

4.3.7 Mae diogelwch gorsafoedd pŵer niwclear yn cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) a Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae’r prosesau rheoleiddio perthnasol yn gweithredu ar wahân i’r cais am GCD. Mae'r ONR hefyd yn pennu’r ardal ar gyfer cynlluniau argyfwng oddi ar y safle ar gyfer safleoedd niwclear lle mae posibilrwydd o ymbelydredd yn gollwng oddi ar y safle lle byddai’n rhaid gweithredu gwrth-fesurau, fel gwagio'r ardal o dan sylw, o bosibl. Gwneir hyn o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd ar gyfer Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (REPPIR).

4.3.8 Ar ôl cael gwybod gan yr ONR am yr ardal sydd angen Cynllun Argyfwng, bydd y Cyngor Sir yn ymgynghori â phob asiantaeth a fydd yn rhan o'r broses o weithredu'r Cynllun. Ar ôl ymgynghori â’r asiantaethau perthnasol a’r gweithredwyr, bydd rhaid i’r Cyngor Sir lunio ei Gynllun Argyfwng oddi ar y safle o fewn chwe mis. Bydd y Cynllun yn ystyried amrywiaeth o wrth-fesurau a fydd yn gymesur i'r risgiau a nodwyd, gan gynnwys lloches neu wagio'r ardal o dan sylw. Bydd Cynllun Argyfwng y Cyngor Sir yn cael ei ystyried bob tair blynedd ar ôl i’r gweithredwr nodi'r peryglon ar y safle a'r risgiau i'r cyhoedd, neu pan fydd y gweithredwr yn gwneud newid o bwys i weithgarwch ar y safle. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw newidiadau sy’n gysylltiedig â GNN Wylfa yn cael eu hystyried o dan REPPIR.

4.3.9 Nid yw diogelwch GNN Wylfa yn cael ei ystyried ymhellach yn y CCA hyn. Mae hyn yn gyson â'r canllawiau yn NPS EN-6 (paragraff 3.12.4) sy'n nodi bod rhaid rhoi'r systemau diogelwch ar waith ar gyfer dylunio gorsafoedd pŵer niwclear newydd ac, oherwydd y gofyniad i gydymffurfio â systemau deddfwriaethol a rheoleiddiol cadarn y DU, mae'r perygl o gael effaith radiolegol ar iechyd yn fach iawn. Er hynny, mae'r Cyngor Sir yn credu y dylai hyrwyddwr y prosiect geisio cyfleu'n glir i gymunedau, ymwelwyr a busnesau yn Ynys Môn sut bydd yn rheoli gweithrediadau GNN Wylfa (gan gynnwys beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd) er mwyn lleddfu pryderon ac ymdrin â safbwyntiau negyddol posibl ynghylch cynhyrchu pŵer niwclear.

**EA 7 Diogelu Iechyd**

Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa gynnal asesiadau cynhwysfawr o'r effeithiau o adeiladu a rhedeg GNN Wylfa, a datblygiadau cysylltiedig hefyd os yw'n briodol, ar iechyd ac amwynder. Rhaid ystyried effeithiau cronnol posibl yn yr asesiadau hyn.

Yn unol ag NPS EN-6, dylai hyrwyddwr y prosiect gydweithio â'r Cyngor Sir a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i bennu unrhyw effeithiau arwyddocaol posibl ar iechyd a mesurau lliniaru priodol. Mae mesurau lliniaru yn debygol o ymwneud â'r canlynol:

- Darparu gwybodaeth am beryglon iechyd i gymunedau lleol, ymwelwyr a busnesau;
- Dyluniad ffisegol datblygiadau newydd (gan gynnwys ystyriaeth i fesurau sgrinio a chyfyngu, a threfnu datblygiadau fel eu bod yn cael yr effeithiau lleiaf posibl ar dderbynwyr sensitif);
- Mesurau lliniaru ar gyfer y rheini a fydd yn teimlo effeithiau (gan gynnwys insiwleiddio i leihau effeithiau sŵn) neu gydbwyso pan nad yw lliniaru yn ymarferol;
- Mesurau i gyfyngu oriau gwaith adeiladu a rheoli traffig;
- Monitro effeithiau posibl gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â sŵn, ansawdd aer a llygredd golau.

Ni ddylid gwneud cais am ddatblygiadau cysylltiedig lle y byddai gweithgareddau adeiladu neu weithredu yn cael effeithiau annerbyniol o ran ansawdd aer, sŵn/dirgryndod a llygredd golau ac amwynder preswylwyr presennol, ymwelwyr, busnesau a gweithwyr adeiladu.

Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i leoliad llety i weithwyr adeiladu er mwyn sicrhau na fydd mathau cyfredol neu arfaethedig o ddefnydd tir ar safleoedd cyfagos yn cael effaith niweidiol ar iechyd ac amwynder gweithwyr.

Er mwyn delio ag unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar iechyd oddi wrth ddatblygiadau cysylltiedig, bydd y Cyngor Sir yn ceisio gosod amodau cynllunio priodol. Bydd amodau o'r fath yn delio â'r materion canlynol, ymysg eraill:

- Cyfanswm y symudiadau gan gerbydau bob dydd a symudiadau yn ystod y cyfnodau prysuraf;

| **EA 7** | **Diogelu Iechyd** |
|---|---|
| | • Terfynau ar bwysau traffig adeiladu;<br>• Pennu llwybrau traffig;<br>• Oriau adeiladu/gweithredu;<br>• Trefn gweithrediadau adeiladu;<br>• Rheoli sŵn, llwch ac aroglau;<br>• Ymgynghori â chymunedau ar faterion/gweithgareddau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar amwynder.<br>Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa ofalu am iechyd a lles ei weithwyr. Gallai'r mesurau gynnwys y canlynol, er enghraifft:<br>• Paratoi Polisi Iechyd Corfforaethol;<br>• Rhoi Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Adeiladu ar waith (gweler **EA9**);<br>• Rhannu gwybodaeth am iechyd a diogelwch â'r gweithwyr;<br>• Darparu cyfleusterau a gwasanaethau i fodloni anghenion penodol gweithlu GNN Wylfa. |

4.3.10 Er bod preswylwyr Ynys Môn yn iach ar y cyfan, mae nifer o broblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd a allai ddwysáu o ganlyniad i Brosiect GNN Wylfa. Rhai o'r problemau hyn yw gwahaniaethau ac anghydraddoldebau iechyd rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig a'r ffaith bod rhan fawr (tua dwy ran o dair) o boblogaeth oedolion Ynys Môn heb fod yn ddigon corfforol egnïol. Yn benodol, byddai'r prosiect a'r mewnlifiad o weithwyr adeiladu yn gallu rhoi mwy o bwysau ar fannau agored a chyfleusterau hamdden sy'n hanfodol o ran hybu ffyrdd iach o fyw.




4.3.11 Mae canfyddiadau'r Astudiaeth o Seilwaith Cymunedol[17] yn dangos bod angen gwella cyfleusterau hamdden yn Ynys Môn. Mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth a fydd yn dod i mewn.

[17] AMEC (2014) *New Nuclear Build at Wylfa: Community Infrastructure Study*. Paratowyd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn.

4.3.12 Mae'n bosibl hefyd y bydd y gwaith o adeiladu a rhedeg GNN Wylfa yn creu cyfleoedd i hybu iechyd a lles preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr yn Ynys Môn drwy fuddsoddi yn y mannau agored a chyfleusterau hamdden presennol a darparu cyfleusterau newydd at ddefnydd cymunedol.

**EA 8 Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw**

Yn unol â NPS EN-1, Polisi Cynllunio Cymru, TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored a pholisi cynllunio lleol, ni fydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau a all arwain at golli mannau agored a chyfleusterau hamdden presennol, neu at effeithiau ar gysylltedd seilwaith gwyrdd oni bai fod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud yn eu lle.

Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa gynnal asesiad cynhwysfawr o'r effeithiau posibl o Brosiect GNN Wylfa (gan gynnwys effeithiau ar y cyd â cheisiadau eraill am fuddsoddi yn Ynys Môn) ar fannau agored a chyfleusterau hamdden ac adloniant er mwyn sicrhau bod anghenion gweithwyr adeiladu wedi'u diwallu ac na fydd effeithiau niweidiol ar y ddarpariaeth bresennol.

Os bydd angen mwy o fuddsoddi mewn mannau agored a chyfleusterau hamdden ac adloniant i gynnal y prosiect, dylid chwilio am gyfleoedd i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i gymunedau lleol. Wrth gynnal asesiad o'r fath, mae'r Cyngor Sir yn credu ei bod yn hanfodol bod hyrwyddwr y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau allweddol yn Ynys Môn ac yn ymgynghori â chymunedau er mwyn:

- Cael dealltwriaeth glir o oblygiadau Prosiect GNN Wylfa ar gyfer y ddarpariaeth bresennol;
- Canfod unrhyw gyfleoedd i fuddsoddi yn y cyfleusterau presennol;
- Integreiddio ceisiadau â strategaethau a chynlluniau buddsoddi presennol a newydd sy'n ymwneud â mannau agored, hamdden ac adloniant;
- Sicrhau bod y ddarpariaeth newydd mewn lleoliadau mae modd i weithwyr a chymunedau lleol eu cyrraedd drwy ddefnyddio moddau trafnidiaeth cynaliadwy;
- Sicrhau bod cymunedau'n defnyddio'r cyfleusterau newydd;
- Sicrhau bod y cyfleusterau newydd yn cael eu rheoli a'u cynnal a chadw'n effeithiol yn y tymor hir ar ôl i'r cyfnod adeiladu ddod i ben.

Bydd y Cyngor Sir yn ceisio sicrhau mynediad ar gyfer y gymuned i gyfleusterau newydd drwy ddulliau priodol fel rhwymedigaethau cynllunio.

**Cydlyniant Cymunedol**

4.3.13 Mae Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn yn datgan bod "*cydlyniad cymunedol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod perthynas dda yn bodoli rhwng pobl o wahanol gefndiroedd, lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi ac unigolion yn rhannu ymdeimlad o berthyn ac yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yr ardal yn well cymdogaeth.*"

4.3.14 Mae ymdeimlad cryf o hunaniaeth gymunedol yn Ynys Môn er bod ei chymunedau'n agored i effaith newidiadau. Byddai mewnlifiad o weithwyr yn gysylltiedig ag adeiladu Prosiect GNN Wylfa yn gallu creu tensiynau cymdeithasol a fyddai, yn eu tro, yn gallu effeithio ar gydlyniant ac erydu hunaniaeth gymunedol. Felly mae'r Cyngor Sir yn credu bod angen rhoi blaenoriaeth i ystyried effeithiau'r prosiect ar gydlyniant cymunedol. Mae NPS EN-1 (paragraff 5.12.3) yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgeiswyr yn asesu'r effaith bosibl ar gydlyniant cymunedol o gael mewnlifiad cyfnewidiol o weithwyr yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu prosiectau seilwaith ynni. Yn ogystal â hyn, mae Polisi Strategol PS7 yn y CDLIC sy'n cael ei ddatblygu yn cynnig bod ceisiadau am adeiladu gorsafoedd niwclear newydd yn cynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniant cymunedol a diogelwch cymunedol.

4.3.15 Mae nifer o nodweddion unigryw a phwysig i gymunedau Ynys Môn y mae'n rhaid eu hystyried wrth asesu'r effaith bosibl o Brosiect GNN Wylfa ar gydlyniant cymdeithasol. Ymhlith y nodweddion hyn y mae:

- Allfudo gan bobl ifanc oherwydd diffyg swyddi, cyfleoedd hyfforddi a thai fforddiadwy;
- Ynysu unigolion a chymunedau difreintiedig, a chynnydd mewn anghydraddoldeb cymdeithasol;
- Ardaloedd o amddifadedd difrifol. Mae Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Môn yn cynnwys saith Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI), sef Morawelon, Porthyfelin 1, Tref Caergybi, Maeshyfryd, London Road a Kingsland yng Nghaergybi a Tudur yn Llangefni. Mae pedair o'r AGEHI hyn ymysg y 10% o wardiau mwyaf difreintiedig mewn un neu ragor o'r parthau blaenoriaeth Cymunedau yn Gyntaf o dan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac ymysg y 10% neu 20% mwyaf difreintiedig yn yr holl barthau;
- Cyfran o siaradwyr Cymraeg sy'n uchel ond yn gostwng;
- Lefelau troseddu isel – Ynys Môn yw un o'r lleoedd mwyaf diogel i fyw a gweithio yng Ngogledd Cymru, ac er 2007 mae'r lefel troseddu gyffredinol wedi parhau i ostwng;

- Perifferoldeb gwledig, tlodi tanwydd a chostau trafnidiaeth cynyddol sy'n gysylltiedig â byw yng nghefn gwlad.

4.3.16 Mae'n debygol y bydd y gweithwyr adeiladu yn dod o gefndiroedd diwylliannol amrywiol, felly mae'n bwysig bod hyrwyddwr y prosiect hefyd yn ystyried yn ofalus sut gellir sicrhau cydlyniant ac integreiddiad yn effeithiol ymysg gweithwyr GNN Wylfa.

4.3.17 Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd hyrwyddwr y prosiect yn rhoi pob ystyriaeth i'r angen i sicrhau na fydd ceisiadau'n amharu ar gydlyniant cymunedol ac, os yw'n bosibl, y cymerir mesurau i wella integreiddio a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol.

**EA 9 Cynnal a Chreu Cymunedau Cydlynol**

Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa roi pob ystyriaeth i'r posibilrwydd y bydd adeiladu a gweithredu GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig (llety i weithwyr adeiladu yn benodol) yn effeithio ar gydlyniant cymunedol ac anghydraddoldeb cymdeithasol. Mae hefyd yn hanfodol bod hyrwyddwr y prosiect yn ystyried yn llawn amrywiaeth ddiwylliannol y gweithwyr adeiladu er mwyn sicrhau cydlyniant ac integreiddiad effeithiol.

Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd ceisiadau wedi'u seilio ar asesiad o effeithiau diwylliannol-gymdeithasol ac ar ymgynghori â chymunedau yn Ynys Môn, ac y byddant:

- yn integreiddio llety i weithwyr adeiladu â chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol (sy'n cael eu rhannu) o fewn cymunedau presennol gan ei ddarparu'n unol â strategaeth ofodol y Cyngor Sir;
- yn peidio â chanoli llety i weithwyr adeiladu ar raddfa fawr oni bai fod modd sicrhau buddion economaidd-gymdeithasol sylweddol i'r gymuned lle y mae'r llety hwnnw;
- yn rhoi pob ystyriaeth i'r effeithiau posibl ar y Gymraeg a'i diwylliant (gweler EA13);
- yn cynnwys dylunio o safon uchel sy'n lleihau achosion o droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofn troseddu, yn ogystal â gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig Ynys Môn;
- wedi'u lleoli a'u dylunio mewn modd sy'n golygu bod modd i bawb eu defnyddio, gan gynnwys pobl ag anableddau;
- yn cael eu hategu gan Gynlluniau Rheoli Diogelwch Cymunedol a Chod Ymddygiad Gweithwyr Adeiladu sydd wedi'u paratoi ac a fydd yn cael eu gweithredu;
- yn osgoi neu'n lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar y ddarpariaeth o wasanaethau brys (gan gynnwys yr Heddlu, y gwasanaeth Ambiwlans, y Frigâd Dân a Gwylwyr y Glannau).

Mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol, mae'r Cyngor Sir yn credu y dylai hyrwyddwr y prosiect bennu cyfleoedd i wella cydlyniant cymdeithasol a mynd i'r

| EA 9 | Cynnal a Chreu Cymunedau Cydlynol |
|---|---|
| afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol. Yn benodol, bydd y Cyngor Sir yn annog hyrwyddwr y prosiect i weithio ochr yn ochr â Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Môn i bennu sut y bydd Prosiect GNN Wylfa (ar ei ben ei hun ac ar y cyd â phrosiectau buddsoddi eraill yn Ynys Môn), yn gallu hwyluso adfywio yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Môn, drwy ddarparu ym meysydd tai, addysg, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. | |

## 4.4 Llety i Weithwyr Adeiladu a Marchnad Dai Ynys Môn

4.4.1 Heb gynnwys Prosiect GNN Wylfa, rhagwelir y bydd y galw am dai yn Ynys Môn yn cynyddu o ganlyniad i dwf yn nifer yr aelwydydd sy'n cael eu ffurfio a chynnydd yn y boblogaeth yn y tymor byr a chanolig. Yn y CDLlC sy'n cael ei ddatblygu mabwysiadwyd opsiwn 'twf canolig' o 7,665 o anheddau dros gyfnod y cynllun (i'w darparu ledled Ynys Môn a Gwynedd ond heb gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri). Yr opsiwn gofodol a ffefrir yw dosbarthu'r twf hwn yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau ganlynol (sydd wedi'i diffinio ym Mholisi Strategol PS3: Strategaeth Aneddleoedd yn Hoff Strategaeth y CDLlC):

- Canolfannau Gwasanaeth Trefol: Yn Ynys Môn y rhain yw Amlwch, Caergybi a Llangefni;
- Canolfannau Gwasanaeth Lleol: Yn Ynys Môn y rhain yw Biwmares, Benllech, Bodedern, Cemaes, y Gaerwen, Llanfairpwll, Porthaethwy, Pentraeth, Rhosneigr a'r Fali;
- Pentrefi: Mae'r rhain yn cynnwys pentrefi gwasanaethol (Gwalchmai, Niwbwrch, Llannerch-y-medd), pentrefi lleol a phentrefi arfordirol/gwledig.

4.4.2 Bydd y gwaith o adeiladu a gweithredu GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig yn denu gweithlu sylweddol i Ynys Môn. Mae'n debygol y bydd angen llety ar y gweithlu hwn ac, os na chaiff hyn ei gynllunio'n strategol, gallai gael effeithiau niweidiol sylweddol ar gymunedau ac amgylchedd Ynys Môn. Ym marn y Cyngor Sir, dylai'r llety gael ei leoli'n unol â strategaeth ofodol



gyffredinol y CDLlC sy'n cael ei ddatblygu gan ganolbwyntio ar aneddiadau Caergybi, Llangefni ac Amlwch. Oherwydd rôl a maint y canolfannau hyn, maent yn fwy tebygol o allu darparu ar gyfer llety i weithwyr adeiladu (er enghraifft, am fod amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau ar gael yno), gan leihau'r risg o effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol niweidiol. Drwy ganoli datblygu mewn aneddiadau mwy o'r fath, mae hefyd yn bosibl y bydd buddion yn cael eu creu i gymunedau a busnesau presennol, er enghraifft, drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau a darparu tai ar gyfer y tymor hwy. Er cydnabod y gall fod angen ychydig o ddarpariaeth llety ar brif safle GNN Wylfa, yn enwedig am ei fod mewn man gwledig ac anghysbell, mae polisi

cynllunio cenedlaethol a lleol presennol a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu yn nodi y dylai datblygu o'r fath fod ar raddfa gyfyngedig.

4.4.3 Mae hefyd yn debygol y bydd math a deiliadaeth y tai yn Ynys Môn yn newid ac y bydd mwy o angen i ddiwallu anghenion teuluoedd llai o ganlyniad i ostyngiad ym maint teuluoedd ar gyfartaledd a newidiadau diweddar yn y system budd-daliadau. Ar hyn o bryd, mae mwy o dai sengl yn Ynys Môn na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac felly llai o fflatiau a thai teras na'r cyfartaledd. Er bod prisiau tai yn Ynys Môn wedi gostwng ar gyfartaledd, mae'r gallu i sicrhau a fforddio llety wedi'i gyfyngu am fod incymau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mewn cysylltiad â hyn, mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn Ynys Môn (2013) yn dod i'r casgliad bod 24.8% o deuluoedd heb y gallu, mewn egwyddor, i fforddio tai ar y farchnad ac mae data o'r arolwg o aelwydydd a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad yn dangos nad yw 43.4% o'r teuluoedd sy'n bwriadu ffurfio yn Ynys Môn yn y ddwy flynedd nesaf yn gallu fforddio tai ar y farchnad (pe byddent yn symud tŷ yn awr). Mae'r Datganiad Darparu Tai Fforddiadwy 2007-2011 ar gyfer Ynys Môn yn egluro bod y Cyngor Sir wedi ymrwymo i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posibl o dai fforddiadwy ar gyfer ei breswylwyr ac i greu cymunedau integredig a chynaliadwy wrth wneud hynny.

4.4.4 Polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol sy'n darparu'r mecanwaith i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i fynnu bod canran benodol o dai newydd yn fforddiadwy. Ar lefel genedlaethol, mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn cynnwys targedau ar gyfer tai fforddiadwy ledled yr awdurdod yn eu cynlluniau datblygu gan eu seilio ar yr angen am dai a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Ymhlith y polisïau cyfredol sydd gan y Cyngor Sir sy'n berthnasol i hyn y mae Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy sy'n nodi y bydd yn rhaid cynnwys elfen o dai fforddiadwy ar safleoedd lle y mae 10 neu fwy o unedau (neu 5 neu fwy mewn pentrefi), yn unol â Pholisïau 51 a 52 yng Nghynllun Lleol Ynys Môn. Mae Polisi Cynllunio Dros Dro: Safleoedd Mawr (Polisi PT1) yn datgan bod datblygiadau o 50 neu fwy o anheddau i'w lleoli o fewn neu'n gyfagos i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch ac, ar safleoedd o'r fath, fod 50% o'r tai hynny i fod yn fforddiadwy oni bai fod hynny'n afresymol ar ôl ystyried yr holl ffactorau[18]. Ym Mholisi Strategol PS12 yn yr Hoff Strategaeth y ceir y polisi ar ddarparu tai

[18] Mabwysiadwyd Polisi Cynllunio Dros Dro: Safleoedd Mawr gan y Cyngor Sir ym mis Chwefror 2011. Nid yw'n rhan o'r Cynllun Datblygu ond mae'n ystyriaeth berthnasol wrth ystyried materion cynllunio. Mae'r Polisi yn hwyluso ceisiadau am lety preswyl ar raddfa fawr (mwy na 50 o unedau neu ar safleoedd o 1.5 hectar neu fwy) o fewn neu'n gyfagos i'r ffin ddatblygu. Gan mai pwrpas y Polisi Cynllunio Dros Dro yw hwyluso darpariaeth o gyflenwad tir ar gyfer 5 mlynedd yn Ynys Môn yn ystod y cyfnod cyn mabwysiadu'r CDLIC, ni fyddai ceisiadau am lety pwrpasol i weithwyr adeiladu ar gyfer gweithwyr adeiladu yn unig yn gyson â'r Polisi Cynllunio Dros Dro.

fforddiadwy ar gyfer y CDLlC sy'n cael ei ddatblygu. Mae hyn yn pennu'r cyfeiriad polisi ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol, y Canolfannau Gwasanaeth Lleol a'r Pentrefi Gwasanaethol yn Ynys Môn.

4.4.5 Bydd y Cyngor Sir yn ceisio sicrhau na fydd y mewnlifiad o weithwyr adeiladu yn cael effaith niweidiol ar y farchnad dai leol drwy ddadleoli aelwydydd presennol o lety presennol. Er mwyn sicrhau hynny, paratowyd Datganiad Sefyllfa ar Lety i Weithwyr Adeiladu GNN Wylfa gan y Cyngor Sir ym Mawrth 2011. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â gweithwyr adeiladu ac, ar sail astudiaethau a oedd wedi'u cynnal ar y pryd, yn galw am ddarparu llety y bydd un rhan o dair ohono wedi'i adeiladu'n bwrpasol, un rhan o dair yn dai rhent preifat ac un rhan o dair yn llety i ymwelwyr. Er mwyn lliniaru effeithiau'r GNN Wylfa arfaethedig ar y farchnad dai yn Ynys Môn, a helpu i gyd-drefnu'r defnydd gorau o'r sector rhent preifat, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect gyfrannu at ariannu Canolbwynt Tai. Bydd y Canolbwynt Tai:

- yn ceisio diwallu anghenion gweithwyr adeiladu am lety drwy gydol y cyfnod adeiladu gan ddelio â gofynion cyfnewidiol y cyflogwyr a'r angen am wasanaethau cymorth;
- yn rheoli adnoddau er mwyn lleihau'r pwysau ar y farchnad dai leol;
- yn rhoi cymorth i greu busnesau lleol a mentrau newydd i gwrdd â galwadau gweithlu GNN Wylfa;
- yn cwmpasu tai ac adfywio drwy ddatblygu model newydd a fydd yn cynnwys mentrau cymdeithasol a gwaith mewn partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys landlordiaid y sector preifat, er mwyn ymateb i'r heriau unigryw y bydd Ynys Môn a Phrosiect GNN Wylfa yn eu hwynebu. Ar ôl ei sefydlu, bydd y Ganolfan yn hunangynhaliol a bydd yn bosibl iddi gynnwys sectorau tai eraill.

4.4.6 Mae'n bosibl y bydd mewnlifiad o weithwyr adeiladu yn dwysáu problemau o ran fforddiadwyedd oherwydd y cynnydd yn y galw am dai. Lle y gwelir bod posibilrwydd o gael effaith niweidiol arwyddocaol sy'n anodd ei hosgoi, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect gyfrannu at gyflenwi tai fforddiadwy a thai at anghenion cymdeithasol, a fydd yn rhoi budd i gymunedau Ynys Môn wedi i'r cyfnod adeiladu ddod i ben.

4.4.7 Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd ac egwyddorion arweiniol eraill yn y CCA hyn a CCA eraill, bydd y Cyngor Sir hefyd yn disgwyl bod y llety i weithwyr adeiladu yn ymgorffori safonau dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel ac yn cael ei leoli fel y bydd yn hygyrch, yn lleihau'r angen am deithio, a heb effeithiau niweidiol ar hunaniaeth a chydlyniant cymunedol.

**EA 10 Llety i Weithwyr Adeiladu a Marchnad Dai Ynys Môn**

Dylid lleoli llety i weithwyr adeiladu'n unol â'r hierarchaeth aneddiadau a'r strategaeth ofodol sydd yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu (sydd wedi'u disgrifio yn y canllaw ar leoli yn **Adran 5** o'r CCA hyn), gan geisio canoli datblygiadau newydd yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch, ynghyd â thwf ar raddfa lai mewn canolfannau gwasanaeth lleol a phentrefi gwasanaethol gan ffafrio safleoedd tir llwyd. Dylai'r llety i weithwyr adeiladu hanfodol ar brif safle GNN Wylfa fod ar raddfa gyfyngedig ac wedi'i seilio ar gyfiawnhad cadarn o'r angen.

Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl y bydd y Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu a gyflwynir gan hyrwyddwr y prosiect yn cynnwys llety i weithwyr adeiladu sydd wedi'i rannu fel un rhan o dair yn adeiladau pwrpasol, un rhan o dair yn llety rhent preifat ac un rhan o dair yn llety i ymwelwyr, oni bai y bydd unrhyw newid i'r Datganiad Sefyllfa ar Lety Gweithwyr Adeiladu GNN Wylfa yn y dyfodol yn dangos (ar sail tystiolaeth gadarn) y byddai cyfuniad gwahanol yn fwy addas. Dylai'r llety newydd a gaiff ei adeiladu fod wedi'i ddylunio'n dda (o ran dyluniad pensaernïol, cynllun, graddfa, crynhoad a pherfformiad ynni) a dylid bod modd cyrraedd pob llety drwy foddau trafnidiaeth cynaliadwy.

Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect gynnwys y gofynion uchod mewn Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu a gyflwynir i ategu ceisiadau am ganiatâd. Dylid seilio'r Strategaeth hon ar ymchwil a gynhaliwyd gan y Cyngor Sir o ran goblygiadau posibl Prosiect GNN Wylfa i'r farchnad dai leol, a dylai'r Strategaeth hon:

- nodi mesurau i ddelio ag effeithiau niweidiol ar y farchnad dai leol, gan gynnwys darparu tai fforddiadwy, yn unol â'r polisi cynllunio lleol presennol a pholisi cynllunio lleol sy'n cael ei ddatblygu, ac yn ystyried y posibilrwydd o gael effeithiau cronnol ar y cyd â cheisiadau eraill yn Ynys Môn;
- lle bo hynny'n bosibl, sicrhau bod modd defnyddio'r llety ar ôl i'r cyfnod adeiladu ddod i ben drwy hyrwyddo llety newydd parhaol sy'n bodloni anghenion lleol, gan gynnwys tai fforddiadwy, tai i'r henoed a thai i bobl ag anghenion arbennig;
- sicrhau bod unrhyw lety dros dro i weithwyr adeiladu yn darparu buddion ar ôl i'r cyfnod adeiladu ddod i ben, fel plotiau â gwasanaeth ar gyfer datblygiadau preswyl yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol;
- pennu cyfleoedd i ddefnyddio adeiladau diddefnydd presennol fel ysgolion drwy eu haddasu'n llety i weithwyr adeiladu;
- cyfrannu at greu cymunedau gwledig bywiog;
- hyrwyddo dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol a lleol a chanllawiau yn y CCA ar Ddylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig ac sy'n lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn addasu iddynt;
- sicrhau bod llety i weithwyr adeiladu wedi'i leoli fel ei fod yn lleihau'r angen am deithio ac yn hyrwyddo'r ddarpariaeth a'r defnydd o foddau trafnidiaeth cynaliadwy;
- atal neu leihau effeithiau niweidiol ar amwynder, gan sicrhau bod cyfran

| EA 10 | Llety i Weithwyr Adeiladu a Marchnad Dai Ynys Môn |
|---|---|

y gweithwyr adeiladu sydd mewn lleoliad penodol yn gymesur â phroffil y gymuned bresennol;

- sicrhau bod y llety i weithwyr adeiladu a ddarperir yn gwarchod ac yn gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig Ynys Môn ac yn cael eu cynllunio, eu lleoli a'u dylunio mewn modd sy'n lleihau effeithiau ar safleoedd cadwraeth natur dynodedig (neu eu nodweddion nodedig) yn enwedig o ran amwynder hamdden;
- hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio gan gynnwys, lle y bo'n briodol, datblygu sgiliau iaith Gymraeg a gwerthfawrogi diwylliant Cymraeg (gweler **EA9** ac **EA13**);
- atal effeithiau niweidiol ar gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol drwy ddarparu llety mewn mannau lle y mae cyflenwad dros ben neu drwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau priodol lle y gellid cael effeithiau niweidiol fel arall.

Disgwylir i bob cais cynllunio ar gyfer llety gweithwyr adeiladu ddangos sut bydd y datblygiad arfaethedig yn cyflawni'r Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu.

Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect chwilio am gyfleoedd i ddarparu tai ar ôl cyfnod adeiladu'r prosiect. Gallai hyn olygu cadw llety (neu gadw plotiau â gwasanaeth y mae adeiladau dros dro wedi'u tynnu oddi arnynt) ar ôl y cyfnod adeiladu i'w defnyddio gan weithwyr gweithredu a/neu'r gymuned leol.

Wrth geisio sicrhau lle i un rhan o dair o'r gweithwyr adeiladu mewn llety rhent preifat, ac er mwyn delio â'r posibilrwydd o ddadleoli, dylai hyrwyddwr y prosiect roi cymorth i greu Canolbwynt Tai i helpu i gyd-drefnu'r defnydd gorau o lety yn y sector rhent preifat. Dylai hyrwyddwr y prosiect hefyd ystyried sefydlu Cronfa Tai/Llety er mwyn:

- hwyluso gwelliannau yn y sector rhent preifat yn Ynys Môn (o ran ansawdd a nifer y tai);
- hwyluso gostyngiad yn nifer y cartrefi gwag;
- creu'r gallu i ddarparu tai fforddiadwy.

**Cyflenwad Cudd**

4.4.8 Bydd y gweithlu sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa yn creu cyfleoedd economaidd i gymunedau presennol drwy'r galw am lety. Mae cyflenwad tai cudd yn cynnwys, er enghraifft, ystafelloedd gwag sydd ar gael i'w rhentu ac a allai fod ar gael i weithwyr GNN Wylfa, gan helpu i gynyddu incwm deiliaid tai. Er mwyn galluogi cymunedau i fanteisio ar y cyfleoedd hyn a darparu dewis eang o lety addas i'r gweithlu, dylai hyrwyddwr y prosiect geisio delio â'r cyflenwad cudd, mewn partneriaeth â sefydliadau a mentrau eraill yn Ynys Môn gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf.

| **EA 11** | **Cyflenwad Cudd** |
|---|---|
| Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa roi cymorth i gymunedau presennol i'w galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd economaidd sy'n deillio o anghenion llety gweithlu GNN Wylfa. Dylai'r hyrwyddwr baratoi Strategaeth Cymorth Cymunedol a fydd yn ceisio:<br>• Darparu cyngor a hyfforddiant i landlordiaid presennol a dichonol sy'n dymuno darparu llety i weithwyr (gan gynnwys tai llety);<br>• Rhoi cymorth i sefydlu Gwasanaeth Cynghori Tai a fydd yn cynnwys swyddog tai/llety a fydd yn bwynt cyswllt cyntaf i weithwyr adeiladu ac i landlordiaid presennol a dichonol. Bydd y gwasanaeth yn llunio rhestr o'r llety sydd ar gael ac yn monitro dosbarthiad y gweithwyr ledled Môn. | |

**Llety i Ymwelwyr**

4.4.9 Mae'n hanfodol cael sylfaen llety sylweddol ac amrywiol os yw Ynys Môn am fodloni gofynion cynyddol ymwelwyr a datblygu'r farchnad dwristiaeth ymhellach. Mae'r polisi cynllunio lleol sydd yng Nghynllun Lleol Ynys Môn a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu yn cydnabod bod llety i ymwelwyr yn rhan bwysig o'r arlwy i ymwelwyr yn Ynys Môn ac mae o blaid cadw llety o ansawdd uchel i ymwelwyr a darparu llety newydd o'r fath.

4.4.10 Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd yn 2011 i ddiweddaru gwybodaeth y Cyngor Sir am y sector llety[19] bod cyfanswm o 34,242 o welyau posibl ar gael yn Ynys Môn ar sail llety hunanarlwyo / gwersylla a charafanau (yn seiliedig ar fethodoleg Croeso Cymru). Dywedodd 75% o'r darparwyr llety y byddent yn awyddus i ddarparu llety i weithwyr adeiladu GNN Wylfa.

4.4.11 Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd un rhan o dair o'r llety i weithwyr adeiladu'n cael ei darparu yn y sector twristiaeth oni bai, fel y nodwyd yn **EA10**, y byddai unrhyw newid yn y dyfodol i'r Datganiad Sefyllfa ar Lety Gweithwyr Adeiladu GNN Wylfa yn dangos y byddai cyfuniad gwahanol yn fwy addas. Gall hyn fod o gymorth i economi twristiaeth Ynys Môn yn enwedig y tu allan i'r prif dymor gwyliau ac, os byddai'r llety newydd yn cael eu dylunio a'u lleoli'n briodol, mae'n bosibl y byddai modd eu defnyddio fel llety i ymwelwyr ar ôl cyfnod adeiladu'r prosiect, fel y bydd yn gwella'r arlwy i ymwelwyr yn Ynys Môn. Er hynny, mae'n bwysig sicrhau na fydd y defnydd o lety gan weithwyr adeiladu yn creu effeithiau niweidiol ar y sector twristiaeth drwy leihau'r arlwy llety i ymwelwyr ym Môn.

**EA 12 Llety i Ymwelwyr**

Wrth ddarparu llety i un rhan o dair o'r gweithwyr adeiladu yn y sector llety i ymwelwyr, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa sicrhau na fydd effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y sector hwnnw. Gellir cyflawni hyn drwy'r mesurau canlynol:

- Paratoi asesiad o'r effeithiau o anghenion llety gweithwyr adeiladu ar y sector twristiaeth, gan gynnwys darparwyr llety i ymwelwyr;
- Os nodir y bydd effeithiau niweidiol arwyddocaol, cymryd mesurau lliniaru, a fydd wedi'u nodi mewn Strategaeth Llety i Ymwelwyr, a all gynnwys darparu llety ychwanegol, defnyddio llety i ymwelwyr am ran o'r flwyddyn yn unig a dosbarthu gweithwyr adeiladu'n briodol yn y sector llety i ymwelwyr fel na fydd gormod ohonynt mewn mannau penodol.

Os darperir llety newydd, dylid ei ddylunio'n dda a'i leoli fel ei fod yn gynaliadwy. Yn unol ag **EA10**, bydd y Cyngor Sir yn ystyried yn benodol:

- Gwedd allanol y llety newydd ac ansawdd y deunyddiau a ddefnyddir;

[19] Cyngor Sir Ynys Môn (2012) *Arolwg o'r Stoc Gwelyau 2011.*

| EA 12 | Llety i Ymwelwyr |
|---|---|
| | • Cymeriad tirwedd neu dreflun y safle a'i gyffiniau;<br>• Effeithiau ar amgylchedd naturiol ac adeiledig Ynys Môn, gan gynnwys safleoedd cadwraeth natur dynodedig (neu eu nodweddion nodedig);<br>• Darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol;<br>• Y posibilrwydd o ailddefnyddio adeiladau diangen;<br>• Effeithiau ar amwynder, cydlyniant cymdeithasol a'r Gymraeg a'i diwylliant.<br>Dylid lleoli llety mewn mannau lle y bydd yn hawdd defnyddio moddau teithio cynaliadwy i gyrraedd cyfleusterau ac atyniadau sy'n berthnasol i ymwelwyr, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol a phrif safle GNN Wylfa.<br>Yn unol â'r polisi yng Nghynllun Lleol Ynys Môn, bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu meysydd carafanau newydd, neu ehangu rhai presennol, i letya gweithwyr adeiladu, oni bai fod modd dangos y bydd hynny o fudd i economi twristiaeth Ynys Môn. |

## 4.5 Y Gymraeg a'i Diwylliant

4.5.1 Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod y Gymraeg a'i diwylliant a threftadaeth yn elfennau annatod yng ngwead cymdeithasol cymunedau Ynys Môn a'u bod yn rhan ganolog o'r ymdeimlad o hunaniaeth sydd gan lawer o bobl. Roedd Cyfrifiad 2011 yn dangos bod tua 57.2% o bobl Ynys Môn yn siarad Cymraeg ac mae hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (19%).

4.5.2 Un o amcanion craidd Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn (2013) yw sicrhau bod Ynys Môn yn fan lle y mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn ffynnu. Fodd bynnag, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn wedi gostwng 2.9% ers Cyfrifiad 2001, cyfradd sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (1.7%). Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn amrywio hefyd o fewn Ynys Môn a cheir y cyfrannau mwyaf mewn ardaloedd mwy gwledig yng nghanol Môn.




4.5.3 Byddai mewnlifiad o weithwyr a'u teuluoedd yn ystod cyfnod adeiladu Prosiect GNN Wylfa, ac i lai o raddau yn y cyfnod gweithredu, yn gallu cael effaith arwyddocaol ar y diwylliant Cymraeg a'r cydbwysedd ieithyddol yng nghymunedau Ynys Môn. Mae TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013) yn datgan bod rhaid ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg lle y mae'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan arwyddocaol o wead cymdeithasol y gymuned neu ran ohoni.

4.5.4 Nodir ym mharagraffau 4.1.2 a 4.2.1 o TAN 20 na ddylai Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg gael ei gynnal ar gyfer ceisiadau cynllunio gan y byddai hyn yn dyblygu'r asesu sy'n rhan o'r broses o baratoi'r CDLl. Fodd bynnag, yn achos Ynys Môn, nid yw'r CDLlC wedi'i fabwysiadu eto ac nid oedd Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi'i gynnal ar gyfer NPS EN-1, NPS EN-6 na'r Cynllun Datblygu presennol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor Sir o'r farn bod pwysigrwydd y Gymraeg yn hunaniaeth Ynys Môn a graddfa Prosiect GNN Wylfa yn amgylchiad eithriadol sy'n cyfiawnhau ystyriaeth fanylach i effeithiau ieithyddol gan hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa yng nghyswllt y cais am GCD a cheisiadau am ddatblygiadau cysylltiedig.

4.5.5 Un o ofynion Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007) yw y bydd Datganiad Iaith yn cael ei gyflwyno ar gyfer ceisiadau am ddatblygiadau penodol sydd heb eu dyrannu'n ffurfiol yn y Cynllun Datblygu (heblaw am geisiadau gan ddeiliaid tai a cheisiadau bach eraill). Mae'r CCA hyn hefyd yn nodi'r trothwyon datblygu ar gyfer ceisiadau lle y bydd angen Asesiad o'r Effaith ar Iaith manylach.

| EA 13 | Cynnal a Chryfhau'r Gymraeg a'i Diwylliant |
|---|---|

Mae'r Cyngor Sir yn credu ei bod yn hanfodol bod Prosiect GNN Wylfa yn cynnal ac, os yw'n bosibl, yn cryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant fel rhan bwysig o wead cymdeithasol a hunaniaeth gymunedol Ynys Môn. Ym marn y Cyngor Sir, dylai hyrwyddwr y prosiect gyflwyno asesiad manwl o effeithiau ieithyddol (gan gynnwys effeithiau cronnol) gyda'r cais am GCD, a bod yr asesiad hwn yn ystyried yn llawn y cysylltiadau pwysig rhwng y Gymraeg a'i diwylliant a dyfodol cymunedau, datblygiad economaidd a darpariaeth gwasanaethau Ynys Môn.

Bydd y Cyngor Sir hefyd yn disgwyl i Ddatganiad Iaith Gymraeg (gan gynnwys adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn ymgeisio â Chomisiynydd y Gymraeg) gael ei gyflwyno gyda phob cais perthnasol am ddatblygiad cysylltiedig, ac Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg manylach ar gyfer ceisiadau mwy, yn unol â'r trothwyon a nodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007).

Dylid cymryd camau rhagweithiol, y bydd hyrwyddwr y prosiect a'r Cyngor Sir yn cytuno arnynt, i liniaru effeithiau niweidiol posibl ar y Gymraeg a'i diwylliant, ac i'w cryfhau. Dylai'r camau hyn gael eu nodi mewn Strategaeth Iaith Gymraeg a luniwyd gan hyrwyddwr y prosiect, a gallent gynnwys:

- Sefydlu marchnad lafur i siaradwyr Cymraeg a chontractau llafur lleol;
- Marchnata i ddenu gweithwyr crefftus sy'n siarad Cymraeg a oedd yn arfer byw yn Ynys Môn yn ôl i'r ynys;
- Sefydlu canolfannau Cymraeg newydd a chefnogi'r rhai presennol;
- Cyrsiau cynefino Cymraeg a gwersi i weithwyr adeiladu a gweithredu a'u teuluoedd;
- Helpu i ddarparu lle mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- Datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer dysgu Cymraeg i aelodau o weithlu GNN Wylfa nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg;
- Mentrau/prosiectau iaith a diwylliant i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau;
- Mesurau a thargedau y cytunwyd arnynt ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- Darparu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol (gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid) sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Darparu tai fforddiadwy i fodloni anghenion lleol (gweler EA10);
- Mentrau i hybu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant;
- Darparu arwyddion dwyieithog.

Disgwylir i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad cysylltiedig ddangos sut bydd y datblygiad arfaethedig yn cyflawni'r Strategaeth Iaith Gymraeg.

## 4.6 Trafnidiaeth

4.6.1 Mae adeiladu gorsaf pŵer niwclear newydd yn ymgymeriad peirianyddol mawr a fydd yn parhau am nifer o flynyddoedd ac yn galw am gyflogi nifer mawr o weithwyr a defnyddio llawer o ddeunyddiau adeiladu, nwyddau, offer a pheiriannau.

4.6.2 Yn ôl yr amcangyfrifon cychwynnol, rhagwelir y bydd angen mwy nag un miliwn o dunelli o ddeunyddiau i wneud concrid wrth adeiladu GNN Wylfa ac y bydd angen mwy na 5,000 o weithwyr ar y safle ar yr adegau prysuraf yn ystod y cyfnod adeiladu. Gallai cyfnod adeiladu'r prosiect bara tua 10 mlynedd. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y bydd angen mwy na 200 o symudiadau Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin i ddod â chydrannau mawr penodol i'r safle a gallai'r rhan fwyaf o'r symudiadau hyn ddigwydd o fewn cyfnod cymharol fyr o tua 12 mis.

4.6.3 Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod posibilrwydd sylweddol o gael tagfeydd mewn rhannau o'r rhwydwaith ffyrdd presennol os bydd rhan helaeth o'r llwythi ar gyfer adeiladu a theithiau i gludo gweithwyr yn digwydd ar ffyrdd. Er enghraifft, pe byddai deunyddiau i wneud concrid yn cael eu cyflenwi ar ffyrdd, mae'n bosibl y byddai angen mwy na 50,000 o symudiadau cerbydau nwyddau trwm. Hefyd, mae natur ddwys y gwaith o adeiladu'r orsaf bŵer yn debygol o alw am oriau gweithio hirach ar y safle a phatrwm o ddwy neu dair shifft. Felly, yn ogystal â thagfeydd ar y rhwydwaith ffyrdd, mae'n bosibl y ceir mwy o sŵn, ansawdd aer gwaeth, mwy o wahanu rhwng ardaloedd o boptu ffyrdd a gostyngiad mewn diogelwch ffyrdd a allai gael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd preswylwyr Ynys Môn, yn enwedig y rheini sy'n byw'n agos i lwybrau'r ffyrdd sy'n gwasanaethu prif safle GNN Wylfa.

4.6.4 Ar lefel fyd-eang ac Ewropeaidd, derbynnir bod cludiant yn cyfrannu'n helaeth at allyriadau nwyon tŷ gwydr a bydd angen cynllunio'n strategol i sicrhau bod allyriadau'n gostwng yn unol â Phrotocol Kyoto a Phapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd 2011. Mae'n debygol mai un o'r prif ffyrdd o leihau allyriadau fydd newid moddol o ffyrdd a rheilffyrdd i foddau trafnidiaeth ar ddŵr, a llai o ddefnydd o geir a bysiau sy'n rhedeg ar danwydd confensiynol mewn trefi a dinasoedd.

4.6.5 Derbynnir bod angen gwaith parhaus i reoli a gwella'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru gan gynnwys mannau allweddol ar yr A55 sef y prif lwybr rhydwelïol (Euroroute 22) sy'n cysylltu Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru â'r rhwydwaith traffyrdd cenedlaethol a'r cytrefi mwyaf tua'r dwyrain. Heblaw am yr A55, mae'r holl ffyrdd yn Ynys Môn yn cael eu cynnal gan y Cyngor Sir fel awdurdod priffyrdd.

4.6.6 Y prif lwybrau ffyrdd sy'n debygol o gael eu defnyddio i gyrraedd prif safle GNN Wylfa yw'r A5, yr A55 a'r A5025. Ar hyn o bryd, mae'r problemau pennaf o ran tagfeydd ar ffyrdd yn gysylltiedig â'r ddwy bont sy'n croesi i Ynys Môn ar draws Afon Menai (Pont Britannia ar yr A55 a Phont Menai ar yr A5), y ddwy ohonynt yn ffyrdd unffrwd sy'n agos at derfyn eu capasiti ar yr oriau brig ac yn fwyaf prysur o ran traffig yn ystod tymor gwyliau'r haf.

4.6.7 Mae astudiaethau wedi dangos ei bod yn bosibl y bydd cyfyngiadau ar y rhwydwaith mewn mannau. Mae'n bosibl y bydd y cyfyngiadau hyn yn galw am welliannau i briffyrdd, yn enwedig ar hyd yr A5025 ac ar rai cyffyrdd allweddol, er enghraifft Cyffordd 3 ar yr A55 (cyffordd yr A55/A5) a Chyffordd 1 ar yr A55 yng Nghaergybi lle y mae angen gwella'r trefniadau priffyrdd presennol i ddelio â thagfeydd sy'n gysylltiedig â thraffig y porthladd yn y cyfnodau prysuraf.



4.6.8 Byddai'r defnydd o foddau trafnidiaeth heblaw ffyrdd yn cael ei ffafrio ar sail polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae astudiaethau dichonoldeb a gynhaliwyd gan y Cyngor Sir a hyrwyddwr y prosiect[20] wedi dangos bod digon o gapasiti ar brif reilffordd Gogledd Cymru i gludo deunyddiau adeiladu swmpus i Ynys Môn ac mor bell â Chaergybi ac, yn benodol i safle blaenorol Aliwminiwm Môn. Nid oes digon o gapasiti ym Mhorthladd Caergybi ar hyn o bryd i ddadlwytho deunyddiau o'r fath oherwydd yr anghenion gweithredol presennol a'r arwynebedd cyfyngedig sydd ar gael i storio deunyddiau. Nid yw cyfleusterau presennol y porthladd yn ddelfrydol ychwaith ar gyfer trafod Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ond mae cyfleoedd ar gael i wella'r seilwaith presennol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r porthladd i fewnforio nwyddau adeiladu. Hefyd, byddai'n rhaid i unrhyw ddull sy'n ymwneud â symud deunyddiau dros y môr ystyried pwysigrwydd llwybr Môr Iwerddon a symudiadau traffig ffordd sy'n gysylltiedig â hynny ar draws Ynys Môn, sy'n elfen hanfodol o seilwaith twristiaeth Ynys Môn.

4.6.9 Mae cyfyngiadau yn seilwaith presennol y rheilffyrdd a'r porthladd gan y bydd yn rhaid trosglwyddo deunyddiau/Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin i ffyrdd

[20] Gweler Halcrow (2010) *The Heavy Route and MOLF Strategy Study, May 2010* a'r adolygiad ar ran y Cyngor Sir gan MDS Transmodal (2014) *Review of Heavy Route and MOLF Strategy Study Commissioned by Horizon Nuclear Power.*

i'w danfon ymlaen i brif safle GNN Wylfa ar hyd yr A5025 os na cheir gwelliannau ac ychwanegiadau sylweddol i'r seilwaith presennol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF) wedi'i adeiladu'n bwrpasol yn Wylfa a/neu MOLF dros dro yn gallu derbyn deunyddiau adeiladu swmpus a Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin.

4.6.10 Gellid lleihau nifer y teithiau ar hyd y rhwydwaith ffyrdd sirol i brif safle GNN Wylfa drwy sefydlu Canolbwynt Corfforaethol. Er enghraifft, os nad oes angen i weithwyr, ymwelwyr neu isgontractwyr fynd i'r safle ei hun, byddent yn gallu cynnal cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi yn y Canolbwynt Corfforaethol. Gellid darparu cyfleuster Parcio a Theithio ar gyfer y Canolbwynt Corfforaethol hefyd ar gyfer teithio ymlaen i brif safle GNN Wylfa mewn bysiau.

4.6.11 Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd y materion cludiant sy'n gysylltiedig ag adeiladu a rhedeg GNN Wylfa yn cael eu hasesu'n llawn ar ôl cael disgrifiad dibynadwy o broffil y deunyddiau, peiriannau, offer a gweithwyr sydd eu hangen i adeiladu Prosiect GNN Wylfa er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol. Wrth ddatblygu ei strategaeth trafnidiaeth, dylai hyrwyddwr y prosiect roi ystyriaeth lawn i'r Datganiad Sefyllfa Trafnidiaeth ar gyfer Gorsaf Niwclear Wylfa (2011), sy'n disgrifio'r dull o reoli y mae'r Cyngor Sir yn ei ffafrio ar gyfer symud nwyddau a phobl yn ôl ac ymlaen o brif safle GNN Wylfa. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i geisiadau eraill am ddatblygu yn Ynys Môn a chynlluniau a rhaglenni perthnasol sydd wedi'u paratoi gan y Cyngor Sir, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, y Strategaeth Beicio a'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2008-18.

| **EA 14** | **Trafnidiaeth** |
|---|---|
| Ar sail proffil dibynadwy o'r galw am ddeunyddiau adeiladu, peiriannau ac offer (gan gynnwys Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin), dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa ddiffinio dull logistaidd o gludo i brif safle GNN Wylfa a safleoedd datblygu cysylltiedig sy'n gwneud y defnydd mwyaf posibl o foddau trafnidiaeth ar reilffyrdd a dŵr. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio moddau trafnidiaeth ar reilffyrdd a dŵr yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a'r angen i leihau trafnidiaeth ar ffyrdd. Dylid egluro'r dull hwn mewn Cynllun Trafnidiaeth manwl sy'n rhoi disgrifiad clir o'r sail resymegol i'r dulliau a ddewiswyd a sut y gwneir defnydd o'r gwahanol foddau trafnidiaeth. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth yn nodi'n glir sut y cydymffurfir â chynlluniau a strategaethau trafnidiaeth presennol.<br>Dylai hyrwyddwr y prosiect wneud y defnydd gorau o ddarpariaeth y seilwaith presennol a gwella'r ddarpariaeth er mwyn rhoi buddion yn y cyfnod wedi i'r prosiect ddod i ben. Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl hefyd i hyrwyddwr y prosiect achub ar gyfleoedd i sicrhau buddsoddi cydgysylltiedig mewn seilwaith, gan ystyried buddsoddiadau strategol mawr eraill yn Ynys Môn.<br>Os bydd angen cyflwyno unrhyw geisiadau am ddatblygiadau trafnidiaeth mawr ar gyfer adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa, dylent gael eu hasesu gan | |

| EA 14 | Trafnidiaeth |
|---|---|

ddefnyddio methodoleg NATA/WelTAG. Dylai unrhyw geisiadau gynnwys cynlluniau a dyluniadau cynaliadwy a cheisio gwarchod a, lle bo'n bosibl, gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig Ynys Môn drwy roi blaenoriaeth i ddefnyddio tir llwyd addas, er enghraifft. Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i geisiadau gael eu gweithredu cyn cychwyn ar weithgareddau a fyddai'n arwain fel arall at effeithiau negyddol. Mae'n bwysig hefyd y bydd ceisiadau yn rhoi buddion i gymunedau ac economi Ynys Môn ar ôl i'r cyfnod adeiladu ddod i ben.

Os bydd angen defnyddio trafnidiaeth ffyrdd, dylai hyrwyddwr y prosiect asesu effeithiau posibl ar y seilwaith priffyrdd (ar eu pen eu hunain ac ar y cyd â cheisiadau eraill) a sicrhau bod gwelliannau i briffyrdd yn cael eu darparu lle y bo'n briodol i leihau tagfeydd, sicrhau diogelwch a lleihau effeithiau ar yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â sŵn, ansawdd aer a gwahanu ardaloedd o boptu ffyrdd.

Bydd disgwyl i hyrwyddwr y prosiect baratoi Cynlluniau Teithio Gwyrdd ar gyfer y datblygiad ym mhrif safle GNN ac ar gyfer datblygiadau cysylltiedig. Dylid sicrhau bod cyn lleied â phosibl o deithio o bell mewn car i brif safle GNN Wylfa a disgwylir y bydd hyrwyddwr y prosiect yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r angen am gyfleusterau, a'u lleoliadau, gan gynnwys cyfleusterau Parcio a Theithio, Parcio a Rhannu, cyfuno llwythi a Chanolbwynt Corfforaethol er mwyn lleihau maint y traffig ffyrdd a fydd yn defnyddio rhannau o'r rhwydwaith ffyrdd lle y gellir cael tagfeydd a/neu effeithiau amgylcheddol. Bydd angen llunio Cynllun Rheoli Traffig a fydd yn disgrifio ffyrdd o liniaru effeithiau niweidiol ar rannau allweddol o'r rhwydwaith (gan gynnwys, ymysg ffyrdd eraill, yr A55, yr A5 a'r A5025).

Drwy baratoi cynlluniau teithio priodol, dylai hyrwyddwr y prosiect ddangos sut y gwneir y defnydd gorau o foddau trafnidiaeth cynaliadwy i gyrraedd safle GNN Wylfa a safleoedd datblygu cysylltiedig. Rhai o'r mesurau i'w hystyried yw:

- Lleoli llety i weithwyr yn strategol er mwyn lleihau'r angen i weithwyr deithio mewn ceir preifat;
- Cyfyngu ar nifer y mannau parcio ceir ar brif safle GNN Wylfa;
- Hyrwyddo cyfleoedd i gerdded a beicio gan gynnwys camau i ddarparu llwybrau newydd i gerddwyr a beicwyr, a gwella'r rhai presennol yn unol â strategaethau presennol lle y bo'n briodol;
- Gwella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig bysiau a rheilffyrdd .

## 4.7 Cyfleustodau

4.7.1 Mae darparu cyfleustodau'n hollbwysig mewn sawl ffordd ar gyfer cyflawni Prosiect GNN Wylfa. Yn gyntaf, mae cyfleustodau (fel y seilwaith cyflenwi dŵr) a fydd yn hanfodol ar gyfer adeiladu a rhedeg yr orsaf pŵer niwclear newydd yn ogystal â safleoedd datblygu cysylltiedig fel rhai ar gyfer llety i weithwyr adeiladu. Yn ail, bydd y swyddi newydd a gaiff eu creu a'r mewnlifiad o weithwyr adeiladu a gweithredu, yn creu mwy o alw am gyfleustodau gan gynnwys cyflenwad dŵr, trin dŵr gwastraff, trydan, nwy a thelathrebu na fydd modd ei ddiwallu, o bosibl, drwy'r ddarpariaeth bresennol. Mae'n bwysig nodi y bydd y buddsoddi yn y seilwaith cyfleustodau o ganlyniad i Brosiect GNN Wylfa yn gallu sicrhau buddion hefyd i gymunedau lleol, yr amgylchedd a'r economi yn Ynys Môn a fydd yn parhau wedi i gyfnod y prosiect ddod i ben.

4.7.2 Mae NPS EN-6 (paragraff 3.15.2) yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgeiswyr yn dangos na fydd ceisiadau'n cael effaith niweidiol ar seilwaith pwysig. Mae Polisi Strategol PS20: Isadeiledd Cymunedol yn yr Hoff Strategaeth ar gyfer y CDLlC hefyd yn mynnu bod seilwaith ffisegol priodol (gan gynnwys cyfleustodau) yn cael ei ddarparu'n amserol lle y mae ei angen ar gyfer datblygiad newydd. Felly bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect ddangos na fyddai GNN Wylfa na'r datblygiadau cysylltiedig yn cael effaith niweidiol ar y ddarpariaeth bresennol o gyfleustodau yn Ynys Môn, ac y bydd y gwaith angenrheidiol i wella'r gallu presennol i ddarparu ar gyfer Prosiect GNN Wylfa yn cael ei gyflawni'n amserol.

4.7.3 Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyflenwadau dŵr a'r defnydd ohonynt. Mae Dŵr Cymru yn nodi yn ei Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (2014) y bydd diffyg rhwng y cyflenwad a'r galw am ddŵr yn Ynys Môn yn 2023/24 ond y gallai'r diffyg fod yn fwy a digwydd ynghynt o ganlyniad i weithredu'r orsaf bŵer newydd. Mae Astudiaeth o'r Cylch Dŵr[21] a baratowyd ar gyfer y CCA hyn wedi dangos y bydd y galw ychwanegol yn ystod y cyfnod adeiladu, gan gynnwys y galw gan weithwyr adeiladu, yn gallu rhoi pwysau mawr ar gyflenwadau dŵr a'i bod yn bosibl y bydd angen mesurau ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad dŵr ar ben y rheini a nodwyd yn y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y bydd angen ehangu system y rhwydwaith carthffosiaeth mewn rhai mannau a gwella'r seilwaith trin dŵr gwastraff, yn ôl y dosbarthiad o weithwyr adeiladu.

4.7.4 Byddai'r datblygu newydd sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa yn gallu cael effaith yn syth ar y seilwaith trydanol presennol mewn rhai mannau. Yn benodol, mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o gyfyngiadau ar gapasiti yng Nghaergybi, Llangefni, Gaerwen, ardal Llanfairpwll/Porthaethwy ac Amlwch.

[21] AMEC (2014) *Outline Water Cycle Study*.

4.7.5 Mae'n bosibl y bydd angen cysylltu rhai safleoedd datblygu â'r brif bibell dosbarthu nwy.

4.7.6 Byddai'r datblygu newydd sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa yn gallu cael effaith ar rwydwaith presennol y seilwaith telathrebu mewn rhai mannau.

4.7.7 Lle y mae hynny'n bosibl, dylai hyrwyddwr y prosiect bennu cyfleoedd, drwy gydgysylltu â darparwyr cyfleustodau, ar gyfer unrhyw fuddsoddi mewn seilwaith sydd ei angen ar gyfer Prosiect GNN Wylfa (er enghraifft, telathrebu) er mwyn dod â buddion parhaol ehangach i gymunedau.

| **EA 15** | **Darparu Cyfleustodau** |
|---|---|
| Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa ddangos, drwy gydgysylltu â darparwyr gwasanaethau allweddol ac ar sail asesiad dibynadwy o'r cyflenwad a'r galw, na fydd effaith niweidiol oherwydd ymyrraeth neu gynnydd yn y galw ar y seilwaith cyfleustodau (cyflenwad dŵr, gan gynnwys cyflenwad dŵr preifat, trin dŵr gwastraff, trydan, nwy a thelathrebu) o ganlyniad i adeiladu a gweithredu GNN Wylfa neu ddatblygiadau cysylltiedig.<br>Lle y mae angen uwchraddio'r seilwaith cyfleustodau presennol, neu ddarparu seilwaith newydd, i ddelio ag effeithiau a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r prosiect, dylid cytuno ar hyn gyda'r darparwr gwasanaeth perthnasol a'i gyflawni'n amserol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn dilyn ei amserlen ac na fydd effeithiau niweidiol yn y cyfamser ar y ddarpariaeth bresennol, yr amgylchedd nac ar wasanaethau ecosystem[22]. Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl hefyd i hyrwyddwr y prosiect chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi mewn ffordd gydgysylltiedig i ddarparu cyfleustodau, gan ystyried buddsoddiadau strategol mawr eraill yn Ynys Môn.<br>Bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r seilwaith cyflenwi dŵr a thrin dŵr gwastraff yn Ynys Môn a dylai hyrwyddwr y prosiect gynnal trafodaethau cynnar â Dŵr Cymru i asesu'r effeithiau posibl o GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig ar adnoddau dŵr.<br>Bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n gwella'r ddarpariaeth o gyfleustodau yn Ynys Môn er budd i'w chymunedau, ei heconomi a'i hamgylchedd os ydynt yn gyson â chanllawiau eraill yn y CCA hyn, polisïau yn y Cynllun Datblygu a'r CDU a Ataliwyd, polisi cynllunio cenedlaethol a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu. | |

[22] Diffinnir Gwasanaethau Ecosystem gan Defra fel gwasanaethau a ddarperir gan yr amgylchedd naturiol sydd o fudd i bobl. Mae'r buddion hyn yn cynnwys: adnoddau sylfaenol er mwyn goroesi, fel dŵr ac aer glan; cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol da, er enghraifft drwy allu defnyddio mannau gwyrdd yng nghefn gwlad ac mewn trefi, ac adnoddau genetig ar gyfer meddyginiaethau; gwarchod rhag peryglon drwy reoleiddio ein cylch dŵr a'n hinsawdd; cymorth i sicrhau economi gadarn ac iach, drwy ddeunyddiau craidd ar gyfer diwydiant ac amaethyddiaeth, neu drwy dwristiaeth a hamdden; a buddion cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol, a lles ac ysbrydoliaeth yn dilyn ymwneud â natur. Am fwy o wybodaeth ewch i https://www.gov.uk/ecosystems-services.

## 4.8 Gwastraff

### Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy

4.8.1 Mae polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chynlluniau a rhaglenni eraill ar lefel Ewropeaidd, genedlaethol, ranbarthol a lleol yn rhoi pwys ar yr angen i sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli'n unol â'r hierarchaeth gwastraff ac egwyddor agosrwydd. Yn benodol, dylai Prosiect GNN Wylfa roi cymorth i gyflawni Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y strategaeth wastraff gyffredinol i Gymru, a'r cynlluniau sector sy'n ei hategu, sydd â'r nod cyffredinol o beidio â chynhyrchu gwastraff gweddilliol erbyn 2050.

4.8.2 Mae angen sicrhau bod cyfleusterau ar waith sydd wedi'u lleoli a'u dylunio'n ddigonol ac yn briodol i reoli gwastraff sy'n codi o adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa, gan gynnwys unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig.

4.8.3 Gellir rhannu'r gwastraff sydd i'w reoli mewn cysylltiad â Phrosiect GNN Wylfa yn bedwar math: trefol (h.y. o gartrefi), masnachol a diwydiannol, adeiladu a dymchwel, a niwclear (ymbelydrol). Gan mai ef yw'r Awdurdod Casglu a Gwaredu Gwastraff, mae dyletswydd statudol ar y Cyngor Sir i gasglu gwastraff domestig o'r holl anheddau yn Ynys Môn, a bydd hyn yn cynnwys y gwastraff domestig sy'n gysylltiedig â gweithlu adeiladu a gweithredu'r prosiect.



4.8.4 Gan gymryd y bydd cartrefi ychwanegol yn cynhyrchu swm o wastraff sy'n debyg i hynny o'r cartrefi presennol yn Ynys Môn, rhagwelir y bydd hyn yn arwain at gynnydd o tua 6% yn y gwastraff sy'n codi yn ystod y cyfnod adeiladu a chynnydd o tua 1.2% yn y tymor hwy[23].

4.8.5 O ran gwastraff masnachol a diwydiannol a gwastraff o adeiladu a dymchwel, nid oes dyletswydd statudol ar y Cyngor Sir i ddarparu cyfleusterau i ddelio â'r mathau hyn o wastraff: cyfrifoldeb y sefydliad sy'n cynhyrchu'r gwastraff yw sicrhau y caiff ei waredu neu ei ailddefnyddio/ailgylchu mewn modd priodol a diogel. Mae'n ymddangos bod cystadleuaeth a chapasiti da ar gyfer trin a gwaredu gwastraff masnachol (h.y. gwastraff masnachol a diwydiannol yn ogystal â gwastraff o adeiladu, dymchwel a chloddio), er ei bod yn debygol y

[23] AMEC (2014) *Waste Management Review - Prepared in Support of the New Nuclear Build at Wylfa: Supplementary Planning Guidance*.

bydd angen cyfleusterau y tu allan i Ynys Môn i waredu gwastraff na ellir ei ailgylchu.

| **EA 16** | **Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy** |
|---|---|
| Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa sicrhau, drwy gydgysylltu â'r Cyngor Sir, fod egwyddorion rheoli gwastraff cynaliadwy yn cael eu dilyn wrth adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa. Yn unol â gofynion cenedlaethol, rhaid darparu Cynllun Rheoli Gwastraff Safle ar gyfer pob safle er mwyn hyrwyddo rheoli cynaliadwy ar wastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff, a lleihau maint y gwastraff sy'n cael ei gludo yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Dylai'r cynllun hwn fod ar waith cyn dechrau'r gwaith adeiladu a dylai fod yn gyson â'r canllawiau ar yr arferion gorau.<br>Dylai hyrwyddwr y prosiect sicrhau (drwy gydgysylltu â'r Cyngor Sir a darparwyr gwasanaethau) fod unrhyw seilwaith sydd ei angen i reoli gwastraff yn cael ei ddarparu'n amserol ar gyfer adeiladu a gweithredu ar brif safle GNN Wylfa a safleoedd datblygu cysylltiedig. Dylid cynnal adolygiad optimeiddio casglu i ystyried unrhyw newid yn nosbarthiad y clystyrau poblogaeth a'r graddau y mae hyn yn rhoi pwysau ar y systemau casglu a gwaredu gwastraff. Os yw'n bosibl, dylid ailddefnyddio deunyddiau gwastraff ar y safle.<br>Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect ddangos na fydd y gweithgareddau rheoli gwastraff sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa yn cael effaith niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â cheisiadau eraill, ar yr amgylchedd neu iechyd pobl. | |

**Storio Gwastraff Niwclear**

4.8.6 Y dull o waredu gwastraff niwclear sydd wedi'i bennu gan Lywodraeth y DU yw bod gwastraff o'r fath i gael ei storio'n ddiogel dros dro yn y cyfnod cyn ei waredu'n ddaearegol. Mae NPS EN-6 (paragraff 2.11.3) yn datgan bod y Llywodraeth, ar ôl ystyried y dadleuon ynghylch gwastraff ymbelydrol, wedi'i bodloni y bydd trefniadau effeithiol ar gael i reoli a gwaredu gwastraff a gynhyrchir mewn gorsafoedd pŵer niwclear newydd ac na ddylai'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried hyn ymhellach. Er hynny, dylid ystyried ceisiadau am gyfleusterau rheoli gwastraff (fel cyfleusterau storio dros dro) sy'n rhan o ddatblygiad gorsaf niwclear newydd neu'n ddatblygiad cysylltiedig. Felly, mae'r Cyngor Sir yn credu ei bod yn hanfodol rhoi arweiniad priodol yn y CCA hyn ar gyfer cyfleusterau storio gwastraff dros dro.

4.8.7 Mae'n debygol y bydd y ceisiadau ar gyfer GNN Wylfa yn cynnwys rhai cyfleusterau storio dros dro ar gyfer rheoli a storio gwastraff ymbelydrol lefel uwch. Mewn cysylltiad â hyn, mae Polisi Strategol PS7: Datblygiad yn Ymwneud â Niwclear yn yr Hoff Strategaeth ar gyfer y CDLlC yn nodi:

"*Byddai angen i unrhyw gynnig (tu allan i Orchymyn Caniatâd Datblygu) ar gyfer trin, storio neu gael gwared â Gwastraff Lefel Isel Iawn, Lefel Isel neu Lefel Canolig neu i drin neu storio gweddillion tanwydd sy'n deillio o'r orsaf pŵer niwclear bresennol neu unrhyw ddatblygiad niwclear yn y dyfodol ... mewn cyfleuster sy'n bodoli'n barod neu yn yr arfaeth ar neu du allan i'r safle niwclear fod:*

*a. gyda chyfiawnhad cryf drosto;*

*b. yn dangos bod yr ardrawiadau cynllunio'n dderbyniol; a hefyd*

*c. ddangos y byddai'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gryfach nag unrhyw effeithiau negyddol.*"

4.8.8 Felly bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect ddangos bod cyfiawnhad llawn dros y cynigion ar gyfer storio gwastraff dros dro ac na fyddant yn cael effeithiau niweidiol ar gymunedau lleol, yn enwedig o ystyried bod canfyddiadau negyddol yn aml ynghylch cyfleusterau storio gwastraff niwclear ac ansicrwydd am y cyfnod y bydd angen ei storio.

4.8.9 Dylid deall yn glir nad oes unrhyw beth yn y CCA hyn sy'n bwriadu rhoi sylw i waredu gwastraff uchel ei actifedd yn ddaearegol , fel y defnyddir y term hwnnw yn y ddogfen NPS EN-6 (paragraff 2.11.2) h.y. gweddillion tanwydd a gwastraff lefel canolig. Byddai gofyn cael caniatâd ar gyfer cyfleuster o'r fath yn gwbl ar wahân i'r GNN.

| **EA 17** | **Cyfleusterau Storio Gwastraff Niwclear** |
|---|---|

Bydd y Cyngor Sir yn ystyried ceisiadau sy’n ymwneud â storio gwastraff niwclear dros dro ar sail eu rhinweddau penodol. Rhaid cael cyfiawnhad llawn drostynt, ac ystyried opsiynau eraill rhesymol. Wrth ddatblygu ceisiadau o’r fath, dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa sicrhau bod mesurau i liniaru unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol neu amgylcheddol niweidiol a allai godi mewn cysylltiad ag adeiladu a rhedeg y cyfleusterau storio gwastraff niwclear. Yn benodol, mae’r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd hyrwyddwr y prosiect:

- yn nodi ac yn asesu’r effeithiau posibl o storio gwastraff niwclear, gan gynnwys peryglon radiolegol;
- yn ymgysylltu’n llawn â chymunedau Ynys Môn a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth ddatblygu ceisiadau ar gyfer storio gwastraff niwclear;
- yn cymryd mesurau lliniaru a/neu fesurau cydbwyso y cytunir arnynt â’r Cyngor Sir, os nodwyd bod posibilrwydd o gael effeithiau niweidiol ar gymunedau lleol, yr economi neu’r amgylchedd;
- yn disgrifio mesurau priodol ar gyfer datgomisiynu ac adfer y safle lle y mae’r cyfleusterau storio gwastraff dros dro, os bydd hyn yn digwydd o fewn cyfnod sy’n hysbys pan wneir y ceisiadau am GCD neu ddatblygiadau cysylltiedig;
- os nad yw’r cyfnod ar gyfer datgomisiynu yn hysbys, yn ymrwymo (ar adeg cyflwyno’r cais) i roi manylion y mesurau ar gyfer datgomisiynu ac adfer y safle ar adeg y cytunir arni drwy drafod rhwng y partïon perthnasol.

## 4.9 Y Newid yn yr Hinsawdd

### Lliniaru Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd



4.9.1 Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fater allweddol i'w ystyried wrth lunio polisi, ac mae'n dylanwadu fwyfwy ar fframweithiau a thargedau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru[24] wedi ymrwymo i darged ar gyfer Cymru o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% o flwyddyn i flwyddyn, yn ogystal â gostyngiad o 40% erbyn 2020 (o'i gymharu â ffigurau 1990). Rhaid i Gymru gyfrannu hefyd at gyrraedd targedau'r DU ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% erbyn 2050 a chynhyrchu 30% o'i thrydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020.

4.9.2 Gan fod cynhyrchu ynni yn un o brif ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae ynni carbon isel yn gallu helpu i gyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae cynhyrchu ynni carbon isel yn cael ei gefnogi ym mholisi cynllunio'r DU, gan gynnwys NPS EN-1, sy'n nodi'r pwysigrwydd o wneud defnydd helaeth o ynni adnewyddadwy, gallu cynhyrchu niwclear newydd a mesurau i ddal a storio carbon, a hefyd ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu.

4.9.3 Er bod Llywodraeth y DU yn diffinio pŵer niwclear fel ffynhonnell ynni carbon isel, mae'n bosibl y bydd allyriadau sylweddol o nwyon tŷ gwydr yn cael eu cynhyrchu yng nghyfnod adeiladu'r datblygiad a fydd yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Byddai'r mathau o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â hyn yn cynnwys carbon wedi'i gorffori mewn nwyddau a deunyddiau, ac allyriadau o gludo deunyddiau a phersonél yn ôl ac ymlaen i brif safle GNN Wylfa. Gellir helpu i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr hyn drwy ddylunio deunyddiau fel eu bod yn gynaliadwy a'u hailddefnyddio. Mae NPS EN-1 yn nodi bod cynaliadwyedd yn agwedd bwysig ar ddatblygiadau ac y dylent ddefnyddio adnoddau naturiol a'r ynni ar gyfer eu hadeiladu a'u rhedeg mewn ffordd effeithlon. Hefyd, oherwydd y carbon sydd wedi'i gorffori mewn deunyddiau adeiladu, allyriadau o drafnidiaeth a'r defnydd o ynni ar gyfer

[24] Mae hyn wedi'i nodi yn *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru, 2009).*

adeiladu a dymchwel, mae adeiladweithiau parhaol, yn hytrach na rhai dros dro, yn cael eu hystyried yn fwy cynaliadwy.

4.9.4 Mae'r ddogfen Renewable Energy Capacity Assessment for Anglesey (2013) a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn yn nodi bod cyfleoedd mawr i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yn Ynys Môn, ac mai pŵer y llanw sydd â'r potensial mwyaf. Mae ynni gwynt ar y tir (gan gynnwys ynni gwynt ar raddfa micro) a microgynhyrchu (systemau solar ffotofoltäig a solar thermol etc) yn cael eu hystyried yn economaidd hyfyw hefyd. Felly, mae'n debygol y bydd cyfle i gynnwys dulliau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ym Mhrosiect GNN Wylfa, ar brif safle GNN Wylfa a/neu mewn datblygiadau cysylltiedig.

4.9.5 Bydd cyfleoedd pwysig pellach i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd drwy Brosiect GNN Wylfa gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo teithio carbon isel (er enghraifft, lleihau'r defnydd o gerbydau a defnyddio cerbydau ecogyfeillgar) a hybu effeithlonrwydd ynni a lleihau'r galw am ynni. Mae lle pwysig i bob un o'r rhain wrth liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a chyrraedd targedau.

**EA 18 Lliniaru ar Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd**

Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa geisio lleihau'r cyfraniad gan y prosiect at y newid yn yr hinsawdd drwy gamau a fydd yn cynnwys paratoi a gweithredu Cynllun Rheoli Carbon.

Dylid cynnwys mesurau mewn ceisiadau i hybu dylunio ac adeiladu cynaliadwy gan gynnwys:

- Ailddefnyddio adeiladau a deunyddiau, gan gynnwys rhai yn yr orsaf pŵer niwclear Magnox bresennol;
- Defnyddio deunyddiau adeiladu o ffynonellau cynaliadwy sy'n corffori llai o garbon;
- Cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni yng nghynllun a dyluniad adeiladau newydd;
- Adnewyddu adeiladau presennol i'w gwneud yn fwy ynni-effeithlon os yw'n briodol;
- Cyfleusterau sydd o gymorth i ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff;
- Defnyddio cynhyrchion a dyluniadau sy'n effeithlon o ran dŵr.

Er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â defnyddio ynni, dylid cynnwys darpariaeth mewn ceisiadau ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y safle os bydd hyn yn economaidd hyfyw (neu, os na fydd yn hyfyw, disgwylir cyfraniadau i leihau allyriadau y tu allan i'r safle).

Dylid cynnwys mesurau mewn ceisiadau i hybu teithio cynaliadwy er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â theithio (gweler **EA14**).

Disgwylir i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad cysylltiedig ddangos sut bydd y

datblygiad arfaethedig yn cyflawni'r Cynllun Rheoli Carbon.

**Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd**

4.9.6 Mae Prosiect GNN Wylfa hefyd yn wynebu bygythiadau oherwydd y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig drwy berygl o lifogydd a difrod i seilwaith am fod lefelau'r môr yn codi, newid yn yr arfordir, cynnydd mewn tymheredd a newid mewn patrymau glawiad. Pennwyd bod y perygl o lifogydd ar ochr ogleddol Ynys Môn, lle y mae prif safle'r GNN arfaethedig, yn isel o'i gymharu â rhannau eraill o'r arfordir. Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd ar y glannau gorllewinol ac mae'r prif berygl o lifogydd ar yr arfordir yn yr ardal leol yn deillio o donnau sy'n gorlifo'r amddiffynfeydd. Mae NPS EN-6 Cyfrol II yn cynnwys cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar berygl o lifogydd ar safle Wylfa sy'n nodi y gellir ei ddiogelu rhag y perygl o lifogydd drwy gydol ei oes weithredol am ei fod ar ben clogwyn. Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 (2012), a gyhoeddwyd yn fwy diweddar, yn nodi y bydd y perygl o orlifo'r amddiffynfeydd llifogydd presennol yn cynyddu wrth i lefel y môr godi. Mae'r cynllun yn argymell monitro'r amddiffynfeydd presennol yn y dyfodol, ond yn nodi bod yr amddiffynfeydd yn annhebygol o fethu yn ystod cyfnod 100 mlynedd Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru (CRhLlD) (2009).

4.9.7 Er bod y perygl o lifogydd ar brif safle GNN Wylfa yn cael ei ystyried yn fach, mae'r CRhLlD yn nodi bod llifogydd yn digwydd ar afonydd mewn rhai mannau ledled Ynys Môn ar hyn o bryd, a bod llifogydd difrifol dan effaith y llanw mewn rhai ardaloedd. Yn ogystal â hyn, mae tystiolaeth o lifogydd dŵr wyneb a llifogydd o garthffosydd yn Ynys Môn. Mae tua 1,000-2,500 o adeiladau yn Ynys Môn lle y nodwyd bod tebygolrwydd 'arwyddocaol' o lifogydd (sef tebygolrwydd o fwy nag 1 mewn 75 (1.3%) o gael llifogydd mewn un flwyddyn), a rhagwelir y bydd y tebygolrwydd yn cynyddu yn ystod y ganrif nesaf oherwydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (os na chymerir camau ataliol).

4.9.8 Yn unol â NPS EN-6, rhaid i brif safle GNN Wylfa fod yn un sy'n gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth allweddol hefyd ar gyfer datblygiadau cysylltiedig. Mae Polisi Cynllunio Cymru, TAN15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd, y Cynllun Datblygu a'r CDU a Ataliwyd a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu yn ceisio lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle y mae perygl o lifogydd a sicrhau bod datblygiadau newydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

4.9.9 Yn ogystal â mesurau sy'n ymwneud â lleoliad a chynllunio a dylunio ar safleoedd, rhagwelir y bydd cyfleoedd i hyrwyddwr y prosiect gyfrannu at gynigion ar gyfer seilwaith atal llifogydd, un ai ar brif safle GNN Wylfa neu mewn mannau eraill yn Ynys Môn. Gall hyn gynnwys monitro a'r posibilrwydd o godi amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyd 2km o arfordir gogledd Ynys Môn

(fel y nodwyd yng Nghynllun Rheoli Traethlin 2); camau i atal llifogydd mewn trefi a phentrefi ac ar seilwaith trafnidiaeth; rheoli llifogydd lleol sydd wedi'u hachosi gan ddŵr wyneb neu garthffosydd; neu gymryd rhan mewn cynlluniau rhybuddio rhag llifogydd a allai gael eu sefydlu.

| **EA 19** | **Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd** |
|---|---|
| Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig drwy gynnwys dulliau priodol o ddylunio, cynllunio ac adeiladu a fydd yn gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, e.e. cynnydd mewn tymheredd a thywydd mwy eithafol. Un agwedd ar hyn yw defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy i reoli dŵr wyneb a lleihau perygl o lifogydd.<br><br>Er mwyn eu gwneud yn fwy cydnerth, dylid lleoli datblygiadau cysylltiedig lle y gellid cael difrod, gan gynnwys llety i weithwyr adeiladu, oddi wrth ardaloedd lle y mae perygl o lifogydd. Lle y ceir datblygiadau hanfodol mewn ardaloedd lle y mae perygl o lifogydd, dylid eu dylunio fel y byddant yn parhau i weithredu os ceir llifogydd a dylid darparu ar gyfer storio dŵr llifogydd i gydbwyso hyn. Rhaid cyflwyno cynlluniau ar gyfer rhybuddio rhag llifogydd a gwagio safleoedd gyda cheisiadau o'r fath.<br><br>Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect gyfrannu at wella/adeiladu seilwaith a dulliau ar gyfer rheoli perygl llifogydd lle y maent yn angenrheidiol i ddiogelu cynlluniau Prosiect GNN Wylfa rhag effeithiau hirdymor y newid yn yr hinsawdd. Rhaid i gynigion o'r fath fod yn gyson hefyd â strategaethau perthnasol eraill ar gyfer lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt mewn ardaloedd lle y mae perygl o lifogydd, gan gynnwys Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru, a rhaid eu seilio ar ymgynghori â chyrff perthnasol gan gynnwys y Cyngor Sir, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Sefydliad Rheoli Morol. | |

## 4.10 Yr Amgylchedd Naturiol

### Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Thirwedd

4.10.1 Mae amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol ar y tir, ar yr arfordir ac yn y môr yn Ynys Môn. Mae bron y cyfan o arfordir Ynys Môn wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) oherwydd amrywiaeth y tirweddau hardd ar yr arfordir, ac mae rhannau ohoni wedi'u dynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae rhannau o'r AHNE o fewn prif safle arfaethedig GNN Wylfa ac mae'r Arfordir Treftadaeth yn agos iawn iddo.




4.10.2 Ceir asedau pwysig ar gyfer bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn Ynys Môn, fel y mae'r nifer mawr o safleoedd â dynodiad Ewropeaidd a chenedlaethol yn dangos. Caiff safleoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd eu dynodi er mwyn gwarchod cynefinoedd naturiol a rhywogaethau bywyd gwyllt sy'n brin, mewn perygl neu'n agored i niwed yn y Gymuned Ewropeaidd. Yn y DU, mae'r rhain yn rhan o rwydwaith 'Natura 2000' o safleoedd sydd wedi'u gwarchod o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y CE (1992). Ymhlith y safleoedd Ewropeaidd yn Ynys Môn y mae wyth Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac un safle Ramsar. Mae prif safle arfaethedig GNN Wylfa yn agos i ddau safle sydd â dynodiad Ewropeaidd: ACA Bae Cemlyn ac AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid. Mae AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid yn cynnwys tair ardal ar wahân sy'n bwysig i bedair rhywogaeth o wenoliaid y môr sy'n nythu ynddynt. Yn ogystal â hyn, mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof, cynefin gwlyptir corsiog cyfoethog sy'n agored i effeithiau o newidiadau mewn maint ac ansawdd dŵr, o fewn ffin safle GNN Wylfa.

4.10.3 Mae Ynys Môn wedi'i dynodi'n geoparc gyda chymeradwyaeth UNESCO, sef GeoMôn. Mae Geoparc yn diriogaeth sydd â threftadaeth ddaearegol o bwysigrwydd Ewropeaidd a strategaeth datblygu cynaliadwy sy'n cynnwys strwythur rheoli cadarn. Nod y dynodiad yw diogelu geoamrywiaeth, hyrwyddo treftadaeth ddaearegol ymysg y cyhoedd a hybu datblygu economaidd cynaliadwy mewn geoparciau, yn bennaf drwy ddatblygu twristiaeth ddaearegol.

4.10.4 Mae **Ffigur 4.2** yn dangos safleoedd â dynodiad Ewropeaidd neu genedlaethol yn Ynys Môn.

**Ffigur 4.2 Safleoedd â Dynodiad Ewropeaidd neu Genedlaethol yn Ynys Môn**




4.10.5 Mae polisi cynllunio cenedlaethol a lleol, yn ogystal â chynlluniau a rhaglenni eraill ar lefel Ewropeaidd, genedlaethol a lleol, yn rhoi pwys ar sefydlu'r egwyddor o warchod yr amgylchedd naturiol. Ceir cydnabyddiaeth glir hefyd i'r gydberthynas rhwng gwarchod a gwella'r amgylchedd a materion allweddol eraill fel y newid yn yr hinsawdd, iechyd, hamdden, twristiaeth a datblygu economaidd. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y dull y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnig ar gyfer rheoli'r amgylchedd naturiol yn y dyfodol yn y Papur Gwyrdd '<u>Cynnal Cymru Fyw</u>' (2012). Mae hyn yn ymwneud â mabwysiadu dull rheoli ar lefel yr ecosystem a pholisïau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gyson ac integredig.

4.10.6 Mae'r amgylchedd naturiol yn ystyriaeth allweddol ar gyfer GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig. Gall Prosiect GNN Wylfa effeithio ar amodau

amgylcheddol yn Ynys Môn a bod yn agored i effeithiau o’r amgylchedd, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â cheisiadau eraill am ddatblygiadau mawr, gan gynnwys seilwaith trosglwyddo trydan er enghraifft. Bydd y Cyngor Sir yn ceisio sicrhau y bydd unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar amgylchedd naturiol Ynys Môn yn cael eu hatal neu, os nad yw hyn yn bosibl, eu lliniaru neu eu cydbwyso. Mae’r Cyngor Sir yn disgwyl hefyd y bydd hyrwyddwr y prosiect yn chwilio am gyfleoedd i wella cynefinoedd, bioamrywiaeth a thirweddau yn Ynys Môn yn unol â’r camau gweithredu mewn cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill gan gynnwys ‘Gweithio Dros Gyfoeth Byd Natur: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn’, ‘Cynllun Gweithredu Arfordirol Môn-Menai’ (2008) a ‘Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn’ (2011) er mwyn sicrhau dull integredig o reoli amgylchedd naturiol Môn.

| **EA 20** | **Gwarchod a Gwella’r Amgylchedd Naturiol** |
|---|---|

Dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa geisio sicrhau bod amgylchedd naturiol unigryw Ynys Môn yn cael ei warchod ac, os yw’n bosibl, ei wella. Yn benodol, mae’r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd hyrwyddwr y prosiect yn dangos na fydd Prosiect GNN Wylfa, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â cheisiadau eraill fel seilwaith trosglwyddo trydan, yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y canlynol:

- Integredd safleoedd Natura 2000 fel Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid;
- Cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- Rhywogaethau sydd wedi’u diogelu gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a/neu genedlaethol;
- Cynefinoedd a rhywogaethau allweddol, gan gynnwys y rhai sydd wedi’u henwi yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn;
- Swyddogaeth ecolegol safleoedd cadwraeth natur a’u cysylltiad â’r dirwedd ehangach;
- Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol a statws Geoparc rhannau o Ynys Môn;
- Tirweddau pwysig gan gynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Arfordir Treftadaeth Ynys Môn;
- Cymeriad tirweddau lleol gan gyfeirio at Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac Ardaloedd Cymeriad Tirwedd;
- Morwedd gan gyfeirio at Ardaloedd Cymeriad Morwedd;
- Llwybr Arfordir Cymru.

Lle na ellir atal effeithiau niweidiol, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i fesurau priodol gael eu rhoi ar waith i’w lliniaru a/neu eu cydbwyso. Rhaid i’r mesurau hyn fod yn gyson â chanllawiau a chamau gweithredu sydd mewn cynlluniau a rhaglenni presennol perthnasol, a rhai sy’n cael eu datblygu, a dylid cytuno arnynt â’r Cyngor Sir, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff eraill fel y bo’n briodol. Dyma rai o’r mesurau

| EA 20 | Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol |
|---|---|

posibl ar gyfer lliniaru a chydbwyso:

- Lleihau ymyrraeth yng nghyfnodau adeiladu a gweithredu prif safle GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig, a fydd yn cynnwys yr arferion gorau;
- Defnyddio'r arwynebedd lleiaf posibl o dir ar gyfer adeiladu;
- Gwneud y defnydd mwyaf posibl o dir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen a cholli'r lleiaf posibl o'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas;
- Adfer tir sydd wedi'i halogi;
- Mabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel;
- Sicrhau bod llai o sylweddau a all achosi llygredd yn cael eu gollwng i'r awyr, i ddŵr neu ar dir, drwy fabwysiadu Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol ymysg pethau eraill;
- Adfer cynefinoedd ar ôl cwblhau gwaith adeiladu;
- Creu neu wella cynefinoedd y tu mewn neu'r tu allan i'r safle i gydbwyso effeithiau gweddilliol neu dros dro o Brosiect GNN Wylfa;
- Cynlluniau tirweddu a darparu mannau gwyrdd.

Lle bynnag y bo modd, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect chwilio am gyfleoedd i wella amgylchedd naturiol a gwasanaethau ecosystemau Ynys Môn gan gynnwys camau i ddarparu rhwydweithiau neu seilwaith gwyrdd a glas.

**Yr Amgylchedd Dŵr**

4.10.7 Yn nogfen Cynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (2009) Asiantaeth yr Amgylchedd, nodir bod statws ecolegol a chemegol cyffredinol da gan 26% o afonydd a llynnoedd Ynys Môn. Mae rhai rhannau o afonydd lle y mae angen gwella ansawdd y dŵr yn sylweddol ac mae nifer o heriau'n codi wrth geisio sicrhau ansawdd dŵr wyneb gan gynnwys: llygredd gwasgaredig o weithgareddau amaethyddol; llygredd gwasgaredig o gloddfeydd hanesyddol; addasu cronfeydd dŵr yn ffisegol; llygredd yn y tarddle o waith trin carthion y diwydiant dŵr; ac asideiddio. Ochr yn ochr â hyn, mae safon gyffredinol y dŵr ymdrochi o gwmpas arfordir Ynys Môn yn gwella. Yn gyffredinol, roedd 73% o draethau wedi cyrraedd safonau'r canllawiau yn 2008 o'i gymharu â 33% ym 1992. Er hynny, mae gwaith monitro ar ddyfroedd ymdrochi sydd heb eu dynodi gan y CE yn dangos nad yw cyfran helaeth ohonynt yn cydymffurfio â safonau.

4.10.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio polisi ar Reolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol sy'n cymell yr holl sefydliadau sydd â buddiant yn arfordir Cymru i gydweithio i ffurfio polisïau a chynlluniau a fydd yn arwain at greu cymunedau bywiog, cynaliadwy ac economaidd lwyddiannus o gwmpas arfordir Cymru. Ceir gwybodaeth allweddol ar gyfer y broses gynllunio statudol mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin.

4.10.9 Gall Prosiect GNN Wylfa effeithio ar ansawdd y dŵr yn afonydd ac ar arfordir Ynys Môn ac ar ei chynefinoedd a'i geomorffoleg yn ystod y cyfnod adeiladu (er enghraifft, o ganlyniad i ddŵr ffo o safleoedd adeiladu neu gynnydd mewn dŵr gwastraff mewn cysylltiad â mewnlifiad o weithwyr adeiladu) a'r cyfnod gweithredu (er enghraifft, o ganlyniad i ollwng dŵr oeri i'r môr). Bydd y prosiect yn creu mwy o alw hefyd am gyflenwadau dŵr a gall hyn effeithio ar ansawdd dŵr, yn enwedig o ystyried y rhagolygon am ddiffyg rhwng y galw am ddŵr a'r cyflenwad yn yr ardal yn y dyfodol. Felly dylai hyrwyddwr y prosiect ddangos na fydd y gwaith o adeiladu a gweithredu GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr, drwy weithio mewn partneriaeth â'r cyrff sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau dŵr a chymunedau arfordirol.

| **EA 21** | **Gwarchod yr Amgylchedd Dŵr** |
|---|---|

Disgwylir i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa ddangos na fydd y gwaith o adeiladu a gweithredu GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â cheisiadau eraill, yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr, cynefinoedd glannau afon a rhywogaethau dŵr (gan gynnwys poblogaethau o bysgod mudol) neu ddefnyddwyr masnachol a hamdden.

Lle y nodir bod posibilrwydd o gael effeithiau niweidiol, dylid cymryd mesurau i liniaru'r effeithiau hyn. Rhai mesurau posibl yw:

- Rheoli dŵr wyneb ffo o safleoedd adeiladu a diogelu'r amgylchedd sy'n ei dderbyn, gan gynnwys llwybrau ar gyfer dŵr/dŵr budr drwy gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy wrth ddylunio datblygiadau newydd;
- Mabwysiadu'r Technegau Gorau Sydd ar Gael i ddelio ag effeithiau sy'n gysylltiedig â gollwng sylweddau fel dŵr oeri o'r orsaf pŵer niwclear;
- Gweithredu Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol;
- Rhoi mesurau effeithlonrwydd dŵr ar waith i leihau'r galw am ddŵr sy'n codi o ddatblygiadau newydd;
- Sicrhau bod cyflenwad dŵr a seilwaith dŵr gwastraff priodol ar gael i ateb y galw sy'n codi wrth adeiladu a gweithredu prif safle GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig, yn unol ag **EA15**.


Lle bo'n berthnasol, dylai ceisiadau hyrwyddo'r camau gweithredu sydd yng Nghynllun Rheoli Basn Afon Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (2009) a rhoi ystyriaeth lawn i newid yn yr arfordir a pholisïau Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (2012) (yn unol ag **EA19**). Disgwylir hefyd y bydd hyrwyddwr y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a chymunedau arfordirol fel y bo'n briodol i hyrwyddo amcanion y Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Cymru (2007).

## 4.11 Yr Amgylchedd Hanesyddol



4.11.1 Mae treftadaeth gyfoethog gan Ynys Môn sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau a safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n helaeth at gymeriad cyffredinol y dirwedd ddiwylliannol ac yn bwysig o ran eu diddordeb i ymwelwyr a'r refeniw sy'n deillio o hynny. Mae **Ffigur 4.3** yn dangos yr asedau treftadaeth ddiwylliannol sydd wedi'u dynodi yn Ynys Môn. Ymhlith yr asedau sydd wedi'u dynodi yn ardal prif safle GNN Wylfa y mae Gerddi Cestyll sydd wedi'u cofrestru ac sydd yn union i'r gorllewin o ffin y safle; meini hirion o'r Oes Efydd sy'n Heneb Restredig sydd 1km i'r de; tri adeilad rhestredig Gradd II yng Nghafnan i'r gorllewin o'r safle, ac adeiladau rhestredig o gwmpas Cemaes.

**Ffigur 4.3 Asedau Treftadaeth Ddiwylliannol sydd wedi’u Dynodi yn Ynys Môn**




4.11.2 Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa sicrhau bod asedau yn Ynys Môn yn cael eu gwarchod, pa un a ydynt wedi’u dynodi neu beidio. Mae’n bosibl y bydd cyfleoedd hefyd i wella asedau, eu hamgylchoedd neu’r mynediad atynt drwy’r prosiect.

**EA 22 Gwarchod a Gwella’r Amgylchedd Hanesyddol**

Disgwylir y bydd hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa yn ceisio sicrhau bod asedau treftadaeth ddiwylliannol Ynys Môn a’u hamgylchoedd (gan gynnwys golygfeydd pwysig i gyfeiriad safleoedd/nodweddion ac oddi yno), yn cael eu gwarchod a’u gwella. Ymhlith yr asedau hyn y mae:

- Castell Biwmares sy’n rhan o Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd;
- Henebion Rhestredig ac olion archeolegol eraill sydd o bwysigrwydd

| EA 22 | Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol |
|---|---|

cenedlaethol;

- Adeiladau Rhestredig;
- Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig;
- Ardaloedd Cadwraeth;
- Meysydd Brwydr Cofrestredig arfaethedig.

Mae holl asedau diwylliannol Ynys Môn, gan gynnwys y rhai sydd heb eu dynodi ac sydd o bwysigrwydd rhanbarthol neu leol, wedi'u cofnodi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol. Oherwydd natur ddynamig adnoddau archeolegol, mae safleoedd newydd yn cael eu darganfod o hyd a'u hychwanegu at y cofnod. Dylai hyrwyddwr y prosiect asesu'r posibilrwydd o ddarganfod safleoedd archeolegol yn yr ardaloedd y mae ceisiadau am ddatblygu yn effeithio arnynt er mwyn llunio Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Pennod 6) a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96.

Wrth gyflwyno cais am GCD ac unrhyw geisiadau am ddatblygiadau cysylltiedig, mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y byddant yn cynnwys asesiad o effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys effeithiau cronnol), a dylid cytuno â'r Cyngor Sir ar gwmpas yr asesiad hwn ymlaen llaw. Dylid cynnal rhaglen o waith archeolegol fesul cam i sicrhau ymchwil a chofnodi priodol ar gyfer yr holl olion archeolegol y bydd ceisiadau am ddatblygu yn effeithio arnynt. Dylid darparu'r canfyddiadau o ymchwiliadau o'r fath ar gyfer y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol a'u lledaenu i'r gymuned ehangach.

Dylai hyrwyddwr y prosiect chwilio am gyfleoedd, drwy gydgysylltu â'r Cyngor Sir, Cadw a chyrff perthnasol eraill, i wella asedau treftadaeth ddiwylliannol Ynys Môn gan gynnwys camau i adnewyddu ac ailddefnyddio adeiladau y nodwyd eu bod mewn perygl mewn ffordd sy'n gydnaws â'r adeiladau hynny neu drwy wella mynediad at asedau ar gyfer y cyhoedd. Dylid chwilio am gyfleoedd ar gyfer dehongli, cyflwyno gwybodaeth, gwaith maes ac addysg ar safleoedd drwy gydgysylltu ag ysgolion ac amgueddfeydd lleol.

## 4.12 Hwyluso Datblygu

### Rhwymedigaethau Cynllunio

4.12.1 Mae Prosiect GNN Wylfa yn cynnig cyfle heb ei fath i sicrhau buddion hirdymor cynaliadwy i wead economaidd-gymdeithasol Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r holl fuddion o'r buddsoddi hwn, a sicrhau na fydd unrhyw effeithiau niweidiol ar amgylchedd a chymunedau unigryw Ynys Môn, rhaid cymryd mesurau priodol i'w lliniaru a'u cydbwyso.

4.12.2 Mae'r Cyngor Sir, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, wrthi'n paratoi Rhaglen Amlinellu Strategol ar hyn o bryd i nodi gwelliannau seilwaith a fydd yn angenrheidiol er mwyn i Ynys Môn fanteisio'n llawn ar gyfleoedd a fydd yn deillio o brosiectau mewnfuddsoddi sy'n gysylltiedig â'r sector ynni. Bydd hyn yn sicrhau bod modd manteisio ar fuddion adfywio economaidd hirdymor a chynaliadwy.

4.12.3 Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd cynllun cynhwysfawr o fesurau economaidd, cymunedol/cymdeithasol, amgylcheddol a diogelwch yn cael ei roi ar waith a fydd yn lliniaru ac yn cydbwyso unrhyw effeithiau o Brosiect GNN Wylfa ac yn ystyried anghenion busnesau, cymunedau a'r gweithlu sy'n dod i mewn, yr amgylchedd, treftadaeth a diwylliant yn Ynys Môn. Yn unol â Deddf Cynllunio 2008, NPS EN-1, Polisi Cynllunio Cymru a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig, byddai'r mesurau hyn yn cael eu cyflawni drwy amodau ar ganiatâd cynllunio, rhwymedigaethau cynllunio, rhwymedigaethau ar gyfer caniatâd datblygu a gofynion o dan GCD fel y bo'n briodol.

4.12.4 Yng nghyd-destun yr amrywiaeth o gyfraniadau posibl y mae'r Cyngor Sir wedi'i nodi yn CCA ar Rwymedigaethau Cynllunio (Cytundebau Adran 106) (2008) a'r canllawiau sydd yn y CCA hyn, mae'r mesurau y gellir eu cymryd yn cynnwys:

- Buddsoddi mewn cyfleusterau addysgol, datblygu Academi Alwedigaethol Ynys Ynni a mentrau cyflogaeth a hyfforddiant lleol (gweler **EA1** ac **EA2**);
- Mesurau a/neu gyfraniadau i wrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol ar fusnesau presennol yn Ynys Môn ac ar fewnfuddsoddi (gweler **EA3**);
- Marchnata cyrchfannau, darparu cyllid ar gyfer cyfleusterau twristiaeth a mesurau eraill sydd â'r amcan o atal neu gydbwyso effeithiau niweidiol ar dwristiaeth gan gynnwys unrhyw ganfyddiadau negyddol ymysg ymwelwyr o Brosiect GNN Wylfa (gweler **EA5**);
- Cyfraniadau cydgysylltiedig at gyfleusterau, gwasanaethau a seilwaith cymunedol gan gynnwys gofal iechyd a chyfleusterau hamdden i gwrdd ag anghenion y prosiect ac anghenion lleol a gwella ansawdd bywyd y cymunedau yr effeithir arnynt (gweler **EA6**, **EA8** ac **EA9**);

- Darparu adnoddau digonol ar gyfer gwasanaethau brys a mesurau gwrthsefyll i ddelio â'r posibilrwydd y bydd mwy o ddigwyddiadau ar safleoedd Prosiect GNN Wylfa ac ar y rhwydwaith trafnidiaeth (gweler **EA6** ac **EA7**);
- Mesurau lliniaru/cydbwyso i ddelio ag effeithiau niweidiol gweddilliol ar iechyd, lles ac amwynder a darparu gwybodaeth am berygl i iechyd i gymunedau lleol, ymwelwyr a busnesau er mwyn ymateb i bryderon sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa (gweler **EA7**);
- Mesurau penodol i hyrwyddo cydlyniant cymunedol, lleihau troseddu ac anhrefn a hyrwyddo diogelwch cymunedol, gan gynnwys darparu gweithgareddau egnïol ar gyfer amser hamdden gweithwyr (er enghraifft, chwaraeon a hamdden), rhoi Cynllun Rheoli Diogelwch Cymunedol ar waith, Cod Ymddygiad ar gyfer gweithwyr, a chyfraniadau at y rhwydwaith teledu cylch cyfyng (gweler **EA9**);
- Mesurau a/neu gyfraniadau i ddelio ag unrhyw effeithiau niweidiol ar gymunedau sy'n derbyn datblygiadau ac aneddiadau eraill fel lleoedd i fyw, gweithio a dysgu, gan gynnwys gwelliannau ar dir y cyhoedd a chyfraniadau at gyrraedd amcanion ar gyfer adfywio strategol (gweler **EA9**);
- Amrywiaeth o fesurau cyfannol a chydgysylltiedig, wedi'u seilio ar Strategaeth Llety i Weithwyr Adeiladu, i liniaru a chydbwyso effeithiau niweidiol ar y farchnad dai leol a llety i ymwelwyr. Gall hyn gynnwys darparu a chyfrannu at dai (gan gynnwys tai fforddiadwy), Canolbwynt Tai a Chronfa Tai/Llety (gweler **EA10**, **EA11** ac **EA12**);
- Lliniaru effeithiau niweidiol ar y Gymraeg a'i diwylliant, er enghraifft, drwy gyrsiau cynefino a gwersi iaith ar gyfer gweithwyr adeiladu a gweithredu (gweler **EA13**);
- Darparu a chyfrannu at seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth i ddelio ag effeithiau niweidiol ar gyfleusterau trafnidiaeth presennol sy'n deillio o Brosiect GNN Wylfa ac i gynnal a gwella cysylltedd (gweler **EA14**);
- Darparu a chyfrannu at seilwaith sy'n hanfodol i gynnal Prosiect GNN Wylfa, gan gynnwys cyflenwadau dŵr, trin dŵr gwastraff, trydan, nwy, telathrebu a rheoli gwastraff (gweler **EA15** ac **EA16**);
- Mesurau i leihau allyriadau carbon a chreu modd i liniaru ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (gweler **EA18** ac **EA19**);
- Diogelu safleoedd sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol o ran tirwedd, ecoleg, daeareg, archeoleg a threftadaeth adeiledig, ynghyd ag amrywiaeth o fesurau sy'n cydbwyso, yn lliniaru ac yn gwrthbwyso niwed gweddilliol i'r amgylchedd o ganlyniad i Brosiect GNN Wylfa, gan gynnwys cyfraniadau at ddarparu seilwaith gwyrdd (gweler **EA20**, **EA21** ac **EA22**);

- Cytundebau lefel gwasanaeth i roi adnoddau ar gyfer gwaith y Cyngor Sir ar reoli, gweithredu a monitro mesurau lliniaru (gweler **EA25**).

4.12.5 Mae'r Cyngor Sir yn credu y dylai'r rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer y Prosiect GNN Wylfa cyfan fod yn rhai sy'n lliniaru ac yn cydbwyso pob agwedd ar yr effeithiau sy'n deillio ohono. Bydd y Cyngor Sir yn ceisio cytuno ar symiau ar gyfer Cronfa Lliniaru Effeithiau Cymunedol i liniaru a/neu gydbwyso effeithiau'r prosiect nad oes modd mynd i'r afael â hwy fel arall, ac i weinyddu Cronfa o'r fath.

4.12.6 Mae'r Cyngor Sir, yn gwbl ar wahân i'r broses gynllunio, wedi ymrwymo hefyd i sicrhau Cyfraniadau Budd Cymunedol (CBC) i gymunedau a dinasyddion Ynys Môn o'r holl ddatblygiadau mawr ym Môn, gan gynnwys Prosiect GNN Wylfa. Pwrpas hyn yw sicrhau bod cymunedau'n elwa'n uniongyrchol o'r defnydd o'u hadnoddau lleol a'u bod yn cael eu digolledu am gynnal datblygiad o'r fath er budd y wlad. Cydnabyddir gan lawer bod CBC yn ffordd ddilys o hyrwyddo cynaliadwyedd, ansawdd bywyd a lles Ynys Môn a'i chymunedau yn y tymor hir. Mae'r Cyngor Sir wedi datblygu Strategaeth CBC[25] i egluro sut y gellir defnyddio CBC gwirfoddol i fodloni anghenion penodol Ynys Môn a'i chymunedau.

4.12.7 Fel y nodwyd, mae CBC yn gwbl ar wahân i'r broses gynllunio ffurfiol. Nid ydynt yn ffordd o wneud datblygiadau'n dderbyniol yng nghyd-destun cynllunio ac nid yw CBC yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. Felly ni fydd CBC o ran Prosiect GNN Wylfa yn cael eu trafod o gwbl yn yr asesiad o rinweddau cynllunio.

| **EA 23** | **Rhwymedigaethau Cynllunio** |
|---|---|
| Bydd y Cyngor Sir yn ceisio sicrhau bod Prosiect GNN Wylfa yn atal, yn lleihau ac yn lliniaru effeithiau niweidiol (a'u cydbwyso os yw'n briodol) yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig.<br>Bydd y Cyngor Sir yn ceisio sicrhau bod set gynhwysfawr o fesurau a buddion yn cael eu darparu drwy rwymedigaethau, gofynion ac amodau sy'n gyson â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol, polisi cynllunio cenedlaethol, y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd, y CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, y cyngor a'r amcanion sydd yn y CCA hyn a strategaethau a pholisïau eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor Sir.<br>Yn unol â CCA y Cyngor Sir ar Rwymedigaethau Cynllunio (Cytundebau Adran 106), dylai hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa geisio dod i gytundeb â'r Cyngor Sir, cyn cyflwyno'r cais am GCD a cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau cysylltiedig, ar | |

25 Gweler http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s500000684/Cyfraniadau%20Budd%20Cymunedol.pdf?LLL=1.

| **EA 23** | **Rhwymedigaethau Cynllunio** |
|---|---|
| y mesurau sydd eu hangen, y gellir eu gorfodi drwy gyfraith, i atal, lleihau a chydbwyso niwed yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a thrawsnewid ar ddiwedd y prosiect.<br><br>Yn unol â'r canllawiau yn y CCA hyn (gweler **EA25**), bydd y rhwymedigaethau'n cydnabod y pwysigrwydd o fonitro parhaus ar effeithiau sy'n deillio o Brosiect GNN Wylfa. Mae'n bosibl y bydd angen addasu mesurau lliniaru a chydbwyso yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect er mwyn delio â'r effeithiau hyn a'u gwrthbwyso.<br><br>Bydd y mesurau lliniaru neu gydbwyso'n ymwneud ag effeithiau Prosiect GNN Wylfa, pa un a yw'r rheini'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn wirioneddol neu'n ganfyddedig, gan gynnwys y posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar fusnesau presennol a mewnfuddsoddi, twristiaeth, y farchnad dai leol, yr amgylchedd, iechyd a lles cymunedau a'r Gymraeg a'i diwylliant.<br><br>Dylid disgwyl hefyd y bydd cyfleusterau'n cael eu darparu, fel y seilwaith cymunedol sydd ei angen ar gyfer cyfnodau adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa, na fyddent yn cael eu darparu fel arall. Dylai hyrwyddwr y prosiect roi pob ystyriaeth i fentrau, cynlluniau a strategaethau presennol yn Ynys Môn ac ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau lleol, y Cyngor Sir a sefydliadau eraill fel y bo'n briodol, yn y cyfnod cyn ymgeisio, er mwyn pennu mesurau cydbwyso a lliniaru priodol i ddelio ag effeithiau niweidiol o Brosiect GNN Wylfa.<br><br>Rhoddir cefnogaeth i fesurau, prosiectau a gwasanaethau i wella lles, ansawdd bywyd a chynaliadwyedd y cymunedau yr effeithir arnynt yn y tymor canolig a hir. | |

**Defnyddio Pwerau'r Cyngor**

4.12.8 Mae nifer o bwerau statudol gan y Cyngor Sir y gallai eu harfer i hwyluso'r gwaith o adeiladu, cynnal, gweithredu a datgomisiynu Prosiect GNN Wylfa gan gynnwys y datblygiadau cysylltiedig.

4.12.9 Dylai hyrwyddwr y prosiect gysylltu â'r Cyngor Sir pryd y credir ei bod yn briodol i'r Cyngor ddefnyddio pŵer statudol i hwyluso'r datblygiad ac y byddai peidio â'i ddefnyddio yn arwain at arafu neu fethu â chyflawni Prosiect GNN Wylfa neu'r amserlen ar gyfer ei weithredu.

4.12.10 Nid yw'r rhestr isod yn cynnwys yr holl bwerau sydd ar gael a'i phwrpas yw dangos y mathau o bwerau y gallai'r Cyngor Sir eu defnyddio i hwyluso GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig. Ymysg y pwerau y mae'r rhai canlynol:

- Pwerau prynu gorfodol;
- Pwerau i roi neu ddirymu caniatâd cynllunio neu unrhyw bŵer perthnasol arall o dan y system Cynllunio Gwlad a Thref;
- Pwerau o dan swyddogaethau Priffyrdd y Cyngor;
- Pwerau cyfatebol sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r rhai uchod.

4.12.11 Mae pwerau prynu gorfodol a phwerau cyfatebol yn arfau pwysig y gall y Cyngor Sir eu defnyddio i grynhoi'r tir neu hawliau sydd eu hangen i gyflawni Prosiect GNN Wylfa. O'u defnyddio'n briodol, gallant gyfrannu at adfywio effeithiol ac effeithlon mewn ardaloedd trefol a gwledig, at adfywio cymunedol, a hyrwyddo buddiannau economaidd-gymdeithasol y Sir a rhanbarth Gogledd Cymru yn gyffredinol.

4.12.12 Yn gyffredinol, bydd gorchymyn neu gais cynllunio yn cael ei ystyried yn gyfatebol i orchymyn prynu gorfodol os bydd ei wneud neu ei gadarnhau'n arwain at gymryd oddi ar y gwrthwynebydd ryw hawl neu fuddiant mewn tir y mae'r statud yn rhoi hawl iddo gael ei ddigolledu amdano.

4.12.13 Disgwylir y bydd unrhyw bŵer statudol y mae'r Cyngor Sir yn ei ddefnyddio'n niwtral o ran cost i'r Cyngor. Bydd yn ofynnol bod y parti sy'n gofyn am gefnogaeth yn indemnio'r Cyngor rhag unrhyw gostau y bydd y Cyngor yn eu hysgwyddo wrth arfer ei bwerau statudol i helpu i hwyluso'r gwaith o ddatblygu GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, digolledu am unrhyw dir a gafaelir ac unrhyw gostau cyfreithiol neu gostau eraill.

4.12.14 Dim ond os oes cyfiawnhad cyfreithiol clir y bydd y Cyngor Sir yn defnyddio ei bwerau statudol, a bydd yn gwneud hynny'n unol ag ystyriaethau polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er budd y cyhoedd. Bydd yr angen am arfer y pwerau hyn yn cael ei asesu ym mhob achos unigol ac ar sail amcanion y

CCA hyn ac unrhyw bolisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol arall sy'n berthnasol. Mater i'r Cyngor Sir yn unig fydd ei benderfyniad i arfer pwerau o'r fath a bydd yn cymryd y mesurau diogelu cyfreithiol arferol wrth wneud hynny.

4.12.15 Os bydd y Cyngor Sir yn penderfynu defnyddio ei bwerau statudol, bydd yn gwneud hynny mewn ffordd dryloyw, yn unol â safonau'r arferion da cydnabyddedig, gan ymgynghori â rhanddeiliaid fel y bo'n briodol.

| **EA 24** | **Defnyddio Pwerau'r Cyngor** |
|---|---|
| Er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu Prosiect GNN Wylfa, bydd y Cyngor Sir yn ystyried defnyddio ei bwerau statudol ar yr amod bod cyfiawnhad dros ddefnyddio pwerau o'r fath a bod hynny er budd y cyhoedd. Ymysg y pwerau hynny y mae:<br>• Pwerau prynu gorfodol;<br>• Pwerau i roi neu ddirymu caniatâd cynllunio neu unrhyw bŵer perthnasol arall o dan y system Cynllunio Gwlad a Thref;<br>• Pwerau o dan swyddogaethau Priffyrdd y Cyngor;<br>• Pwerau cyfatebol sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r rhai uchod.<br>Os bydd y Cyngor Sir yn defnyddio unrhyw bŵer statudol i hwyluso'r gwaith o ddatblygu GNN Wylfa neu ddatblygiadau cysylltiedig, bydd yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect dalu'r holl gostau rhesymol sy'n gysylltiedig ag arfer y pŵer statudol hwnnw. | |

## 4.13 Gweithredu a Monitro

4.13.1 Oherwydd ei graddfa ac amrywiaeth yr effeithiau posibl, gallai nifer o effeithiau annisgwyl godi wrth adeiladu a gweithredu Prosiect GNN Wylfa. Bydd yn bwysig hefyd sicrhau bod unrhyw fesurau lliniaru a chydbwyso a gymerir o dan y ceisiadau’n effeithiol, gan ystyried newidiadau mewn amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y dyfodol. Felly bydd y Cyngor Sir yn ceisio cydweithio â hyrwyddwr y prosiect i ddatblygu a gweithredu trefniadau i fonitro’r effeithiau a fydd yn codi o Brosiect GNN Wylfa ac i ddelio ag effeithiau niweidiol annisgwyl os byddant yn codi.

**EA 25 Gweithredu a Monitro**

Bydd y Cyngor Sir yn cydweithio â hyrwyddwr y prosiect i ddatblygu trefniadau ar gyfer monitro’r effeithiau o Brosiect GNN Wylfa a’r canlyniadau i fesurau lliniaru/cydbwyso sy’n gysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr, gan ddisgrifio’r amodau llinell sylfaen a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso newid;
- Paratoi fframwaith monitro a fydd yn cynnwys setiau o ddangosyddion allweddol ac, os yw’n briodol, targedau wedi’u seilio ar gynlluniau a rhaglenni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol presennol;
- Cytundeb ar ffurf, cynnwys ac amlder yr adroddiadau monitro;
- Sefydlu protocol i ddelio ag effeithiau annisgwyl, e.e. drwy addasu mesurau lliniaru a chydbwyso.

Ceisir gwneud cytundebau lefel gwasanaeth i ddarparu adnoddau ar gyfer y rhan y bydd y Cyngor Sir yn ei chwarae wrth reoli a gweithredu’r fframwaith monitro.

# 5 Canllawiau ar Leoli

5.1.1 Bydd yn bwysig gweithredu mewn ffordd strategol wrth gynllunio a rhoi caniatâd ar gyfer Prosiect GNN Wylfa. Bydd y ffordd o weithredu'n unol â pholisi'r Cynllun Datblygu presennol, y CDU a Ataliwyd, y CDLIC sy'n cael ei ddatblygu a chynlluniau a rhaglenni eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y Cyngor Sir a rhanddeiliaid. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig yn cael eu datblygu mewn ffordd gynaliadwy sy'n gyson â'r dyheadau cyffredinol ar gyfer twf yn Ynys Môn a chyflawni rhaglen Ynys Ynni Môn.


5.1.2 Yn yr adran hon o'r CCA, disgrifir egwyddorion datblygu allweddol y Cyngor Sir ar gyfer adeiladu a gweithredu gorsaf pŵer niwclear newydd ar brif safle GNN Wylfa. Hefyd rhoddir canllawiau ar leoli i helpu i baratoi a llywio ceisiadau am ddatblygiadau cysylltiedig y tu allan i'r safle, yn unol â strategaeth ofodol y Cyngor Sir ar gyfer twf yn Ynys Môn yn y dyfodol, er mwyn lliniaru effeithiau niweidiol a sicrhau'r manteision mwyaf posibl o Brosiect GNN Wylfa.

5.1.3 Er mwyn rhoi arweiniad ar leoliadau bras ar gyfer datblygiadau cysylltiedig, pennwyd y saith Ardal Chwilio ganlynol:

- Caergybi a'r Cylch;
- Llangefni a'r Cylch;
- Amlwch a'r Cylch;
- Coridor yr A55/A5;
- Coridor yr A5025;
- Cemaes a'r Cylch;
- Gweddill Ynys Môn.

5.1.4 Mae'r Ardaloedd Chwilio wedi'u dangos yn **Ffigur 5.1** gyferbyn, ynghyd â phrif safle GNN Wylfa.

**Ffigur 5.1 Prif Safle GNN Wylfa ac Ardaloedd Chwilio ar gyfer Datblygiadau Cysylltiedig**




5.1.5 Amcan cyffredinol yr Ardaloedd Chwilio a'r canllawiau cysylltiedig yn yr adrannau isod yw cyfeirio datblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa at aneddiadau mwyaf Ynys Môn ac ar hyd coridorau trafnidiaeth allweddol. Ar gyfer pob un o'r saith Ardal Chwilio, rhoddir trosolwg ar amrywiaeth, math, graddfa a lleoliad posibl y datblygiadau cysylltiedig y byddai'r Cyngor Sir am eu ffafrio. Tynnir sylw hefyd at gyfleoedd a materion allweddol y byddai'r Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect eu hystyried wrth baratoi ceisiadau am ddatblygiadau cysylltiedig ym mhob un o'r Ardaloedd Chwilio. Wedyn rhoddir canllawiau sy'n cyfateb i'r materion a chyfleoedd hyn mewn cyfres o 'Egwyddorion Arweiniol' (EA).

5.1.6 Bydd y Cyngor Sir yn defnyddio'r canllawiau hyn, ynghyd â'r canllawiau ar gyfer y prosiect cyfan sydd yn **Adran 4** o'r CCA hyn a pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol (gan gynnwys polisi sy'n cael ei ddatblygu), i ymateb i ymgynghori gan hyrwyddwr y prosiect, i baratoi ei Adroddiad ar yr Effaith Leol ac i hwyluso penderfyniadau ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref gan gynnwys rhai am waith hwyluso a pharatoi ar safleoedd y gellid eu cyflwyno cyn gwneud y cais am GCD. Bydd y graddau y mae'r egwyddorion arweiniol yn berthnasol i bob cais y mae'r Cyngor Sir yn ei gael yn amrywio ac felly, am fod y ceisiadau'n debygol o amrywio o ran eu natur a'u graddfa, bydd yn rhaid penderfynu arnynt fesul un.

## 5.1 Prif Safle GNN Wylfa

### Trosolwg

5.1.7 Mae prif safle arfaethedig GNN Wylfa yn gyfagos i'r orsaf pŵer niwclear bresennol yn Wylfa ar Drwyn y Wylfa ar arfordir gogleddol Ynys Môn. Mae'r safle yn ymestyn tua'r dwyrain at gyrion gorllewinol Cemaes, tua'r de at yr A5025 a phentref Tregele a thua'r gorllewin at gilfach Porth y Pistyll. Mae'r safle oddeutu 10km o Amlwch tua'r dwyrain, 25km o Gaergybi tua'r de-orllewin a 24km o Langefni tua'r de.




5.1.8 Nid yw'r cynigion manwl ar gyfer y prif safle yn hysbys eto. Fodd bynnag, mae hyrwyddwr y prosiect wedi nodi bod y datblygiad yn debygol o gynnwys:

- Gorsaf bŵer a fydd yn cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berw Uwch â gallu cynhyrchu o 2,700 MW o leiaf;
- Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF);
- MOLF dros dro;
- Adeiladwaith mewnfa ac allfa ar gyfer dŵr oeri;
- Seilwaith trosglwyddo trydan;
- Adeiladau cysylltiedig eraill, e.e. swyddfeydd gweinyddol;
- Cyfleusterau dros dro i storio gwastraff a gweddillion tanwydd;
- Ffyrdd mynediad;
- Mesurau a chynlluniau i reoli unrhyw effeithiau yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer newydd[26].

5.1.9 Mae'r egwyddor o ddatblygu gorsaf pŵer niwclear newydd ar y safle wedi'i sefydlu eisoes yn NPS EN-6. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir hefyd yn credu ei bod yn hanfodol bod egwyddorion datblygu allweddol yn cael eu gosod yn y CCA hyn a fydd yn dangos cyfleoedd a blaenoriaethau lleol ac yn tynnu sylw at y materion y mae'n credu y dylai hyrwyddwr y prosiect roi sylw iddynt er mwyn lleihau effeithiau niweidiol a sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r

[26] Mae mwy o fanylion yn http://www.horizonnuclearpower.com/wylfa-ein-cynigion.

gwaith o adeiladu a gweithredu'r orsaf pŵer niwclear newydd a datblygiadau cysylltiedig.

### Cyfleoedd

5.1.10 Mae'r gwaith o ddatgomisiynu'r orsaf pŵer niwclear Magnox bresennol sy'n gyfagos i brif safle GNN Wylfa yn ymgymeriad mawr ac yn brosiect strategol allweddol yng nghyd-destun rhaglen Ynys Ynni Môn. Bydd y gwaith datgomisiynu'n digwydd ochr yn ochr â'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r orsaf pŵer niwclear newydd ac, felly, bydd cyfle mawr i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa weithio mewn partneriaeth â Magnox i ddod â buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cronnol a gwrthbwyso effeithiau economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â chau'r orsaf bŵer bresennol.

### Materion Allweddol

5.1.11 Mae'r ardal o gwmpas prif safle GNN Wylfa yn amgylchedd arfordirol neilltuol o gyfoethog a sensitif sydd, ynghyd â phresenoldeb asedau hanesyddol pwysig a chymeriad gwledig y cymunedau cyfagos, yn codi nifer o faterion allweddol y bydd angen i hyrwyddwr y prosiect eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y prif safle. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

- **Yr amgylchedd naturiol:** Mae SoDdGA Tre'r Gof o fewn ffin prif safle GNN Wylfa. Mae NPS EN-6 yn nodi y gallai'r cynefin corsiog cyfoethog hwn fod yn agored i effeithiau uniongyrchol a/neu anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn ansawdd a maint dŵr ond y rhagwelir y bydd digon o dir ar gael o fewn y safle i ddatblygu'r orsaf pŵer niwclear newydd heb gael effaith barhaol ar unrhyw ardal sydd wedi'i dynodi. Mae NPS EN-6 yn nodi hefyd y gellid diogelu SoDdGA Tre'r Gof drwy fesurau lliniaru peirianegol ar gyfer draenio i gadw ansawdd a maint dŵr wyneb a dŵr daear gan ddiogelu'r dyfroedd mwynol ac felly cynnal ecoleg gyffredinol y SoDdGA. Mae'n bosibl hefyd y gellir darparu cynefin yn lle unrhyw gynefin a gollir o ganlyniad i ddatblygu.

  Y tu allan i'r prif safle, mae nifer o safleoedd gwarchod natur sydd â dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae NPS EN-6 yn nodi ei bod yn bosibl y ceir effeithiau niweidiol arwyddocaol ar integredd chwe safle Ewropeaidd (ACA Bae Cemlyn, AGA Ynys Feurig, Ynysoedd y Moelrhoniaid a Bae Cemlyn, ACA Afon Menai a Bae Conwy, AGA Bae Lerpwl, AGA Traeth Lafan ac AGA Ynys Seiriol) drwy effeithiau dichonol ar adnoddau ac ansawdd dŵr, colli cynefinoedd (a rhywogaethau) a darnio/gwasgu cynefinoedd arfordirol, ymyrraeth (sŵn, golau a gweledol), ac ansawdd aer.

  Mae AHNE Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth Ynys Môn a Llwybr Arfordir Cymru yn dilyn yr arfordir tua'r dwyrain a'r gorllewin o'r prif safle. Hefyd ceir tri darn o Goetir Hynafol o fewn ffin y safle.

- **Yr amgylchedd hanesyddol:** Mae Gerddi Cestyll yn union i'r gorllewin o ffin prif safle GNN Wylfa. Hefyd ceir nifer o asedau treftadaeth ddiwylliannol a ddynodwyd sy'n agos iawn i'r safle sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion rhestredig ac Ardal Gadwraeth Cemaes.

- **Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol:** Mae'r rhan fwyaf o brif safle GNN Wylfa ar dir uwch ac yn sefyll ar greigwely caled, felly credir mai isel yw'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol. Er hynny, mae NPS EN-6 yn egluro bod angen mwy o asesu i bennu a fydd angen amddiffynfeydd ychwanegol yn ystod oes yr orsaf bŵer newydd.

- **Y Gymraeg a'i diwylliant a chydlyniant cymunedol:** Mae prif safle GNN Wylfa mewn ardal sy'n wledig gan mwyaf lle y mae'r boblogaeth yn fach a'r ddarpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn gyfyngedig. O ganlyniad i hyn, bydd yn bwysig ystyried yr effaith o adeiladu a gweithredu'r orsaf pŵer niwclear newydd ar gydlyniant cymunedol, gan gynnwys effaith ddichonol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

5.1.12 Er ei bod yn bosibl y bydd y gwaith o ddatgomisiynu'r orsaf pŵer niwclear bresennol a cheisiadau am ddatblygiadau eraill ger y prif safle (gan gynnwys datblygiadau cysylltiedig y tu allan i'r safle) yn rhoi cyfle i sicrhau buddion synergaidd, mae graddfa'r datblygiadau gwahanol o fewn ardal gymharol fach a sensitif yn golygu y bydd yn bwysig iawn bod hyrwyddwr y prosiect yn rhoi ystyriaeth lawn i'r posibilrwydd o gael effeithiau cronnol. Felly mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd hyrwyddwr y prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â Magnox a datblygwyr eraill, fel y bo'n briodol, i gytuno ar fesurau i liniaru effeithiau cronnol niweidiol a'u rhoi ar waith.

| **EA 26** | **Prif Safle GNN Wylfa – Egwyddorion Datblygu Allweddol** |
|---|---|

Anogir/Disgwylir i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa, wrth baratoi cais am GCD neu geisiadau i gyrff eraill am ddatblygiadau cysylltiedig ar y prif safle, i wneud y canlynol:

- lleihau effeithiau ar gydlyniant cymunedol lleol, iechyd a'r Gymraeg a'i diwylliant drwy'r canlynol:
  - cyfyngu'r llety i weithwyr adeiladu ar y prif safle i'r hyn sy'n hanfodol gan roi cyfiawnhad cadarn o'r angen amdano;
  - paratoi Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg manwl ar gyfer pennu mesurau priodol i leihau effeithiau niweidiol ar y Gymraeg a'i diwylliant;
  - darparu gwasanaethau a chyfleusterau sydd wedi'u hintegreiddio ag aneddiadau presennol ac ar raddfa sy'n addas i'w lleoliad, i gwrdd ag anghenion gweithwyr adeiladu ac at ddefnydd y gymuned leol hefyd yn ystod cyfnod adeiladu'r orsaf bŵer a threfnu iddynt fod ar gael fel budd parhaol wedi i'r cyfnod adeiladu/gweithredu ddod i ben;

| EA 26 | Prif Safle GNN Wylfa – Egwyddorion Datblygu Allweddol |
|---|---|

- mabwysiadu mesurau i hyrwyddo diogelwch cymunedol gan gynnwys paratoi Cod Ymddygiad i Weithwyr Adeiladu a Chynllun Rheoli Diogelwch Cymunedol;
- cynnal asesiad cynhwysfawr o effeithiau'r gwaith o adeiladu a gweithredu GNN Wylfa ar iechyd ac amwynder er mwyn pennu mesurau priodol i'w lliniaru a'u cydbwyso.

- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau drwy'r canlynol:
  - rheoli gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff;
  - defnyddio deunyddiau adeiladu a gafwyd yn lleol ac mewn ffordd gynaliadwy;
  - cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni yng nghynllun a dyluniad adeiladau newydd;
  - defnyddio cynhyrchion a dyluniadau sy'n effeithlon o ran dŵr;
  - darparu seilwaith ynni adnewyddadwy ar y safle.
- Osgoi effeithiau niweidiol ar adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu;
- Sicrhau bod y datblygiad yn gallu gwrthsefyll y perygl o lifogydd, gan gynnwys hyrddiadau storm a tswnami;
- Mabwysiadu mesurau lliniaru priodol, a mesurau cydbwyso pan fo'n briodol, er mwyn osgoi effeithiau niweidiol ar y canlynol:
  - integredd safleoedd Natura 2000 (neu eu nodweddion nodedig) gan gynnwys ACA Bae Cemlyn, AGA Ynys Feurig, Ynysoedd y Moelrhoniaid a Bae Cemlyn, ACA Afon Menai a Bae Conwy, AGA Bae Lerpwl, AGA Traeth Lafan ac AGA Ynys Seiriol (os byddai datblygiad ym mhrif safle GNN Wylfa, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â cheisiadau eraill, yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar safle Natura 2000, byddai rhaid cynnal Asesiad Priodol;
  - cyflwr SoDdGAau gan gynnwys SoDdGA Tre'r Gof;
  - coetir hynafol;
  - cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir allweddol, gan gynnwys y rhai a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn.
- Lleihau effeithiau ar dirwedd ac effeithiau gweledol gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig ag AHNE ac Arfordir Treftadaeth Ynys Môn, asedau hanesyddol a derbynwyr preswyl a hamdden. Lle y mae hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa wedi dangos na ellir atal effeithiau o'r fath, rhaid cymryd mesurau priodol i'w lliniaru a'u cydbwyso;
- Cynnal a gwella mynediad at yr arfordir yng nghyswllt gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru;
- Pennu ffyrdd o drin tirweddau, creu cynefinoedd, rheoli perygl llifogydd a chysylltu a gwella Hawliau Tramwy sy'n integreiddio'n briodol â'r ardal o gwmpas. Mae'n bosibl y bydd gwaith a gwelliannau mewn tirweddau a seilwaith gwyrdd sy'n ymestyn y tu hwnt i ffin prif safle'r orsaf bŵer yn gallu lliniaru a chydbwyso effeithiau'r prosiect a chreu gwelliannau lle y bo'n briodol;

**EA 26 Prif Safle GNN Wylfa – Egwyddorion Datblygu Allweddol**

- Os yw datblygiad yn un dros dro, adfer a/neu greu gwrychoedd, tir amaethyddol, glaswelltir, coetir, nodweddion dŵr a phrysgdir cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau effeithiau ar dirwedd ac effeithiau gweledol a chydbwyso effeithiau ar y nodweddion naturiol hyn.

Dylai hyrwyddwr y prosiect hefyd weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir, cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu'r uwchgynllun ar gyfer y prif safle er mwyn nodi a lleihau effeithiau niweidiol posibl ac amlhau'r buddion sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf pŵer niwclear newydd.


Dylai hyrwyddwr y prosiect weithio mewn partneriaeth â Magnox (a hyrwyddwyr prosiectau eraill fel y bo'n briodol) i chwilio am gyfleoedd i liniaru effeithiau niweidiol cronnol ac amlhau buddion o weithgareddau datgomisiynu ac o adeiladu GNN Wylfa. Ymhlith y cyfleoedd y mae'r Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect a Magnox eu hasesu y mae:

- Defnyddio tir a seilwaith presennol ar safle Magnox i gynnal Prosiect GNN Wylfa;
- Mesurau i leihau effeithiau o ganlyniad i ymyrraeth fel sŵn ac allyriadau i'r aer o weithgarwch adeiladu a symudiadau cerbydau nwyddau trwm;
- Gwella cynefinoedd presennol, neu ddarparu rhai newydd, i wrthbwyso effeithiau cronnol ar fioamrywiaeth ;
- Mesurau i leihau effeithiau cronnol ar gymeriad y dirwedd a morwedd;
- Ailddefnyddio gwastraff a deunyddiau sydd wedi'u cynhyrchu wrth ddatgomisiynu neu wrth adeiladu Prosiect GNN Wylfa;
- Ailhyfforddi ac uwchsgilio gweithlu'r orsaf pŵer niwclear bresennol a chontractwyr lleol er mwyn atal allfudo gan weithwyr crefftus a lleihau effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â chau'r orsaf pŵer niwclear bresennol;
- Asesiad ar y cyd o effaith Prosiect GNN Wylfa a gweithgareddau datgomisiynu ar wasanaethau a chyfleusterau cymunedol, seilwaith a'r farchnad dai leol a rhoi mesurau ar waith i ddelio ag unrhyw effeithiau niweidiol yn yr aneddiadau yr effeithir arnynt gan gynnwys camau i greu darpariaeth ychwanegol;
- Mesurau i ddelio ag effeithiau cronnol ar y Gymraeg a'i diwylliant, wedi'u seilio ar Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar y cyd;
- Paratoi Cynllun(iau) Trafnidiaeth a Thraffig ar y Cyd gan gynnwys cynigion ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn unrhyw seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth y bydd eu hangen i gynnal y ddau brosiect a defnyddio seilwaith trafnidiaeth ar y cyd.

## 5.2 Caergybi a'r Cylch

### Trosolwg

5.2.1 Mae'r Ardal Chwilio hon yn cwmpasu tref Caergybi ac yn cynnwys Llain-goch a Phorth y Felin tua'r gogledd-ddwyrain a Phenrhos yn y de-orllewin. Mae hefyd yn cynnwys tir ger ffin ddatblygu ardal drefol Caergybi (sydd wedi'i diffinio yn y Cynllun Lleol) tua'r gogledd, y gorllewin a'r de.




5.2.2 Caergybi yw'r dref fwyaf yn Ynys Môn ac ar adeg Cyfrifiad 2011 roedd ganddi boblogaeth o 11,431[27] (16% o boblogaeth Ynys Môn). Hi hefyd yw'r brif ganolfan manwerthu a gwasanaethu ac mae ganddi amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys chwe ysgol gynradd, ysgol uwchradd, coleg, ysbyty cymunedol a chanolfan hamdden. Mae wedi'i chysylltu â'r brif ynys gan ffyrdd yr A5 a'r A55 a phrif reilffordd Arfordir Gogledd Cymru.

5.2.3 Caergybi yw'r porthladd llongau fferi prysuraf yng Nghymru. Mae'n borth rhyngwladol allweddol lle y ceir tua 2 filiwn o symudiadau gan deithwyr llongau fferi bob blwyddyn yn ôl ac ymlaen i Iwerddon. Er hynny, mae perfformiad economaidd y dref wedi dirywio o'i gymharu â gweddill Cymru. Mae'r dirywiad hwn wedi cyflymu ar ôl cau dau o'i phrif gyflogwyr sector preifat yn 2009/2010. Bellach Ardal Teithio i'r Gwaith (ATIG) Caergybi, sy'n cynnwys Ynys Gybi a gorllewin Ynys Môn, sydd â'r gyfradd uchaf o dderbynwyr y Lwfans Ceisio Gwaith, a'r dwysedd swyddi ail isaf, o'r holl ATIGau yng Nghymru. Ceir amddifadedd difrifol yng Nghaergybi hefyd. Mae'r rhan fwyaf o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghaergybi yn ddifreintiedig ac, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011, Caergybi yw un o'r trefi mwyaf difreintiedig o'r holl drefi yng Ngogledd neu Ganolbarth Cymru ac mae ganddi sgôr uchel iawn am amddifadedd o ran iechyd, addysg, amgylchedd ffisegol, diogelwch cymunedol, tai, incwm a chyflogaeth.

5.2.4 Gall Prosiect GNN Wylfa fod yn gatalydd pwysig iawn ar gyfer adfywio Caergybi drwy ddarparu buddsoddi mawr ei angen mewn tai, cyfleusterau/gwasanaethau cymunedol a chreu swyddi. Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor Sir yw bodloni'r angen am fuddsoddi ac adfywio sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa, yn ogystal â buddsoddiadau strategol eraill yng Nghaergybi, er mwyn trawsnewid y dref. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cais am £7.5 miliwn o gyllid i helpu

[27] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

prosiectau tai ac adfywio yng Nghaergybi ar gyfer y cyfnod 2015-2017 o dan y Fframwaith Adfywio Trefol – Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Mae'r cais llwyddiannus, *Caergybi: Sicrhau Mantais Gymunedol Gynaliadwy*[28], yn rhaglen uchelgeisiol i weddnewid un o drefi mwyaf difreintiedig Cymru. Prif nod y rhaglen yw darparu ymateb cydlynol i ddatblygiadau newydd mawr a ddisgwylir yng Nghaergybi neu'r ardal gyfagos dros y pum mlynedd nesaf fel rhan o statws Ardal Fenter Ynys Môn a rhaglen Ynys Ynni Môn.

5.2.5 Mae Caergybi wedi'i diffinio'n anheddiad twf allweddol yng Nghynllun Gofodol Cymru ac mae'n rhoi pwyslais ar ddarparu gwasanaethau a chyflogaeth a meithrin cryfderau sefydledig er mwyn hybu a lledaenu ffyniant i'r gefnwlad wledig ehangach. Mae polisi presennol a pholisi sy'n cael ei ddatblygu yn y Cynllun Datblygu hefyd yn ceisio canoli buddsoddi mewn seilwaith, cyfleoedd gwaith a darpariaeth o dai newydd yn y dref. Er enghraifft, mae'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu yn enwi Caergybi yn ganolfan gwasanaeth drefol ac yn ganolbwynt ar gyfer y rhan fwyaf o'r datblygu newydd yn y dyfodol yn Ynys Môn (ynghyd â Llangefni ac Amlwch). Yn unol â rôl Caergybi yn yr hierarchaeth aneddiadau, ei hagosrwydd i brif safle GNN Wylfa a'r posibilrwydd o ddatblygu mewn cysylltiad â GNN Wylfa er mwyn hybu adfywiad y dref, mae'r Cyngor Sir yn credu y dylai Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch fod yn ganolbwynt ar gyfer llety i weithwyr adeiladu a mathau o ddefnydd tir ar gyfer cyflogaeth ar gyfer Prosiect GNN Wylfa, yn ogystal â chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol cysylltiedig a cheisiadau am ddatblygiadau trafnidiaeth angenrheidiol ar ffurf buddsoddi mewn priffyrdd a chyfleusterau Parcio a Theithio.

5.2.6 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae Caergybi yn eu cynnig fel porth rhyngwladol o bwys. Felly mae'r Cyngor Sir o'r farn y dylid chwilio am gyfleoedd yn yr Ardal Chwilio hon yng nghyswllt y defnydd o Borthladd Caergybi ar gyfer cludo nwyddau (nwyddau adeiladu swmpus, peiriannau ac offer) a gweithwyr ac ar gyfer datblygu seilwaith logisteg sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau. Mae hyn yn gyson â Datganiad Sefyllfa'r Cyngor Sir ar Drafnidiaeth ar gyfer Gorsaf Pŵer Niwclear Newydd Wylfa (2011), sy'n egluro'r



[28] Mae'r ceisiadau llwyddiannus ar gyfer Cam 1 a Cham 2 ar gael ar wefan y Cyngor Sir. Gweler http://www.ynysmon.gov.uk/busnes/adfywio-a-buddsoddi/cais-lleoedd-llewyrchus-llawn-addewid-i-gaergybi?redirect=false.

dull y mae'r Cyngor yn ei ffafrio ar gyfer rheoli symudiadau nwyddau a phobl yn ôl ac ymlaen o brif safle GNN Wylfa.

## Cyfleoedd

5.2.7 Er mwyn gwireddu'r potensial ar gyfer buddsoddi sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa i hyrwyddo adfywiad yng Nghaergybi, bydd angen dull cydgysylltiedig a chyfannol o gynllunio ar gyfer datblygiadau cysylltiedig a chyfleoedd economaidd a mentrau adfywio eraill o bwys yn yr Ardal Chwilio hon a'i chyffiniau. Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa ategu'r cyfleoedd hyn lle y bo'n briodol er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'r amgylchedd, yr economi a chymunedau lleol.

5.2.8 Mae Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch yn cynnwys pedwar o'r wyth safle yn Ardal Fenter Ynys Môn[29] sef:

- Aliwminiwm Môn (EZ1) (rhoddwyd caniatâd ar gyfer datblygu gweithfa pŵer biomas);
- Parc Cybi (EZ2) (rhoddwyd caniatâd ar gyfer mathau o ddefnydd sy'n ymwneud â dosbarthu a warysau);
- Ystad Ddiwydiannol Penrhos (EZ3);
- Porthladd Caergybi (EZ4).

5.2.9 Mae datblygiad hamdden a phreswyl mawr wedi'i gynnig[30] hefyd oddi mewn ac yn gyfagos i ffin ddatblygu Caergybi (fel y mae wedi'i diffinio yn y CDU a Ataliwyd) i'r de o'r Ardal Chwilio (Tir yng Nghae Glas a Kingsland). Ymysg elfennau eraill, mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys darparu 315 o gabanau gwyliau yng Nghae Glas a datblygiad preswyl o hyd at 320 o anheddau yn Kingsland. Hyrwyddir defnyddio'r ddwy elfen hyn yn llety dros dro i weithwyr yn ystod cyfnod adeiladu GNN Wylfa. Yn ogystal â hyn, mae'r cais yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau eraill y gellid eu defnyddio gan weithwyr adeiladu a'r gymuned ehangach gan gynnwys cyfleusterau Parcio a Theithio, manwerthu a hamdden. Ym marn y Cyngor Sir mae'r cynllun yn enghraifft o gyfle i sicrhau llety i weithwyr adeiladu a fydd o fudd parhaol wedi i gyfnod adeiladu GNN Wylfa ddod i ben, a hynny ar ffurf tai, datblygiad twristiaeth o bwys, cyflogaeth a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.

[29] Mae mwy o wybodaeth am Ardal Fenter Ynys Môn a'i safleoedd yn http://business.wales.gov.uk/enterprisezones/cy/ardaloedd/ynys-mon.
[30] Cais Cynllunio Rhif: 46C427K/TR/EIA/ECON

5.2.10 Ymysg y safleoedd datblygu posibl eraill yng Nghaergybi y mae cyn safle Eaton Electrical a Turkeyshore Road sydd wedi'u nodi'n rhai a all fod yn addas ar gyfer mathau o ddefnydd sy'n cynnwys diwydiant ysgafn a swyddfeydd yn yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth[31] a baratowyd ar gyfer y CDLlC.

5.2.11 Ynghyd â'r cyfleoedd datblygu sydd wedi'u nodi uchod, disgwylir y bydd Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch yn ganolbwynt hefyd ar gyfer datblygu sy'n gysylltiedig â nifer o fuddsoddiadau allweddol eraill mewn ynni yn Ynys Môn. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig cyfle unigryw i sicrhau buddsoddi cydgysylltiedig, twf economaidd ac adfywio yng Nghaergybi a ddaw â budd i'r gymuned a busnesau lleol.

**Materion Allweddol**

5.2.12 Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i nodweddion amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol Caergybi a'r Cylch wrth lunio ceisiadau am fuddsoddi sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa yng Nghaergybi, yn ogystal â rhai ar gyfer prosiectau buddsoddi strategol mawr eraill yn yr Ardal Chwilio hon. Ymhlith y materion allweddol y bydd angen i hyrwyddwr y prosiect eu hystyried y mae:

- **Yr amgylchedd naturiol:** Mae amgylchedd naturiol o ansawdd uchel o fewn yr Ardal Chwilio ac o'i chwmpas sy'n cynnwys safle gwarchod natur â dynodiad Ewropeaidd (ACA ac AGA Glannau Ynys Gybi/Holy Island Coast tua'r gogledd-orllewin), nifer o SoDdGAau tua'r gogledd, y gorllewin a'r de-ddwyrain, AHNE Ynys Môn ac Arfordir Treftadaeth Mynydd Twr;

- **Yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig:** Mae treftadaeth adeiledig gyfoethog yn nhref Caergybi. Mae wedi'i dynodi'n ardal gadwraeth ac mae'n cynnwys nifer o adeiladau rhestredig. Mae'r Ardal Chwilio ehangach yn cynnwys mwy o adeiladau rhestredig a dwy heneb restredig tua'r de, un ohonynt oddi mewn i safle Ardal Fenter Ystad Ddiwydiannol Penrhos ac un yn gyfagos iddo;

- **Perygl llifogydd:** Er nad yw perygl llifogydd yn ystyriaeth bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o Gaergybi, mae tir o fewn y Porthladd mewn perygl oddi wrth lifogydd llanw. Mae perygl o lifogydd llanw hefyd ar Draeth Penrhos sy'n ymestyn i'r tir dros ran o safle gwaith Aliwminiwm Môn;

- **Cyfleustodau:** Cafwyd llifogydd yn y rhwydwaith carthffosydd ar sawl achlysur o fewn dalgylch gwaith trin dŵr gwastraff Caergybi. Os ceir datblygiadau sylweddol o ganlyniad i fewnfuddsoddi yn yr ardal hon, bydd hyn yn effeithio'n syth ar y seilwaith trydanol presennol. Nid oes digon o allu yn y seilwaith trydanol ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer datblygiadau mawr (tai/cyflogaeth);

---

[31] URS (2012) *Economic and Employment Land Review Study for the Anglesey and Gwynedd Planning Authority Area: Final Report*, Gorffennaf 2012.

- **Cymdeithasol ac economaidd:** Gan ei fod yn lleoliad posibl ar gyfer llety i weithwyr adeiladu a datblygu arall sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa, byddai cymunedau a busnesau lleol yng Nghaergybi yn gallu profi newid a phwysau sylweddol o ganlyniad i ddatblygu newydd. Gallai'r potensial ar gyfer effeithiau economaidd-gymdeithasol niweidiol gynyddu mewn ardaloedd lle mae amddifadedd difrifol yn sgîl mwy o bwysau ar gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol pwysig, gan gynnwys darpariaeth gofal iechyd;

- **Capasiti priffyrdd:** Mae'n debygol y bydd cynnydd ym maint y traffig ar y briffordd rhwng Porthladd Caergybi a'r Fali yn ystod cyfnod adeiladu GNN Wylfa. Rhai o'r mannau ar hyd y llwybr hwn lle y ceir y problemau mwyaf o ran capasiti yw:
    - Y fynedfa i Borthladd Caergybi;
    - Cyffordd yr A55/A5;
    - Cyffordd 1 ar yr A55;
    - Yr A5 rhwng Porthladd Caergybi a'r Fali (llwybr yn lle'r A55);
    - Cyffordd 3 ar yr A55, sef y prif lwybr strategol at yr A5025 (llwybr yn lle'r A5);
    - Cyffordd 2 ar yr A55.

| **EA 27** | **Caergybi a'r Cylch** |
|---|---|
| **Datblygu Cysylltiedig** | |
| Llety i Weithwyr Adeiladu | Bydd cefnogaeth i ddatblygu llety i weithwyr adeiladu ar raddfa fach (h.y. llai na 50 o unedau) ac ar raddfa fawr (mwy na 50 o unedau) a fydd yn cynnwys llety pwrpasol, llety rhent preifat a/neu lety i ymwelwyr yn Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch ar yr amod ei fod ar raddfa briodol ac yn gymesur â maint y boblogaeth breswyl bresennol, ar ôl ystyried datblygiadau eraill sydd wedi'u cynnig neu eu caniatáu. Bydd y Cyngor Sir yn gefnogol i lety o fath a fydd yn rhoi budd parhaol wedi i'r cyfnod adeiladu ddod i ben.<br>Yn unol â'r polisi yn y Cynllun Lleol presennol, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, rhaid lleoli datblygu newydd o fewn neu ar gyrion y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio ar gyfer Caergybi, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd preswyl yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Rhaid i geisiadau ar gyfer llety i weithwyr adeiladu fod yn gyson â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol sy'n berthnasol a'r canllawiau sydd yn y CCA hyn a CCA eraill |

| **EA 27** | **Caergybi a'r Cylch** |
|---|---|
| | ynghylch lleoli, dylunio a math. |
| Cyflogaeth | Mae'r Cyngor Sir o blaid creu cyfleoedd busnes newydd addas ar raddfa fach a mawr, cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi ac ehangu busnesau presennol yn Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa.<br>Rhaid lleoli mathau newydd o ddefnydd at gyflogaeth o fewn y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio ar gyfer Caergybi, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n creu cyflogaeth ar safleoedd addas eraill y tu allan i'r ffin ddatblygu ar yr amod bod cyfiawnhad priodol ar sail anghenion gweithredu, ystyriaeth ddyladwy i faterion amgylcheddol a chymdeithasol ac nad oes safleoedd addas eraill o fewn y ffin ddatblygu. |
| Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Bydd y Cyngor Sir yn mynnu bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol yn cael eu gwella, a rhai addas newydd yn cael eu creu, yn Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch a fydd yn cwrdd ag anghenion gweithwyr adeiladu, y gall y gymuned leol eu defnyddio yn ystod cyfnod adeiladu Prosiect GNN Wylfa ac y gellir trefnu iddynt fod ar gael ar ôl y cyfnod adeiladu i roi budd parhaol.<br>Bydd lleoliad, graddfa a dyluniad cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd neu welliannau i rai presennol yn gyson â pholisi a chanllawiau'r Cynllun Datblygu sydd wedi'u nodi yn EA6 o'r CCA hyn ac mewn CCA eraill. Yn benodol, bydd cyfleusterau a gwasanaethau'n hawdd eu cyrraedd ar droed, ar feic ac mewn trafnidiaeth gyhoeddus a byddant wedi'u hadeiladu at y safon amgylcheddol uchaf posibl (h.y. BREEAM 'Excellent'). |
| Logisteg Trafnidiaeth a Chludo Nwyddau | Cefnogir gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth presennol gan gynnwys Porthladd Caergybi, prif reilffordd Arfordir Gogledd Cymru a phriffyrdd sy'n angenrheidiol ar gyfer adeiladu GNN Wylfa, ar yr amod eu bod yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a lleol yn ogystal â chanllawiau yn y CCA hyn, yn enwedig EA14.<br>Dylai hyrwyddwr y prosiect ystyried yr angen am gyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu a rhai ar gyfer cyfuno llwythi yn yr Ardal Chwilio hon er mwyn lleihau nifer y symudiadau traffig ffyrdd rhwng Caergybi a phrif safle GNN Wylfa. Os yw'n briodol, bydd y cyfleusterau a ddatblygir yn rhoi budd ar ôl i'r cyfnod adeiladu ddod i ben drwy barhau i'w defnyddio neu drwy gynnig tir i'w ailddatblygu. |
| **Cyfleoedd** | |

| **EA 27** | **Caergybi a'r Cylch** |
|---|---|
| Safleoedd yr Ardal Fenter | Bydd disgwyl i hyrwyddwr y prosiect roi ystyriaeth fanwl, drwy gydgysylltu â'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru, ynghylch sut y bydd datblygu cysylltiedig yn gallu hyrwyddo'r defnydd o safleoedd Ardal Fenter Ynys Môn EZ1, EZ2, EZ3 ac EZ5. Yn benodol, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect wneud y canlynol:<br>• Chwilio am gyfleoedd i leoli datblygiadau cysylltiedig priodol ar safleoedd dynodedig yr Ardal Fenter;<br>• Asesu'r posibilrwydd o greu mwy o allu ym Mhorthladd Caergybi i drafod deunyddiau adeiladu swmpus, gan ategu ei rôl yn borth rhyngwladol allweddol;<br>• Ystyried sut y bydd buddsoddi mewn cyfleusterau, gwasanaethau a seilwaith cymunedol mewn mannau eraill yn yr Ardal Chwilio yn gallu ategu a hybu gweithgarwch ar safleoedd yr Ardal Fenter. |
| Tir yng Nghae Glas a Kingsland | Os rhoddir caniatâd cynllunio, dylai hyrwyddwr y prosiect wneud asesiad llawn o addasrwydd y datblygiad arfaethedig yng Nghae Glas a Kinglsand ar gyfer llety i weithwyr adeiladu yn Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch. Os bydd hyrwyddwr y prosiect yn ffafrio dull arall o ddarparu llety i weithwyr adeiladu, yna bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect ddarparu cyfiawnhad ar sail resymegol gadarn dros wrthod y cynllun a'r dewis o safle(oedd) eraill a fydd yn unol â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol presennol. |
| Safleoedd Datblygu Posibl Eraill | Dylai hyrwyddwr y prosiect ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio Cyn Safle Eaton Electrical a Turkeyshore Road ar gyfer datblygiadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa. |
| Buddsoddiadau Strategol Mawr | Bydd disgwyl i hyrwyddwr y prosiect gydweithio â'r Cyngor Sir a hyrwyddwyr ceisiadau eraill ar gyfer buddsoddi strategol helaeth sydd o fewn neu'n agos i Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch er mwyn cydgysylltu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi a datblygu lle y bo modd, cael y canlyniadau gorau i'r amgylchedd, preswylwyr a busnesau lleol, a sicrhau buddion a fydd yn parhau wedi i'r cyfnod adeiladu ddod i ben. |
| Seilwaith Trafnidiaeth | Yn ogystal ag ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio Porthladd Caergybi i gludo deunyddiau adeiladu, dylai hyrwyddwr y prosiect asesu cyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau rheilffyrdd i gludo deunyddiau adeiladu a gweithwyr. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio'r orsaf bresennol ar safle Aliwminiwm Môn.<br>Wrth ystyried y dichonoldeb o ddefnyddio moddau trafnidiaeth ar reilffyrdd, ar ddŵr ac ar ffyrdd ac wrth ddatblygu ceisiadau ar |

| **EA 27** | **Caergybi a'r Cylch** |
|---|---|
| | gyfer datblygiadau cysylltiedig, dylai hyrwyddwr y prosiect ystyried cynigion presennol ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth yng Nghaergybi, a cheisio eu cefnogi os yw'n briodol, yn benodol ffordd gyswllt newydd yr A55 ar gyfer Porthladd Caergybi. |
| Adfywio Caergybi | Disgwylir i hyrwyddwr y prosiect weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir a chyrff eraill i gefnogi ac ategu mentrau adfywio ehangach yng Nghaergybi (er enghraifft, y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a gweithgareddau adfywio Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Môn).<br>Dylai hyrwyddwr y prosiect gyfrannu at unrhyw uwchgynllun ar gyfer y dref, a'i ystyried yn ei geisiadau datblygu. |
| **Materion Allweddol** | |
| Yr Amgylchedd Naturiol | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, yn cael effaith niweidiol ar ACA ac AGA Glannau Ynys Gybi / Holy Island Coast (na'u nodweddion nodedig) na SoDdGAau ac asedau ecolegol eraill o fewn yr Ardal Chwilio ac yn ei chyffiniau. Yn benodol, dylid nodi'r effeithiau cronnol posibl ar safleoedd cadwraeth natur dynodedig Ynys Gybi yn sgîl mwy o ymwelwyr, a cheisiadau ar gyfer rheoli neu liniaru'r effeithiau hyn.<br>Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i leoliad, graddfa a dyluniad datblygiadau er mwyn gwarchod a gwella AHNE Ynys Môn ac Arfordir Treftadaeth Mynydd Twr.<br>Dylid lliniaru a/neu gydbwyso effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol hyd y gellir ac yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol a'r cyfarwyddyd sydd yn y CCA hyn ac mewn CCA eraill. Dylid hefyd chwilio am gyfleoedd i ddarparu mwy o seilwaith gwyrdd yn yr Ardal Chwilio hon ac i wella bioamrywiaeth a thirwedd. |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Adeiledig | Wrth lunio ceisiadau ar gyfer datblygu, dylid ceisio sicrhau na fyddant yn cael effeithiau, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â phrosiectau eraill, ar yr asedau hanesyddol (a'u hamgylchoedd) sydd yn yr Ardal Chwilio hon gan gynnwys Ardal Gadwraeth Tref Caergybi, adeiladau rhestredig a henebion rhestredig.<br>Rhaid mabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel wrth lunio ceisiadau a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo cymeriad lleol ac yn sicrhau bod tir y cyhoedd yn ddiogel a hygyrch, yn unol â chanllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor Sir. |

| **EA 27** | **Caergybi a'r Cylch** |
|---|---|
| Perygl Llifogydd | Rhaid rhoi ystyriaeth fanwl i ddatblygu mewn ardaloedd lle y mae perygl llifogydd ac yn benodol ar dir o fewn ardal Porthladd Caergybi. Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, dylid lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle y mae perygl llifogydd. Os cyflwynir ceisiadau ar gyfer tir lle y mae perygl llifogydd, bydd disgwyl iddynt gynnwys dull cynhwysfawr o liniaru perygl llifogydd a fydd wedi'i seilio ar Asesiad Canlyniadau Llifogydd.<br>Rhaid cadw amddiffynfeydd rhag llifogydd presennol yn gyfan, gan gynnwys y morglawdd ym Mhorthladd Caergybi (os ceir cais am ddatblygu sy'n gysylltiedig â'r porthladd). |
| Cyfleustodau | Wrth bennu lleoliadau a datblygu ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig yn Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch, dylai hyrwyddwr y prosiect gydweithio â Dŵr Cymru, Scottish Power Energy Networks a Wales & West Utilities i ganfod a oes angen buddsoddi yn y seilwaith presennol a'i uwchraddio er mwyn darparu ar gyfer datblygu. Gallai'r buddsoddiad hwn gynnwys gwella'r seilwaith trydan, er enghraifft. |
| Cymdeithasol ac Economaidd | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Caergybi a'r Cylch yn cael effaith annerbyniol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar fusnesau lleol a gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol (gan gynnwys darpariaeth gofal iechyd) ynghyd ag ansawdd bywyd. Dylid cynnal asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol y ceisiadau ar fanylder sy'n gymesur â math a graddfa'r datblygiad a gynigir. Dylid rhoi sylw'n benodol i'r effeithiau posibl ar yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghaergybi. Os nodir ei bod yn bosibl y bydd effeithiau niweidiol, dylid rhoi mesurau lliniaru a/neu gydbwyso priodol ar waith.<br>Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i Ddatganiad Iaith Gymraeg gael ei gyflwyno gyda phob cais ar gyfer datblygu cysylltiedig yn yr Ardal Chwilio hon, ac i Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg mwy manwl gael ei gyflwyno gyda cheisiadau am ddatblygiadau mwy, yn unol â'r trothwyon yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007). |
| Capasiti Priffyrdd | Rhaid i hyrwyddwr y prosiect sicrhau na fydd ceisiadau, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, yn gwaethygu tagfeydd traffig. Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol ac **EA14** yn y CCA hyn, dylai hyrwyddwr y prosiect asesu effeithiau posibl ar seilwaith priffyrdd a sicrhau bod gwelliannau i briffyrdd yn cael eu darparu lle y bo'n briodol i leihau tagfeydd, sicrhau diogelwch a lleihau effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â sŵn, ansawdd aer a gwahanu ardaloedd o boptu ffyrdd. |

| EA 27 | Caergybi a'r Cylch |
|---|---|
| | Dylid lleoli datblygiadau newydd fel eu bod yn lleihau'r angen i deithio ac yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy. Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect bennu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus leol a gwella llwybrau presennol i gerddwyr a beicwyr, a darparu rhai newydd. |

## 5.3 Llangefni a'r Cylch

### Trosolwg

5.3.1 Mae Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch yn cwmpasu tref Llangefni ynghyd â'r gefnwlad gyfagos gan gynnwys yr A5114 sy'n cysylltu â'r A5 a'r A55. Llangefni yw'r anheddiad ail fwyaf ym Môn a'i phoblogaeth (ar adeg Cyfrifiad 2011) oedd 5,116. Mae ganddi amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol gan gynnwys dwy ysgol gynradd, ysgol uwchradd, coleg, canolfan hamdden ac ysbyty cymunedol.




5.3.2 Mae Llangefni yn ganolfan cyflogaeth o bwys sy'n cynnal 3,754 o swyddi, nifer sydd ychydig yn uwch na'r nifer o swyddi a geir yng Nghaergybi. Er hynny, ceir amddifadedd difrifol mewn rhai mannau yn y dref. Er enghraifft, mae ward Tudur, sy'n cynnwys traean dwyreiniol y dref, wedi'i dynodi'n ardal Cymunedau yn Gyntaf a hi yw'r ward drydedd fwyaf difreintiedig yn Ynys Môn (ac yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru)[32] a chanddi broblemau penodol sy'n ymwneud ag amddifadedd iechyd, incwm, cyflogaeth ac addysg.

5.3.3 Mae datblygu yn Llangefni yn sbardun economaidd-gymdeithasol pwysig i'r cyfan o Ynys Môn. Mae wedi'i nodi'n un o'r prif ganolfannau ar gyfer twf yn y Cynllun Datblygu presennol, y CDU a Ataliwyd a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu, ac mae Cynllun Gofodol Cymru yn dynodi'r dref yn Ardal Adfywio. Yn y cyd-destun hwn, mae nifer o fentrau adfywio wedi'u rhoi ar waith i hyrwyddo rôl y dref yn ganolfan fasnachol o bwys. Mae prosiectau cyfredol hefyd yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd a geir o raglen YYM, yr Ardal Fenter a Phrosiect GNN Wylfa yn benodol. Rhai elfennau yn y mentrau hyn yw paratoi uwchgynllun ar gyfer y dref a'r ystâd ddiwydiannol, buddsoddi mewn hyfforddiant ac addysg, a darparu adeiladau a seilwaith busnes o ansawdd uchel. O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor Sir yn credu y gall Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch ddarparu ar gyfer nifer o fathau o ddatblygu sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa gan gynnwys llety i weithwyr adeiladu, a mathau o ddefnydd tir sy'n ymwneud â chyflogaeth, y gadwyn gyflenwi a logisteg.

[32] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011.

## Cyfleoedd

5.3.4 Mae'n hollbwysig bod hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa yn cydweithio â'r Cyngor Sir, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn yr Ardal Chwilio hon ac i ategu'r ymdrechion presennol i hyrwyddo potensial economaidd-gymdeithasol Llangefni. Yn benodol, mae'r Cyngor Sir yn ceisio darparu dau o safleoedd Ardal Fenter Ynys Môn ar gyfer datblygu sy'n ymwneud ag ynni. Y safleoedd hyn yw:

- Ystad Ddiwydiannol Bryn Cefni (EZ5): ystad ddiwydiannol bresennol sydd â mathau defnydd cymysg sy'n cynnwys swyddfeydd a diwydiant ysgafn. Mae'n agos i'r A55 ac mae cyfleoedd dylunio ac adeiladu yno ar gyfer y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel. Mae'r Cyngor Sir wedi sicrhau cyllid yn ddiweddar o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (Rhaglen Gydgyfeirio'r UE ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a Rhaglen Adfywio Môn a Menai Llywodraeth Cymru i hwyluso nifer o welliannau i ystadau diwydiannol yn ardal Llangefni a fydd yn cynnwys:
    - adolygiadau a chynlluniau gwella ar gyfer ystadau;
    - briffiau datblygu ar gyfer safleoedd allweddol;
    - gwella arwyddion ar ystadau a'u hamgylchedd;
    - gwella seilwaith ystadau;
    - gweithgareddau marchnata a hysbysebu i ddenu buddsoddiadau a swyddi;
    - datblygu unedau busnes newydd at safon Rhagorol BREEAM i'w gosod ar rent.
- Tir yr Hufenfa (i'r gogledd o Fferm Lledwigan) (EZ6): yn agos i'r Parc Busnes Bryn Cefni presennol. Gall y safle hwn gynnwys mathau o ddefnydd ar gyfer diwydiant a swyddfeydd.

5.3.5 Un o'r cynigion eraill ar gyfer datblygu yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch sy'n cynnig cyfleoedd pwysig yng nghyd-destun Prosiect GNN Wylfa yw ehangu campws Coleg Menai drwy adeiladu Canolfan Ynni. Hefyd mae'r Coleg yn cynnal trafodaethau â'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i ddatblygu cyfleusterau hyfforddi wrth baratoi ar gyfer datgomisiynu'r orsaf pŵer niwclear Magnox bresennol. Cynigir defnyddio'r Coleg yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer hyfforddi mewn agweddau ar ddatgomisiynu, a datblygu cyfleusterau hyfforddi yno, o bosibl, i helpu i adeiladu GNN Wylfa yn y tymor hwy. Fodd bynnag, rhaid sicrhau cyllid ar gyfer yr ehangu hwn.

## Materion Allweddol

5.3.6 Mae'r Cyngor Sir wedi nodi nifer o faterion allweddol y bydd angen i hyrwyddwr y prosiect eu hystyried wrth ddatblygu ceisiadau ar gyfer datblygu cysylltiedig yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

- **Yr amgylchedd naturiol:** Nid oes safleoedd gwarchod natur â dynodiad rhyngwladol neu genedlaethol yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch, er bod Gwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy, dyffryn coediog 17.5 hectar (43 erw), i'r gogledd-orllewin o Langefni. Y safleoedd agosaf sydd â dynodiad cenedlaethol neu ryngwladol yw ACA Corsydd Môn a SoDdGA Caeau Talwrn (tua 1km i'r gogledd o'r Ardal Chwilio) ac ymhellach draw mae safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn a SoDdGAau Cors y Farl a Chors Bodeilio. Tua'r de, mae SoDdGA Cors Ddyga yn gyfagos i'r A5;

- **Tir amaethyddol:** Mae tir i'r de a'r gorllewin o Langefni yn cynnwys tir amaethyddol Gradd 2. Tir o Raddau 1, 2 a 3a (yn ôl diffiniad system Dosbarthiad Tir Amaethyddol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)) sy'n cael ei ystyried orau ac yn fwyaf amlddefnydd.

- **Yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig:** Mae Ardal Gadwraeth Llangefni yn cynnwys y dref hanesyddol a nifer o adeiladau rhestredig. Er nad oes henebion rhestredig o fewn yr Ardal Chwilio, mae Heneb Restredig Safle Ffosedig Tregarnedd tua'r de-ddwyrain o'r Ardal Chwilio ac yn agos iawn i Ystad Ddiwydiannol Bryn Cefni;

- **Cymdeithasol ac economaidd:** Byddai datblygu sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch yn gallu cael effaith niweidiol ar fusnesau a chymunedau lleol yn Llangefni, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig iawn gan gynnwys ward Tudur. Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth yr Ardal Chwilio hon yn siarad Cymraeg (mae mwy na 80% o breswylwyr wardiau Cyngar, Tudur a Chefni yn siarad Cymraeg, y cyfrannau uchaf o holl wardiau Ynys Môn). O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl y bydd datblygu sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa yn effeithio ar gydlyniant cymunedol, y Gymraeg a'i diwylliant;

- **Perygl llifogydd:** Mae rhannau o Langefni mewn perygl o lifogydd, yn enwedig tir ger Afon Cefni sydd o fewn Parth Llifogydd C2 ac yn rhedeg o'r gogledd i'r de drwy'r dref. Y tu allan i ffin yr anheddiad tua'r de o'r dref ac i'r dwyrain o'r A5114, mae cyfran fawr o'r tir o fewn Parth Llifogydd C1;

- **Cyfleustodau:** Cafwyd achosion o lifogydd yn rhwydwaith carthffosydd y gwaith trin dŵr gwastraff ar gyfer dalgylch Llangefni. Mae'n hysbys bod gallu'r rhwydwaith trydanol i ddarparu ar gyfer datblygiadau mawr yn yr ardal yn achosi anhawster. Nid yw'r rhwydwaith trydanol yn ddigonol i gynnwys unrhyw lwythi ychwanegol mawr. Byddai angen gosod pibellau nwy i gysylltu'r safleoedd cyflogaeth posibl ym Mharc Busnes Bryn Cefni (Lledwigan a Thir yr Hufenfa) â'r brif bibell dosbarthu nwy;

- **Capasiti priffyrdd:** Mae'r Adroddiad ar Ddichonoldeb Seilwaith Trafnidiaeth yr Ardal Fenter[33] yn nodi y byddai datblygu'r Ardal Fenter yn gallu creu problemau o ran capasiti o gwmpas Llangefni, yn enwedig ar y ffyrdd sy'n cysylltu safleoedd yr Ardal Fenter â'r A55.

| **EA 28** | **Llangefni a'r Cylch** |
|---|---|
| **Datblygu Cysylltiedig** | |
| Llety i Weithwyr Adeiladu | Bydd cefnogaeth i ddatblygu llety i weithwyr adeiladu ar raddfa fach (h.y. llai na 50 o unedau) ac ar raddfa fawr (mwy na 50 o unedau) a fydd yn cynnwys llety pwrpasol, llety rhent preifat a/neu lety i ymwelwyr yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch ar yr amod ei fod ar raddfa briodol ac yn gymesur â maint y boblogaeth breswyl bresennol, ar ôl ystyried datblygiadau eraill sydd wedi'u cynnig neu eu caniatáu. Bydd y Cyngor Sir yn gefnogol i lety o fath a fydd yn rhoi budd parhaol wedi i'r cyfnod adeiladu ddod i ben.<br>Yn unol â'r polisi yn y Cynllun Lleol presennol, y CDU a Ataliwyd a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu, rhaid lleoli datblygu newydd o fewn neu ar gyrion y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio ar gyfer Llangefni, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd preswyl yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Dylai ceisiadau ar gyfer llety i weithwyr adeiladu fod yn gyson â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol sy'n berthnasol a'r canllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill o ran lleoli, dylunio a math. |
| Cyflogaeth | Mae'r Cyngor Sir o blaid creu cyfleoedd busnes newydd addas ar raddfa fach a mawr, cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi ac ehangu busnesau presennol yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa.<br>Rhaid lleoli mathau newydd o ddefnydd at gyflogaeth o fewn y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio ar gyfer Llangefni, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n creu cyflogaeth ar safleoedd addas eraill y tu allan i'r ffin ddatblygu ar yr amod bod cyfiawnhad priodol ar sail anghenion gweithredu, ystyriaeth ddyladwy i faterion amgylcheddol a chymdeithasol ac nad oes safleoedd addas eraill o fewn y ffin ddatblygu. |

[33] AMEC (2013) *Enterprise Zone Transport Infrastructure Feasibility Report. Paratowyd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn.*

| **EA 28** | **Llangefni a'r Cylch** |
|---|---|
| Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Bydd y Cyngor Sir yn mynnu bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol yn cael eu gwella, a rhai addas newydd yn cael eu creu, yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch a fydd yn cwrdd ag anghenion gweithwyr adeiladu, y gall y gymuned leol eu defnyddio yn ystod cyfnod adeiladu Prosiect GNN Wylfa ac y gellir trefnu iddynt fod ar gael ar ôl y cyfnod adeiladu i roi budd parhaol.<br>Bydd lleoliad, graddfa a dyluniad cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd neu welliannau i rai presennol yn gyson â pholisi a chanllawiau'r Cynllun Datblygu sydd wedi'u nodi yn **EA6** o'r CCA hyn ac mewn CCA eraill. Yn benodol, bydd cyfleusterau a gwasanaethau'n hawdd eu cyrraedd ar droed, ar feic ac mewn trafnidiaeth gyhoeddus a byddant wedi'u hadeiladu at y safon amgylcheddol uchaf posibl (h.y. BREEAM 'Excellent'). |
| Logisteg Trafnidiaeth a Chludo Nwyddau | Cefnogir gwelliannau i'r seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth presennol sy'n angenrheidiol ar gyfer Prosiect GNN Wylfa (e.e. gwella capasiti priffyrdd rhwng safleoedd yr Ardal Fenter a'r A5) a logisteg cludo nwyddau, ar yr amod eu bod yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a lleol yn ogystal â chanllawiau yn y CCA hyn, yn enwedig **EA14**.<br>Er mwyn hwyluso symudiadau gweithwyr adeiladu yn ôl ac ymlaen i brif safle GNN Wylfa, bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau i ddarparu cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch. Os yw'n briodol, bydd y cyfleusterau a ddatblygir yn rhoi budd ar ôl i'r cyfnod adeiladu ddod i ben drwy barhau i'w defnyddio neu drwy gynnig tir i'w ailddatblygu. |
| **Cyfleoedd** | |
| Safleoedd yr Ardal Fenter yn Ystad Ddiwydiannol Bryn Cefni a Thir yr Hufenfa | Dylai hyrwyddwr y prosiect chwilio am gyfleoedd, drwy gydgysylltu â'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru, i leoli mathau o ddefnydd at gyflogaeth sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa ar safleoedd yr Ardal Fenter yn Ystad Ddiwydiannol Bryn Cefni (EZ5) a Thir yr Hufenfa (EZ6).<br>Bydd yn bwysig bod ceisiadau ar gyfer llety i weithwyr adeiladu a chyfleusterau, gwasanaethau a seilwaith cymunedol mewn rhannau eraill o'r Ardal Chwilio yn hyrwyddo ac yn ategu'r broses o ddarparu safleoedd yr Ardal Fenter lle y bo'n briodol. |
| Campws Coleg Menai | Dylai hyrwyddwr y prosiect chwilio am gyfleoedd i helpu i ehangu campws Coleg Menai er mwyn hwyluso hyfforddiant ar gyfer pobl leol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu swyddi o ganlyniad i Brosiect GNN Wylfa er budd cymunedau ym Môn. |

| EA 28 | Llangefni a'r Cylch |
|---|---|
| Adfywio Llangefni | Bydd disgwyl i hyrwyddwr y prosiect weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir a chyrff eraill i hybu ac ategu mentrau adfywio ehangach yn Llangefni gan gynnwys Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Môn.<br>Fel rhan o'r dull cyfannol o adfywio Llangefni, dylai hyrwyddwr y prosiect gydgysylltu â'r Cyngor Sir mewn perthynas â chyflawni'r uwchgynllun ar gyfer y dref a'r ystad ddiwydiannol. |
| **Materion Allweddol** | |
| Yr Amgylchedd Naturiol | Dylai hyrwyddwr y prosiect geisio sicrhau na fydd ceisiadau ar gyfer datblygu cysylltiedig yn cael effeithiau niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar safleoedd sydd â dynodiad cenedlaethol neu ryngwladol (na'u nodweddion nodedig) gan gynnwys ACA Corsydd Môn a SoDdGA Caeau Talwrn, safle Ramsar Corsydd Môn a Llŷn a SoDdGAau Cors y Farl a Chors Bodeilio a SoDdGA Cors Ddyga. Dylid lleihau effeithiau niweidiol ar asedau ecolegol eraill o fewn ac yn agos i'r Ardal Chwilio gan gynnwys Gwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy.<br>Dylid lliniaru a/neu gydbwyso effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol i'r graddau mwyaf posibl ac yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol yn ogystal ag arweiniad yn y CCA hyn. Dylid hefyd chwilio am gyfleoedd i ddarparu mwy o seilwaith gwyrdd yn yr Ardal Chwilio hon ac i wella bioamrywiaeth a thirwedd. |
| Tir Amaethyddol | Yn unol â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol ac EA20 yn y CCA hyn, nid yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlddefnydd y tu allan i ffin Llangefni i gael ei ddatblygu oni bai fod angen hanfodol am y datblygiad, ac nad yw tir ar gael sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen neu sydd yn y graddau amaethyddol is, neu fod gwerth amgylcheddol mewn tir o radd is sydd ar gael sydd â dynodiad tirwedd, natur, hanesyddol neu archeolegol sy'n bwysicach nag ystyriaethau amaethyddol. |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Adeiledig | Wrth lunio ceisiadau ar gyfer datblygu, rhaid ceisio sicrhau na fyddant yn cael effaith niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar Ardal Gadwraeth Llangefni ac adeiladau rhestredig yn yr Ardal Chwilio (a'u hamgylchoedd). Rhaid rhoi ystyriaeth fanwl hefyd i'r posibilrwydd y bydd datblygiadau'n effeithio ar amgylchoedd Heneb Restredig Safle Ffosedig Tregarnedd.<br>Rhaid mabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel wrth lunio ceisiadau a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo cymeriad lleol ac yn sicrhau bod tir y cyhoedd yn ddiogel a hygyrch, yn unol â chanllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill sydd wedi'u |

| **EA 28** | **Llangefni a'r Cylch** |
|---|---|
| | mabwysiadu gan y Cyngor Sir. |
| Perygl Llifogydd | Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, dylid lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle y mae perygl llifogydd. Os cyflwynir ceisiadau ar gyfer tir lle y mae perygl llifogydd, bydd disgwyl iddynt gynnwys dull cynhwysfawr o liniaru perygl llifogydd a fydd wedi'i seilio ar Asesiad Canlyniadau Llifogydd. |
| Cyfleustodau | Wrth bennu lleoliadau a datblygu ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch, dylai hyrwyddwr y prosiect gydweithio â Dŵr Cymru, Scottish Power Energy Networks a Wales & West Utilities i ganfod a oes angen buddsoddi yn y seilwaith presennol a'i uwchraddio er mwyn darparu ar gyfer datblygu ychwanegol. Gallai'r buddsoddiadau hyn gynnwys gwella'r seilwaith trydan a'r seilwaith carthffosiaeth lleol (yn dibynnu ar faint y datblygiad cysylltiedig yn yr ardal). |
| Cymdeithasol ac Economaidd | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Llangefni a'r Cylch yn cael effaith annerbyniol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar fusnesau lleol ac ansawdd bywyd. Dylid cynnal asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol y ceisiadau ar fanylder sy'n gymesur â math a graddfa'r datblygiad a gynigir. Dylid rhoi sylw'n benodol i'r effeithiau posibl ar yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yn Llangefni. Os nodir ei bod yn bosibl y bydd effeithiau niweidiol, dylid rhoi mesurau lliniaru a/neu gydbwyso priodol ar waith.<br>Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i Ddatganiad Iaith Gymraeg gael ei gyflwyno gyda phob cais ar gyfer datblygu cysylltiedig yn yr Ardal Chwilio hon, ac i Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg mwy manwl gael ei gyflwyno gyda cheisiadau am ddatblygiadau mwy, yn unol â'r trothwyon yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007). |
| Capasiti Priffyrdd | Rhaid i hyrwyddwr y prosiect sicrhau na fydd ceisiadau, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, yn gwaethygu tagfeydd traffig. Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol ac EA14 yn y CCA hyn, dylai hyrwyddwr y prosiect asesu effeithiau posibl ar seilwaith priffyrdd a sicrhau bod gwelliannau i briffyrdd yn cael eu darparu lle y bo'n briodol i leihau tagfeydd, sicrhau diogelwch a lleihau effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â sŵn, ansawdd aer a gwahanu ardaloedd o boptu ffyrdd.<br>Dylid lleoli datblygiadau newydd fel eu bod yn lleihau'r angen i deithio ac yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy. Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect bennu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi mewn |

| EA 28 | Llangefni a'r Cylch |
|---|---|
| | trafnidiaeth gyhoeddus leol a gwella llwybrau presennol i gerddwyr a beicwyr, a darparu rhai newydd. |

## 5.4 Amlwch a'r Cylch

### Trosolwg

5.4.1 Mae Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch yn cynnwys Amlwch a'i chefnwlad gyfagos. Amlwch yw'r dref fwyaf gogleddol yng Nghymru ac mae ar arfordir gogledd Môn ar ffordd yr A5025. Mae'r Ardal Chwilio oddeutu 10km o brif safle GNN Wylfa.




5.4.2 Amlwch yw'r brif ganolfan ar gyfer cyflogaeth a gwasanaethau yng ngogledd Môn ac ar adeg Cyfrifiad 2011 roedd ganddi boblogaeth o 3,789. Fodd bynnag, mae bron hanner o weithlu'r dref yn allgymudo, cyfran sy'n fwy na'r un ganolfan arall yn Ynys Môn. Mae nifer o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol pwysig yn y dref gan gynnwys ysgol gynradd, ysgol uwchradd a chanolfan hamdden.

5.4.3 Mae Porth Amlwch yn un o'r 30% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru a'r 20% mwyaf difreintiedig yn Ynys Môn, ac mae cyflogaeth, addysg, tai a'r gallu i gael gwasanaethau'n broblemau neilltuol[34]. Mae lefelau diweithdra yn gymharol uchel hefyd yn Amlwch a'r Cylch a ledled gogledd Môn. Er enghraifft, ym mis Mai 2014 y gyfran o'r boblogaeth a oedd yn hawlio lwfans ceisio gwaith (mesur o ddiweithdra) yn ward Porth Amlwch oedd 5.3% o'i gymharu â 3.6% yn Ynys Môn i gyd a'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr o 2.6%[35]. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl y bydd buddsoddi sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa yn helpu i ddelio â phroblemau cymdeithasol ac economaidd presennol yn y dref.

5.4.4 Mae Amlwch wedi'i nodi'n un o'r prif ganolfannau ar gyfer twf yn y Cynllun Datblygu presennol, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu. Mae'n agos iawn i brif safle GNN Wylfa ar hyd yr A5025 ac mae cyfleoedd iddi chwarae mwy o ran fel canolfan allweddol yng ngogledd Môn ar gyfer llety i weithwyr adeiladu, masnach a chyfleoedd gwaith i gynnal Prosiect GNN Wylfa. Byddai buddsoddi yn Amlwch mewn cysylltiad â Phrosiect GNN Wylfa yn gallu helpu i wneud y dref yn fwy bywiog a hyfyw, cynnal a gwella cyfleusterau a gwasanaethau presennol (a hybu darpariaeth newydd) a sbarduno cyfleoedd gwaith lleol er mwyn hyrwyddo ffyniant yn y dyfodol.

[34] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011.
[35] NOMIS: Nifer yr Hawlwyr.

### Cyfleoedd

5.4.5 Yr unig gyfleoedd penodol ar gyfer datblygu sy'n hysbys yn yr Ardal Chwilio hon yw dyraniadau tir ar raddfa fach ar gyfer tai a chyflogaeth o fewn ffin ddatblygu Amlwch. Mae'r Ardal Chwilio yn cynnwys safle'r gwaith cemegol blaenorol tua'r gogledd-ddwyrain sydd wedi'i ddyrannu at gyflogaeth yn y Cynllun Lleol a'r CDU a Ataliwyd. Mae Amlwch LNG wedi cyflwyno cais cynllunio ar gyfer adeiladu gwaith Nwy Hylifedig Naturiol ar y safle hwn sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r Ardal Chwilio hefyd yn cynnwys Parc Busnes presennol Amlwch, sydd gerllaw'r ardal drefol i'r de-orllewin o ganol y dref. Mae'r Parc Busnes yn cynnwys dyraniadau a wnaed yn y Cynllun Lleol a phlotiau eraill sydd ar gael a allai fod yn addas ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa.

5.4.6 Mae safle Ardal Fenter Ynys Môn yn Rhos-goch (EZ8) yn agos iawn (tua 5km) i Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch. Rydym yn deall bod y safle hwn yn un o'r tri safle y mae Celtic Array yn eu hystyried ar gyfer is-orsaf ar y tir i gysylltu'r Fferm Wynt Rhiannon arfaethedig â'r rhwydwaith trosglwyddo trydan. Mae'r safle wedi'i ddynodi hefyd gan y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru fel un lle y gellid lleoli busnesau datblygu a busnesau cadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa a gallai fod yn ffynhonnell gwaith bwysig i breswylwyr Amlwch. O ganlyniad i hyn, bydd yn bwysig bod unrhyw geisiadau sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa ar safle EZ8 yn ystyried cysylltiadau â'r Ardal Chwilio hon yng nghyd-destun darparu swyddi, y gallu i gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol a thai yn Amlwch.

### Materion Allweddol

5.4.7 Mae amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol eithriadol o gyfoethog a sensitif yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch sy'n bwysig iawn o ran cynnal ffyniant yn Amlwch a'r economi ymwelwyr ledled Ynys Môn. Rhai o'r materion allweddol y bydd angen i hyrwyddwr y prosiect eu hystyried yn yr Ardal Chwilio hon yw:

- **Yr amgylchedd naturiol:** Er nad oes safleoedd gwarchod natur dynodedig yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch, mae AGA Bae Lerpwl tua 3km i'r dwyrain o'r Ardal Chwilio a SoDdGA Mynydd Parys tua 1km i'r de. Mae AHNE ac Arfordir Treftadaeth Ynys Môn yn dilyn yr arfordir i'r gogledd o'r Ardal Chwilio ac mae'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu wedi cynnig Ardal Tirwedd Arbennig a fydd yn gyfagos i ran ddeheuol yr ardal adeiledig yn Amlwch ac yn cwmpasu Mynydd Parys;

- **Yr amgylchedd hanesyddol:** Mae amgylchedd hanesyddol cyfoethog yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch sy'n seiliedig ar dreftadaeth ddiwydiannol Amlwch. Mae rhan helaeth o'r Ardal Chwilio oddi mewn i'r safle sydd wedi'i ddynodi'n Dirwedd Hanesyddol Amlwch a Mynydd Parys, sy'n

cysylltu Amlwch â Mynydd Parys a nifer o henebion rhestredig. Mynydd Parys oedd y gloddfa copor fwyaf yng Nghymru a Phrydain ar un adeg ac yma yr oedd y rhan fwyaf o'r copor yn Ewrop yn cael ei chloddio ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Oherwydd ei chysylltiad â thref a phorthladd Amlwch, a oedd yn ei chynnal, mae'r dirwedd hon yn bwysig iawn o ran archeoleg ddiwydiannol a dyma'r unig safle o bwysigrwydd rhyngwladol yng Nghymru lle'r oedd mwynau heblaw haearn yn cael eu cloddio. Ymhlith yr asedau eraill sydd o bwysigrwydd neilltuol y mae Ardaloedd Cadwraeth Amlwch a Phorth Amlwch a nifer o adeiladau rhestredig yn y dref ei hun;

- **Perygl llifogydd:** Mae'r arfordir i'r gogledd o'r Ardal Chwilio a rhannau o Amlwch mewn Parth Llifogydd C2. Yn y cyswllt hwn, mae Cynllun Reoli Llifogydd Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru (2010) yn nodi bod Amlwch yn un o'r trefi bach/pentrefi lle y mae adeiladau a seilwaith mewn perygl o lifogydd;

- **Cyfleustodau:** Rydym yn deall nad yw'r rhwydwaith trydanol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer datblygiadau newydd. Mae angen cynnal trafodaethau pellach hefyd â Dŵr Cymru a Wales & West Utilities ynghylch cyflwr a maint y rhwydweithiau dŵr, carthffosiaeth a nwy;

- **Cymdeithasol ac economaidd:** Gan ei bod yn lleoliad posibl ar gyfer llety i weithwyr adeiladu a datblygiadau eraill sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa, mae'n bosibl y bydd economi a chymunedau lleol Amlwch yn profi newid a phwysau sylweddol o ganlyniad i ddatblygu newydd. Mae cyfran gymharol uchel o boblogaeth yr Ardal Chwilio hon yn siarad Cymraeg. Er enghraifft, yn ward Porth Amlwch mae 65% o breswylwyr yn siarad Cymraeg o'i gymharu â 57% ledled Ynys Môn (a 19% ledled Cymru)[36];

- **Twristiaeth:** Mae'r economi ymwelwyr, sy'n gysylltiedig â threftadaeth ddiwydiannol yr ardal, yn sector pwysig. Mae'r Porthladd a Chanolfan Ymwelwyr y Deyrnas Gopr yn atyniadau pwysig iawn i ymwelwyr fel y mae Mynydd Parys sydd y tu allan i'r Ardal Chwilio.

5.4.8 Bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl hefyd i'r posibilrwydd o effeithiau cronnol niweidiol a fydd yn gysylltiedig â datblygiad sy'n ymwneud â GNN Wylfa yn yr Ardal Chwilio hon, a hefyd o geisiadau eraill am ddatblygu, yn enwedig y gwaith Nwy Hylifedig Naturiol arfaethedig ar safle'r gwaith cemegol blaenorol a safleoedd lle y bydd ceblau'n cyrraedd y tir o Fferm Wynt Rhiannon (os byddant oddi mewn neu'n gyfagos i'r Ardal Chwilio).

[36] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

| **EA 29** **Amlwch a'r Cylch** | |
|---|---|
| **Datblygu Cysylltiedig** | |
| Llety i Weithwyr Adeiladu | Bydd cefnogaeth i ddatblygu llety i weithwyr adeiladu ar raddfa fach (h.y. llai na 50 o unedau) ac ar raddfa fawr (mwy na 50 o unedau) a fydd yn cynnwys llety pwrpasol, llety rhent preifat a/neu lety i ymwelwyr yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch ar yr amod ei fod ar raddfa briodol ac yn gymesur â maint y boblogaeth breswyl bresennol, ar ôl ystyried datblygiadau eraill sydd wedi'u cynnig neu eu caniatáu. Bydd y Cyngor Sir yn gefnogol i lety o fath a fydd yn rhoi budd parhaol wedi i'r cyfnod adeiladu ddod i ben.<br>Yn unol â'r polisi yn y Cynllun Lleol presennol, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, rhaid lleoli datblygu newydd o fewn neu ar gyrion y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio ar gyfer Amlwch, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd preswyl yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Rhaid i geisiadau ar gyfer llety i weithwyr adeiladu fod yn gyson â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol sy'n berthnasol a'r canllawiau sydd yn y CCA hyn a CCA eraill ynghylch lleoli, dylunio a math. |
| Cyflogaeth | Mae'r Cyngor Sir o blaid creu cyfleoedd busnes newydd addas ar raddfa fach a mawr, ac ehangu busnesau presennol yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa. Rhaid lleoli mathau newydd o ddefnydd at gyflogaeth o fewn y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio ar gyfer Amlwch, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n creu cyflogaeth ar safleoedd addas eraill y tu allan i'r ffin ddatblygu ar yr amod bod cyfiawnhad priodol ar sail anghenion gweithredu, ystyriaeth ddyladwy i faterion amgylcheddol a chymdeithasol ac nad oes safleoedd addas eraill o fewn y ffin ddatblygu. |
| Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Bydd y Cyngor Sir yn mynnu bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol yn cael eu gwella, a rhai addas newydd yn cael eu creu, yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch a fydd yn cwrdd ag anghenion gweithwyr adeiladu, y gall y gymuned leol eu defnyddio yn ystod cyfnod adeiladu Prosiect GNN Wylfa ac y gellir trefnu iddynt fod ar gael ar ôl y cyfnod adeiladu i roi budd parhaol.<br>Bydd lleoliad, graddfa a dyluniad cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd neu welliannau i rai presennol yn gyson â pholisi a chanllawiau'r Cynllun Datblygu sydd wedi'u nodi yn EA6 |

| EA 29 | Amlwch a'r Cylch |
|---|---|
| | o'r CCA hyn ac mewn CCA eraill. Yn benodol, bydd cyfleusterau a gwasanaethau'n hawdd eu cyrraedd ar droed, ar feic ac mewn trafnidiaeth gyhoeddus a byddant wedi'u hadeiladu at y safon amgylcheddol uchaf posibl (h.y. BREEAM 'Excellent'). |
| Logisteg Trafnidiaeth a Chludo Nwyddau | Cefnogir ceisiadau a fydd yn gwella'r system trafnidiaeth gyhoeddus bresennol ac yn pennu ac yn gweithredu ar gyfleoedd i wella'r ddarpariaeth i feicwyr rhwng y dref a phrif safle GNN Wylfa. |
| **Cyfleoedd** | |
| Ystad Ddiwydiannol Amlwch | Dylai hyrwyddwr y prosiect chwilio am gyfleoedd, drwy gydgysylltu â'r Cyngor Sir, i leoli mathau o ddefnydd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa ym Mharc Busnes Amlwch. |
| Safle Ardal Fenter Rhos-goch | Wrth lunio ceisiadau ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, trafnidiaeth, seilwaith a llety i weithwyr adeiladu yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch, dylid ystyried cysylltiadau â safle Ardal Fenter Rhos-goch fel lleoliad posibl ar gyfer busnesau datblygu/busnesau cadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa, os yw'n briodol. |
| **Materion Allweddol** | |
| Yr Amgylchedd Naturiol | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch yn cael effeithiau niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar AGA Bae Lerpwl a SoDdGA Mynydd Parys (na'u nodweddion nodedig) neu asedau ecolegol eraill o fewn ac yn agos i'r Ardal Chwilio.<br>Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i leoliad, graddfa a dyluniad datblygiadau er mwyn gwarchod a gwella safleoedd sydd â dynodiad pwysig oherwydd eu tirwedd, gan gynnwys AHNE Ynys Môn, yr Arfordir Treftadaeth a'r Ardal Tirwedd Arbennig arfaethedig.<br>Dylid lliniaru a/neu gydbwyso effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol i'r graddau mwyaf posibl ac yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol yn ogystal â chanllawiau sydd yn y CCA hyn. Dylid hefyd chwilio am gyfleoedd i ddarparu mwy o seilwaith gwyrdd yn yr Ardal Chwilio hon ac i wella bioamrywiaeth a thirwedd. |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Adeiledig | Wrth lunio ceisiadau ar gyfer datblygu, rhaid ceisio sicrhau na fyddant yn cael effeithiau niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal ac y byddant yn cadw'r dirwedd hanesyddol. Yn unol â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol ac EA22, dylid cynnal asesiad o effaith y ceisiadau ar yr amgylchedd hanesyddol gan roi sylw |

| EA 29 | Amlwch a'r Cylch |
|---|---|
| | penodol i safleoedd sydd wedi'u dynodi (a'u hamgylchoedd) oddi mewn ac yn agos i'r Ardal Chwilio gan gynnwys:<br>• Ardaloedd Cadwraeth Amlwch a Phorth Amlwch;<br>• Adeiladau rhestredig;<br>• Henebion rhestredig ym Mynydd Parys.<br>Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect gydweithio ag Ymddiriedolaeth Treftadaeth Ddiwydiannol Amlwch wrth baratoi ceisiadau ar gyfer yr Ardal Chwilio hon i sicrhau bod effeithiau niweidiol posibl wedi'u nodi a'u lliniaru/cydbwyso ac i gael y manteision mwyaf posibl.<br>Rhaid mabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel wrth lunio ceisiadau a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo cymeriad lleol ac yn sicrhau bod tir y cyhoedd yn ddiogel a hygyrch, yn unol â chanllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor Sir. |
| Perygl Llifogydd | Yn unol â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol, dylid lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle y mae perygl llifogydd. Os cyflwynir ceisiadau ar gyfer tir lle y mae perygl llifogydd, bydd disgwyl iddynt gynnwys dull cynhwysfawr o liniaru perygl llifogydd a fydd wedi'i seilio ar Asesiad Canlyniadau Llifogydd. |
| Cyfleustodau | Wrth bennu lleoliadau a datblygu ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch, dylai hyrwyddwr y prosiect gydweithio â Dŵr Cymru, Scottish Power Energy Networks a Wales & West Utilities i ganfod a oes angen buddsoddi yn y seilwaith presennol a'i uwchraddio er mwyn darparu ar gyfer datblygu ychwanegol. Gallai'r buddsoddiad hwn gynnwys gwella'r seilwaith trydan er enghraifft (yn dibynnu ar faint y datblygiad cysylltiedig yn yr ardal). |
| Cymdeithasol ac Economaidd | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch yn cael effaith annerbyniol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar fusnesau lleol ac ansawdd bywyd cymunedau. Dylid cynnal asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol y ceisiadau ar fanylder sy'n gymesur â math a graddfa'r datblygiad a gynigir. Os nodir ei bod yn bosibl y bydd effeithiau niweidiol, dylid rhoi mesurau lliniaru a/neu gydbwyso priodol ar waith.<br>Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i Ddatganiad Iaith Gymraeg gael ei gyflwyno gyda phob cais ar gyfer datblygu cysylltiedig yn yr Ardal Chwilio hon, ac i Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg mwy manwl gael ei gyflwyno gyda cheisiadau am ddatblygiadau mwy, yn unol â'r trothwyon yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007).<br>Er mwyn hyrwyddo cydlyniant cymunedol, dylai ceisiadau |

| EA 29 | Amlwch a'r Cylch |
|---|---|
| | gynnwys ffyrdd o integreiddio cymunedau, gwasanaethau a chyfleusterau presennol â rhai newydd. |
| Twristiaeth | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch yn cael effaith niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar botensial yr ardal ar gyfer twristiaeth. Disgwylir cael asesiad manwl o'r effeithiau posibl ar dwristiaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer datblygu (ar eu pen eu hunain ac ar y cyd â cheisiadau eraill).<br><br>Rhai o'r mesurau posibl i ddelio ag unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar dwristiaeth ac i amlhau cyfleoedd o fuddsoddi yn yr Ardal Chwilio hon yw:<br>• Cynnal ac, os yw'n bosibl, gwella mynediad at yr arfordir yng nghyswllt gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru;<br>• Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau strategol ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy, llwybrau beicio a rhwydweithiau o lwybrau cerdded;<br>• Gwella seilwaith a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr;<br>• Marchnata cyrchfannau drwy gydgysylltu â Croeso Cymru, Partneriaeth y Cynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan, y Cyngor Sir ac Ymddiriedolaeth Treftadaeth Ddiwydiannol Amlwch;<br>• Hyrwyddo'r Porthladd a Chanolfan Ymwelwyr y Deyrnas Gopr.<br><br>Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd hefyd yn yr Ardal Chwilio hon i ddatblygu cysylltiadau â chanolfan ymwelwyr ar gyfer GNN Wylfa a'i hyrwyddo, er enghraifft, drwy farchnata neu ddarparu cysylltiadau trafnidiaeth â'r ganolfan. Mae'n bosib y rhoddir cefnogaeth i ddatblygiad llety bach o ansawdd uchel i dwristiaid yn yr Ardal Chwilio hon i'w defnyddio dros dro gan weithwyr adeiladu, yn amodol ar y canllawiau yn **EA12** y CCA hyn. |

## 5.5 Coridor yr A55/A5

### Trosolwg




5.5.1 Mae'r Ardal Chwilio hon yn goridor oddeutu ffordd ddeuol yr A55 a'r A5 sy'n croesi Ynys Môn o'r dwyrain i'r gorllewin rhwng Pont Britannia a'r Fali. Mae'r A55 yn llwybr yn y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (E22) ac yn goridor trafnidiaeth allweddol ym Môn sy'n hanfodol ar gyfer perfformiad economaidd Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru yn gyffredinol. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn ceisio amlhau cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r A55, yn enwedig rhwng economïau Iwerddon, Gogledd Cymru a thu hwnt, gan sicrhau bod cysylltiadau trafnidiaeth digonol rhwng y canolbwyntiau a'r ardaloedd gwledig er mwyn eu cysylltu â gwasanaethau a chyfleoedd gwaith a hamdden. Mae'r A5 yn llwybr sirol/rhanbarthol pwysig.

5.5.2 Mae'n debygol y bydd symudiadau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig ag adeiladu GNN Wylfa yn effeithio ar yr A55 a'r A5 gan mai'r rhain yw'r prif lwybrau i Ynys Môn ac ar ei thraws, felly mae'n bosibl y bydd angen gwella capasiti priffyrdd a'u cryfhau mewn nifer o fannau, gan gynnwys:

- Pont Britannia ar yr A55;
- Pont Menai ar yr A5;
- Oddeutu'r A5/A5025 yn y Fali;
- Cyffyrdd 2 a 3 (cyffordd yr A55/A5) ar yr A55;
- Ar hyd yr A55 (yn enwedig ar yr adegau prysuraf yn ystod y dydd ac yn y tymhorau gwyliau).



5.5.3 Felly bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau am welliannau i'r rhwydwaith priffyrdd mewn cysylltiad â Phrosiect GNN Wylfa yng Nghoridor yr A55/A5. Yn unol â'r Datganiad Sefyllfa ar Drafnidiaeth ar gyfer Gorsaf Pŵer Niwclear Newydd Wylfa

(2011), polisïau'r Cynllun Datblygu a chanllawiau yn y CCA hyn, dylai hyrwyddwr y prosiect geisio lleihau nifer y symudiadau gan gerbydau sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa gan gynnwys camau i fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a darparu safleoedd Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu mewn canolbwyntiau preswyl allweddol yn yr Ardal Chwilio hon (er enghraifft, ger y Fali) yn ogystal â darparu llwybrau newydd i gerddwyr a beicwyr a gwella'r rhai presennol.

5.5.4 Mae Coridor yr A55/A5 yn cynnwys aneddiadau'r Fali, y Gaerwen, Llanfairpwll a Phorthaethwy sydd wedi'u nodi'n ganolfannau gwasanaeth lleol yn y Cynllun Datblygu a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu. Ceir amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol pwysig yn yr aneddiadau hyn, gan gynnwys ysgolion cynradd, meddygfeydd, swyddfeydd post ac, ym Mhorthaethwy, ysgol uwchradd, llyfrgell a chanolfan hamdden. Felly credir y gellid cynnwys rhywfaint o'r datblygu sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa yn yr aneddiadau hyn gan gynnwys: mathau o ddefnydd sy'n gysylltiedig â llety i weithwyr adeiladu; cyflogaeth; y gadwyn gyflenwi; trafnidiaeth a logisteg. Ym marn y Cyngor Sir, mae'n annhebygol y bydd aneddiadau eraill yn yr Ardal Chwilio hon yn addas i gynnwys datblygu sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa oherwydd eu maint a'u lle yn yr hierarchaeth aneddiadau.

5.5.5 Byddai Canolbwynt Corfforaethol yn yr Ardal Chwilio hon yn galluogi gweithwyr, ymwelwyr ac is-gontractwyr sydd heb angen mynd i brif safle GNN Wylfa ei hun i fynychu cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi y tu allan i'r safle, gan leihau nifer y teithiau ar hyd y rhwydwaith ffyrdd sirol.

### Cyfleoedd

5.5.6 Bydd yn bwysig bod datblygiadau yn y seilwaith trafnidiaeth yn yr Ardal Chwilio hon yn ategu ceisiadau eraill am fuddsoddi mewn seilwaith a gwelliannau, gan gynnwys y rheini yng Nghynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor Sir a'r Strategaeth Beicio sy'n cael ei datblygu yn ogystal â gwelliannau yng nghapasiti priffyrdd sy'n gysylltiedig â safleoedd Ardal Fenter Ynys Môn a buddsoddiadau strategol mawr eraill ym Môn.

5.5.7 Mae safle Ardal Fenter Ynys Môn yn y Gaerwen (EZ7) i'r dwyrain o'r Gaerwen. Ceir mathau o ddefnydd sy'n ymwneud â diwydiant ar y safle ar hyn o bryd y gellir eu heangu'n sylweddol ac mae lle o fewn yr ystad bresennol i gynnwys busnesau ynni carbon isel. Ymhlith y cyfleoedd posibl eraill ar gyfer datblygu yng Nghoridor yr A55/A5 y mae lleiniau gwag ar yr Ystad Ddiwydiannol Mona bresennol: nodwyd yn yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth a baratowyd ar gyfer y CDLIC sy'n cael ei ddatblygu y gallai'r rhain fod yn addas ar gyfer mathau defnydd B2 a B8. Yn ogystal â hyn, mae safleoedd ar gael

sydd wedi'u dyrannu yn y Cynllun Datblygu a'r CDU a Ataliwyd ar gyfer tai a chyflogaeth.

5.5.8 Mae Parc Gwyddoniaeth Menai yn cael ei ddatblygu gan Brifysgol Bangor. Rhagwelir y bydd y Parc Gwyddoniaeth yn ganolbwynt ar gyfer cwmnïau sy'n arbenigo mewn arloesi, ymchwil a datblygu gwyddonol. Gallai'r Parc fod yn gartref i brosiectau ymchwil ar gyfer diwydiant a gwyddoniaeth sydd o fewn Prifysgol Bangor ar hyn o bryd, yn fusnesau bach a chanolig eu maint, ac yn rhan o gwmnïau corfforaethol mawr. Y gobaith yw y bydd y Parc yn adeiladu ar sail cryfderau presennol Prifysgol Bangor mewn nifer o feysydd ymchwil, gan gynnwys ynni, gwasanaethau amgylcheddol, technoleg lân, peirianneg ac electroneg.

5.5.9 Bydd y Parc Gwyddoniaeth yn cyfrannu at sefydlu Ynys Môn yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer ynni carbon isel drwy statws yr Ardal Fenter a'r weledigaeth ar gyfer rhaglen Ynys Ynni Môn. Mae'r lleoliad a ffefrir ar gyfer y Parc Gwyddoniaeth yn safle strategol ger Cyffordd 7 ar wibffordd yr A55 ger y Gaerwen. Fodd bynnag, nid yw caniatâd cynllunio wedi'i roi eto ar gyfer y datblygiad hwn ac mae'n bosibl y bydd amodau ar unrhyw ganiatâd a roddir yn cyfyngu'r mathau o ddefnydd a geir ar y safle.

### Materion Allweddol

5.5.10 Mae nifer o faterion y bydd angen i hyrwyddwr y prosiect eu hystyried yn Ardal Chwilio Coridor yr A55/A5. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

- **Yr amgylchedd naturiol:** Mae Afon Menai yn safle gwarchod natur â dynodiad Ewropeaidd (ACA Afon Menai a Bae Conwy). Hefyd mae ACA Llyn Dinam yn Llynnoedd y Fali i'r gorllewin o'r Ardal Chwilio. Mae nifer o SoDdGAau o fewn ac yn agos i'r Ardal Chwilio gan gynnwys (ymysg eraill) Cors Bodwrog i'r gogledd-ddwyrain o Walchmai, Cors Ddyga i'r gorllewin o Bentre Berw, Llynnoedd y Fali a Beddmanarch-Cymyran i'r gorllewin o'r Fali. Mae AHNE Ynys Môn ymhell i'r dwyrain a'r gorllewin o'r Ardal Chwilio. Ceir dwy Ardal Tirwedd Arbennig yn yr Ardal Chwilio hefyd, un i'r de o Lanfair-pwll a'r llall i'r de o Langefni;

- **Yr amgylchedd hanesyddol:** Mae nifer mawr o asedau hanesyddol dynodedig yn Ardal Chwilio Coridor yr A55/A5 gan gynnwys adeiladau rhestredig a pharciau a gerddi hanesyddol;

- **Perygl llifogydd:** Mae nifer o ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd mewn rhannau o'r Ardal Chwilio hon, yn enwedig yn ne-ddwyrain y Fali sydd o fewn Parth Llifogydd C1;

- **Cyfleustodau:** Mae'r Astudiaeth o'r Cylch Dŵr a baratowyd gan AMEC (2014) yn nodi'r farn bod gwaith trin dŵr gwastraff Llanfairpwll yn gweithredu'n agos at ei derfyn cyfeintiol ar hyn o bryd. Cafwyd achosion

o lifogydd yn rhwydwaith carthffosydd y gwaith trin dŵr gwastraff ar gyfer dalgylchoedd y Fali, Gaerwen a Llanfairpwll;

- **Cymdeithasol ac economaidd:** Mae'r A5 a'r A55 yn rhedeg drwy nifer o aneddiadau ac yn gyfagos iddynt. Mae'r lefelau sŵn ar hyd yr A55 ac yn gyfagos iddi yn uwch na 55dB (mae Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Sŵn Cymunedol (1999) yn gosod lefel sŵn uchelgeisiol o 55dB LAeq dros 16 awr ar gyfer osgoi blinder oherwydd sŵn).

  Mae aneddiadau yn yr Ardal Chwilio hon yn gymharol fach ac mae'r amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau sydd ynddynt yn gyfyngedig. O ganlyniad i hyn, bydd yn bwysig ystyried yr effaith economaidd-gymdeithasol o ddatblygu sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa gan gynnwys effeithiau ar gydlyniant cymunedol, y Gymraeg a'i diwylliant.

| **EA 30** | **Coridor yr A55/A5** |
|---|---|
| **Datblygu Cysylltiedig** | |
| Llety i Weithwyr Adeiladu | Bydd cefnogaeth i ddatblygu llety i weithwyr adeiladu ar raddfa fach (h.y. llai na 50 o unedau) ar ffurf llety rhent preifat a/neu lety i ymwelwyr yng Nghoridor yr A55/A5 yn y Fali, y Gaerwen, Llanfairpwll a Phorthaethwy ar yr amod ei fod ar raddfa briodol ac yn gymesur â maint y boblogaeth breswyl bresennol, ar ôl ystyried datblygiadau eraill sydd wedi'u cynnig neu eu caniatáu. Bydd cefnogaeth i lety pwrpasol os bydd yn rhoi budd parhaol wedi i'r cyfnod adeiladu ddod i ben.<br>Yn unol â'r polisi yn y Cynllun Lleol presennol a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, rhaid lleoli datblygu newydd o fewn neu ar gyrion y ffiniau datblygu sydd wedi'u diffinio ar gyfer yr aneddiadau hyn, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd preswyl yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Yn unol â'r polisi yn y Cynllun Datblygu presennol a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, bydd unrhyw ddarpariaeth yn yr aneddiadau a restrwyd uchod yn gyfyngedig ac ar raddfa sy'n gymesur â maint y boblogaeth breswyl bresennol ym mhob anheddiad a lefelau presennol y ddarpariaeth o wasanaethau, gan adlewyrchu lle pob un ohonynt yn yr hierarchaeth aneddiadau<br>Rhaid i geisiadau ar gyfer llety i weithwyr adeiladu fod yn gyson â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol sy'n berthnasol a'r canllawiau sydd yn y CCA hyn a CCA eraill ynghylch lleoli, dylunio a math. |
| Cyflogaeth | Mae'r Cyngor Sir o blaid creu cyfleoedd busnes newydd addas ar raddfa fach a mawr yng Nghoridor yr A55/A5 sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa. Rhaid lleoli mathau newydd o ddefnydd at gyflogaeth o fewn y ffiniau datblygu sydd wedi'u diffinio ar |

| EA 30 | Coridor yr A55/A5 |
|---|---|
| | gyfer y Fali, y Gaerwen, Llanfairpwll a Phorthaethwy, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n creu cyflogaeth ar safleoedd addas eraill y tu allan i ffiniau datblygu'r aneddiadau a restrwyd uchod, ar yr amod bod cyfiawnhad priodol ar sail anghenion gweithredu, ystyriaeth ddyladwy i faterion amgylcheddol a chymdeithasol ac nad oes safleoedd addas eraill o fewn y ffiniau datblygu.<br>Bydd cynlluniau i ehangu busnesau presennol yn cael cefnogaeth ar yr amod bod y datblygiad yn cyd-fynd â chanllawiau a pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol. |
| Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Bydd y Cyngor Sir yn mynnu bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol yn cael eu gwella, a rhai addas newydd yn cael eu creu, yng Nghoridor yr A55/A5 a fydd yn cwrdd ag anghenion gweithwyr adeiladu, y gall y gymuned leol eu defnyddio yn ystod cyfnod adeiladu Prosiect GNN Wylfa ac y gellir trefnu iddynt fod ar gael ar ôl y cyfnod adeiladu i roi budd parhaol.<br>Bydd lleoliad, graddfa a dyluniad cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd neu welliannau i rai presennol yn gyson â pholisi a chanllawiau'r Cynllun Datblygu sydd wedi'u nodi yn **EA6** o'r CCA hyn ac mewn CCA eraill. Yn benodol, bydd cyfleusterau a gwasanaethau'n hawdd eu cyrraedd ar droed, ar feic ac mewn trafnidiaeth gyhoeddus a byddant wedi'u hadeiladu at y safon amgylcheddol uchaf posibl (h.y. BREEAM 'Excellent'). |
| Logisteg Trafnidiaeth a Chludo Nwyddau | Bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n gysylltiedig â gwelliannau i'r A55 a'r A5 a datblygu logisteg cludo nwyddau yn yr Ardal Chwilio hon os yw'n gyson â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol yn ogystal â chanllawiau yn y CCA hyn, yn enwedig **EA14**.<br>Wrth ystyried a yw'r gwaith a gynigir yn addas, bydd y Cyngor Sir am weld tystiolaeth am y canlynol:<br>• mai nifer y cerbydau a gynigiwyd yw'r lleiaf sydd ei angen a bod dulliau eraill mwy cynaliadwy o gludo i brif safle GNN Wylfa wedi'u hystyried a'u mabwysiadu os oedd modd;<br>• y bydd Cynlluniau Rheoli Traffig priodol sy'n ymwneud ag amserlennu symudiadau, cyfuno llwythi a'r mathau o gerbydau a ddefnyddir yn cael eu mabwysiadu;<br>• y bydd y gwaith a gynigiwyd yn cymryd cyn lleied o dir â phosibl ac yn achosi'r lleiaf posibl o wahanu rhwng cymunedau o boptu ffyrdd. |

| EA 30 | Coridor yr A55/A5 |
|---|---|
| | Er mwyn hwyluso ffyrdd cynaliadwy o gludo gweithwyr adeiladu yn ôl ac ymlaen i brif safle GNN Wylfa, bydd y Cyngor Sir yn cefnogi buddsoddiadau mewn llwybrau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, beicwyr a cherddwyr ac i ddarparu cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu. Rhaid lleoli cyfleusterau o'r fath yn agos i'r Fali, y Gaerwen, Llanfairpwll a/neu Borthaethwy. Os yw'n briodol, bydd y cyfleusterau a ddatblygir yn rhoi budd ar ôl i'r cyfnod adeiladu ddod i ben drwy barhau i'w defnyddio neu drwy gynnig tir i'w ailddatblygu. |
| Canolbwynt Corfforaethol | Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect ddarparu ar gyfer Canolbwynt Corfforaethol o fewn yr Ardal Chwilio hon neu'n agos iddi.<br>Disgwylir y bydd ceisiadau ar gyfer Canolbwynt Corfforaethol:<br>• yn lleihau'r angen i deithio i brif safle GNN Wylfa ar gyfer busnes nad yw'n galw am bresenoldeb ar y safle;<br>• yn agos i brif goridorau trafnidiaeth ac yn cynnwys mynediad da at orsafoedd rheilffyrdd teithwyr (neu'n gwella mynediad o ganlyniad i'r datblygu);<br>• yn peri ei fod yn hawdd ei gyrraedd ar gyfer y farchnad lafur leol;<br>• yn cynnwys safonau dylunio pensaernïol cynaliadwy a rhagorol;<br>• yn creu'r cysylltiadau mwyaf posibl â phrosiectau eraill sy'n buddsoddi mewn ynni carbon isel ac ymchwil a datblygu yn Ynys Môn gan gynnwys y Parc Gwyddoniaeth arfaethedig;<br>• wedi'u dylunio mewn ffordd sy'n caniatáu eu haddasu i roi budd o ran cyflogaeth wedi i gyfnod adeiladu GNN Wylfa ddod i ben. |
| **Cyfleoedd** | |
| Safle Ardal Fenter Ystad Ddiwydiannol y Gaerwen | Dylai hyrwyddwr y prosiect chwilio am gyfleoedd, drwy gydgysylltu â'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru, i leoli mathau o ddefnydd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa ar safle Ardal Fenter Ystad Ddiwydiannol y Gaerwen (EZ7).<br>Dylai ceisiadau ar gyfer llety i weithwyr adeiladu, cyfleusterau, gwasanaethau a seilwaith cymunedol mewn rhannau eraill o'r Ardal Chwilio fod yn rhai sy'n hybu ac yn ategu'r broses o ddarparu'r safle Ardal Fenter hwn ac eraill lle y bo'n briodol. |
| Ystad Ddiwydiannol Mona a dyraniadau sydd wedi'u gwneud | Dylai hyrwyddwr y prosiect ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio lleiniau gwag ar yr Ystad Ddiwydiannol Mona bresennol yn ogystal â dyraniadau sydd wedi'u gwneud yn y Cynllun Datblygu a'r CDU a Ataliwyd ar gyfer tai a chyflogaeth yn y Fali, y Gaerwen, Llanfairpwll a/neu Borthaethwy. |


| **EA 30 Coridor yr A55/A5** | |
|---|---|
| Parc Gwyddoniaeth Menai | Drwy gydgysylltu â Phrifysgol Bangor a'r Cyngor Sir, ac ar yr amod bod caniatâd cynllunio wedi'i roi, dylai hyrwyddwr y prosiect ystyried y posibilrwydd o leoli datblygiadau sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa yn y Parc Gwyddoniaeth Menai arfaethedig neu'n agos iddo. |
| Ceisiadau sy'n ymwneud â Chynlluniau Trafnidiaeth | Disgwylir i hyrwyddwr y prosiect weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir i bennu cyfleoedd i hybu ac ategu'r broses o gyflawni cynlluniau'r Sir ar gyfer trafnidiaeth, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>• Y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd;<br>• Gwelliannau i gapasiti priffyrdd sy'n gysylltiedig â safleoedd Ardal Fenter Ynys Môn;<br>• Y Strategaeth Beicio y mae'r Cyngor Sir yn ei datblygu. |
| **Materion Allweddol** | |
| Yr Amgylchedd Naturiol | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau ar gyfer datblygu yng Nghoridor yr A55/A5 yn cael effeithiau niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar ACA Afon Menai a Bae Conwy neu ACA Llyn Dinam (na'u nodweddion nodedig) neu asedau ecolegol eraill fel SoDdGAau sydd o fewn neu'n agos i'r Ardal Chwilio.<br>Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i leoliad, graddfa a dyluniad datblygiadau ym mhen gorllewinol a dwyreiniol yr Ardal Chwilio er mwyn gwarchod a gwella AHNE Ynys Môn a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig arfaethedig sy'n berthnasol i'r Ardal Chwilio. Wrth ddylunio gwelliannau sy'n angenrheidiol i ffyrdd, bydd y Cyngor Sir yn rhagdybio yn erbyn datblygu yn yr AHNE os na ellir dangos bod buddion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach sy'n bwysicach na'r effeithiau niweidiol arni. Bydd hefyd yn mynnu y bydd deunyddiau ar gyfer adeiladweithiau cysylltiedig (waliau acwstig, llwybrau troed etc) yn adlewyrchu cymeriad lleol; na fydd ffyrdd yn torri ar draws Hawliau Tramwy (a bod Hawliau Tramwy'n cael eu gwella (o ran eu cyflwr ac arwyddion)); ac y collir y lleiaf posibl o lystyfiant a chynefinoedd ehangach ac, os collir y rhain, y crëir rhai yn eu lle.<br>Dylid lliniaru a/neu gydbwyso effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol i'r graddau mwyaf posibl ac yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol yn ogystal â chanllawiau sydd yn y CCA hyn. Dylid hefyd chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a thirwedd. |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Adeiledig | Wrth lunio ceisiadau ar gyfer datblygu, rhaid ceisio sicrhau na fyddant yn cael effaith niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar asedau hanesyddol yr ardal (a'u hamgylchoedd). Yn unol â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol ac EA22, dylid cynnal asesiad o effaith y cynigion |

| **EA 30** | **Coridor yr A55/A5** |
|---|---|
| | ar yr amgylchedd hanesyddol gan roi sylw penodol i safleoedd sydd wedi'u dynodi oddi mewn ac yn agos i Goridor yr A55/A5.<br>Rhaid mabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel wrth lunio ceisiadau a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo cymeriad lleol ac yn sicrhau bod tir y cyhoedd yn ddiogel a hygyrch, yn unol â chanllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor Sir. |
| Perygl Llifogydd | Yn unol â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol, dylid lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle y mae perygl llifogydd. Os cyflwynir ceisiadau ar gyfer tir lle y mae perygl llifogydd, bydd disgwyl iddynt gynnwys dull cynhwysfawr o liniaru perygl llifogydd a fydd wedi'i seilio ar Asesiad Canlyniadau Llifogydd. |
| Cyfleustodau | Wrth bennu lleoliadau a datblygu ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig yn yr Ardal Chwilio hon, dylai hyrwyddwr y prosiect gydweithio â Dŵr Cymru, Scottish Power Energy Networks a Wales & West Utilities i ganfod a oes angen buddsoddi yn y seilwaith presennol a'i uwchraddio er mwyn darparu ar gyfer datblygu ychwanegol. Gallai'r buddsoddiadau hyn gynnwys gwella'r seilwaith trydan a'r seilwaith carthffosiaeth lleol (yn dibynnu ar faint y datblygiad cysylltiedig yn yr ardal).<br>Dylai hyrwyddwr y prosiect gynnal trafodaeth gynnar â Dŵr Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw geisiadau ar gyfer datblygu o fewn dalgylchoedd gwaith trin dŵr gwastraff Gaerwen a Llanfairpwll. |
| Cymdeithasol ac Economaidd | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yng Nghoridor yr A55/A5 yn cael effaith annerbyniol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar fusnesau lleol ac ansawdd bywyd. Dylid cynnal asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol y ceisiadau ar fanylder sy'n gymesur â math a graddfa'r datblygiad a gynigir. Yn benodol, bydd angen ystyried yn fanwl y posibilrwydd y bydd y datblygiad yn effeithio ar wasanaethau a chyfleusterau cymunedol presennol yn yr Ardal Chwilio. Er mwyn peidio â rhoi pwysau ar y ddarpariaeth bresennol, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, dylai ceisiadau roi'r gallu i integreiddio cymunedau, gwasanaethau a chyfleusterau presennol â rhai newydd.<br>Dylai hyrwyddwr y prosiect leihau effeithiau niweidiol ar amwynder preswyl o lygredd golau, aer, dirgryndod a sŵn sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu datblygiadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Yn unol ag EA7, rhai mesurau y gellir eu cymryd i leihau effeithiau niweidiol yw:<br>• Sgrinio gweithgareddau adeiladu;<br>• Digolledu'r derbynwyr sy'n profi effeithiau; |

| EA 30 | Coridor yr A55/A5 |
|---|---|
| | • Pennu llwybrau i gerbydau nwyddau trwm;<br>• Cyfyngu oriau gwaith adeiladu a rheoli traffig;<br>• Monitro effeithiau posibl gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â sŵn, ansawdd aer a llygredd golau.<br>Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau'n cael effaith niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar y Gymraeg a'i diwylliant yng Nghoridor yr A55/A5. Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i Ddatganiad Iaith Gymraeg gael ei gyflwyno gyda phob cais ar gyfer datblygu cysylltiedig yn yr Ardal Chwilio hon, ac i Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg mwy manwl gael ei gyflwyno gyda cheisiadau am ddatblygiadau mwy, yn unol â'r trothwyon yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007). |

## 5.6 Coridor yr A5025

### Trosolwg




5.6.1 Mae'r Ardal Chwilio hon yn goridor oddeutu rhannau o'r A5025 sy'n cysylltu'r Fali â Chemaes ac Amlwch. Mae astudiaethau a gynhaliwyd gan hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa a'r Cyngor Sir yn awgrymu y gellir cludo llwythi annormal o Borthladd Caergybi ar ffyrdd neu ar y môr i brif safle GNN Wylfa a'i bod yn debygol y bydd angen gwelliannau fel mannau pasio, cynlluniau atal damweiniau a gwelliannau o ran gweledledd ar yr A5025. Byddai angen gwaith tebyg hefyd i hwyluso gweithrediadau i gludo nwyddau cyffredin. Mae'r astudiaeth ar lwybrau cludo llwythi trwm a Chyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF) gan Horizon yn dod i'r casgliad bod pedwar man yn yr Ardal Chwilio hon lle y byddai angen gwella'r rhwydwaith priffyrdd lleol i ddarparu ar gyfer adeiladu GNN Wylfa:

- A5/A5025 (Y Fali);
- A5025 Llanfachraeth;
- A5025 Llanfaethlu;
- A5025/Ffordd Fynediad i Safle Tregele.

5.6.2 Mae'r Cyngor Sir yn credu bod angen gwelliannau eraill ar lwybrau ar hyd yr A5025 hefyd gan gynnwys, er enghraifft, gwella aliniad y ffordd yng Nghefn Coch.

5.6.3 Nid oes unrhyw aneddiadau mawr (h.y. canolfannau gwasanaeth trefol neu ganolfannau gwasanaeth lleol) yn yr Ardal Chwilio hon. Y prif aneddiadau yw pentrefi bach Llanfachraeth, Llanfaethlu, Llanrhuddlad a Phorth Llechog sydd wedi'u cysylltu gan wasanaeth bysiau sy'n rhedeg ar hyd y coridor rhwng Caergybi ac Amlwch bob awr. Mae amrywiaeth gyfyngedig o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn y pentrefi hyn ac mae'r Cynllun Datblygu a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu yn cefnogi datblygiadau ar raddfa fach yn y pentrefi hyn ac yn yr ardal wledig ehangach a fyddai o gymorth i gynnal darpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol.

5.6.4 Oherwydd ei chymeriad gwledig a'i phoblogaeth gymharol denau, prinder cyfleusterau cymunedol i ddarparu ar gyfer datblygu a diffyg cyfleoedd posibl

ar gyfer datblygu, mae Ardal Chwilio Coridor yr A5025 yn cael ei hystyried, at ddibenion y CCA hyn, yn goridor trafnidiaeth presennol sy'n darparu'r canlynol:

- mynediad at brif safle GNN Wylfa lle y mae'n debygol y bydd cynnydd sylweddol yn y traffig yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect;
- cyswllt pwysig rhwng Amlwch a chymunedau'r gefnwlad wledig sy'n cynnwys Llanfachraeth, Llanfaethlu, Llanrhuddlad a Phorth Llechog.

Felly mae'r canllawiau ar yr Ardal Chwilio hon yn ymwneud yn bennaf â nodi gofynion ar gyfer lliniaru effeithiau sy'n codi o'i defnydd ar gyfer trafnidiaeth.

### Cyfleoedd

5.6.5 Gan fod Ardal Chwilio Coridor yr A5025 yn un wledig gan mwyaf, mae'n debygol mai'r unig gyfleoedd ar gyfer datblygu mewn cysylltiad â GNN Wylfa fydd ceisiadau sydd ar raddfa ac o fath sy'n addas i'w cynnwys mewn aneddiadau. Nid yw polisi'r Cynllun Datblygu presennol, y CDLIC sy'n cael ei ddatblygu na pholisi cynllunio cenedlaethol yn cefnogi datblygu helaeth. Gallai fod yn briodol caniatáu datblygu cyfyngedig o fewn y pentrefi sydd wedi'u nodi ond byddai'n rhaid iddo fod ar raddfa fach ac yn bosibl ei gynnal gan y gwasanaethau a chyfleusterau presennol.

5.6.6 Bydd yn bwysig bod gwaith datblygu ar y seilwaith trafnidiaeth yn yr Ardal Chwilio hon yn ategu ceisiadau eraill ar gyfer buddsoddi a gwelliannau, gan gynnwys y rheini sydd yng Nghynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor Sir a'r Strategaeth Beicio sy'n cael ei datblygu, yn ogystal â gwelliannau yng nghapasiti priffyrdd sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau strategol mawr eraill yn Ynys Môn gan gynnwys y gwaith o ddatgomisiynu'r orsaf pŵer niwclear Magnox bresennol.

### Materion Allweddol

5.6.7 Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol yn yr Ardal Chwilio hon ac mae hyn yn adlewyrchu ei chymeriad gwledig. Mae'n debygol mai'r materion allweddol a fydd yn codi yn yr Ardal Chwilio hon yw effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol a fydd yn deillio o'r cynnydd a ragwelir yn y traffig ar hyd yr A5025 a gwelliannau i briffyrdd. Credir mai'r materion allweddol yw:

- **Yr amgylchedd naturiol:** Mae pedwar SoDdGA yn ymestyn i'r Ardal Chwilio hon (Cae Gwyn, Llyn Llygeirian, Llyn Garreg-lwyd a Beddmanarch-Cymyran). Mae rhannau o AHNE Ynys Môn yn rhan ddeheuol y coridor rhwng y Fali a Chemaes. Mae'r AHNE yn ymestyn i'r Ardal Chwilio hefyd rhwng Cemaes ac Amlwch ac yn cyd-ffinio ag ochr

ogleddol yr A5025 ar ei hyd yn y fan hon. Hefyd, mae'r Ardal Tirwedd Arbennig sydd wedi'i chynnig yn y CDLIC yn cyd-ffinio â rhan o ffin yr Ardal Chwilio tua'r dwyrain;

- **Yr amgylchedd hanesyddol:** Mae nifer mawr o asedau hanesyddol wedi'u dynodi yn yr Ardal Chwilio hon gan gynnwys adeiladau rhestredig a pharc a gardd hanesyddol gofrestredig;

- **Cymdeithasol ac economaidd:** Mae'r A5025 yn mynd drwy nifer o bentrefi bach ac, er bod y rhain y tu allan i ardaloedd sydd wedi'u diffinio ar gyfer llonyddwch, ceir lefelau sŵn ynddynt sy'n is na 55dB (mae Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Sŵn Cymunedol (1999) yn gosod lefel sŵn uchelgeisiol o 55dB LAeq dros 16 awr ar gyfer osgoi blinder oherwydd sŵn). Bydd angen nodi problemau sy'n ymwneud â llygredd golau, aer, dirgryndod a sŵn, a'u hasesu a'u lliniaru;

- **Diogelwch ffyrdd:** Ar hyn o bryd mae llwybr yr A5/A5025 rhwng Caergybi a Wylfa wedi'i ddynodi'n llwybr cynghorol ar gyfer llwythi trwm o dan Ddosbarth D yr Asiantaeth Briffyrdd. Mae hyn yn cydnabod y defnydd presennol ohono'n llwybr mynediad at yr orsaf pŵer niwclear Magnox bresennol. Mae'r Cyngor Sir yn rhagweld y bydd yr A5025, yn enwedig y rhan rhwng y Fali a Chemaes, yn llwybr mynediad allweddol ar gyfer cerbydau adeiladu a gweithwyr adeiladu yn ystod cyfnod adeiladu GNN Wylfa ac y caiff ei defnyddio yn ystod cyfnod gweithredu'r datblygiad hefyd. Fel y nodwyd uchod, mae'r A5025 yn mynd drwy bentrefi bach ac felly mae'n bosibl y bydd effaith niweidiol ar ddiogelwch ffyrdd ar hyd y briffordd yn ôl nifer a math y cerbydau a ddefnyddir ac amlder eu teithiau.

| **EA 31** | **Coridor yr A5025** |
|---|---|
| **Datblygu Cysylltiedig** | |
| Cyflogaeth | Yn unol â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol, yr unig geisiadau y bydd y Cyngor Sir yn eu cefnogi fel arfer fydd rhai ar gyfer cynnwys mathau newydd addas o ddefnydd at gyflogaeth ar raddfa fach sy'n manteisio ar gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi mewn cysylltiad â Phrosiect GNN Wylfa oddi mewn neu'n gyfagos i'r prif bentrefi yng Nghoridor yr A5025. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n creu cyflogaeth ar safleoedd addas eraill os oes cyfiawnhad cadarn ar sail anghenion gweithredu na ellir eu bodloni o fewn pentrefi ac ar yr amod bod ystyriaeth ddyladwy wedi'i rhoi i faterion amgylcheddol a chymdeithasol.<br>Cefnogir ceisiadau i ehangu busnesau presennol ar yr amod bod y datblygu'n gyson â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol. |
| Cyfleusterau a Gwasanaethau | Nid yw'r Cyngor Sir yn rhag-weld y bydd angen buddsoddi'n helaeth mewn cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol |

| **EA 31** **Coridor yr A5025** | |
|---|---|
| Cymunedol | presennol, na rhai newydd, yng Nghoridor yr A5025. Os bydd cyfleoedd yn codi i wella gwasanaethau presennol, neu ddarparu rhai ychwanegol, yna bydd lleoliad, graddfa a dyluniad y cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd, neu welliannau i'r rhai presennol, yn gyson â pholisi a chanllawiau'r Cynllun Datblygu sydd wedi'u nodi yn EA6 yn y CCA hyn ac mewn CCA eraill. Yn benodol, bydd cyfleusterau a gwasanaethau'n hawdd eu cyrraedd ar droed, ar feic ac mewn trafnidiaeth gyhoeddus a byddant wedi'u hadeiladu at y safon amgylcheddol uchaf posibl (h.y. BREEAM 'Excellent'). |
| Logisteg Trafnidiaeth a Chludo Nwyddau | Bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n ymwneud â gwelliannau i'r A5025, yn enwedig rhwng y Fali a Chemaes, a rhwng Cemaes ac Amlwch. Wrth ystyried a yw'r gwaith a gynigir yn addas, bydd y Cyngor Sir am weld tystiolaeth am y canlynol:<br>• mai nifer y cerbydau a gynigiwyd yw'r lleiaf sydd ei angen a bod dulliau eraill mwy cynaliadwy o gludo i brif safle GNN Wylfa wedi'u hystyried a'u mabwysiadu os oedd modd;<br>• y bydd Cynlluniau Rheoli Traffig priodol sy'n ymwneud ag amserlennu symudiadau, cyfuno llwythi a'r mathau o gerbydau a ddefnyddir yn cael eu mabwysiadu;<br>• y bydd y gwaith a gynigiwyd yn cymryd cyn lleied o dir â phosibl ac yn achosi'r lleiaf posibl o wahanu rhwng cymunedau o boptu ffyrdd. |
| **Cyfleoedd** | |
| Ceisiadau sy'n ymwneud â Chynlluniau Trafnidiaeth | Disgwylir i hyrwyddwr y prosiect weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir i bennu cyfleoedd i hybu ac ategu'r broses o gyflawni cynlluniau'r Sir ar gyfer trafnidiaeth, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>• Y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd;<br>• Gwelliannau i gapasiti priffyrdd sy'n gysylltiedig â safleoedd Ardal Fenter Ynys Môn;<br>• Y Strategaeth Beicio y mae'r Cyngor Sir yn ei datblygu. |
| **Materion Allweddol** | |
| Yr Amgylchedd Naturiol | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau ar gyfer datblygu yng Nghoridor yr A5025 yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar asedau ecolegol sydd o fewn neu'n agos i'r Ardal Chwilio.<br>Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i leoliad, graddfa a dyluniad datblygiadau er mwyn gwarchod a gwella AHNE Ynys Môn a'r Ardal Tirwedd Arbennig sy'n berthnasol i Goridor yr A5025. Wrth |


| EA 31 | Coridor yr A5025 |
|---|---|
| | ddylunio gwelliannau sy'n angenrheidiol i ffyrdd, bydd y Cyngor Sir yn rhagdybio yn erbyn datblygu yn yr AHNE os na ellir dangos bod buddion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach sy'n bwysicach na'r effeithiau niweidiol arni. Bydd hefyd yn mynnu y bydd deunyddiau ar gyfer adeiladweithiau cysylltiedig (waliau acwstig, llwybrau troed etc) yn adlewyrchu cymeriad lleol; na fydd ffyrdd yn torri ar draws Hawliau Tramwy (a bod Hawliau Tramwy'n cael eu gwella (o ran eu cyflwr ac arwyddion)); ac y collir y lleiaf posibl o lystyfiant a chynefinoedd ehangach ac, os collir y rhain, y creir rhai yn eu lle.<br><br>Dylid lliniaru a/neu gydbwyso effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol hyd y gellir ac yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol a'r cyfarwyddyd sydd yn y CCA hyn ac mewn CCA eraill. Dylid hefyd chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a thirwedd. |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Adeiledig | Wrth lunio ceisiadau ar gyfer datblygu, rhaid ceisio sicrhau na fyddant yn cael effaith niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar asedau hanesyddol yr ardal (a'u hamgylchoedd). Yn unol â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol ac **EA22**, dylid cynnal asesiad o effaith y cynigion ar yr amgylchedd hanesyddol gan roi sylw penodol i safleoedd sydd wedi'u dynodi oddi mewn ac yn agos i Goridor yr A5025.<br><br>Rhaid mabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel wrth lunio ceisiadau a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo cymeriad lleol ac yn sicrhau bod tir y cyhoedd yn ddiogel a hygyrch, yn unol â chanllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor Sir. |
| Cyfleustodau | Wrth bennu lleoliadau a datblygu ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig yn yr Ardal Chwilio hon, dylai hyrwyddwr y prosiect gydweithio â Dŵr Cymru, Scottish Power Energy Networks a Wales & West Utilities i ganfod a oes angen buddsoddi yn y seilwaith presennol a'i uwchraddio er mwyn darparu ar gyfer datblygu ychwanegol. |
| Cymdeithasol ac Economaidd | Dylai hyrwyddwr y prosiect leihau effeithiau niweidiol ar amwynder preswyl o lygredd golau, aer, dirgryndod a sŵn sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu datblygiadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Yn unol ag **EA7**, rhai mesurau y gellir eu cymryd i leihau effeithiau niweidiol yw:<br><br>• Sgrinio gweithgareddau adeiladu;<br>• Digolledu'r derbynwyr sy'n profi effeithiau;<br>• Pennu Llwybrau i gerbydau nwyddau trwm;<br>• Cyfyngu oriau gwaith adeiladu a rheoli traffig; |

| EA 31 | Coridor yr A5025 |
|---|---|
| | • Monitro effeithiau posibl gan gynnwys rhai sy’n ymwneud â sŵn, ansawdd aer a llygredd golau. |
| Diogelwch Ffyrdd | Dylid cymryd mesurau i gynnal a gwella diogelwch ffyrdd ar hyd yr A5025 ar gyfer gyrwyr cerbydau adeiladu yn ogystal â gweithwyr adeiladu, preswylwyr lleol, ymwelwyr, gweithredwyr busnesau a gwasanaethau eraill, beicwyr, marchogion a cherddwyr. |

## 5.7 Cemaes a'r Cylch

### Trosolwg

5.7.1 Mae Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch ar arfordir gogleddol Ynys Môn ac mae'n cynnwys tir o gwmpas prif safle arfaethedig GNN Wylfa. Mae'n cwmpasu pentrefi Cemaes tua'r dwyrain a Thregele tua'r de, a'i phoblogaeth ar adeg Cyfrifiad 2011 oedd tua 1,400[37]. Mae'r Ardal Chwilio hefyd yn cynnwys yr orsaf pŵer niwclear bresennol sy'n cael ei gweithredu gan Magnox ac sydd tua'r gorllewin o Gemaes.




5.7.2 Cemaes yw prif anheddiad yr Ardal Chwilio hon. Ym mholisi'r Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, nodir bod Cemaes yn ganolfan gwasanaeth lleol sydd â ffin anheddiad ac sy'n addas i gynnwys rhai tai ychwanegol yn ogystal â darparu gwasanaethau a chyfleusterau manwerthu. Ar y cyfan, mae hyn yn adlewyrchu rôl bresennol y pentref o ran darparu gwasanaethau a chyfleusterau pwysig i ddiwallu anghenion lleol ac anghenion cymunedau yn y gefnwlad wledig. Mae'r rhain yn cynnwys ysgol gynradd, meddygfa, llyfrgell, swyddfa bost a siopau. Y disgrifiad o Dregele yw pentref lleol sy'n addas ar gyfer datblygu sy'n ateb anghenion cymunedol ac yn parchu ei gymeriad presennol.

5.7.3 Mae'r orsaf bŵer bresennol yn gyflogwr pwysig yn yr ardal ac Ynys Môn gyfan. Yn 2012, roedd 543 o staff parhaol yn yr orsaf bŵer ynghyd â 46 ar gontract tymor penodol, felly roedd cyfanswm o 589 o staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ar y safle. Mae'r orsaf bŵer yn chwarae rhan bwysig hefyd o ran cynnal busnesau lleol ym Môn (mae data am wariant mewn busnesau lleol yn dangos bod contractau uniongyrchol gwerth £3.2 miliwn yn weithredol yn 2011/12) a chynnal y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau yn Ardal Chwilio



[37] Poblogaeth cymuned Llanbadrig, sy'n cynnwys Cemaes a Thregele, oedd 1,357 ar adeg Cyfrifiad 2011.

Cemaes a'r Cylch a ledled Ynys Môn. [38] Cafwyd caniatâd gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) i ddatgomisiynu'r orsaf bŵer ym Mawrth 2009 ac, o ganlyniad, rhoddwyd y gorau i weithredu Adweithydd 2 yn Ebrill 2012. Rhoddwyd caniatâd pellach i ddatgomisiynu Adweithydd 1 ym Medi 2013. Er y bydd gweithgareddau datgomisiynu'n creu cyfleoedd gwaith a gwariant yn economi Môn, ar y cyfan bydd cau'r orsaf bŵer bresennol yn debygol o olygu colli nifer sylweddol o swyddi sefydlog, llai o fuddsoddi mewn busnesau lleol a'r posibilrwydd o danseilio'r ddarpariaeth o wasanaethau, gan effeithio ar ansawdd bywyd ymysg preswylwyr Ynys Môn.

5.7.4 Gan ystyried rôl Cemaes yn hierarchaeth aneddiadau Ynys Môn, ynghyd â graddfa'r holl ddatblygu a allai ddigwydd, credir bod potensial yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch i gynnwys amrywiaeth o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa gan gynnwys llety i weithwyr adeiladu, llety i weithwyr parhaol, cyflogaeth, y gadwyn gyflenwi, cludiant a logisteg.

## Cyfleoedd

5.7.5 Yn ogystal â'r caniatâd i ddatgomisiynu'r orsaf pŵer niwclear bresennol, cafwyd caniatâd gan Lywodraeth Cymru i adeiladu aráe o dyrbinau llanw yn y môr rhwng Ynysoedd y Moelrhoniaid a Thrwyn y Gader (tua 5km o ffin Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch). Mae'r Cyngor Sir wedi rhoi caniatâd hefyd ar gyfer y cebl ar dir a'r is-orsaf sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn i'r gorllewin o Gemaes.

5.7.6 Mae lleoliad y Fferm Wynt Rhiannon arfaethedig tua 20km o'r Ardal Chwilio ac mae'n bosibl y bydd y safleoedd cysylltiedig ar gyfer ceblau ac is-orsaf ar dir yn agos iawn i'r Ardal Chwilio[39].

5.7.7 Mae'n bosibl y bydd adeiladu'r aráe tyrbinau llanw a'r fferm wynt arfaethedig ar y môr yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i sicrhau buddion cronnol yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch a ledled Ynys Môn ar y cyd â Phrosiect GNN Wylfa a datgomisiynu'r orsaf pŵer niwclear bresennol.

## Materion Allweddol

5.7.8 Ceir amgylchedd arfordirol arbennig o gyfoethog a sensitif yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch ac mae hyn, ynghyd â phresenoldeb asedau hanesyddol pwysig a chymeriad gwledig y cymunedau, yn codi nifer o faterion allweddol y bydd angen i hyrwyddwr y prosiect eu hystyried. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

[38] Magnox Cyf (2013) *Wylfa Nuclear Power Station: Environmental Statement 2013 Update*.
[39] Ar adeg ysgrifennu hyn, rydym yn deall y bydd hyrwyddwr y prosiect, Celtic Array, yn cyflwyno ceisiadau am ganiatâd ar gyfer yr elfennau ar y tir a'r môr ar gyfer Fferm Wynt Rhiannon yn 2014.

- **Yr amgylchedd naturiol:** Mae nifer o safleoedd gwarchod natur sydd â dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch. Mae'r rhain yn cynnwys: AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid/ACA a SoDdGA Bae Cemlyn tua'r gorllewin; SoDdGA Llanbadrig - Dinas Gynfor tua'r dwyrain; a SoDdGA Cae Gwyn tua'r de. Mae AHNE ac Arfordir Treftadaeth Ynys Môn yn dilyn yr arfordir i'r dwyrain a'r gorllewin o'r Ardal Chwilio hon;

- **Yr amgylchedd hanesyddol:** Rhai o'r asedau treftadaeth ddiwylliannol sydd wedi'u dynodi yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch yw Ardal Gadwraeth Cemaes ac adeiladau rhestredig o gwmpas Cemaes. Y tu allan i'r Ardal Chwilio, mae Heneb Restredig y meini hirion o'r Oes Efydd tua 2km i'r de-orllewin ac mae tri adeilad rhestredig Gradd II yng Nghafnan tua 0.5km i'r gorllewin;

- **Perygl llifogydd:** Mae'r arfordir a'r tir oddeutu Afon Wygyr, sy'n llifo drwy Gemaes, o fewn Parth Llifogydd C2. Mae rhan o'r anheddiad ger Trwyn y Penrhyn o fewn Parth Llifogydd B;

- **Capasiti priffyrdd:** Mae adeiladu GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch, ynghyd â phrosiectau mawr eraill ar gyfer buddsoddi strategol, yn debygol o arwain at effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd lleol oherwydd cynnydd yn y llifau traffig;

- **Cymdeithasol ac economaidd:** Byddai adeiladu GNN Wylfa a datblygiadau cysylltiedig yn gallu cael effaith hir a pharhaus ar yr economi leol ac ansawdd bywyd cymunedau yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch. Mae'n debygol y ceir effeithiau mewn cysylltiad, er enghraifft, ag allyriadau o weithgareddau adeiladu, pwysau ar wasanaethau a chyfleusterau presennol, cydlyniant cymunedol a'r Gymraeg a'i diwylliant. Gallai effeithiau economaidd-gymdeithasol fod yn neilltuol o amlwg yn yr Ardal Chwilio hon oherwydd maint cymharol fach y boblogaeth breswyl bresennol a graddfa fach y ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol;

- **Twristiaeth:** Mae Cemaes yn gyrchfan pwysig i ymwelwyr a cheir nifer sylweddol ohonynt yn yr haf. Byddai adeiladu a gweithredu GNN Wylfa yn gallu cael effaith niweidiol ar botensial yr ardal ar gyfer twristiaeth o ran canfyddiad ymwelwyr ac argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau twristiaeth.

| **EA 32** | **Cemaes a'r Cylch** |
|---|---|
| **Datblygu Cysylltiedig** | |
| Llety Gweithwyr Adeiladu | Yn unol â pholisi'r Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, dim ond llety i weithwyr adeiladu y dangoswyd ei fod yn hanfodol (drwy gyfiawnhad cadarn ar sail angen) y dylid ei ddatblygu yn yr Ardal Chwilio hon a dylai fod ar |

| EA 32 | Cemaes a'r Cylch |
|---|---|
| | raddfa sy'n gymesur â maint y boblogaeth breswyl bresennol, ar ôl ystyried datblygiadau eraill sydd wedi'u cynnig neu eu caniatáu.<br><br>Yn unol â'r polisi yn y Cynllun Lleol presennol, y CDU a Ataliwyd a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu ac **EA10** yn y CCA hyn, rhaid lleoli datblygu newydd yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch o fewn neu ar gyrion y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio ar gyfer Cemaes, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd preswyl yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Dylai ceisiadau ar gyfer llety i weithwyr adeiladu fod yn gyson â pholisi'r Cynllun Datblygu a'r canllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill o ran lleoli, dylunio a math. Yn benodol, bydd disgwyl i geisiadau ddarparu ar gyfer defnyddio'r datblygiadau'n barhaol wedi i gyfnod adeiladu GNN Wylfa ddod i ben er mwyn diwallu anghenion tai lleol. |
| Cyflogaeth | Mae'r Cyngor Sir o blaid creu cyfleoedd busnes newydd addas yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch sy'n gysylltiedig â Phrosiect GNN Wylfa. Rhaid lleoli mathau newydd o ddefnydd at gyflogaeth o fewn y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio ar gyfer Cemaes, a ffefrir datblygu ar safleoedd tir llwyd a thir sydd wedi'i neilltuo at ddefnydd cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu.<br>Yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n creu cyflogaeth ar safleoedd addas eraill y tu allan i ffin ddatblygu Cemaes ar yr amod bod cyfiawnhad priodol ar sail anghenion gweithredu, ystyriaeth ddyladwy i faterion amgylcheddol a chymdeithasol ac nad oes safleoedd addas eraill o fewn y ffin ddatblygu. |
| Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Bydd y Cyngor Sir yn mynnu bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol yn cael eu gwella, a rhai addas newydd yn cael eu creu, yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch a fydd yn cwrdd ag anghenion gweithwyr adeiladu, y gall y gymuned leol eu defnyddio yn ystod cyfnod adeiladu Prosiect GNN Wylfa ac y gellir trefnu iddynt fod ar gael ar ôl y cyfnod adeiladu i roi budd parhaol. Bydd lleoliad, graddfa a dyluniad cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd neu welliannau i rai presennol yn gyson â pholisi a chanllawiau'r Cynllun Datblygu sydd wedi'u nodi yn **EA6** o'r CCA hyn ac mewn CCA eraill. Yn benodol, bydd cyfleusterau a gwasanaethau'n hawdd eu cyrraedd ar droed, ar feic ac mewn trafnidiaeth gyhoeddus a byddant wedi'u hadeiladu at y safon amgylcheddol uchaf posibl (h.y. BREEAM 'Excellent'). |
| Logisteg Trafnidiaeth a | Cefnogir ceisiadau i gynyddu capasiti'r A5025 yn yr Ardal Chwilio hon, yn amodol ar ystyriaethau ynghylch polisi cynllunio lleol a |

| EA 32 | Cemaes a’r Cylch |
|---|---|
| Chludo Nwyddau | chenedlaethol. Rhoddir cefnogaeth hefyd i geisiadau eraill ar gyfer seilwaith cludiant fel Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF) os byddant yn bodloni asesiad manwl o’u dichonoldeb ac arfarniad o opsiynau eraill ar gyfer symud deunyddiau adeiladu swmpus a llwythi anwahanadwy anghyffredin, yn unol ag **EA14**.<br>Er mwyn cludo gweithwyr adeiladu mewn ffordd gynaliadwy yn ôl ac ymlaen i brif safle GNN Wylfa, bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau i ddarparu mannau gollwng ar gyfer cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu. Os yw’n briodol, bydd y cyfleusterau a ddatblygir yn rhoi budd ar ôl i’r cyfnod adeiladu ddod i ben drwy barhau i’w defnyddio neu drwy gynnig tir i’w ailddatblygu. |
| **Cyfleoedd** | |
| Datblygiadau Mawr Eraill | Yn unol ag **EA26**, dylai hyrwyddwr y prosiect weithio mewn partneriaeth â Magnox (a hyrwyddwyr prosiectau (ynni) mawr eraill fel y bo’n briodol) i chwilio am gyfleoedd i liniaru effeithiau niweidiol cronnol ac amlhau’r buddion o weithgareddau datgomisiynu, adeiladu GNN Wylfa a phrosiectau ynni strategol mawr eraill. |
| **Materion Allweddol** | |
| Yr Amgylchedd Naturiol | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Cemaes a’r Cylch yn cael effeithiau niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar AGA Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid/ACA a SoDdGA Bae Cemlyn, SoDdGA Llanbadrig - Dinas Gynfor, a SoDdGA Cae Gwyn (na’u nodweddion nodedig) neu asedau ecolegol eraill o fewn ac yn agos i’r Ardal Chwilio. Yn benodol, dylid nodi'r effeithiau cronnol posibl ar safleoedd cadwraeth natur dynodedig Bae Cemlyn yn sgîl mwy o ymwelwyr, a cheisiadau ar gyfer rheoli neu liniaru'r effeithiau hyn.<br>Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i leoliad, graddfa a dyluniad datblygiadau er mwyn gwarchod safleoedd sydd â dynodiad pwysig oherwydd eu tirwedd, a’u gwella os oes modd, gan gynnwys AHNE ac Arfordir Treftadaeth Ynys Môn, a morweddau.<br>Dylid lliniaru effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol i’r graddau mwyaf posibl ac yn unol â pholisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol yn ogystal â chanllawiau yn **EA20** yn y CCA hyn ac mewn CCA eraill. Lle y bo’n briodol, dylid pennu a gweithredu mesurau lliniaru a/neu gydbwyso mewn partneriaeth â hyrwyddwyr prosiectau eraill fel Magnox neu grwpiau gwarchod natur lleol. Dylid hefyd chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a thirwedd. |

| **EA 32** | **Cemaes a'r Cylch** |
|---|---|
| Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Adeiledig | Wrth lunio ceisiadau ar gyfer datblygu, rhaid ceisio sicrhau y byddant, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, yn gwarchod a gwella asedau hanesyddol (a'u hamgylchoedd) yr ardal. Yn unol â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol ac **EA22** yn y CCA hyn, dylid cynnal asesiad o effaith y cynigion ar yr amgylchedd hanesyddol gan roi sylw penodol i safleoedd sydd wedi'u dynodi oddi mewn ac yn agos i Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch, gan gynnwys:<br>• Ardal Gadwraeth Cemaes;<br>• Gerddi Cestyll;<br>• Adeiladau rhestredig;<br>• Henebion rhestredig ac asedau eraill y tu allan i ffin yr Ardal Chwilio.<br>Rhaid mabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel wrth lunio ceisiadau a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo cymeriad lleol ac yn sicrhau bod tir y cyhoedd yn ddiogel a hygyrch, yn unol â chanllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor Sir. |
| Perygl Llifogydd | Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, dylid lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle y mae perygl llifogydd. Os cyflwynir ceisiadau ar gyfer tir lle y mae perygl llifogydd, bydd disgwyl iddynt gynnwys dull cynhwysfawr o liniaru perygl llifogydd a fydd wedi'i seilio ar Asesiad Canlyniadau Llifogydd. |
| Cyfleustodau | Wrth bennu lleoliadau a datblygu ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch, dylai hyrwyddwr y prosiect gydweithio â Dŵr Cymru, Scottish Power Energy Networks a Wales & West Utilities i ganfod a oes angen buddsoddi yn y seilwaith presennol a'i uwchraddio er mwyn darparu ar gyfer datblygu ychwanegol. |
| Cymdeithasol ac Economaidd | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch yn cael effaith annerbyniol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar fusnesau lleol ac ansawdd bywyd. Dylid cynnal asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol y ceisiadau yn yr Ardal Chwilio hon ar fanylder sy'n gymesur â math a graddfa'r datblygiad a gynigir. Dylid cymryd mesurau lliniaru a/neu gydbwyso priodol i ddelio ag effeithiau niweidiol arwyddocaol. Yn benodol, bydd angen ystyried yn fanwl y posibilrwydd y bydd y datblygiad yn effeithio ar wasanaethau a chyfleusterau cymunedol presennol yn yr Ardal Chwilio. Er mwyn peidio â rhoi pwysau ar y ddarpariaeth bresennol, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, dylai ceisiadau roi'r gallu i integreiddio cymunedau, gwasanaethau a chyfleusterau presennol â rhai |

| EA 32 | Cemaes a'r Cylch |
|---|---|
| | newydd.<br><br>Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i Ddatganiad Iaith Gymraeg gael ei gyflwyno gyda phob cais ar gyfer datblygu cysylltiedig yn yr Ardal Chwilio hon, ac i Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg mwy manwl gael ei gyflwyno gyda cheisiadau mwy, yn unol â'r trothwyon yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007). |
| Twristiaeth | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch yn cael effaith niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar botensial yr ardal ar gyfer twristiaeth. Disgwylir cael asesiad manwl o'r effeithiau posibl ar dwristiaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer datblygu (ar eu pen eu hunain ac ar y cyd â cheisiadau eraill) yn yr Ardal Chwilio hon.<br><br>Rhai o'r mesurau posibl i ddelio ag unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar dwristiaeth ac i amlhau cyfleoedd o fuddsoddi yn Ardal Chwilio Cemaes a'r Cylch yw:<br>• Cynnal ac, os yw'n bosibl, gwella mynediad at yr arfordir yng nghyswllt gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru;<br>• Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau strategol ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy, llwybrau beicio a rhwydweithiau o lwybrau cerdded;<br>• Gwella seilwaith a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr;<br>• Marchnata cyrchfannau drwy gydgysylltu â Croeso Cymru, Partneriaeth y Cynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan a'r Cyngor Sir;<br>• Gellir rhoi cefnogaeth i lety twristiaeth o ansawdd uchel ar raddfa fach i'w ddefnyddio dros dro gan weithwyr adeiladu yn yr Ardal Chwilio hon, ar yr amod eu bod yn gyson â'r canllawiau yn EA12 yn y CCA hyn. |

## 5.8 Gweddill Ynys Môn

### Trosolwg

5.8.1 Gweddill Ynys Môn yw'r fwyaf o'r saith Ardal Chwilio ac mae'n cynnwys rhannau o Fôn sydd ar yr arfordir ac yn wledig gan mwyaf, ac sydd oddi wrth y prif ganolfannau a choridorau trafnidiaeth. Mae'n cynnwys rhai o'r rhannau mwyaf sensitif o ran amgylchedd yn Ynys Môn fel Safle Treftadaeth y Byd o gwmpas Biwmares, safleoedd gwarchod natur sydd â dynodiad Ewropeaidd neu genedlaethol a rhannau helaeth o AHNE ac Arfordir Treftadaeth Ynys Môn.

5.8.2 Er nad oes canolfannau gwasanaeth trefol yn yr Ardal Chwilio hon, amcangyfrifwyd ei bod yn cynnwys ymhell dros hanner poblogaeth Ynys Môn mewn nifer o bentrefi, pentrefannau ac anheddau ar wahân. Mae canolfannau gwasanaeth lleol Benllech, Pentraeth, Biwmares, Rhosneigr a Bodedern o fewn yr Ardal Chwilio hon. Cyrhaeddir y canolfannau hyn ar yr A5025 ac, i'r de o'r A55, mae'r A4080 yn cysylltu â Rhosneigr. Mae rheilffordd Caergybi-Caer yn rhedeg drwy ran ddeheuol yr Ardal Chwilio hefyd a cheir gorsafoedd (arosfannau ar gais) yn Nhŷ Croes a Rhosneigr. Cyrhaeddir Bodedern un ai o'r A55 neu'r A5025 ar hyd yr B5109. Mae Maes Awyr Môn hefyd tua'r de o'r Ardal Chwilio hon yng Ngorsaf RAF y Fali.

5.8.3 Ceir amodau economaidd-gymdeithasol cymysg yn yr Ardal Chwilio hon. Nid yw ei Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymysg y rhai mwyaf difreintiedig ym Môn. Er hynny, mae rhaniad pendant rhwng yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y gogledd-de a'r rheini yn y dwyrain-gorllewin, a'r ardaloedd yn y gogledd-de sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd cyffredinol.

5.8.4 Yn unol â'r Cynllun Datblygu a'r CDLIC sy'n cael ei ddatblygu, mae'r Cyngor Sir o'r farn mai dim ond lefel gyfyngedig o ddatblygu mewn cysylltiad â GNN Wylfa y dylid ei chynnwys yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn (lle y mae polisi'n rhoi pwys ar warchod a gwella'r amgylchedd a chynnal cymunedau presennol), ac y dylid ei ganoli'n bennaf yn rhannau gogleddol a gorllewinol yr Ardal Chwilio. Gallai datblygu sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa fod yn fwy priodol o fewn anheddiad Bodedern sy'n agos i goridorau'r A5025 a'r A5/A55 ac yn cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol pwysig gan gynnwys ysgol gynradd, ysgol uwchradd, meddygfa a swyddfa bost. Er hynny, rhaid i ddatblygu ym Modedern fod ar raddfa sy'n gymesur â gallu'r anheddiad i gynnwys twf.

### Cyfleoedd

5.8.5 Yn unol â chymeriad gwledig Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn, ychydig o safleoedd sydd wedi'u dyrannu a all gynnwys datblygu sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa. Y safle pwysicaf yw safle Ardal Fenter Ynys Môn Rhos-goch (EZ8) sydd tua 5km o Amlwch. Hefyd, mae Maes Awyr Môn yn llai na 3km o'r A55 ac yn cynnig ffordd o gyrraedd Gogledd-orllewin Cymru i deithwyr busnes a hamdden drwy gysylltu Ynys Môn a Chaerdydd. Mae Datganiad Sefyllfa'r Cyngor Sir ar Drafnidiaeth ar gyfer Gorsaf Pŵer Niwclear Newydd Wylfa (2011) yn nodi y gall y Maes Awyr ehangu ei wasanaethau presennol i gynnwys mannau eraill yn y DU, os bydd angen. Er ei fod yn cydnabod na fydd teithiau awyr yn brif fodd trafnidiaeth ar gyfer cyfran fawr o weithlu GNN Wylfa, mae'n nodi y gallai hwyluso teithiau rhai cyflenwyr neu gontractwyr arbenigol.




### Materion Allweddol

5.8.6 Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn yn ogystal â'r amodau economaidd-gymdeithasol yn ei chymunedau. Nid yw'r holl fathau o wasanaethau a chyfleusterau ar gael mewn aneddiadau ac mae ganddynt lai o gysylltedd na rhai o'r aneddiadau eraill yn Ynys Môn. Felly credir nad yw cymunedau lleol yn fannau priodol i gynnwys lefelau uchel o ddatblygu sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa.

5.8.7 Rhai o'r materion allweddol y bydd yn rhaid i hyrwyddwr y prosiect eu hystyried os yw'n dymuno lleoli unrhyw ddatblygiadau yn yr Ardal Chwilio hon yw:

- **Yr amgylchedd naturiol:** Mae Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn yn cynnwys nifer o safleoedd gwarchod natur sydd â dynodiad Ewropeaidd, SoDdGAau sydd â dynodiad cenedlaethol a'r pedair Gwarchodfa Natur Genedlaethol sydd yn Ynys Môn. Yma hefyd y mae rhannau helaeth o AHNE Ynys Môn, yr Arfordir Treftadaeth a'r ddwy dirwedd hanesyddol eithriadol sydd ym Môn, sef Penmon ac Amlwch a Mynydd Parys. Mae rhannau helaeth o'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig arfaethedig o fewn yr Ardal Chwilio hon hefyd;

- **Yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig:** Ceir adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth yn nifer o'r aneddiadau sydd yn Ardal Chwilio

Gweddill Ynys Môn, ac mae Biwmares yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd ehangach. Ymhlith yr ardaloedd cadwraeth y mae Bodedern, Aberffraw, Llanfechell a Biwmares. Ceir olion archeolegol hefyd ledled Ynys Môn ac, am fod yr ardal yn wledig gan mwyaf, mae'n llai tebygol y bydd aflonyddu wedi bod arnynt;

- **Cymdeithasol ac economaidd:** Mae'r aneddiadau yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn yn gymharol fach a'u hamrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau'n gyfyngedig. Ceir cyfleusterau o radd ganolig ac uwch yng nghanolfannau gwasanaeth lleol Benllech, Biwmares Rhosneigr a darpariaeth ar lefel is yn y canolfannau gwasanaeth eraill a'r pentrefi mwyaf. Mae'r gallu i gyrraedd cyfleusterau lluosog yn amrywio ledled yr Ardal Chwilio a cheir pellteroedd teithio hirach (mwy na 10 munud o amser gyrru) yng nghanol Ynys Môn (yr ardal o gwmpas Llyn Alaw) ac ar rannau helaeth o'r arfordir gan gynnwys yr ardal o gwmpas Gorsaf RAF y Fali. Ni cheir ardaloedd sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd lluosog yn yr Ardal Chwilio hon. Er hynny, mae'r amddifadedd mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn dilyn patrwm pendant, a cheir lefelau uwch o amddifadedd wrth fynd o'r gogledd i'r de ar draws Ynys Môn yn hytrach nag o'r dwyrain i'r gorllewin;

- **Twristiaeth:** Mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol cyfoethog yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn yn cyfrannu'n helaeth at economi twristiaeth Ynys Môn;

- **Cyfleustodau:** Oherwydd cymeriad gwledig yr Ardal Chwilio hon, mae'n bosibl y bydd argaeledd cyflenwadau dŵr yn gyfyngiad allweddol. Mae'r Astudiaeth o'r Cylch Dŵr a baratowyd gan AMEC (2014) wedi dangos nad yw safle Ardal Fenter Ynys Môn yn Rhos-goch yn rhan o'r rhwydwaith prif bibellau ac y byddai angen darparu seilwaith ychwanegol sylweddol i gyflenwi dŵr i'r safle.

| **EA 33** | **Gweddill Ynys Môn** |
|---|---|
| **Datblygu Cysylltiedig** | |
| Llety i Weithwyr Adeiladu | Yn unol â'r Cynllun Datblygu a'r CDLlC sy'n cael ei ddatblygu, gall y Cyngor Sir gefnogi ceisiadau i ddatblygu nifer cyfyngedig o unedau llety ar raddfa fach ar gyfer gweithwyr adeiladu:<br>• O fewn neu ar gyrion y ffiniau sydd wedi'u diffinio ar gyfer canolfannau gwasanaeth lleol;<br>• Os ydynt yn hygyrch (neu os gellir eu gwneud yn hygyrch) i brif safle GNN Wylfa heblaw drwy ddefnyddio ceir preifat;<br>• Os ydynt yn gydnaws ac ar raddfa sy'n gymesur â'r anheddiad lle y byddant yn cael eu lleoli;<br>• Os byddant yn diwallu anghenion lleol am lety yn y tymor hir wedi i gyfnod adeiladu'r prosiect ddod i ben. |

| EA 33 | Gweddill Ynys Môn |
|---|---|
| | Ar sail ei leoliad mewn cysylltiad â'r A55, yr A5025 a Chaergybi, mae Bodedern yn cael ei ystyried yn anheddiad allweddol yn yr Ardal Chwilio hon. Mae'n amgylcheddol sensitif (mae'n cynnwys ardal gadwraeth) ond yma y mae'r unig ysgol uwchradd yn yr Ardal Chwilio, ac mae'n cael ei wasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus ac yn cynnwys nifer rhesymol o wasanaethau a chyfleusterau eraill. Felly byddai'r Cyngor yn cefnogi ceisiadau am ddatblygu preswyl mewn cysylltiad â Phrosiect GNN Wylfa yn yr anheddiad hwn a fydd yn rhoi budd tymor hwy i'r gymuned leol drwy ddiwallu anghenion tai lleol wedi i'r cyfnod adeiladu ddod i ben. Bydd angen gwelliannau i'r gwasanaeth bysiau presennol (yn enwedig o ran amlder y gwasanaeth) i gynnal unrhyw ddatblygu o'r fath, a dylai ei ddyluniad, ei raddfa a'i gymeriad fod yn addas i'r anheddiad.<br><br>Rhaid i geisiadau ar gyfer llety i weithwyr adeiladu fod yn gyson â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol sy'n berthnasol a'r canllawiau sydd yn y CCA hyn a CCA eraill ynghylch lleoli, dylunio a math. |
| Cyflogaeth | Yn gyffredinol, mae'r Cyngor Sir yn annhebygol o gefnogi ceisiadau i greu cyfleoedd busnes newydd a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn mewn cysylltiad â GNN Wylfa, heblaw ar safle Ardal Fenter Rhos-goch (EZ8).<br><br>Gallai'r Cyngor Sir gefnogi ceisiadau addas i greu cyflogaeth ar raddfa fach ar safleoedd addas eraill lle y mae cyfiawnhad cadarn ar sail anghenion gweithredu ac ar ôl rhoi ystyriaeth ddyladwy i faterion amgylcheddol a chymdeithasol.<br><br>Cefnogir ceisiadau i ehangu busnesau presennol ar yr amod bod y datblygu'n gyson â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol. |
| Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Bydd y Cyngor Sir yn mynnu bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol yn cael eu gwella, a rhai addas newydd yn cael eu creu, yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn a fydd yn cwrdd ag anghenion gweithwyr adeiladu, y gall y gymuned leol eu defnyddio yn ystod cyfnod adeiladu Prosiect GNN Wylfa ac y gellir trefnu iddynt fod ar gael ar ôl y cyfnod adeiladu i roi budd parhaol. Bydd lleoliad, graddfa a dyluniad cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd neu welliannau i rai presennol yn gyson â pholisi a chanllawiau'r Cynllun Datblygu sydd wedi'u nodi yn y CCA hyn. Yn benodol, bydd cyfleusterau a gwasanaethau'n hawdd eu cyrraedd ar droed, ar feic ac mewn trafnidiaeth gyhoeddus a byddant wedi'u hadeiladu at y safon amgylcheddol uchaf posibl (h.y. BREEAM 'Excellent'). |

| **EA 33** | **Gweddill Ynys Môn** |
|---|---|
| Trafnidiaeth | Nid yw'r Cyngor Sir yn rhag-weld y bydd angen gwelliannau sylweddol yn y seilwaith trafnidiaeth yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn o ganlyniad i Brosiect GNN Wylfa ar sail lefel y datblygu y disgwylir ei chael yn yr Ardal Chwilio hon. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn briodol cael gwelliannau mewn mannau i gyrraedd Maes Awyr Môn a safle Ardal Fenter Rhos-goch gan gynnwys amrywiaeth o foddau trafnidiaeth cynaliadwy. |
| **Cyfleoedd** | |
| Safle Ardal Fenter<br>Rhos-goch | Bydd disgwyl i hyrwyddwr y prosiect ystyried yn ofalus, drwy gydgysylltu â'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru, a fydd yn bosibl cynnwys datblygu cysylltiedig ar safle Ardal Fenter Rhos-goch, os bydd ar gael.<br>Bydd yn ofynnol bod unrhyw fathau newydd o ddefnydd at gyflogaeth ar y safle hwn yn gyson â pholisïau a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol a rhaid dangos, yn benodol, sut y mae modd gwneud y lleoliad cymharol anghysbell hwn yn gynaliadwy yng nghyd-destun y datblygiad a gynigir a'i allu i ddarparu mynediad cyfleus at brif safle GNN Wylfa.<br><br>Wrth lunio ceisiadau, dylid ystyried ffyrdd o greu cysylltiadau â chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, trafnidiaeth, seilwaith a llety i weithwyr adeiladu sydd yn Ardal Chwilio Amlwch a'r Cylch. |
| Maes Awyr Môn | Bydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau sy'n cynnig cyfleoedd i ehangu'r gwasanaethau hedfan sydd ar gael ym Maes Awyr Môn mewn ymateb i gynnydd posibl yn y galw mewn cysylltiad â Phrosiect GNN Wylfa, yn amodol ar ystyriaethau amgylcheddol.<br>Mae'n bosibl y bydd ehangu gwasanaethau hedfan yn galw am ddatblygu yn y Maes Awyr. Rhaid dangos mewn ceisiadau am ddatblygu o'r fath na fydd yn arwain at effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd, y bydd yn digwydd o fewn ffin y safle presennol ac na fydd yn amharu ar weithrediadau gorsaf yr RAF gerllaw. Byddid yn gofyn am wella hygyrchedd y Maes Awyr drwy ddefnyddio moddau trafnidiaeth cynaliadwy. |
| **Materion Allweddol** | |
| Yr Amgylchedd Naturiol | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â phrosiectau eraill, ar y nifer mawr o safleoedd gwarchod natur sydd â dynodiad Ewropeaidd neu genedlaethol (na'u nodweddion nodedig) o fewn yr Ardal Chwilio neu'n agos iddi. Bydd yn bwysig hefyd fod ceisiadau'n gwarchod ac yn gwella AHNE Ynys Môn, yr Arfordir Treftadaeth, ardaloedd tirwedd hanesyddol eithriadol a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig |

| EA 33 | Gweddill Ynys Môn |
|---|---|
| | arfaethedig.<br>Dylid rhoi ystyriaeth fanwl i leoliad, graddfa a dyluniad y datblygiadau er mwyn atal effeithiau niweidiol, yn unol â'r canllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill sydd wedi'u paratoi gan y Cyngor Sir. Dylid hefyd chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a thirwedd. |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol ac Adeiledig | Wrth lunio ceisiadau ar gyfer datblygu, dylid ceisio sicrhau na fyddant yn cael effeithiau niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â phrosiectau eraill, ar yr asedau hanesyddol (a'u hamgylchoedd) sydd yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn gan gynnwys, er enghraifft, Ardal Cadwraeth Bodedern.<br>Rhaid mabwysiadu egwyddorion dylunio o ansawdd uchel wrth lunio ceisiadau a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo cymeriad lleol ac yn sicrhau bod tir y cyhoedd yn ddiogel a hygyrch, yn unol â chanllawiau yn y CCA hyn a CCA eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor Sir. |
| Cymdeithasol ac Economaidd | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn yn cael effaith annerbyniol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar fusnesau lleol ac ansawdd bywyd. Dylid cynnal asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol y ceisiadau yn yr Ardal Chwilio hon ar fanylder sy'n gymesur â math a graddfa'r datblygiad a gynigir.<br>Dylid rhoi mesurau lliniaru a/neu gydbwyso priodol ar waith i ddelio ag effeithiau niweidiol arwyddocaol. Yn benodol, bydd angen ystyried yn fanwl y posibilrwydd y bydd y datblygiad yn effeithio ar wasanaethau a chyfleusterau cymunedol presennol yn yr Ardal Chwilio. Er mwyn peidio â rhoi pwysau ar y ddarpariaeth bresennol, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, dylai ceisiadau roi'r gallu i integreiddio cymunedau, gwasanaethau a chyfleusterau presennol â rhai newydd.<br>Ni fydd y Cyngor Sir yn cefnogi ceisiadau am ddatblygiadau sy'n creu galwadau ychwanegol ar wasanaethau presennol na ellir eu hateb, oni bai fod hyrwyddwr y prosiect yn ariannu mesurau i ateb y galwadau hyn. Rhaid sicrhau bod modd cyrraedd gwasanaethau presennol drwy ddefnyddio amrywiaeth o foddau trafnidiaeth cynaliadwy a bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect bennu cyfleoedd i fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus leol a gwella llwybrau presennol i gerddwyr a beicwyr, a darparu rhai newydd.<br>Credir nad yw'r ardaloedd gwledig yng nghanol Ynys Môn yn briodol ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â GNN Wylfa am eu bod yn gymharol anghysbell, heblaw am safle Ardal Fenter Rhos-goch. Wrth ailddatblygu'r safle hwn, dylid gwella'r mynediad i Amlwch a'r aneddiadau llai i alluogi cymunedau lleol i fanteisio ar |

| EA 33 | Gweddill Ynys Môn |
|---|---|
| | gyfleoedd economaidd a all godi.<br>Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau'n cael effaith niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar y Gymraeg a'i diwylliant yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn. Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i Ddatganiad Iaith Gymraeg gael ei gyflwyno gyda phob cais ar gyfer datblygu cysylltiedig yn yr Ardal Chwilio hon, ac i Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg mwy manwl gael ei gyflwyno gyda cheisiadau am ddatblygiadau mwy, yn unol â'r trothwyon yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2007). |
| Twristiaeth | Rhaid sicrhau na fydd ceisiadau yn Ardal Chwilio Gweddill Ynys Môn yn cael effaith niweidiol, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â datblygiadau eraill, ar botensial yr ardal ar gyfer twristiaeth. Disgwylir cael asesiad manwl o'r effeithiau posibl ar dwristiaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer datblygu (ar eu pen eu hunain ac ar y cyd â cheisiadau eraill) yn yr Ardal Chwilio hon.<br>Rhai o'r mesurau posibl i ddelio ag unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar dwristiaeth ac i amlhau cyfleoedd o fuddsoddi yw:<br>• Cynnal ac, os yw'n bosibl, gwella mynediad at yr arfordir yng nghyswllt gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru;<br>• Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau strategol ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy, llwybrau beicio a rhwydweithiau o lwybrau cerdded;<br>• Gwella seilwaith a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr;<br>• Marchnata cyrchfannau drwy gydgysylltu â Croeso Cymru, Partneriaeth y Cynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan a'r Cyngor Sir.<br>Gellir cefnogi ceisiadau am ddatblygu llety twristiaeth o ansawdd uchel ar raddfa fach i'w ddefnyddio dros dro gan weithwyr adeiladu yn yr Ardal Chwilio hon, ar yr amod eu bod yn gyson â'r canllawiau yn **EA12** yn y CCA hyn. |
| Cyfleustodau | Wrth bennu lleoliadau a datblygu ceisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig yn yr Ardal Chwilio hon, dylai hyrwyddwr y prosiect gydweithio â Dŵr Cymru, Scottish Power Energy Networks a Wales & West Utilities i ganfod a oes angen buddsoddi yn y seilwaith presennol a'i uwchraddio er mwyn darparu ar gyfer datblygu ychwanegol.<br>Oherwydd cymeriad gwledig yr Ardal Chwilio hon, mae'n bosibl y bydd argaeledd cyflenwadau dŵr yn gyfyngiad allweddol a dylai hyrwyddwr y prosiect drafod unrhyw geisiadau â Dŵr Cymru. Yn benodol, byddai angen darparu seilwaith ychwanegol sylweddol i gyflenwi dŵr i safle Ardal Fenter Rhos-goch. |

# Rhestr Byrfoddau

| | |
|---|---|
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| AEG | Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb |
| AEI | Asesiad o’r Effaith ar Iechyd |
| AEIG | Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| AGEHI | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| ARhC | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| ATIG | Ardal Teithio i’r Gwaith |
| CBC | Cyfraniadau Budd Cymunedol |
| CCA | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| CDLlC | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| CDU | Cynllun Datblygu Unedol |
| CIS | Cynllun Integredig Sengl |
| CRhC | Cynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan |
| CRhLlD | Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch |
| dB | Desibel |
| EA | Egwyddor Arweiniol |
| GCD | Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| GNN | Gorsaf Niwclear Newydd |
| GYC | Gwerth Ychwanegol Crynswth |
| Ha | Hectar |

| | |
|---|---|
| LAeq | Lefel Sain Barhaus Gyfatebol |
| MOLF | Marine Off-Loading Facility (Cyfleuster Dadlwytho Morol) |
| MW | Megawat |
| NPS | National Policy Statement (Datganiad Polisi Cenedlaethol) |
| ONR | Swyddfa Rheoleiddio Niwclear |
| PSCA | Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| TAN | Technical Advice Note (Nodyn Cyngor Technegol) |
| YYM | Rhaglen Ynys Ynni Môn |

# Atodiad A

Mae **Tabl A.1** yn dangos y berthynas rhwng yr Egwyddorion Arweiniol (EA) ar gyfer y prosiect cyfan yn **Adran 4** o'r CCA hyn a Datganiadau Polisi Cenedlaethol a pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol (Cymru) sy'n berthnasol, gan gynnwys:

- Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol am Ynni (EN-1) (2011);
- Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6) (2011);
- Polisi Cynllunio Cymru (2014);
- Nodiadau Cyngor Technegol (TAN);
- Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993);
- Cynllun Lleol Ynys Môn (1996);
- Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Ataliwyd (CDU a Ataliwyd) (2005);
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLlC): Hoff Strategaeth Ddrafft (2013);a
- CCA eraill a Pholisi Cynllunio Dros Dro sydd wedi'u mabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Dylid nodi mai dim ond cysylltiadau â pholisïau allweddol sydd wedi'u dangos yn **Nhabl A.1** ac na ddylid ei ystyried yn rhestr gynhwysfawr o bob polisi sy'n berthnasol i'r CCA hyn.

**Tabl A.1 Rhestr o Gysylltiadau Polisi Allweddol â'r Egwyddorion Arweiniol ar gyfer y Prosiect Cyfan**

| **Egwyddor Arweiniol yn CCA GNN Wylfa ar gyfer y Prosiect Cyfan** | **Polisi/Canllawiau Allweddol** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***NPS EN-1*** | ***NPS EN-6*** | ***Polisi Cynllunio Cymru*** | ***TAN*** | ***Cynllun Fframwaith*** | ***Cynllun Lleol*** | ***CDU a Ataliwyd*** | ***Hoff Strategaeth Ddrafft y CDLlC*** | ***CCA a Pholisi Dros Dro*** |
| EA 1: Cefnogi Rhaglen Ynys Ynni Môn ac Ardal Fenter Ynys Môn | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4 | Penodau 4, 7 | - | Polisi B6 | Polisi 2 | EP1 | Polisïau Strategol PS6, PS7, PS8 | - |
| EA 2: Creu Swyddi a Datblygu Sgiliau yn Lleol | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4 | Penodau 4, 7 | - | Polisi Strategol 3 | Polisi 2 | CC1 | Polisïau Strategol PS1, PS6, PS7, PS8 | - |
| EA 3: Cefnogi Defnydd Tir ar gyfer Cyflogaeth, Logisteg a Thrafnidiaeth | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4 | Penodau 4, 7 | - | Polisi Strategol 3, Polisïau B1, B7 | Polisi 2 | PO2, PO4, EP1, EP4, EP6 | Polisïau Strategol PS1, PS3, PS4, PS6, PS7, PS8 | - |
| EA 4: Cefnogi Busnesau Lleol sy'n Cynnig Gwasanaethau ac yn Rhan o'r Gadwyn Gyflenwi | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4 | Penodau 4, 7, 10 | TAN 4 | Polisi Strategol 3, Polisïau B1, B7 | Polisi 2 | PO2, PO4, EP1, EP4, EP6 | Polisïau Strategol PS1, PS3, PS4, PS6, PS7, PS8 | - |
| EA 5: Hybu'r Economi Twristiaeth | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4 | Penodau 4, 7, 11 | TAN 13 | Polisïau CH1 - CH20 | Polisïau 8 – 13 | PO7, TO1-TO10 | Polisïau Strategol PS6, PS7, PS8, PS9 | - |
| EA 6: Cynnal a Gwella Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4 | Penodau 4, 10, 11 | TAN 4, TAN 16 | Polisi Strategol 1, Polisi Strategol 2, Polisïau A3, F6 – F8 | Polisïau 14, 16 - 17 | PO2, PO4, TO11, TO12, CC1, EP8 -10 | Polisïau Strategol PS1, PS3, PS5, PS6, PS7, PS10, PS20 | - |
| EA 7: Diogelu Iechyd | Para 14.3.1 – | Para 3.12.7 – | Penodau 4, 13 | TAN 11, TAN | Polisïau D20, | Polisïau 6, 43 - | GP1, GP2, | Polisïau | Canllawiau |

| **Egwyddor Arweiniol yn CCA GNN Wylfa ar gyfer y Prosiect Cyfan** | **Polisi/Canllawiau Allweddol** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***NPS EN-1*** | ***NPS EN-6*** | ***Polisi Cynllunio Cymru*** | ***TAN*** | ***Cynllun Fframwaith*** | ***Cynllun Lleol*** | ***CDU a Ataliwyd*** | ***Hoff Strategaeth Ddrafft y CDLlC*** | ***CCA a Pholisi Dros Dro*** |
| | 14.4.3 | 3.12.11 | | 12 | F6 | 44 | SG7, SG8, EP7 | Strategol PS1, PS6, PS7 | Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig, Trefol a Gwledig |
| EA 8: Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw | Para 4.13.4, 5.10.5 – 5.10.24 | Para 3.12.7 – 3.12.11 | Penodau 4, 11 | TAN 12, TAN 16 | Polisïau CH1, CH12, CH18, F6, D31, D34 | Polisïau 14, 16 - 17 | TR9, TO10, TO11, TO12 | Polisïau Strategol PS1, PS5, PS6, PS7, PS20 | - |
| EA 9: Cynnal a Chreu Cymunedau Cydlynol | Para 5.12.3 | Para 3.12.7 – 3.12.11 | Pennod 4 | TAN 12, TAN 20 | Polisïau Strategol 1, 5, 6 | Polisïau 1, 42, 48 | PO2, PO3, GP2 | Polisïau Strategol PS1, PS3, PS5, PS6, PS7, PS19, PS20 | Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, Canllawiau Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig, Trefol a Gwledig |
| EA 10: Llety i Weithwyr Adeiladu a Marchnad Dai Ynys Môn | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4 | Penodau 4, 9 | TAN 2 | Polisïau Strategol 1, 2, 6, Polisïau A1-A10 | Polisïau 47 - 52 | PO2, HP2 – HP9 | Polisïau Strategol PS1, PS3, PS5, PS6, PS7, PS11, PS12 | Tai Fforddiadwy, Polisi Cynllunio Dros Dro: Safleoedd Mawr, Polisi Cynllunio Dros Dro: Clystyrau Gwledig |
| EA 11: Cyflenwad Cudd | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – | Penodau 4, 9 | TAN 2 | Polisi A4 | - | | Polisïau | - |

| Egwyddor Arweiniol yn CCA GNN Wylfa ar gyfer y Prosiect Cyfan | **Polisi/Canllawiau Allweddol** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***NPS EN-1*** | ***NPS EN-6*** | ***Polisi Cynllunio Cymru*** | ***TAN*** | ***Cynllun Fframwaith*** | ***Cynllun Lleol*** | ***CDU a Ataliwyd*** | ***Hoff Strategaeth Ddrafft y CDLlC*** | ***CCA a Pholisi Dros Dro*** |
| | | 3.11.4 | | | | | | Strategol PS7, PS11 | |
| EA 12: Llety i Ymwelwyr | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4 | Penodau 4, 11 | TAN 13 | Polisïau CH2, CH4 – CH8 | Polisïau 8 - 13 | TO2 -TO7 | Polisïau Strategol PS7, PS9 | Llety Gwyliau |
| EA 13: Cynnal a Chryfhau'r Gymraeg a'i Diwylliant | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4 | Pennod 4 | TAN 20 | Polisïau Strategol 1, 5, 6 | Polisïau 1, 48 | PO3, GP2 | Polisïau Strategol PS1, PS5, PS6, PS7, PS19 | Safonau Parcio, Canllawiau Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig, Trefol a Gwledig |
| EA 14: Trafnidiaeth | Para 5.13.3 – 15.13.12 | Para 3.15.1 – 3.15.3 | Penodau 4, 8 | TAN 18 | Polisïau FF1 - FF21 | Polisïau 1, 23, 26 | PO4, GP1, GP2, TR1-TR13 | Polisïau Strategol PS1, PS3, PS5, PS6, PS7, PS8, PS22 | Canllawiau Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig, Trefol a Gwledig |
| EA 15: Darparu Cyfleustodau | Para 5.12.3 | Para 3.11.3 – 3.11.4, 3.15.1 – 3.15.3 | Penodau 4, 12 | TAN 19 | Polisïau A3, B7, D19 – D20 | Polisïau 1, 27, 46 | WP10, SG4, SG5, EP14 | Polisïau Strategol PS1, PS3, PS5, PS6, PS7, PS8, PS20, PS21 | - |
| EA 16: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | Para 5.14.6 – 5.14.9 | - | Penodau 4, 12 | TAN 21 | Polisi D18 | Polisi 29 | PO5, GP1, WP1 – WP10 | Polisïau Strategol PS1, | Canllawiau Dylunio'r |

| **Egwyddor Arweiniol yn CCA GNN Wylfa ar gyfer y Prosiect Cyfan** | **Polisi/Canllawiau Allweddol** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***NPS EN-1*** | ***NPS EN-6*** | ***Polisi Cynllunio Cymru*** | ***TAN*** | ***Cynllun Fframwaith*** | ***Cynllun Lleol*** | ***CDU a Ataliwyd*** | ***Hoff Strategaeth Ddrafft y CDLlC*** | ***CCA a Pholisi Dros Dro*** |
| | | | | | | | | PS2, PS5, PS6, PS7, PS17 | Amgylchedd Adeiledig, Trefol a Gwledig |
| EA 17: Cyfleusterau Storio Gwastraff Niwclear | - | Para 2.11.3 | - | - | - | Polisïau 43 - 44 | WP9 | Polisi Strategol PS7 | - |
| EA 18: Lliniaru ar Effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd | Para 4.5.1, 5.2.6 – 5.2.13 | - | Penodau 4, 12 | TAN 8, TAN 22 | Polisïau C7 – C8 | Polisïau 1, 45 | PO8b, EP18 | Polisïau Strategol PS1, PS2, PS5, PS7, PS15 | Ynni Gwynt ar y Tir, Canllawiau Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig, Trefol a Gwledig |
| EA 19: Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd | Para 5.5.5 – 5.5.17, 5.7.4 – 5.7.25 | Para 3.6.6 – 3.6.16, 3.8.3 – 3.8.5 | Penodau 4, 13 | TAN 14, TAN 15, TAN 22 | - | Polisïau 1, 28, 36 | PO8a, SG2 | Polisïau Strategol PS1, PS2, PS5, PS6, PS7 | - |
| EA 20: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol | Para 5.3.3 – 5.3.20, 5.9.5 – 5.9.23, 5.10.5 – 5.10.24 | Para 3.9.3 – 3.9.6, 3.10.6 – 3.10.8 | Penodau 4, 5, 13 | TAN 5 | Polisïau Strategol 1, 4, Polisïau D1 – D5, D7 – D14 | Polisïau 1, 30-37 | PO8, PO8a, GP1, GP2, EN1 – EN10, EN15, EN16 | Polisïau Strategol PS1, PS4, PS5, PS6, PS7, PS15 | Canllawiau Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig, Trefol a Gwledig |
| EA 21: Gwarchod yr Amgylchedd Dŵr | Para 5.15.2 – 5.15.10 | Para 3.7.3 – 3.7.8 | Penodau 4, 5, 12, 13 | TAN 5, TAN 14, TAN 22 | Polisïau Strategol 1, 4, Polisïau D19 – | Polisïau 1, 27, 36 | PO8, PO8a, GP1, GP2, EN9, WP10, | Polisïau Strategol PS1, PS2, PS5, | Canllawiau Dylunio'r Amgylchedd |

| Egwyddor Arweiniol yn CCA GNN Wylfa ar gyfer y Prosiect Cyfan | Polisi/Canllawiau Allweddol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***NPS EN-1*** | ***NPS EN-6*** | ***Polisi Cynllunio Cymru*** | ***TAN*** | ***Cynllun Fframwaith*** | ***Cynllun Lleol*** | ***CDU a Ataliwyd*** | ***Hoff Strategaeth Ddrafft y CDLlC*** | ***CCA a Pholisi Dros Dro*** |
| | | | | | D20 | | SG3 – SG6 | PS6, PS7, PS14 | Adeiledig, Trefol a Gwledig |
| EA 22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol | Para 5.8.8 – 5.8.22 | - | Penodau 4, 6 | - | Polisïau Strategol 1, 4 Polisïau D15 – D16, D21 – D29 | Polisïau 1, 26, 39 - 42 | PO8, PO8a, GP1, GP2, EN10 - EN15 | Polisïau Strategol PS1, PS5, PS6, PS7, SP15 | |
| EA 23: Rhwymedigaethau Cynllunio | Para 4.1.8 | - | Adran 3.7 | - | - | - | - | Polisïau Strategol PS5, PS6, PS7 | Rhwymedigaethau Cynllunio |
| EA 24: Defnyddio Pwerau'r Cyngor | - | - | - | - | - | - | - | | |
| EA 25: Gweithredu a Monitro | - | - | - | - | - | - | - | Polisi Strategol PS7 | |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk

www.anglesey.gov.uk

# Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa: Canllawiau Cynllunio Atodol

ioacc

@angleseycouncil



## Rhestr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

www.ynysmon.gov.uk

www.anglesey.gov.uk

# 1 Overview

Ymgynghoriad ar ddrafft Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa: Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA GNN Wylfa) a gychwynnwyd ar 17 Chwefror ac a gynhaliwyd hyd at 31 Mawrth 2014. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyhoeddi CCA drafft ar gyfer rhoi sylwadau (yn cynnwys holiadur oedd yn gofyn 19 o gwestiynau) a thair arddangosfa gyhoeddus ategol ym Mae Cemaes, Caergybi a Llangefni.

Derbyniwyd cyfanswm o 52 o ymatebion unigol i'r ymgynghoriad gan amryw o ymgyngoreion a rhanddeiliaid. Bu i gyfanswm o 26 o ymatebwyr gwblhau'r holiadur, yn llawn neu'n rhannol, a'r gweddill yn ymateb drwy lythyr neu e-bost. Derbyniwyd sylwadau gan y canlynol:

- Adrannau Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor Sir), yn cynnwys Tai, Dysgu Gydol Oes, Iechyd Amgylcheddol ac Adfywio Cymunedol;
- Awdurdodau lleol eraill, sef Conwy a Gwynedd;
- Ymgyngoreion statudol yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg a darparwyr cyfleustodau (yn cynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol a Dŵr Cymru);
- Sefydliadau cynrychioliadol a thirfeddianwyr/datblygwyr, yn cynnwys Ffederasiwn Busnesau Bychain, Conygar PLC, Meyrick Estates a Phartneriaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn;
- Darparwyr gofal iechyd eraill;
- Hyrwyddwr y prosiect, Horizon;
- Trigolion a grwpiau lleol, yn cynnwys Pobl Atal Wylfa B (PAWB).

# 2 Rhestr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mae'r Cyngor Sir wedi adolygu pob ymateb i'r ymgynghoriad. Yna mae pob ymateb wedi cael ei grynhoi a'r crynodeb wedi ei gynnwys ar Restr Ymatebion i'r Ymgynghoriad sydd yn **Nhabl 1**. Mae Rhestr Ymatebion i'r Ymgynghoriad hefyd yn cynnwys ymateb y Cyngor Sir i bob mater a godir a mynegiad ynglŷn â diwygio drafft CCA GNN Wylfa neu beidio a sut y dylid adolygu'r ddogfen.

**Tabl 1 Rhestr Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| A001 | 3. Y Weledigaeth | Ni chafodd pobl Ynys Môn leisio'u barn ynglŷn ag Ynys Ynni ac mae nifer yr ymwelwyr yn dechrau gostwng o ganlyniad i gynigion i ddatblygu egni adnewyddadwy a niwclear. | Nodwyd y sylwad. Sefydlwyd Cynllun Ynys Ynni yn ffurfiol ym mis Mehefin 2011 er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd oedd yn deillio o ddatblygiadau mawr ym myd egni. O ystyried maint yr effeithiau a'r cyfleoedd, roedd angen i'r Cyngor Sir ddefnyddio dull gwahanol er mwyn manteisio ar fuddion y datblygiadau mawr yma.<br><br>Nid oes yna unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r honiad bod niferoedd ymwelwyr yn dechrau gostwng o ganlyniad i'r datblygiadau mawr yma. Mewn gwirionedd, mae'r ffigyrau diweddaraf yn dangos cynnydd mewn niferoedd ymwelwyr ar gyfer 2013 (gweler http://www.anglesey.gov.uk/empty-nav/news/press-releases-2014/may-2014/tourism-worth-256m-to-anglesey- | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | economy/122993.article). | |
| | 9. Llety Gweithwyr Adeiladu | Dylid rhoi blaenoriaeth i bobl leol, a'r ynni o fudd i bobl leol yn unig. | Nodwyd y sylwad. Mae Llywodraeth y DU wedi clustnodi'r safle yn Wylfa fel lleoliad ar gyfer Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd. Yn y cyd-destun hwn, bwriedir i'r ynni a gynhyrchir gan unrhyw orsaf bŵer niwclear yn y dyfodol fod o fudd i'r DU gyfan, yn cynnwys Ynys Môn. | Dim newid. |
| | 10. Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant | Effaith ar ddiwylliant lleol. | Nodwyd y sylwad. Gan adlewyrchu polisi cynllunio lleol presennol ac arfaethedig a nodir yn y Cynllun Datblygu, y CDU a ataliwyd a'r CGDLl, mae'r canllawiau sydd yn nrafft CCA GNN Wylfa wedi eu dylunio i leihau effeithiau niweidiol ar ddiwylliant lleol (yn cynnwys yr Iaith Gymraeg) ac i wneud y mwyaf o'r buddion. Nid yw'n eglur o'r ymateb hwn pa ganllawiau ychwanegol ellid eu cynnwys. | Dim newid. |
| | 13. Gwastraff | Mae'r Ynys eisoes yn cael ei llygru gan Wylfa. | Nodwyd y sylwad. Mae'r canllawiau sydd yn y CCA drafft yn ymwneud yn benodol â'r GNN yn Wylfa ac nid yr orsaf bŵer bresennol. Er gwaethaf hyn, mae'r canllawiau'n amcanu at warchod iechyd (gweler EA7) a sicrhau nad yw storio gwastraff niwclear interim yn achosi effeithiau economaidd gymdeithasol nac amgylcheddol niweidiol. | Dim newid. |
| | 15. Yr Amgylchedd Naturiol | Nid yw unrhyw un o gynlluniau Ynys Ynni o fudd i'r amgylchedd naturiol a'r cymunedau o'u cwmpas. | Nodwyd y sylwad. Nid yw drafft CCA GNN Wylfa yn ymwneud â'r Rhaglen Ynys Ynni ehangach (er ei fod yn amcanu i ymdrin ag effeithiau cronnol posibl). Er hyn, mae'r CCA drafft yn benodol yn amcanu at warchod a chyfoethogi amgylchedd naturiol yr Ynys (gweler EA20 yn arbennig) a | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | chreu'r buddion mwyaf i gymunedau'r Ynys. | |
| | 17. Hwyluso Datblygu | Defnyddio'r rheilffordd (gynt) i Amlwch o bosibl er mwyn lleihau'r traffig trwm ar y briffordd. | Nodwyd y sylwad. Mae EA14 CCA GNN Wylfa yn amcanu at wneud y defnydd mwyaf posibl o reilffyrdd. Fodd bynnag, deellir fod y costau o adfer yr hen reilffordd i Amlwch yn waharddol a byddai trafnidiaeth ymlaen wedyn i'r GNN ar y ffordd yn dal yn angenrheidiol. | Dim newid. |
| | 18. Gweithredu a Monitro | Pam fod Gwynedd yn ymwneud â CDLl Ynys Môn? | Mae Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd wedi cytuno i ddarparu Cydgynllun Datblygu Lleol ar gyfer dwy ardal yr awdurdodau lleol er mwyn ymdrin â materion strategol allweddol. Mae'r dull hwn wedi'i gymeradwyo gan Lywodraerh Cymru. | Dim newid. |
| | 19. Canllawiau ynglŷn â'r Ardal | Ni ddylid cael gorsaf niwclear sy'n cynhyrchu digon o bŵer yn unig i'r Ynys fod yn hunangynhaliol. | Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth y DU wedi clustnodi'r safle yn Wylfa fel lleoliad ar gyfer Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd. Yn y cyd-destun hwn, bwriedir i'r ynni a gynhyrchir gan unrhyw orsaf bŵer niwclear yn y dyfodol fod o fudd i'r DU gyfan, yn cynnwys Ynys Môn. | Dim newid. |
| A002 | 8. Poblogaeth a Chymunedau | Sylw annigonol wedi'i roi i effaith bosibl mewnfudo ar y gymuned leol. | Anghytuno. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at wneud y mwyaf, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl, o'r cyfleoedd economaidd posibl fydd yn cael eu creu gan yr GNN er budd y bobl leol, a disgwylir y bydd hynny'n lleihau mewnfudo. Hefyd, Mae'r CCA drafft yn cynnwys canllawiau penodol a ddyluniwyd i leihau effeithiau | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | mewnfudo ar gymunedau'r Ynys. | |
| | 9. Llety Gweithwyr Adeiladu | Y pryder yw y bydd yr holl weithwyr yn lletya yng Nghaergybi, a bydd yn dioddef ar draul gweddill yr Ynys. | Nodwyd y sylwad. Gan adlewyrchu polisi cynllunio lleol presennol ac arfaethedig, mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at gyfeirio datblygiadau tuag at brif aneddiadau'r Ynys yn cynnwys Caergybi. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y gall y ddarpariaeth llety i weithwyr adeiladu yng Nghaergybi arwain at effeithiau niweidiol a chadarnhaol y mae'r CCA drafft yn amcanu at fynd i'r afael â hwy gyda chanllawiau lleoliadol penodol (gweler EA27). | Dim newid. |
| | 10. Yr Iaith Gymraeg | Efallai na fydd y prosiect yn effeithio ar yr iaith i'r graddau y mae rhai yn ofni y bydd. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 11. Trafnidiaeth | Mae'n annhebygol y bydd y Cyngor yn gallu rheoli symudiadau cerbydau i'r graddau a ragwelwyd. | Gan adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol a lleol presennol yn ogystal â pholisi cynllunio lleol arfaethedig, mae'r Cyngor Sir yn ystyried bod drafft CCA GNN Wylfa yn taro'r cydbwysedd cywir o ran lleihau effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â symudiadau cerbydau yn ystod gwaith adeiladu'r GNN a rhoi cyfle i hyrwyddwr y prosiect ddatblygu strategaeth drafnidiaeth ymarferol. | Dim newid. |
| A003 | 2. PPwrpas | Ddim yn deall y cwestiwn a'r pwrpas. | Mae'r Cyngor Sir yn derbyn bod geiriad cwestiwn 2 braidd yn ddryslyd o ganlyniad i wall teipio, ond bod ystyr y cwestiwn yn dal yr un fath. | Dim newid. |
| A004: Pŵer Niwclear Horizon | 2. Pwrpas | Yn cefnogi pwrpas cyffredinol CCA GNN Wylfa yn ddarostyngedig i sylwadau. Yn awgrymu troednodyn yn 1.1.10 i egluro'r posibilrwydd o alw i mewn/penderfyniad gan weinidogion. | Cytuno. | Diwygio paragraff 1.1.10 er mwyn cyfeirio at y posibilrwydd o alw i mewn. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Hefyd ym mharagraff 1.3.2, dylid cynnwys datganiad ymgynghori i gynnwys y cynrychiolaethau a dderbyniwyd a'r ymatebion a roddwyd. | | Diwygio adran 1.3 er mwyn adlewyrchu cwblhau'r broses ymgynghori. |
| | 3 Gweledigaeth | Yn croesawu gweledigaeth gadarnhaol. Dylid nodi na fydd taliadau cymunedol gwirfoddol gan y datblygwr (para 3.1.4 a 4.12.5) yn angenrheidiol er mwyn i'r datblygiad fod yn dderbyniol, ac ni ddylai fod yn rhan o'r CCA. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Weledigaeth a nodir yn Adran 3.1 drafft CCA GNN Wylfa yn berthnasol i'r GNN yn ei gyfanrwydd ac nid i'r CCA. Fodd bynnag, gellid diwygio paragraff 3.1.4 er mwyn cyfeirio'n fwy eglur at iawndal yn hytrach na buddion cymunedol gwirfoddol.<br><br>Mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi'r eglur ym mharagraff 4.12.6 bod cyfraniadau tuag at fudd cymunedol yn amlwg ar wahân i'r broses gynllunio. Er hyn, cydnabyddir y gall teitl EA23 'Ymrwymiadau Cynllunio a Buddion Cymdeithasol' fod yn gamarweiniol. | Diwygio paragraff 3.1.4 er mwyn cyfeirio at iawndal a dileu'r cyfeiriad at fuddion cymunedol gwirfoddol.<br><br>Diwygio teitl EA23 er mwyn dileu'r cyfeiriad at 'Fuddion Cymdeithasol'. |
| | 4. Amcanion | Dylai paragraff 3.2.3 adlewyrchu bod angen i safleoedd datblygu cysylltiedig hefyd fod mewn lleoliadau sydd â mynediad addas i safle'r GNN. | Nodwyd y sylwad. Mae Amcan 2 yn amcanu at sicrhau y defnyddir cyflogaeth mewn lleoliadau addas, gyda'r ffocws ar waddol. Mae lleoliadau addas yn y cyd-destun hwn yn ymwneud â gwaddol, ond byddai'r Cyngor Sir yn disgwyl i hyn gynnwys ystyriaeth ynglŷn â mynediad i brif safle'r GNN. Yn y cyswllt hwn, mae Amcan 6 (pwynt bwled 4) yn nodi pwysigrwydd darparu mynediad da i'r orsaf bŵer newydd.<br><br>Fodd bynnag, derbynnir y gallai Amcan 2 fod yn fwy eglur yn y cyswllt hwn ac y gellid diwygio pwynt bwled 5 Amcan 6, sy'n | Diwygio Amcan 2 (pwynt bwled 5) ac Amcan 6 (pwynt bwled 5) er mwyn cynnwys cyfeiriad at brif safle'r GNN. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | ymwneud â hygyrchedd llety gweithwyr adeiladu, er mwyn cynnwys cyfeiriad at brif safle'r GNN. | |
| | | Mae'n ymddangos bod yna wrthdaro rhwng 'tyfu' twristiaeth wrth amcanu at roi llety i draean y gweithwyr mewn llety i dwristiaid. | Anghytuno. Hysbyswyd y dull o ymdrin â Llety Gweithwyr Adeiladu, a nodir yn EA10 drafft CCA GNN Wylfa, gan Ddatganiad Sefyllfa ar Lety Gweithwyr Adeiladu a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir. Mae'r Datganiad, a hysbyswyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Horizon a'r Gymdeithas Dwristiaeth, yn amcanu at roi llety i draean y gweithwyr mewn llety wedi ei adeiladu'n bwrpasol, traean mewn llety wedi'i rentu'n breifat a thraean mewn llety i dwristiaid. Drwy roi llety i draean y gweithwyr mewn llety i dwristiaid, mae'r Cyngor Sir yn ystyried mai'r dull hwn sy'n cynnig y cyfle gorau i gefnogi'r economi dwristiaeth, yn arbennig yn ystod y cyfnodau sydd y tu allan i'r prif dymor gwyliau. Er hyn, mae EA12 y CCA drafft hefyd yn amcanu at sicrhau na fydd yna effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y sector yma. | Dim newid. |
| | | Paragraff 3.2.4, pwynt bwled 4 (Amcan 3) - nid yw'n eglur beth yw ystyr 'cefnogi'r ddarpariaeth fanwerthu'. | Nodwyd y sylwad. Mae elfen hon yr amcan yn gysylltiedig â gwneud y mwyaf o'r potensial y bydd y mewnlifiad o weithwyr yr GNN yn helpu i wella hyfywedd y ddarpariaeth fanwerthu bresennol, yn arbennig ym mhrif aneddiadau'r Ynys. | Dim newid. |
| | | Mae paragraff 3.2.6, pwynt bwled 1 (Amcan 5) yn cyfeirio at 'warchod a, phan fo'n bosibl, gyfoethogi....' ond efallai na fydd hi'n bosibl | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y gall fod yna rai achosion pan na fydd modd osgoi effeithiau niweidiol. | Cynnwys cyfeiriadau eglur yn y CCA at ddisgwyliadau'r Cyngor y dylai ystyriaeth i |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | gwarchod rhai ardaloedd, a bydd angen lliniaru'r effeithiau. Ddim yn eglur pam y cyfeirir at Gastell Biwmares. | Fel ymateb, mae EA21, er enghraifft, yn nodi, pan gyfeirir at bosibilrwydd effeithiau niweidiol, y dylid cymryd camau i liniaru'r effeithiau hyn'. Er hyn, ystyrir y gall y CCA fod yn gliriach o ran cyfeirio at yr angen i liniaru effeithiau a, phan nad yw hyn yn bosibl, i ddigolledu amdanynt.<br><br>Nodir Biwmares yn Amcan 5 fel enghraifft o un o asedau treftadaeth pwysicaf yr Ynys (fel rhan o Safle Treftadaeth y Byd). | effeithiau ddilyn yr hierarchaeth ganlynol: osgoi, lliniaru,digolledu. |
| | 5. Canllawiau ar gyfer yr holl Brosiect | Fel y drafftiwyd, mae'r CCA yn cynnwys canllawiau mewn perthynas â'r GCD, nad ydynt yn briodol, oherwydd nad y Cyngor Sir yw'r awdurdod penderfynu. Yn y cyswllt hwn, nid yw EA17 yn briodol, argymhellir ei dynnu ymaith. | Anghytuno. Mae'r Cyngor Sir yn ystyried ei bod yn hanfodol bod CCA GNN Wylfa yn cynnwys canllawiau mewn perthynas â storio dŵr niwclear. Bwriedir i ganllawiau o'r fath (fel y rhai a nodir yn EA17) nodi disgwyliadau'r Cyngor mewn perthynas â storio gwastraff er mwyn:<br><br>• Hhysbysu cynigion hyrwyddwr y prosiect (p'un a yw'r cynigion ar gyfer storio interim yn ffurfio rhan o gais y GCD neu'n gais cynllunio ar wahân i'r Cyngor Sir);<br><br>• Hhysbysu Adroddiad y Cyngor Sir ar yr Effaith Leol mewn perthynas â'r GCD;<br><br>• Hhelpu i hysbysu penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw gais cynllunio a gyflwynir i'r Cyngor Sir ar gyfer cyfleusterau storio dŵr niwclear.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir yn ystyried y gellid sefydlu pwrpas EA17 yn fwy eglur | Cynnwys testun ategol sy'n amlinellu sail resymegol EA17 yn eglur. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | yn y testun ategol. | |
| | 6. Datblygiad Economaidd | Yn cefnogi Rhaglen Ynys Ynni a'r Ardal Fenter, ond yn cwestiynu priodoldeb cynnwys 'hyrwyddo cyfleoedd o ran ynni adnewyddadwy...' yn EA1 oherwydd bod y canllawiau yn gysylltiedig â'r GNN. Nid yw'n briodol i'r CCA fanylu ynglŷn â gofynion asesiadau economaidd gymdeithasol ar gyfer yr GNN a dylai gyfeirio'n unig at ddatblygiad cysylltiedig. | Anghytuno. Mae'r Cyngor Sir yn rhagweld y bydd datblygiadau cysylltiedig â datblygu ar brif safle'r GNN yn creu cyfleoedd i ymgorffori ynni adnewyddadwy, fydd yn ei dro efallai'n hwyluso twf yn sector ynni adnewyddadwy'r Ynys.<br><br>Mae'r gofyniad yn EA1 am asesu economaidd gymdeithasol i gefnogi'r cais GCD yn adlewyrchu'r polisi cenedlaethol a geir yn NPS-EN1 a NPS EN-6. Byddai'r Cyngor Sir yn defnyddio'r wybodaeth a geir mewn unrhyw asesiad o effaith economaidd gymdeithasol i hysbysu ei Adroddiad ar yr Effaith Leol. | Dim newid. |
| | 7. Twristiaeth | Yn cytuno â geiriad EA5, fodd bynnag gweler y sylwad o dan C4. Hefyd, dylai geiriau tebyg i 'pan nodir effeithiau niweidiol arwyddocaol' gael eu defnyddio yn EA5 wrth ddisgrifio camau lliniaru posibl. | Cytuno. Dylai'r canllawiau gydnabod y gall fod yna achosion pan na ellir osgoi effeithiau niweidiol a bydd lliniaru/digolledu yn ddisgwyliedig. | Diwygio EA5 i amlygu y bydd y Cyngor Sir, pan na fydd modd osgoi effeithiau niweidiol, yn disgwyl y bydd camau lliniaru/digolledu yn cael eu gweithredu. |
| | 8. Poblogaeth a Chymunedau | Nes bod asesiadau'n cael eu cynnal, nid yw'n briodol nodi amodau fyddai'n bosibl i'r Cyngor Sir eu cymhwyso ac y dylent mewn unrhyw gyswllt gael eu gosod mewn perthynas â'r camau lliniaru a nodir.<br><br>Mae'r gwaith adeiladu yn cynnwys cyfnodau hir o weithgaredd. Felly gofynnir am eglurhad o'r disgwyliadau o ran 'cyfyngu ar oriau adeiladu' yn EA7. | Nodwyd y sylwad. Dangosol yn unig yw'r amodau a'r camau lliniaru a nodir yn EA7, ac fe'u darperir fel enghraifft o'r hyn y gallai'r hyrwyddwr ei ystyried fel ffordd o liniaru effeithiau niweidiol. Yn y cyswllt hwn, nid oes gan y Cyngor Sir unrhyw ddisgwyliadau o ran, er enghraifft, cyfyngu ar oriau adeiladu ar hyn o bryd. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | 9. Llety Gweithwyr Adeiladu | Ystyrir bod y canllawiau'n anghyson. Mae EA10 yn cyfeirio at rannu'r mathau o lety yn dri, ac yn gofyn am fesurau i liniaru effeithiau niweidiol ar y farchnad dai leol ellid eu hosgoi os cynigir rhaniad mwy hyblyg. Mae EA9 yn amcanu at integreiddio llety gweithwyr adeiladu a gall hyn fod yn anodd ei wireddu. Os na fydd y rhannu'n dri yn ofynnol ar gyfer llety rhent preifat, yna gellid osgoi effeithiau niweidiol posibl. | Anghytuno. Hysbyswyd y dull o ymdrin â Llety Gweithwyr Adeiladu, a nodir yn EA10 drafft CCA GNN Wylfa, gan Ddatganiad Sefyllfa ar Lety Gweithwyr Adeiladu a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir. Mae'r Datganiad, a hysbyswyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Horizon, yn amcanu at roi llety i draean y gweithwyr mewn llety wedi ei adeiladu'n bwrpasol, traean mewn llety wedi'i rentu'n breifat a thraean mewn llety i dwristiaid. Mae'r Cyngor Sir yn ystyried bod y dull hwn yn: darparu hyblygrwydd drwy gynnig amrywiaeth o ddewisiadau o ran llety i weithwyr adeiladu; darparu elfen o lety hygyrch (ar y safle) yn agos i Wylfa er mwyn bodloni anghenion gweithredol y safle adeiladu; galluogi'r galw dros dro am lety i weithwyr adeiladu wella'r ddarpariaeth llety lleol a thwristiaeth; gwneud y mwyaf o'r cyfle i gyflwyno buddion gwaddol parhaus.<br><br>Mae integreiddio llety gweithwyr adeiladu fel yr hyrwyddir yn nrafft CCA GNN Wylfa, yn cynnwys o dan EA9, yn un o ddyheadau allweddol y Cyngor Sir er mwyn gwneud y mwyaf o fuddion gwaddol i gymunedau'r Ynys a chefnogi strategaeth ofodol ehangach polisi cynllunio lleol presennol ac arfaethedig.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod yna angen efallai i adolygu'r Datganiad Sefyllfa er mwyn ystyried proffil gweithwyr adeiladu hyrwyddwr y prosiect | Diwygio EA10 a EA12, yn cynnwys y testun ategol, er mwyn galluogi ystyried unrhyw Ddatganiad Sefyllfa ar Weithwyr Adeiladu/tystiolaeth gyfatebol. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | ac unrhyw dystiolaeth/data diweddar, ac y dylai'r CCA gydnabod hyn. | |
| | | Yr un mor anghyson wrth ofyn am leihau'r angen i deithio ond cyfyngu ar faint lletyau. Mae angen i'r CCA barhau i fod yn hyblyg. Hefyd, nid yw EA27 yn darparu digon o hyblygrwydd er mwyn ystyried dewisiadau eraill. | Anghytuno. Nid yw'r Cyngor Sir yn ystyried bod lleihau'r angen i deithio a chyfyngu ar lety gweithwyr adeiladu ar y prif safle o reidrwydd yn anghyson. Bydd cefnogi darpariaeth llety i weithwyr adeiladu ym mhrif aneddiadau'r Ynys yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau allweddol yn hygyrch iddynt. Hefyd, bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau y bydd lletyau fydd yn cael eu defnyddio ar ôl y gwaith adeiladu yn hygyrch, gan ddarparu budd gwaddol i gymunedau'r Ynys. Fodd bynnag, mae'r canllawiau a nodir yn EA10 yn darparu ar gyfer llety i weithwyr adeiladu hanfodol ar y prif safle. | Dim newid. |
| | | Mae Horizon yn ceisio mwy o hyblygrwydd er mwyn canfod atebion addas o ran llety gweithwyr adeiladu. Nid yw geiriad EA27 yn caniatáu digon o hyblygrwydd i ystyried dewisiadau eraill. Awgrymir dileu popeth ar ôl y frawddeg gyntaf yn y blwch Tir a Llynnoedd a dileu'r gair 'cyflawn' o'r frawddeg gyntaf. | Anghytuno. Mae'r Cyngor Sir yn ystyried bod EA27 yn darparu digon o hyblygrwydd i hyrwyddwr y prosiect allu ystyried dewisiadau eraill yn hytrach na Thir a Llynnoedd cyn belled nad oes yna dystiolaeth gref sy'n dangos pam nad yw'r cynllun yn addas. Petai Horizon yn ffafrio safle gwahanol, byddai'r Cyngor Sir beth bynnag yn disgwyl i hyrwyddwyr y prosiect ystyried dewisiadau eraill. Felly, gwrthodir y diwygiad a gynigir. | Dim newid. |
| | | Y nod fydd 'cwmpasu safonau dylunio cynaliadwy o safon uchel pryd bynnag fo hynny'n bosibl', felly mae angen diwygio paragraff 4.4.7 i adlewyrchu hyn. | Anghytuno. Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl i unrhyw gynnig ar gyfer llety gweithwyr adeiladu fod â dyluniad cynaliadwy o safon uchel. Felly, gwrthodir y diwygiad a | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | gynigir. | |
| | 10. Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant | Cytuni'r â'r EA. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 11. Trafnidiaeth | Dylai EA14 gyfeirio at 'archwilio' y defnydd o ddulliau teithio ar reilffordd a dŵr, yn hytrach na'u blaenoriaethu. | Anghytuno. Mae NPS-EN 1 (paragraff 5.13.10) yn nodi y ffefrir trafnidiaeth ar reilffordd neu ddŵr yn hytrach na thrafnidiaeth ar y ffyrdd ym mhob cam y prosiect (GNN), pan fo hynny'n gost effeithiol. | Dim newid. |
| | | Dylai EA14 gyfeirio at Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru yn achos Cymru | Mae EA14 drafft CCA GNN Wylfa yn cyfeirio at Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Felly nid oes angen unrhyw newid. | Dim newid. |
| | | Nid yw EA3 yn cydnabod bod yna wrthdaro posibl â chymeriad y tirlun a'r treflun, ac felly argymhellir aralleirio pwynt bwled 3 EA3 i 'sicrhau bod y safleoedd datblygu cysylltiedig a ddewisir yn hawdd eu cyrraedd drwy amryw ddulliau teithio cynaliadwy a, phan fo'n bosibl, bod unrhyw wrthdaro posibl â chymeriad tirlun a threflun yr ardal gyfagos yn cael ei liniaru'. | Cytuno. | Diwygio EA3 er mwyn adlewyrchu'r ymateb. |
| | | Mae'n bwysig bod y canllawiau'n parhau i ystyried MOLF fel opsiwn, oherwydd gallai defnyddio Porthladd Caergybi a thrafnidiaeth o'r fan honno effeithio'n waeth ar yr A5025. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod mai MOLF allai fod y dull a ffefrir ar gyfer cludo deunyddiau adeiladu swmpus a Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin, ac adlewyrchir hyn ym mharagraff 4.6.9 drafft CCA GNN Wylfa. | Dim newid. |
| | 12. Cyfleustodau | Yn cefnogi'r gofyniad i uwchraddio'r seilwaith presennol er bod yr GNN yn rhan o'r GCD ac yn fater yn y pen draw i'r Ysgrifennydd Gwladol ac nad yw'n briodol i ganllawiau ymdrin ag | Anghytuno. Gall effeithiau sy'n deillio o ddarpariaeth cyfleustodau sy'n gysylltiedig â'r GNN effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth cyfleustodau o gwmpas yr Ynys gyfan. O ganlyniad, mae'r Cyngor Sir | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | effeithiau'r GNN ar gyfleustodau. | yn ystyried ei bod yn hanfodol bod CCA GNN Wylfa yn cynnwys canllawiau er mwyn hysbysu cynigion hyrwyddwr y prosiect ac Adroddiad y Cyngor ar yr Effaith Leol. | |
| | 13. Gwastraff | Cyfeiriad at C5 parthed storio gwastraff ymbelydrol. | Gweler yr ymateb i C5. | Yn ychwanegol at hyn, ac fel ymateb i sylwadau eraill a dderbyniwyd, bydd cyfeiriad ychwanegol yn cael ei gynnwys yn EA17 at effeithiau ymbelydrol posibl a'r angen i'w hasesu. |
| | 14. Newid yn yr Hinsawdd | Yn cytuno â'r EA ond yn nodi y dylai'r canllawiau fod yn berthnasol i ddatblygu cysylltiedig yn unig. | Nodwyd y sylwad. Er bod EA18 yn bennaf berthnasol i ddatblygu cysylltiedig, wrth adlewyrchu NPS EN-1 byddai'r Cyngor Sir yn disgwyl i ddatblygu ar y prif safle cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd. Yn y cyd-destun hwn, dylai EA18 helpu i hysbysu cynigion hyrwyddwr y prosiect ac Adroddiad y Cyngor ar yr Effaith Leol. | Dim newid. |
| | 15. Yr Amgylchedd | Yn croesawu EA20 yn gyffredinol, er na fydd gwarchod efallai'n bosibl bob amser, a bydd angen lliniaru unrhyw effeithiau. Argymhellir newid geiriad ynglŷn â chadwraeth i 'pan fo'n bosibl'. Hefyd yn berthnasol i EA26. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod na fydd hi efallai'n bosibl osgoi effeithiau niweidiol ar asedau amgylcheddol naturiol ac adeiledig yr Ynys. Yn y cyswllt hwn, mae EA20 (er enghraifft) yn nodi, pan na ellir osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol, bod y Cyngor Sir yn disgwyl y bydd camau lliniaru a/neu digolledu priodol yn cael eu cymryd. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor Sir yn ystyried bod angen diwygio'r canllawiau. | Dim newid. |
| | 16. Amgylchedd | Yn croesawu EA22 yn gyffredinol. Fodd | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | Hanesyddol | bynnag, dylai'r awydd i warchod yr amgylchedd hanesyddol gynnwys cyfeiriad at 'pan fo'n bosibl'. | cytuno bod geiriad EA22 yn anghyson â geiriad EA20 yn yr ystyr nad yw'n nodi disgwyliad i liniaru os na ellir osgoi effeithiau arwyddocaol. Mae hyn yn bodoli oherwydd bod y Cyngor (fel yr un sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â datblygiadau cysylltiedig) yn ymrwymedig yn ôl Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i roi ystyriaeth arbennig i ddymunoldeb cadwraeth adeilad rhestredig neu ei leoliad a bod hynny'n amherthnasol i unrhyw liniaru a gynigir.<br><br>Yn unol â hynny, ni ellir ystyried unrhyw ymdrech i gynnig lliniaru os na ellir osgoi effeithiau arwyddocaol ar adeiladau rhestredig dim ond ar yr amod nad yw'n llyffetheirio dyletswydd y Cyngor Sir fel corff penderfynu mewn perthynas â'i ddyletswydd o dan adran 66 y Ddeddf honno. | |
| | 17. Hwyluso Datblygu | Mae'r CCA drafft yn awgrymu bod yr effeithiau niweidiol yn fwy na'r buddion, mewn perthynas â 4.12.2 dylid ei aralleirio i '...a digolledu am unrhyw effaith niweidiol o ganlyniad i GNN Wylfa...' a defnyddio'r term 'unrhyw' wrth drafod 'effeithiau niweidiol'. | Cytuno. | Diwygio paragraffau 4.12.1 a 4.12.2 er mwyn cyfeirio at 'unrhyw' effeithiau niweidiol. |
| | | Yn pryderu nad oes polisi cynllunio wedi ei sefydlu yn y DU na Chymru er mwyn darparu ar gyfer y math o fuddion cymunedol a ragwelir yn y CCA drafft. Felly cwestiynir a yw'r CCA drafft yn creu polisi newydd, a phriodoldeb EA23. | Gweler yr ymateb i C3. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | 18. Monitro a Gweithredu | Yn gefnogol. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 19. Canllawiau ynglŷn â'r Ardal | Yn gyffredinol gefnogol, fodd bynnag mewn perthynas â Chaergybi a'r Ardal, cyfeirir ar C9 ynglŷn â sicrhau hyblygrwydd er mwyn ystyried safleoedd eraill. | Gweler yr ymateb i C9. | Dim newid. |
| A005 | 3. Y Weledigaeth | Nid yw'r Weledigaeth yn nodi sut le fydd Ynys Môn ar ôl yr GNN. Efallai bod hyn yn well enghraifft: "Creu Ynys Môn ble fydd y trigolion yn ffynnu o ganlyniad i gyflogaeth gynaliadwy'n seiliedig ar sgiliau mewn amgylchedd o safon uchel, gan gynnal harddwch a hunaniaeth unigryw'r Ynys er mwynhad ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd." | Nodwyd y sylwad. Ystyrir bod y Weledigaeth yn darparu digon o eglurder a manylion mewn perthynas â dyheadau economaidd gymdeithasol trawsffurfiol y Cyngor Sir yn achos yr holl brosiectau ynni mawr arfaethedig ar Ynys Môn, yn arbennig yr GNN.<br><br>Datblygwyd y Weledigaeth er mwn ategu polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal â blaenoriaethau corfforaethol presennol. | Dim newid. |
| | 4. Amcanion | Yn cytuno, ac eithrio Amcan 1, sydd yn ormodol. | Anghytuno. | Dim newid. |
| | 8. Poblogaeth a Chymunedau | Adran 4.3.6: Safbwynt gwell fyddai bod y Cyngor yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect gyfathrebu'n eglur sut y bydd yn rheoli gweithgaredd yr orsaf niwclear newydd yn ddiogel yn dilyn y gwaith adeiladu, yn cynnwys unrhyw wahaniaethau penodol rhyngddi a'r Orsaf Bŵer Niwclear Magnox flaenorol. | Nodwyd y sylwad. Cytunir y gellir ychwanegu geiriad mewn perthynas â chyfathrebu. | Diwygio paragraff 4.3.6 er mwyn cynnwys cyfeiriad at yr angen am gyfathrebu eglur mewn perthynas â rheoli diogel. |
| | 9. Llety Gweithwyr Adeiladu | Dylai llety'r hyrwyddwr a'r prif gontractwyr fod o'r math cywir. Dylai fod yn ddigonol ar y safle i gynnal diogelwch ac i warchod yr amgylchedd, dylid gwneud y mwyaf hefyd o adeiladau presennol a thir llwyd. Ni fydd y gweithwyr eisiau prynu, a bydd hynny efallai'n rhoi pwysau | Nodwyd y sylwadau, ac ystyrir eu bod yn adlewyrchu'r strategaeth a nodir yn y CCA drafft. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | ar letyau gwyliau, y mwyaf deniadol fydd llety tebyg i gampws. Byddai'r rhain yn addas ar gyfer cymunedau mawr megis Caergybi a Llangefni. Gall y rhain greu gwaddol. | | |
| | | Ni chytunir â'r cyfeiriad ym Mhapur Pwnc 3 mai unedau llai sydd ei angen ar weithwyr, dim cynsail yn Hinkley C. Mae yna gyfle i ddarparu tai fforddiadwy, ond dylid dadgyplu hyn oddi wrth lety gweithwyr adeiladu. Mae'n rhyfedd fod Rhaglen Ynys Ynni yn mabwysiadu Tir a Llynnoedd cyn y CCA a rownd gyntaf yr ymgynghoriad â'r datblygwyr. | Nodwyd y sylwad. Mae'r wybodaeth o adeiladu newydd blaenorol yn awgrymu mai gofodau gwelyau sengl fydd y rhan fwyaf o'r lletyau. Derbynnir y bydd angen adolygu'r math a'r amrywiaeth o letyau ar ôl derbyn mwy o wybodaeth am broffiliau gweithwyr adeiladu gan hyrwyddwr y prosiect. | Dim newid. |
| | 15. Yr Amgylchedd Naturiol | Yn cytuno â'r egwyddorion arweiniol, ond yn awgrymu y dylai'r datblygwr wneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd eisoes y gellid ei adfer, megis Alwminiwm Môn. | Nodwyd y sylwad. Mae'r CCA yn cynnwys cyfeiriad at dir llwyd/tir a ddatblygwyd eisoes (gweler, er enghraifft, EA10 a EA20). | Dim newid. |
| | 19. Canllawiau ynglŷn â'r Ardal | Caergybi. Yn anghytuno â datganiadau ynglŷn â Llety Gweithwyr Adeiladu a Thir a Llynnoedd. Dylid cael cymhellion i wella lletyau presennol a datblygiadau preswyl newydd. Nid yw'r math o lety gweithwyr adeiladu a gynigir yn dangos trefniadau cadarn o ran diogelwch, amwynder, trafnidiaeth neu effaith ar y gymuned leol. A oes yna gyfle i ddefnyddio rhan o safle Alwminiwm Môn ar y cyd â Lateral Power? | Nodwyd y sylwad. Mae EA10 drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys cyfeiriad at sefydlu Cronfa Tai/Llety er mwyn gwella'r stoc o dai rhent preifat presennol a lleihau'r nifer o dai gwag. Dylid darllen y EA law yn llaw â'r canllawiau ar Ardal Caergybi. | Dim newid. |
| A006 | 3. GY weledigaeth | Ni ddylai gorsafoedd niwclear fod yn agos at ganolfannau poblogaeth ac ni ddylid adeiladu nes bod yna ffordd o storio gwastraff yn y tymor hir. Ni ddylai'r angen am ynni niwclear fod ar draul yr amgylchedd naturiol. Mae bioamrywiaeth yn fater ar gyfer gwarchod cyhoeddus. Hefyd, nid oes cyfiawnhad dros | Nodwyd y sylwad. Nid yw caniatáu nac atal yr GNN yn rhan o gylch gwaith y Cyngor Sir na CCA GNN Wylfa, ac mae'r egwyddor hon wedi'i sefydlu ym mholisi Llywodraeth y DU a nodir yn NPS EN-6. Nod y CCA yw sicrhau y gwneir y mwyaf o fuddion yr GNN ar gyfer yr Ynys a lleihau'r | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | beryglu iechyd cyhoeddus, cwestiynir lefel y cymhorthdal a materion diogelwch. | effeithiau niweidiol. | |
| | 4. AAmcanion | Nid oes angen pŵer niwclear arnom i ddarparu ynni. | Nodwyd y sylwad. Penderfyniad Llywodraeth y DU yw hyrwyddo pŵer niwclear ac nid yw ystyried egwyddor y ffynhonnell ynni hon fel rhan o CCA GNN Wylfa yn rhan o gylch gwaith y Cyngor Sir. | Dim newid. |
| | 5. CCanllawiau ar y Prosiect Cyfan | A yw maes y testun yn cynnwys y peryglon iechyd o ganlyniad i ymbelydredd lefel-isel? | Mae'r mater yn cael ei drafod ym mharagraff 4.3.6 y CCA drafft. | Dim newid. |
| | 6. DDatblygiad Economaidd | Ni fyddai o fudd i'r gymuned leol, mae yna brinder gwasanaethau'n barod a bydd hyn yn cael ei waethygu. Mae'r toriadau presennol ar wasanaethau wedi digwydd tra bod yr orsaf bŵer bresennol yn gweithio. | Nodwyd y sylwad. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor Sir, ar ôl cyflwyno cais GCD, ddarparu Adroddiad ar yr Effaith Leol a bydd angen iddi nodi'r effeithiau fydd yn deillio o'r GNN fydd efallai'n cynnwys effeithiau ar wasanaethau lleol. Felly, pwrpas CCA GNN Wylfa yw nodi'r mater hwn fel problem bosibl a nodi'r ffordd y gallai hyrwyddwr y prosiect atal, lliniaru neu ddigolledu am unrhyw effeithiau negyddol, gan ddarparu buddion gwaddol pan fo'n bosibl. | Dim newid. |
| | 7. TTwristiaeth | Bydd yna amharu ar drafnidiaeth a gall effaith weledol peilonau newydd gadw twristiaid draw. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd yna amharu ar drafnidiaeth, ac oherwydd hynny mae'n amcanu at flaenoriaethu cludo llwythi ar reilffyrdd ac ar ddŵr drwy'r canllawiau sydd yn y CCA drafft.<br><br>Nid yw darparu llinellau pŵer yn fater i'r CCA ei ystyried a bydd cais GCD ar wahân yn ymdrin â hynny. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | 8. PPoblogaeth a Chymunedau | Effaith negyddol ar iaith a diwylliant; gellid creu swyddi mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd yr GNN yn effeithio'n negyddol ar yr iaith Gymraeg a diwylliant. Fodd bynnag, mae polisi Llywodraeth y DU wedi clustnodi'r safle yn Wylfa fel un priodol ar gyfer gorsaf niwclear newydd, felly mae'r Cyngor yn amcanu at osgoi neu leihau'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â'i datblygu ar gymunedau lleol, a gwneud y mwyaf o'r rhai cadarnhaol (yn cynnwys creu swyddi'n lleol) drwy'r canllawiau sydd yn y CCA, sy'n gyson â pholisi cynllunio lleol presennol ac arfaethedig o ran ceisio sicrhau bod ymgeiswyr yn cyflwyno tystiolaeth sy'n dangos sut mae'r cynigion wedi ystyried yr iaith Gymraeg a diwylliant. | Dim newid. |
| | 9. LLlety Gweithwyr Adeiladu | Nid yw'n gynaliadwy. | Nodwyd y sylwad. Ystyrir mai dull y Cyngor Sir o ymdrin â llety gweithwyr, sef ceisio rhannu'r ddaliadaeth yn 1/3 1/3 1/3, yw'r un sy'n darparu'r cyfle gorau i leihau effeithiau negyddol a hyrwyddo rhai cadarnhaol. Yn y ffordd yma ystyrir ei fod yn gynaliadwy. Mae hyn yn gyson â'r Datganiad Sefyllfa ar Weithwyr Adeiladu a fabwysiadwyd gan y Cyngor - gweler http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2011/09/05/Position-Statement---Construction-Workers-Accommodation.pdf | Dim newid. |
| | 10. YYr Iaith Gymraeg | Bydd dirywiad yr iaith Gymraeg yn cael ei waethygu gan y prosiect. | Fel yr ymateb i C8 uchod. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | 11. TTrafnidiaeth | Problemau ynglŷn ag adeiladu, pryder ynglŷn â goblygiadau damweiniau a phrinder llwybrau ymgilio addas oddi ar yr Ynys. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at flaenoriaethu trafnidiaeth ar reilffordd a dŵr, a disgwylir i hyn leihau nifer y cerbydau fyddai fel arall yn ddisgwyliedig yn ystod y broses adeiladu. Mae'r materion ynglŷn â damweiniau mewn perthynas â phŵer niwclear a dulliau ymgilio yn gyfrifoldeb ar Swyddfa'r Rheoleiddiwr Niwclear (SRhN) a hi sy'n penderfynu ar ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. Mae hyn yn cael ei weithredu o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (RhYPAGG) | Dim newid. |
| | 12. CCyfleustodau | Mae'r cyfleustodau presennol yn annigonol. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa (yn EA 15) yn nodi y bydd disgwyl i hyrwyddwr y prosiect ymgynghori â darparwyr cyfleustodau er mwyn ceisio sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau niweidiol ar y ddarpariaeth cyfleustodau o ganlyniad i brosiect yr GNN. | Dim newid. |
| | 13. GGwastraff | Mae'n esgeulus ar ran y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru nad ydynt yn pryderu am danwydd sy'n cael ei storio am 160 mlynedd, pa gynlluniau sydd ar gael sy'n dangos sut y bydd gwastraff yn cael ei storio? | Nodwyd y sylwad. Mae monitro gwastraff niwclear yn fater y bydd yn rhaid cytuno arno gyda rheoleiddwyr y diwydiant niwclear, megis Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a hwy fydd yn gyfrifol am ei reoli.<br><br>Mae Llywodraeth y DU yn cynghori y dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer y prif safle (yr Ysgrifennydd Gwladol yn | Diwygio pwynt bwled 1 EA17 er mwyn cynnwys cyfeiriad at yr angen i nodi ac asesu effeithiau posibl storio gwastraff niwclear, yn cynnwys risgiau radiolegol cysylltiedig. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | dilyn argymhelliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio) gymryd y gellir darparu'r cyfleusterau ar gyfer ymdrin â gwastraff lefel uchel, ac oherwydd hynny, ni ddylai ystyried y mater hwn ymhellach (NPS EN-6 paragraff 2.11.4). Felly, mae storio tymor hir yn fater sydd y tu hwnt i gylch gwaith proses GCD a CCA GNN Wylfa.<br><br>Mae drafft CCA GNN Wylfa yn ystyried mater storio dros dro yn EA17, ac yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd, cynigir diwygio pwynt bwled 1. | |
| | 14. NNewid yn yr Hinsawdd | Dylid hefyd ystyried yr effeithiau ar newid yn yr hinsawdd o ganlyniad i'r gwaith adeiladu, yn cynnwys cloddio, a'r effeithiau yn y gwledydd ble gall y gweithgareddau yma gael eu cynnal. | Nodwyd y sylwad. Mae'r CCA drafft yn ystyried yr effeithiau ar/o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd (gweler EA18 a EA19) ac mae'n cynnwys cyfeiriad at ailddefnyddio adeiladau a deunyddiau pan fo'n bosibl (yn cynnwys Wylfa A). Byddai hyn yn lleihau'r angen i gloddio am ddeunydd newydd. | Dim newid. |
| | 15. Yr Amgylchedd Naturiol | Mae'n ymddangos nad oes dim ystyriaeth (yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol) i AHNE a SDdGAoedd. | Anghytuno. Mae NPS EN-6 (Cyfrol 2) yn nodi ystyriaeth Llywodraeth y DU o ran safle Wylfa ar gyfer GNN. Mae paragraff C9.70 yn nodi bod y Llywodraeth wedi ystyried tebygolrwydd effeithiau ar yr AHNE gan ddod i'r casgliad nad oedd y Llywodraeth yn credu bod y materion mewn perthynas â'r maen prawf yma (AHNE) yn ddigonol er mwyn cyfiawnhau peidio cynnwys y safle yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol o ystyried nifer cyfyngedig y safleoedd addas posibl. Rhoddwyd ystyriaeth debyg i'r effeithiau tebyg ar SDdGAoedd, yn benodol SDdGA | Dim Newid |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Tre'r Gof (yn C9.60). | |
| | 19. Canllawiau ynglŷn â'r Ardal | Gweddill Ynys Môn. Yn dilyn Fukushima, argymhellodd Llywodraeth UDA ardal ymgilio o 50km. Byddai hyn yn cynnwys yr Ynys gyfan. Dylid cynnal ymarferiad ymgilio oddi ar yr Ynys. | Nodwyd y sylwad. Mae'r materion ynglŷn â damweiniau mewn perthynas â phŵer niwclear a dulliau ymgilio yn gyfrifoldeb ar Swyddfa'r Rheoleiddiwr Niwclear (SRhN) a hi sy'n penderfynu ar ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |
| A007 | - | Dim ymateb. | Dim sylwadau. | Dim newid. |
| A008: Ffederasiwn Busnesau Bach | 2. Pwrpas CCA | Yn mynegi pryderon ynglŷn â diogelwch a pha fath o waddol yr ydym yn ei gadael i genedlaethau'r dyfodol. Yn bendant, mewn dwy genhedlaeth, bydd yr Ynys yn hollol wahanol i'r Ynys yr ydym yn ei hadnabod nawr, ac efallai hyd yn oed yn fwy gwahanol na'r hyn a ragwelir gan y CCA presennol. | Nodwyd y sylwad. Mae diogelwch yr GNN yn ystyriaeth sydd y tu hwnt i CCA GNN Wylfa. Derbynnir bod y datblygiad yn cynrychioli newid sylweddol i'r Ynys, a phwrpas y CCA yw sicrhau y bydd unrhyw newid yn fuddiol i'r economi a'r cymunedau lleol a bod effeithiau niweidiol yn cael eu lleihau. | Dim newid. |
| | 3. Gweledigaeth | Yn cytuno â'r Weledigaeth gan dderbyn bod rhaid i'r Cyngor Sir dderbyn yr GNN a gwneud y mwyaf o'r buddion lleol. Dylai'r Cyngor fod yn barod i ddadlau o blaid y deliau gorau i'r gymuned leol. | Nodwyd y sylwad. Pwrpas CCA GNN Wylfa yw cefnogi'r Cyngor wrth sicrhau budd gwaddol i'r Ynys. | Dim newid. |
| | 4. Amcanion | Yn cytuno â'r amcanion yn ddarostyngedig i'r sylwadau a restrir uchod. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 5. Canllawiau ar gyfer yr holl Brosiect | Mae angen cydbwyso effeithiau niweidiol yr GNN a'r costau uchel i drethdalwyr lleol. | Nodwyd y sylwad. Nod CCA GNN Wylfa yw darparu canllawiau cynllunio lleol er mwyn lleihau'r posibilrwydd o greu effeithiau niweidiol ac awgrymu camau | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | lliniaru os bydd effeithiau o'r fath yn anochel. Hefyd, bwriedir i'r CCA helpu'r Cyngor Sir a hyrwyddwr y prosiect i nodi ble bydd angen gwario ar gostau, er enghraifft seilwaith newydd, a sicrhau bod y datblygwr yn talu am gostau o'r fath (gweler, er enghraifft, EA23). | |
| | 6. Datblygiad Economaidd | Mae'r cynnwys a'r egwyddorion yn hysbys, mae angen darbwyllo nifer y bydd poblogaeth yr Ynys mewn gwell sefyllfa mewn 50 mlynedd. | Nodwyd y sylwad. Nid yw caniatáu nac atal CCA GNN Wylfa yn rhan o gylch gwaith y Cyngor Sir. Nod y CCA yw sicrhau y gwneir y mwyaf o'r buddion i'r Ynys sy'n deillio o'r GNN er mwyn darparu twf economaidd tymor hir a gwarchod yr amgylchedd lleol. | Dim newid. |
| | 7. Twristiaeth | Cytunir ar y cynnwys ond ni fydd twristiaeth yn elwa o'r prosiect. | Nodwyd y sylwad. Mae yna bosibilrwydd y bydd yr GNN yn effeithio'n niweidiol ar yr economi dwristiaeth. Nod CCA GNN Wylfa yw lleihau'r effeithiau hyn a'u lliniaru pan fo'n bosibl. Darparwyd EA5 a EA12 gyda hyn mewn golwg. | Dim newid. |
| | 8. Poblogaeth a Chymunedau | Nid oes gweledigaeth, ac eithrio mai'r GNN fydd yr achubwr. | Anghytuno. Fel uchod, cydnabyddir y gall yr GNN effeithio'n niweidiol ar boblogaeth a chymunedau'r Ynys, fodd bynnag nid y Cyngor Sir yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau ar gyfer y datblygiad ar y prif safle. Un o brif elfennau CCA GNN Wylfa yw sicrhau bod effeithiau niweidiol yn cael eu lleihau neu eu lliniaru. | Dim newid. |
| | 9. Llety Gweithwyr Adeiladu | Dylid rhoi mwy o feddwl i ailddefnyddio eiddo gwag, neu i wella eiddo sy'n is na'r safon. | Anghytuno. Mae EA10 yn cynnwys anogaeth i ailddefnyddio adeiladau gwag a chyfeirir hefyd at y gronfa Dai/Llety y mae'r Cyngor Sir yn disgwyl iddi fod ar gael er | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | mwyn cefnogi gwelliannau i safon y sector rhentu preifat. | |
| | 10. Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant | Yn cytuno â'r canllawiau ond yn cwestiynu a yw'r arian ar gael. | Nodwyd y sylwad. Mae EA13 yn rhestru camau y gellid eu cymryd er mwyn gwarchod a chyfoethogi'r iaith Gymraeg a diwylliant, a byddai'r Cyngor Sir yn disgwyl y byddai'r arian ar gyfer unrhyw gynllun cysylltiedig yn dod gan hyrwyddwr y prosiect. | Dim newid. |
| | 11. Trafnidiaeth | Mae ffordd newydd, ychwanegol dros Afon Menai yn hanfodol ar gyfer y 50-100 mlynedd nesaf. Diweddaru a thrydanu'r brif reilffordd ac ailagor y rheilffordd i Amlwch. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth i ac oddi ar yr Ynys. Er y byddai adeiladu pont newydd ac uwchraddio a thrydanu'r brif reilffordd yn cael eu hystyried yn ddymunol, nid yw'r naill na'r llall yn rhywbeth y gall CCA GNN Wylfa ofyn i hyrwyddwr y prosiect eu darparu. | Dim newid. |
| | 12. Cyfleustodau | Dylid uwchraddio, ond dylid pwyllo ynglŷn â phwy fydd yn talu'r gost. | Nodwyd y sylwad. Mae EA15 yn nodi bod y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect weithio â darparwyr cyfleustodau er mwyn sicrhau bod uwchraddio'n cael ei ddarparu pan fo angen hynny. | Dim newid. |
| | 13. Gwastraff | Yn cwestiynu pwy fydd yn gorfod talu am y gwastraff cartrefi/domestig a gynhyrchir gan weithwyr. Ychydig o drafodaeth am reoli a chost gwastraff masnachol, ac nid yw gwastraff niwclear yn cael ei drafod mewn modd sy'n rhoi sicrwydd. | Mae paragraff 4.8.4 drafft CCA GNN Wylfa yn nodi bod y Cyngor Sir ar ddeall bod gan y gwasanaethau casglu trefol presennol y gallu i ymdopi â'r galw ychwanegol. Er hyn, mae EA16 yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect leihau'r gwastraff mewn cysylltiad â'r prif safle ond hefyd â datblygiadau cysylltiedig.<br><br>Mae paragraff 4.8.5 yn nodi nad yw'r | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cyngor yn statudol gyfrifol am drin a chael gwared â gwastraff masnachol, felly mae'r graddau y gall ofyn i hyrwyddwr y prosiect gynnal gweithgareddau penodol yn y cyswllt hwn yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod technegau'u cael eu defnyddio i leihau faint o wastraff a gynhyrchir. Hefyd, petai'r cwmnïau a gyflogir i ddelio â'r gwastraff masnachol/diwydiannol angen unrhyw gyfleusterau ychwanegol, yna byddai hyn ynddo'i hun yn destun ceisiadau cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Gwastraff.<br><br>Mae NPS EN-6 yn nodi beth all a beth na all y Cyngor ei ystyried mewn perthynas â gwastraff niwclear. Ni all y CCA weithredu y tu hwnt i ffiniau'r polisi presennol. | |
| 14. | NNewid yn yr Hinsawdd | Yn cytuno â'r canllawiau ond yn cwestiynu ai niwclear yw'r ateb i'r broblem sy'n wynebu'r byd. | Nodwyd y sylwad. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod pŵer niwclear yn cynrychioli technoleg carbon isel ac mae hyn yn cael ei nodi yn NPS EN-6 ym mharagraff 1.1.1. | Dim newid. |
| 15. | YYr Amgylchedd Naturiol | Yn cwestiynu sut yr ymdrinnir â'r gwrthwynebiad i linellau pŵer uwch ben, ac y dylai unrhyw linellau newydd fod yn rhai tanddaearol. | Nodwyd y sylwad. Byddai unrhyw ofyniad am linellau pŵer newydd yn destun cais ar wahân. Byddai hyn mwy na thebyg ar ffurf cais GCD ar wahân i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac oherwydd hynny nid yw'n rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. | Dim newid. |
| 16. | AAmgylchedd Hanesyddol | Ystyriaeth annigonol o dirluniau a golygfeydd hanesyddol, a'r bygythiad o du datblygiad diwydiannol. Mae'n rhaid i'r datblygwyr beidio â difetha'r hyn sydd gennym yma. | Nodwyd y sylwad. Yn unol â pholisi cynllunio lleol presennol ac arfaethedig, mae'r canllawiau a geir yn CCA GNN Wylfa yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr roi | Cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd golygfeydd o nodweddion hanesyddol penodol yn EA22. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | ystyriaeth ddigonol i bob agwedd o'r amgylchedd hanesyddol wrth baratoi eu ceisiadau.<br><br>Mae EA22 yn cynnwys cyfeiriad at dirluniau hanesyddol. Cyfeirir hefyd at leoliad, er y gellid cynnwys pwysigrwydd golygfeydd yn y canllawiau yma. | |
| 17. | HHwyluso Datblygu | Yn cwestiynu a all y Cyngor Sir ddarparu'r adnoddau sy'n briodol ar gyfer EA23 a EA24. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd cost monitro yn cael ei ariannu gan hyrwyddwr y prosiect. Yn yr un modd, bydd y costau ddaw i ran y Cyngor wrth ddefnyddio'i bwerau statudol yn cael ei ariannu gan hyrwyddwr y prosiect. | Dim newid. |
| 18. | GGweithredu a Monitro | Yn ystyried nad yw'r Cyngor Sir yn ddigon grymus i ymladd yn erbyn Llywodraeth y DU a busnesau mawr. | Anghytuno. Y Cyngor Sir fydd y corff penderfynu statudol o ran y datblygiadau fydd yn gysylltiedig â'r GNN (yn ddarostyngedig i alw i mewn neu apêl), ac mae ganddo hefyd rôl statudol yn y broses GCD ar gyfer y prif safle. Felly, mae'r Cyngor Sir yn credu y gall ddylanwadu'n fawr ar brosiect yr GNN. | Dim newid. |
| 19. | CCanllawiau ynglŷn â'r Ardal | Yn gofyn pa gynlluniau sydd wedi eu gwneud ar gyfer ymgilio petai damwain yn digwydd. | Yn y DU y SRhN sy'n penderfynu ar yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. Mae hyn yn cael ei weithredu o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (RhYPAGG) | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddodd SRhN egwyddorion diwygiedig ar gyfer penderfynu ar ardaloedd cynllunio argyfwng oddi ar y safle RhYPAGG o gwmpas safleoedd â thrwydded niwclear yn y DU. Mae hyn yn golygu bod SRhN yn ystyried ffactorau ymarferol a strategol lleol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun wrth benderfynu ar yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am y broses a ddefnyddir gan y SRhN ar gael drwy fynd i http://www.onr.org.uk/depz-onr-principles.htm.<br><br>Ar ôl i'r SRhN hysbysu ynglŷn â'r ardal sydd angen cynllun argyfwng ar ei chyfer, mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori â'r holl asiantaethau sydd â chyfraniad i'w wneud wrth ei weithredu.<br><br>Yn dilyn ymgynghori â'r asiantaethau perthnasol a'r gweithredwyr, mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gynhyrchu ei gynllun argyfwng oddi ar y safle o fewn 6 mis. Bydd y cynllun yn ystyried ystod o wrth-gamau sy'n gymesur â'r risgiau a nodwyd, yn cynnwys llochesu neu ymgilio. Bydd y cynllun yn cael ei brofi mewn ymarferiad argyfwng sy'n cynnwys yr Awdurdod lleol, yr heddlu, y rheoleiddiwr, y swyddfa dywydd, cyrff iechyd cyhoeddus ac asiantaethau eraill fyddai'n rhan o unrhyw ddigwyddiad. Byddai'r penderfyniad i ymgilio neu i lochesu yn cael ei wneud yn seiliedig ar y ffactorau penodol a wynebir ar y diwrnod. | |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd Cynllun Argyfwng yr Awdurdod Lleol yn cael ei ystyried bob tair blynedd, ar ôl i'r gweithredwr nodi'r peryglon ar y safle a'r risgiau i'r cyhoedd, neu pan fo'r gweithredwr yn gwneud newid sylweddol i weithgaredd ar y safle. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd niwclear newydd yn cael eu hystyried o dan RhYPAGG. | |
| A009 | 3. Gweledigaeth | Dylai'r Cyngor Sir fod yn dryloyw o ran ei berthynas â Horizon. Hefyd, mae yna syrffed ymgynghori gyda'r holl ddatblygiadau sy'n cael eu cyflwyno, ac mae'r CCA yn rhy hir i allu rhoi sylwadau ystyrlon yn yr amser a ganiateir. Mae yna brinder ymdriniaeth â gwastraff niwclear, sydd yn fater pwysig. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn darparu diweddariadau rheolaidd drwy bwyllgorau a chylchlythyr mewn perthynas â'i drafodaethau â hyrwyddwr y prosiect. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod CCA GNN Wylfa yn ddogfen hir, ond mae hyn yn adlewyrchu'r ystod eang o destunau y mae angen eu hystyried a'r pwyslais y mae'r Cyngor yn ei roi ar ymdrin yn gynhwysfawr â chanllawiau polisi.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwastraff niwclear yn fater pwysig. Fodd bynnag, ni all y CCA ond darparu dehongliad a chanllawiau lleol yn unig ar bolisi presennol, a Llywodraeth y DU sy'n sefydlu'r polisi perthnasol ynglŷn â gwastraff niwclear. Mae NPS EN6 (ym mharagraff 2.11.6) yn nodi: *'Mae gan y DU systemau deddfwriaethol a rheoleiddiol cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer rheoli (yn cynnwys storio dros dro, cludo a chael gwared â) pob math o wastraff ymbelydrol fydd yn cael ei gynhyrchu gan orsafoedd niwclear newydd. Dylai'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith* | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | *weithredu'n seiliedig ar y ffaith y bydd y cyfundrefnau trwyddedu a chaniatáu perthnasol yn cael eu cymhwyso a'u gorfodi'n briodol'.* | |
| | 13. Gwastraff | Diffyg eglurder ynglŷn â chyfrifoldeb clustnodi tir a lygrwyd a lefel y monitro sydd ei angen. Diffyg tystiolaeth o asesu risg a chynllunio adnoddau. | Nodwyd y sylwad. Mae monitro gwastraff niwclear yn fater y bydd yn rhaid cytuno arno gyda rheoleiddwyr y diwydiant niwclear, megis Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a hwy fydd yn gyfrifol am ei reoli. | Dim newid. |
| | | Dim eglurhad ynglŷn â chael gwared â gwastraff lefel uchel yn y tymor hir. Dylai cyfeiriad at wrthodiad Cumbria i gadw gwastraff lefel uchel ysgogi Ynys Môn i ddatgan naill ai y gellid cyflwyno ail gais i gadw'r gwastraff yn Wylfa neu y bydd yn weithredol yn gwrthwynebu bod yn Gyfleuster Gwaredu Daearegol parhaol y DU. | Nodwyd y sylwad. Mae Llywodraeth y DU yn cynghori y dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer y prif safle (yr Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn argymhelliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio) gymryd y gellir darparu'r cyfleusterau ar gyfer ymdrin â gwastraff lefel uchel, ac oherwydd hynny, ni ddylai ystyried y mater hwn ymhellach (gweler NPS EN-6 paragraff 2.11.4). Felly, mae storio tymor hir yn fater sydd y tu hwnt i gylch gwaith proses GCD a CCA GNN Wylfa.<br><br>Er hyn, mae'r Cyngor Sir eisoes wedi nodi ei fod yn gwrthod cynigion ar gyfer CGD (gweler http://www.anglesey.gov.uk/empty-nav/news/press-releases-2014/april-2014/anglesey-will-not-accept-nuclear-waste/122675.article) | Dim newid. |
| | 15. NNewid yn yr Hinsawdd | Dim ystyriaeth benodol i hawliau dynol, a hawliau cenedlaethau'r dyfodol o ran etifeddu'r 'gwaith glanhau'. Hefyd yn cyfeirio at y cysyniad o gyfiawnder rhyng-genedlaethau a hawliau dynol a chloddio wraniwm. | Nodwyd y sylwad. Mae'r cyfrifoldeb am storio gwastraff niwclear yn y tymor hir ac i ba raddau y gall CCA GNN Wylfa eu hystyried yn faterion a nodir uchod.<br><br>Mae hawliau dynol a chloddio wraniwm yn faterion sydd y tu hwnt i gwmpas y CCA. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| A010 | Cwestiynau 2, 3, 4. | Darperir cefnogaeth ar gyfer y tri chwestiwn cyntaf, dim sylwad penodol. | Dim angen ymatebion. | Dim newid. |
| A011: Dŵr Cymru | 11. EA15 | Mae buddsoddi mewn Cynllunio Rheoli Asedau yn cael ei reoli gan OFWAT a Chyfoeth Naturiol Cymru o ran maint y cyllido ac amseru'r gwaith rheoleiddio a gynllunnir. Gall fod yna achosion pan nad yw anghenion y datblygwyr yn cyd-daro ag amseru buddsoddiad a gynlluniwyd. Dan amgylchiadau o'r fath pan fyddai angen cynnal gwelliannau seilwaith cyn unrhyw fuddsoddiad a gynllunnir, buasem yn ystyried systemau eraill i lenwi'r bwlch ariannu hwn, megis cyfraniadau gan ddatblygwyr drwy ymrwymiadau cynllunio. | Nodwyd y sylwad. Mae EA15 yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect weithio â darparwyr cyfleustodau megis Dŵr Cymru i sicrhau y cytunir ar unrhyw ofynion ar gyfer seilwaith newydd neu uwchraddio'r seilwaith presennol. Mae EA23 yn nodi bod y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect gytuno ag ymrwymiadau cynllunio. Mae'r testun ategol yn nodi bod cyflenwad dŵr a thrin dŵr gwastraff yn seilwaith y bydd cyfraniadau'n cael eu ceisio ar ei gyfer. | Dim newid. |
| | | Wedi i'r union leoliadau a dwyster y dyraniadau a gynigir a'r datblygiad cysylltiedig gael eu cadarnhau, byddwn yn asesu effaith y datblygiadau arfaethedig ar ein hasedau, ac yn rhoi cyngor yn unol â hynny. Bydd Dŵr Cymru yn parhau i drafod â'r Awdurdod Cynllunio Lleol drwy broses Cydgynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd er mwyn asesu capasiti'r seilwaith yn ardaloedd y twf arfaethedig. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn croesawu dull arfaethedig Dŵr Cymru o asesu effeithiau posibl prosiect yr GNN ar seilwaith cyflenwad dŵr. | Dim newid. |
| | 16. EA 23 | Mae'r canllawiau'n nodi y bydd y Cyngor Sir yn disgwyl rhestr gynhwysfawr o gamau er mwyn lliniaru a digolledu am effeithiau prosiect GNN Wylfa. Byddai'r camau hyn yn cael eu cyflwyno drwy amodau ac ymrwymiadau cynllunio fel sy'n briodol. Mae'r testun ategol yn nodi y gall camau o'r fath gynnwys darpariaeth o, a chyfraniad tuag at, seilwaith hanfodol sy'n angenrheidiol i gefnogi prosiect GNN Wylfa yn cynnwys cyflenwad dŵr a thrin dŵr gwastraff. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Efallai y bydd yna achosion pan fyddai angen cynnal gwelliannau seilwaith cyn unrhyw fuddsoddiad a gynllunnir gan Ddŵr Cymru a buasem yn ystyried systemau eraill i lenwi'r bwlch ariannu hwn, megis cyfraniadau gan ddatblygwyr drwy ymrwymiadau cynllunio. O ran hynny rydym yn cefnogi darpariaethau'r canllawiau hyn. | | |
| | 17. CCanllawiau Lleoliadol:<br><br>Caergybi a'r Ardal | Mae tudalen 108 drafft CCA GNN Wylfa yn nodi y bydd angen buddsoddi efallai yn GTDG Caergybi ar gyfer siambr/tanc gorlif storm newydd. Fodd bynnag, ni ellir sefydlu pa welliannau seilwaith fyddai eu hangen er mwyn gwasanaethu'r datblygiad nes y bydd y lleoliad a dwyster y datblygiadau arfaethedig yn hysbys. Oherwydd hynny, buasem yn gofyn am i'r frawddeg sy'n cynnwys y wybodaeth hon gael ei thynnu o'r polisi. | Cytuno. | Dileu'r testun yn unol â'r ymateb. |
| | Amlwch a'r Ardal | O dan bennawd cyfleustodau ar dudalen 119 nodir "Nodwyd eisoes bod yna broblemau carthffosiaeth yn yr ardal leol, a heb fuddsoddiad yn y seilwaith yma mae'n annhebygol y bydd yn bosibl gwasanaethu datblygiad ychwanegol." Nid oes yna broblemau mawr gyda'r system garthffosiaeth yn Amlwch, felly buasem yn awgrymu bod y frawddeg hon yn cael ei dileu. Gallwn asesu effaith unrhyw gynnig ar ein seilwaith pan fydd lleoliad a maint unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn hysbys. | Cytuno. | Dileu'r testun yn unol â'r ymateb. |
| | Coridor yr A55/A5 | O dan bennawd cyfleustodau ar dudalen 125 nodir y credir bod gwaith trin dŵr gwastraff Llanfairpwll yn gweithredu'n agos i'w gapasiti cyfeintiol, ac felly mae'n annhebygol y gall | Cytuno. | Diwygio'r geiriad er mwyn adlewyrchu'r ymateb. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | wasanaethu datblygiad yn y dyfodol o fewn y rhwydwaith carthffosiaeth presennol. Er ei bod yn wir dweud bod y gwaith trin dŵr gwastraff yn gweithredu'n agos i'w gapasiti cyfeintiol, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na all y dalgylch wasanaethu unrhyw dwf ychwanegol. Buasem yn argymell bod y geiriau "ac felly mae'n annhebygol o allu gwasanaethu datblygiad yn y dyfodol o fewn y rhwydwaith carthffosiaeth presennol" yn cael eu disodli gan y geiriau "dylai hyrwyddwr y prosiect gael trafodaeth gynnar â Dŵr Cymru mewn perthynas ag unrhyw gynigion i ddatblygu yn nalgylch gwaith trin dŵr gwastraff Llanfairpwll" fel y ceir yng ngeiriad polisi EA30.<br><br>Hefyd, bu gorlifo yn rhwydwaith carthffosiaeth dalgylchoedd gwaith trin dŵr gwastraff Y Fali, Gaerwen a Llanfairpwll, ac felly buasem yn argymell bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn y CCA er mwyn cynnal cysondeb â'r cyngor a ddarparwyd i aneddiadau eraill yn y bennod ar ganllawiau lleoliadol. | | |
| A012 | Dim ymateb. | | Dim angen ymateb | Dim newid. |
| A013 | Cwestiynau 2-19 | Atebion cadarnhaol i bob cwestiwn, dim sylwad penodol. | Dim angen ymateb | Dim newid. |
| A014 | 2. Pwrpas CCA | Yn cytuno â'r 'Pwrpas', dim sylwadau penodol. | Dim angen ymateb | Dim newid. |
| A015 | Cwestiynau 2-10 | Yn cytuno, dim ymateb i weddill y cwestiynau. Yn rhybuddio bod twristiaeth yn hanfodol i Ynys Môn ac y dylid sefydlu cynlluniau eglur er mwyn lleihau'r amharu gan draffig adeiladu. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod pwysigrwydd economi ymwelwyr i Ynys Môn a sensitifrwydd y sector honno yng nghyd-destun prosiect yr GNN. Felly, mae'r Cyngor wedi paratoi dau EA er mwyn delio â materion penodol mewn perthynas â thwristiaeth ac economi ymwelwyr (EA5 | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | a EA12).<br><br>Mewn perthynas â'r posibilrwydd y bydd traffig adeiladu yn achosi problemau, mae'r Cyngor yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect flaenoriaethu defnyddio rheilffordd a dŵr fel dulliau teithio. Hefyd, bydd angen Cynlluniau Trafnidiaeth, Cynlluniau Teithio a Chynlluniau Rheoli Traffig. Hefyd, mae'r strategaeth ofodol fel y'i nodir yn y Cynllun Datblygu a'i hadlewyrchir yn y CCA drafft, yn amcanu at leoli datblygiadau cysylltiedig mewn lleoliadau hygyrch. Gyda'r mesurau hyn wedi'u sefydlu, mae'r Cyngor Sir yn credu y gellir lleihau'r posibilrwydd y bydd tagfeydd yn digwydd ac yn achosi trafferthion i ymwelwyr a thwristiaid. | |
| A016 | 3. Gweledigaeth | Mae'r cynllun yn rhy agos i Fae Cemaes, a bydd problemau iechyd yn cynyddu. | Nodwyd y sylwad. Llywodraeth y DU sydd wedi penderfynu ar leoliad y prif safle. Felly mae gallu'r Cyngor Sir i ddylanwadu ar ei leoliad y tu allan i gwmpas CCA GNN Wylfa. Fodd bynnag, mae'r CCA drafft yn cynnwys canllawiau penodol a ddyluniwyd i leihau effeithiau niweidiol ar iechyd fydd yn deillio o brosiect yr GNN (gweler EA7). | Dim newid. |
| | 4. Amcanion | Gweler uchod. | Fel uchod. | Dim newid. |
| A017 | 9. Llety Gweithwyr Adeiladu | Mae yna ddigon o letyau gwag ar Ynys Môn. Pan fo'n bosibl, dylid defnyddio pobl leol yn ystod y broses adeiladu. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i annog ailddefnyddio eiddo gwag er mwyn lleihau'r angen i ddefnyddio adeiladau newydd, a chyfeirir yn benodol at hyn yn EA10 drafft CCA GNN Wylfa.<br><br>Mae'n bosibl y gall prosiect yr GNN ddarparu nifer sylweddol o swyddi ac mae'r | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cyngor yn credu y dylent fod ar gael i'r gymuned leol. Oherwydd hyn, mae'r CCA drafft yn cynnwys nifer o EAion a ddyluniwyd i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd fydd ar gael i bobl leol. Mae'r EAion yn cynnwys EA1 a EA2 yn arbennig. | |
| | 20. CCoridor yr A5025 | Nid yw'r A5025 yn addas ar gyfer cerbydau masnachol mawr oherwydd ei maint a'r ffaith ei bod yn mynd drwy nifer o bentrefi bychain, a'r rhan fwyaf o'r rhai hynny'n bentrefi ag ysgolion ynddynt a nifer sylweddol o bobl hŷn. Bydd raid cymryd gofal yn yr ardal hon. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod cymeriad yr A5025 ac y byddai cynnydd sylweddol mewn traffig yn creu problemau i gymunedau lleol (mae'n un o bum mater allweddol a nodir yn nhestun ategol EA31). Mae lleoliadau priffyrdd y bydd efallai angen eu huwchraddio hefyd yn cael eu nodi yn yr Ardal Chwiliad, a dull cyffredinol y Cyngor o ymdrin â thrafnidiaeth yw gofyn am flaenoriaethu rheilffordd a dŵr yn hytrach na ffyrdd ar gyfer symud nwyddau. | Dim newid. |
| A018: Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | 4. Canllawiau ar gyfer yr holl Brosiect | Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn croesawu cynnwys Poblogaeth a Chymuned yn y Canllawiau ar gyfer yr holl Brosiect, yn arbennig yr agenda "Iechyd a Lles". | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 5. Egwyddorion Arweiniol | Yn croesawu'r cyfeiriad at agenda Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, a'r cyfeiriad amlwg at Iechyd a Lles fel y'i nodir yn NPS EN-6 Adran 3.11: "Bu i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Niwclear nodi hefyd y gall buddion economaidd gymdeithasol cadarnhaol gorsafoedd pŵer niwclear newydd arwain at effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles ." Bydd ymgysylltu agored â phreswylwyr yn bwysig ynglŷn ag unrhyw | Cytuno. EA7: Mae Gwarchod Iechyd yn nrafft CCA GNN Wylfa yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect weithio â'r Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn nodi effeithiau sylweddol posibl ar iechyd a'r camau lliniaru priodol. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth i breswylwyr ac ymwelwyr a fydd, yn ôl disgwyliadau'r Cyngor Sir, yn cynnwys gwybodaeth am yr | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | effeithiau cadarnhaol a negyddol y tybir fydd yn gysylltiedig â'r math hwn o ddatblygiad. | effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl sy'n gysylltiedig â'r GNN. Mae paragraff 4.3.6 hefyd yn cyfeirio'n benodol at yr angen i hyrwyddwr y prosiect gyfathrebu'r risg sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd i gymunedau'r Ynys. | |
| | 7. Poblogaeth a Chymunedau | Yn croesawu cyfeiriad at agenda Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, a'r cyfeiriad amlwg at Iechyd a Lles. Nodi a chefnogi'r cysylltiad amlwg â NPS EN-6: Adran 3.11. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | | Yn croesawu'r cyfeiriad amlwg at boblogaeth, iechyd a lles, yn arbennig y cyfeiriad at EA7 - "Gwarchod Iechyd". | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | | Y nodi'r cyfeiriad at NPS EN-6, a hefyd yn dymuno cyfeirio at adran 3.12.5 y ddogfen hon y cyfeiriwyd ati. "Fel yn achos prosesau diwydiannol mawr eraill, gall adeiladu, gweithredu a datgomisiynu gorsafoedd pŵer niwclear newydd effeithio ar ddarpariaeth iechyd. Er enghraifft, gall y safle gynyddu'r galw am wasanaethau monitro iechyd,"<br><br>Yn dymuno cynnwys adran 3.12.5 NPS EN-6 fel pwynt gweithredu yn yr ymgynghoriad a ddrafftiwyd er mwyn ymdrin â chamau lliniaru posibl yr GNN arfaethedig. | Nodwyd y sylwad. Mae'r CCA drafft yn cydnabod y posibilrwydd y bydd yna gynnydd yn y galw ar y ddarpariaeth iechyd a'r gwasanaethau monitro presennol (gweler, er enghraifft, y pedwerydd pwynt bwled ym mharagraff 4.12.3 a'r EA23 cysylltiedig). Er nad yw EA25 yn cyfeirio'n benodol at beth ddylid ei fonitro yn ystod yr adeiladu a'r gweithredu, mae'r Cyngor Sir yn credu y dylai iechyd fod yn un o'r agweddau y dylid eu monitro. | Dim newid. |
| A019: Cyfoeth Naturiol Cymru | Egwyddorion CCA | Mae angen i CCA GNN Wylfa ymdrin yn fanylach ag egwyddorion dylunio a lleoli mewn gwerthusiad cyd-destun ar gyfer ardaloedd a thirluniau a warchodir h.y. manylu am y math o gamau lliniaru fydd yn ofynnol ac egwyddorion dylunio megis defnyddio toeau gwyrdd ar | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa'n nodi yn EA20 y gofyniad i warchod a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol. O ran lliniaru, mae'r CCA drafft yn nodi wyth enghraifft o gamau lliniaru addas posibl, ond mae'r Cyngor Sir yn derbyn nad yw'r rhain yn uniongyrchol berthnasol i | Cynnwys pwynt bwled yn EA20 sy'n cyfeirio at fabwysiadu egwyddorion dylunio da fel ffordd o leihau effeithiau ar ardaloedd a thirluniau a warchodir. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | ddatblygiadau cysylltiedig. | egwyddorion dylunio. Er bod y Cyngor yn credu na ddylai'r CCA drafft fod yn rhy ragnodol, gallai gynnwys pwysigrwydd egwyddorion dylunio sydd â ffocws ar yr amgylchedd naturiol fel pwynt bwled ychwanegol. | |
| | Amcan 7. | Mae CNC yn croesawu cynnwys yr amcan hwn. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | EA14 | Dylai gynnwys cyfeiriad at Gynllun Teithio Gwyrdd ar gyfer Wylfa. | Cytuno. Mae EA14 yn cyfeirio at Gynllun Trafnidiaeth a allai gynnwys 'mentrau gwyrdd'. Fodd bynnag, derbynnir y gellir cynnwys cyfeiriad pendant at Gynllun Teithio Gwyrdd. | Cynnwys cyfeiriad at Gynllun Teithio Gwyrdd yn EA14. |
| | | Dylai'r ddogfen nodi ardaloedd gofodol lles cynllunio a phwysleisio prosiectau amgylcheddol allai elwa o gronfa gymunedol. | Mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi disgwyliad y bydd hyrwyddwr y prosiect yn lliniaru ac yn digolledu am unrhyw effeithiau niweidiol ac y gellir cyflwyno hyn drwy Ymrwymiadau Cynllunio. Mae sefydlu cronfa gymunedol ar wahân yn fater ar wahân fyddai'n cael ei gynnal y tu allan i'r broses gynllunio a chyfeirir ym mharagraff 4.12.5 at y Cyfraniadau Budd i'r Gymuned arfaethedig y mae'r Cyngor Sir yn bwriadu ei weithredu. Mae yna bosibilrwydd i'r CBG gynnwys prosiectau amgylcheddol. | Dim newid. |
| | | Nid yw'n eglur faint o bwys fydd yn cael ei roi ar y CCA a pha ddogfen gynllunio y'i dyluniwyd i'w cefnogi o ystyried nad yw'r CGDLl arfaethedig wedi'i fabwysiadu. | Bydd y pwys fydd yn cael ei roi ar CCA GNN Wylfa yn cael ei benderfynu gan y corff penderfynu perthnasol. Fodd bynnag, bydd y CCA yn ystyriaeth berthnasol i'r Cyngor Sir pan fydd yn ystyried ceisiadau cynllunio Gwlad a Thref ar gyfer datblygiadau cysylltiedig. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r CCA yn bennaf yn ategu'r Cynllun Lleol a'r Datganiadau Polisi Cynllunio ac nid y CGDLl (sydd yn dal i gael ei baratoi). Darperir mwy o wybodaeth am y berthynas rhwng y CCA, cynlluniau mabwysiedig ac arfaethedig yn Adran 1.2 yr CCA drafft. | |
| | EA 20 | Byddai gwell eglurder yn cael ei ddarparu drwy ychwanegu is amcanion mewn perthynas â'r angen i gynnal a chyfoethogi capasiti a swyddogaeth ecolegol, a hefyd yr angen i gynnal a chyfoethogi priddoedd a swyddogaethau priddoedd. | Nodwyd y sylwad.  Ystyrir bod y cysyniad o gapasiti ecolegol yn anodd ei ddiffinio a'i fesur yn gywir ac oherwydd hynny ni fyddai'n briodol ei ystyried fel rhan o CCA GNN Wylfa.<br><br>Yn EA20, mae'r CCA drafft yn cydnabod pwysigrwydd osgoi colli'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas ac yn nodi mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw gwneud y mwyaf o ddatblygu ar dir sydd eisoes wedi'i ddatblygu, a chynnal swyddogaethau pridd o ganlyniad i hynny. | Dim newid. |
| | EA26 | Yn EA26 ni ellir cwestiynu'r angen am ddatblygiad Wylfa oherwydd bod hynny wedi'i sefydlu yn NPS EN-6. O ganlyniad i hynny, ni ellir cwestiynu rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig mewn perthynas ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Oherwydd y gellid effeithio'n niweidiol ar uniondeb safleoedd Ewropeaidd, dylid nodi'r angen am gamau digolledu yn y CCA  ar wahân i liniaru. | Nodwyd y sylwad.  Nid yw EA26 yn cwestiynu'r angen am y prosiect (paragraff 5.1.9).  Mae pwynt bwled pedwar yn rhestru gofyniad i liniaru, ond nid yw'n cyfeirio at y gofyniad posibl i ddigolledu. | Diwygio EA26, pedwerydd pwynt bwled i gynnwys cyfeiriad at yr angen i ddigolledu am effeithiau arwyddocaol ar uniondeb safle Ewropeaidd a warchodir os na ellir osgoi effeithiau o'r fath drwy liniaru. |
| | | Dylai'r CCA nodi'n eglur y dylai'r AEA ar gyfer safle Wylfa gael ei gyflwyno ar gyfer prosiect Wylfa yn ei gyfanrwydd, a dylai gynnwys asesiad o effeithiau'r datblygiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa, yn cynnwys seilwaith cysylltu â'r | Anghytuno. Oherwydd y gall ceisiadau am ddatblygiadau cysylltiedig gael eu cyflwyno'n annibynnol ar y cais CCA (a'u cyflwyno gan hyrwyddwyr gwahanol i Horizon), ystyrir nad yw'n briodol i'r CCA | Cynnwys cyfeiriad ym mharagraff 4.1.4 at yr angen i ystyried effeithiau cronnol y prif safle, datblygiadau cysylltiedig ac unrhyw |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | grid, seilwaith mynediad, etc. | bennu y dylai'r AEA fod yn berthnasol i brosiect GNN Wylfa yn ei gyfanrwydd.<br><br>Fodd bynnag, er bod yr CCA drafft yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried effeithiau cronnol, ystyrir y gellid cyfeirio'n eglur at yr angen i ystyried yr effeithiau cronnol fyddai'n deillio o wahanol gydrannau'r prosiect ei hun. | ddatblygiadau a gynigir gan drydydd partïon. |
| | | Ceisiwyd mwy o eglurder ynglŷn â pha asesiad (yn cynnwys effeithiau ar safleoedd dynodedig) sydd wedi'i gynnal ar gyflenwad dŵr i'r prosiect Wylfa arfaethedig. | Nodwyd y sylwad. Bu i'r Cyngor Sir gomisiynu Astudiaeth Cylch Dŵr a adroddodd yn 2013 ac a hysbysodd y Papur Pwnc Seilwaith. Tybir bod hyrwyddwr y prosiect, mewn trafodaeth â Dŵr Cymru, wedi/yn comisiynu asesiadau o'r effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig fydd yn deillio o gynnydd yn y galw am ddŵr. Mae'r Cyngor yn tybio y bydd canlyniadau astudiaethau o'r fath yn cael eu cyhoeddi fel rhan o ymgynghoriad PAC1. | Dim newid. |
| | Ardaloedd Chwiliad | Mae'r CCA yn cyfeirio at amryw o Ardaloedd Chwiliad ble allai rhai datblygiadau cysylltiedig (llety gweithwyr adeiladu) fod yn briodol ar gyrion aneddiadau. Ceisiwyd eglurder ynglŷn â sut fyddai hyn yn gyson â strategaeth y CGDLl arfaethedig. | Nodwyd y sylwad. Mae'r dull o ymdrin â lleoliad lletyau gweithwyr adeiladu yn Amlwch, Caergybi a Llangefni yn dilyn Polisi Strategol PS3 Strategaeth y CGDLl a Ffefrir. Mae hyn yn nodi y bydd y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn digwydd yn, ac ar gyrion, y Canolfannau Gwasanaethau Trefol. | Dim newid. |
| | Diffiniad o faint y datblygiad | Mae angen egluro beth yw'r diffiniad o ddatblygiad ar raddfa fach. Ni ystyrir bod datblygu hyd at 50 o unedau preswyl yn ddatblygiad ar raddfa fach. Diffinnir datblygiad mawr fel 10 neu fwy o unedau preswyl yng | Anghytuno. Mae Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012 yn diffinio datblygiad 'mawr' at bwrpas gweinyddu a phrosesu ceisiadau cynllunio. Mae cyfeirio at ddatblygiadau ar raddfa 'fach' a 'mawr' | Dim Newid |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Ngweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012. | yng nghyd-destun CCA GNN Wylfa yn gysylltiedig â'r diffiniadau a gymhwysir ym Mholisi Cynllunio Interim ar Safleoedd Tai Mawr y Cyngor Sir. Mae hwn yn nodi y bydd ceisiadau am 50+ o anheddau yn cael eu diffinio fel rhai 'mawr' neu, ym mharagraff 14 fel rhai 'sylweddol'. Felly mae'r CCA yn ceisio canfod beth yw'r gwahaniaethu a wneir ar hyn o bryd yn y polisi presennol rhwng safleoedd sydd â mwy neu lai na 50 o unedau. Er mwyn bod yn gyson â'r polisi interim, mabwysiadwyd 50+ ar gyfer diffinio 'mawr' yn y CCA drafft. Ystyriwyd diffinio datblygiadau sy'n is na 50 fel 'canolig', ond roedd hyn yn awgrymu wedyn y dylid cael categori arall, sef 'bach'. Ni fyddai cynnwys trydydd categori yn cael ei gefnogi gan y polisi cynllunio presennol a fabwysiadwyd ac felly dylai'r CCA gyfyngu ei hun i ddatblygiadau sydd â mwy neu lai na 50 o anheddau. | |
| | Seilwaith trawsyrru | Mae'r canllawiau'n nodi nad yw CCA GNN Wylfa yn darparu canllawiau ar ddatblygiadau mewn perthynas â chysylltu'r seilwaith trawsyrru trydan. Fodd bynnag, dylai'r canllawiau amlygu y bydd angen i brosiect Wylfa ymdrin ag effeithiau cyfunol a chronnol prosiect Wylfa law yn llaw â'r seilwaith grid cysylltiedig a datblygiadau sylweddol eraill. | Cytuno. Gellid diwygio mwy ar baragraff 4.1.4 (sy'n delio ag effeithiau cronnol) er mwyn cynnwys cyfeiriad at seilwaith trawsyrru trydan fel enghraifft o ddatblygiad cronnol/ cyfunol eraill. | Diwygio paragraff 4.1.4 er mwyn cynnwys cyfeiriad hefyd at seilwaith trawsyrru. |
| | Seilwaith trawsyrru | Er bod paragraff 1.2.1 yr CCA drafft yn cyfeirio at ei bwrpas o ddarparu cyngor ar faterion uniongyrchol ac anuniongyrchol, mae paragraff 1.1.12 yn nodi na fyddai'r CCA yma'n gymwys i seilwaith cysylltu'r grid. Dylai'r CCA hefyd egluro | Nodwyd y sylwad. Mae Adran 4.9 EN-1 yn nodi polisi Llywodraeth y DU mewn perthynas ag ystyried seilwaith cynhyrchu trydan a'r cysylltiad grid cysylltiedig. Mae'n nodi bod cyflwyno cais ar y cyd, neu | Dylai'r CCA dderbyn nad yw hi bob amser yn bosibl cyflwyno ceisiadau unigol neu mewn tandem sy'n cynnwys y prif safle a'i |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | y dylai'r Cyngor Sir ystyried effeithiau anuniongyrchol cysylltiadau'r grid er mwyn ymateb ar sail gwybodaeth yn ei Adroddiad ar yr Effaith Leol a phroses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd/AEA hefyd. | geisiadau mewn tandem, yn briodol, ond mae'n cydnabod nad yw hyn bob amser yn bosibl, ac y dylid mewn amgylchiadau o'r fath ddarparu peth gwybodaeth am y cysylltiad ac egluro'r rhesymau dros beidio cyflwyno cais mewn tandem. | gysylltiad â'r grid, a chydnabod, yn EA20, y bydd angen ychydig o wybodaeth er mwyn deall effaith gronnol y datblygiadau, yn arbennig ar yr amgylchedd naturiol. |
| | Nodau ac Amcanion | Un o amcanion yr CCA a nodwyd yw hysbysu'r Adroddiad ar yr Effaith Leol a'r Datganiadau Tir Cyffredin. Mae CNC yn awgrymu bod yr CCA hefyd yn cynnwys amcan wedi ei nodi i hysbysu trafodaethau cyn ymgeisio ar gyfer prosiect Wylfa a'r datblygiadau cysylltiedig. | Cytuno. Mae paragraff 1.2.2 yn nodi pedwar amcan ar gyfer CCA GNN Wylfa. Gellid ymestyn yr amcanion, neu ddiwygio'r testun ategol, i gynnwys cyfeiriad at drafodaethau cyn ymgeisio. | Diwygio paragraff 1.2.2 er mwyn cynnwys cyfeiriad at drafodaethau cyn ymgeisio. |
| | | Nid yw PCC yn ystyried bod niwclear yn garbon isel, diweddarwyd PCC. | Nodwyd y sylwad. Derbynnir bod Argraffiad 6 PCC (ym mharagraff 12.8.7) yn nodi nad yw'r polisi cynllunio yn cynnwys niwclear fel ynni carbon isel. Fodd bynnag, mae polisi Llywodraeth y DU yn datgan yn eglur bod niwclear yn dechnoleg carbon isel. | Diwygio paragraffau 2.2.1 a 2.2.2 er mwyn adlewyrchu Argraffiad 6 PCC a dileu'r cyfeiriad at garbon isel. |
| | 4.9.9 | Dylid darparu canllawiau ar wella cynefinoedd. | Anghytuno. Ystyrir y byddai darparu canllawiau ar wella cynefinoedd yn codi CCA GNN Wylfa i lefel manylder nad yw'n briodol. | Dim newid. |
| | 4.12.2 | Cyfeiriad at 'Orchmynion Caniatâd Cynllunio'. | Cytuno. Mae drafft CCA GNN Wylfa ar hyn o bryd yn cyfeirio at 'Ofynion Caniatâd Cynllunio'. Derbynnir y dylid diwygio hwn er mwyn cynnwys 'Gorchymyn'. | Diwygio paragraff 4.12.2 fel mai'r geiriad fydd 'gofynion Gorchymyn Caniatâd Cynllunio'. |
| | 4.12 | Gellid defnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol fel system briodol mewn lleoliadau megis parciau busnes. | Nodwyd y sylwad. Gall y Cyngor Sir ystyried mabwysiadu GDLl mewn amgylchiadau priodol. Fodd bynnag, mae hyn y tu allan i gwmpas CCA GNN Wylfa. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | EA26-33 | Y defnydd o derminoleg mewn perthynas â safleoedd Ewropeaidd - y geiriad cywir ddylid ei ddefnyddio yw 'os bydd cynnig unigol neu gyfunol yn arwain at debygolrwydd o greu effeithiau arwyddocaol, yna byddai Asesiad Priodol yn angenrheidiol. Dylai EA26 hefyd gyfeirio at rywogaethau a warchodir a choetiroedd hynafol. Dylid cyfeirio hefyd at Lwybr Arfordir Cymru. | Cytuno. Gellir diwygio drafft CCA GNN Wylfa er mwyn cynnwys y geiriad a ddarperir gan CNC mewn perthynas ag Asesiad Priodol.<br><br>Dylai EA26 gynnwys cyfeiriad at Goetiroedd Hynafol a Llwybr Arfordir Cymru. | Diwygio EA26 er mwyn adlewyrchu'r geiriad a awgrymir yn yr ymateb hwn.<br><br>Diwygio EA26 er mwyn cynnwys cyfeiriad at Goetiroedd Hynafol a Llwybr Arfordir Cymru. |
| | Gwagle agored | Gellid cyfeirio at y pecyn man gwyrdd naturiol a baratowyd gan y CCGC gynt. Dylid cynnwys termau megis seilwaith glas a gwyrdd yn yr Eirfa. | Anghytuno. Dyluniwyd y Pecyn Man Gwyrdd i helpu awdurdodau lleol i wella a chynllunio mannau gwyrdd mewn trefi a dinasoedd, ac oherwydd hynny nid yw'n cael ei ystyried fel offeryn rheoli datblygiadau.<br><br>Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys rhestr o dalfyriadau, ac ystyrir bod hon yn ddigonol. | Dim newid. |
| A020: Iechyd Amgylcheddol | Iechyd a Lles, Ansawdd Aer, Sŵn a Thai. | Yn gyffredinol fodlon y bydd CCA GNN Wylfa yn ceisio sicrhau y byddir yn ymdrin â'r materion hyn, ond dylid gwneud arsylwadau. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | | Mae'n bwysig sicrhau bod nodau ac amcanion y CCA yn realistig. Gyda phrosiect o'r maint yma, mae'n anochel y bydd materion ynglŷn â llygredd aer, sŵn a thai yn arwain at rai anawsterau. Dylid cymryd gofal wrth ddefnyddio datganiadau megis "cynnal a chyfoethogi" neu "warchod neu gyfoethogi'. Mewn gwirionedd, pan fo amcanion unigol yn cael eu trafod yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen, cyfeirir at "leihau gollwng sylweddau sydd â'r posibilrwydd o lygru", ac mae hon yn ymdriniaeth well. | Nodwyd y sylwad ynglŷn â defnyddio cymalau megis 'cynnal a chyfoethogi a deellir na ellir gwireddu amcan mor ddymunol bob amser. Fodd bynnag, pwrpas CCA GNN Wylfa yw nodi beth y dylai hyrwyddwr y prosiect ymdrechu i anelu ato, ac yn y cyd-destun hwn ystyrir bod geiriad yr amcanion yn briodol. Pan fo hyrwyddwr y prosiect, yn dilyn ystyriaeth ac asesiad priodol, yn dod i'r canlyniad na fydd prosiect yr GNN yn cynnal na'n cyfoethogi, mae AEion unigol yn nodi | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | gofynion am liniaru a digolledu. | |
| | 4.1.1, EA7 a 20 | Yn cytuno â'r gofynion a nodir yn y paragraffau hyn. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | EA21 | Dylai'r CCA gydnabod bod rhai o adeiladau'r Ynys yn defnyddio cyflenwadau dŵr tir preifat, a dylid sefydlu camau lliniaru/digolledu os bydd cyflenwadau'n cael eu hamharu dros dro neu am gyfnod amhenodol. | Cytuno. Nid yw drafft CCA GNN Wylfa yn cyfeirio'n bendant at gyflenwadau dŵr preifat, yn arbennig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â defnydd domestig. | Diwygio EA15 er mwyn cynnwys cyfeiriad at yr angen i warchod cyflenwadau dŵr preifat, neu i ddarparu cyflenwad arall priodol. |
| | EA24 | Gellid dymuno cyfeirio at Rym Lles sy'n cael ei gynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol 2000. | Anghytuno. Nid yw'r rhestr o bwerau yn EA24 yn gyflawn ac ni ystyrir bod ychwanegu cyfeiriad penodol at y ddeddfwriaeth hon yn angenrheidiol. | Dim newid. |
| | 4.3.7 | Yn anghytuno â'r cymal sy'n dweud bod trigolion Ynys Môn yn gyffredinol iach, ac mae'r ymateb yn cyfeirio at ddogfen *"Tueddiadau marwolaethau a disgwyliad oes ar Ynys Môn".* | Anghytuno. Mae'r rhan fwyaf o drigolion Ynys Môn yn disgrifio eu hunain fel pobl 'iach'. Ni fu i Gyfrifiad 2011 ganfod unrhyw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ar Ynys Môn ymysg y 10% sydd â'r amddifadedd mwyaf o ran iechyd, gyda 78.6% yn disgrifio eu hiechyd fel 'Da' neu 'Da Iawn'.<br><br>Mae "Tueddiadau marwolaethau a disgwyliad oes ar Ynys Môn" yn defnyddio data am farwolaethau hyd at 2009. Efallai nad yw cyfraddau marwolaethau yn adlewyrchu'n gywir beth yw canfyddiad pobl o ran eu lles a'u hiechyd. Er hyn, mae'r ddogfen yn cymharu 'disgwyliad oes iach' ac mae'n nodi cynnydd bychan rhwng 2001-2005 a 2005-2009. Er gwaetha'r uchod, cydnabyddir bod iechyd cymharol Ynys Môn yn is o'i gymharu â nifer o | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | awdurdodau lleol eraill Cymru. | |
| | 04/03/2012 | Cyfeirio at dlodi tanwydd a chostau teithio sy'n gysylltiedig â byw yn y wlad. | Cytuno. Cydnabyddir y gall tlodi tanwydd a chostau teithio effeithio ar rai o gymunedau'r Ynys. | Cynnwys cyfeiriad at dlodi tanwydd a chostau teithio yn nhestun ategol EA9. |
| | EA10 | Mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithredu cynllun trwyddedu ychwanegol ar gyfer tai amlfeddiannaeth (HMO). Efallai y byddwch yn dymuno cydnabod y byddai'r awdurdod lleol yn annog darparu HMO o ansawdd dda fel opsiwn ychwanegol ar gyfer lletyau gweithwyr yn EA10. | Nodwyd y sylwad. Mae EA10 yn cynnwys cyfeiriad at wella'r sector rhentu preifat o ran ansawdd a niferoedd, ac ystyrir bod hyn yn ymdrin yn ddigonol â'r sylwad a wnaethpwyd yn yr ymateb hwn. | Dim newid. |
| | 5.2.3 | Sonnir mai Caergybi yw tref fwyaf difreintiedig Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r Rhyl yn fwy difreintiedig. Fodd bynnag, mae nifer o wardiau Caergybi'n gyson yn cael eu rancio fel y rhai uchaf ar Ynys Môn ar draws pynciau amrywiol indecsau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac eithrio mynediad i wasanaethau. Yn ychwanegol at y rhai y cyfeirir atynt, mae hyn hefyd yn cynnwys iechyd, addysg, yr amgylchedd ffisegol a diogelwch yn y gymuned. | Cytuno. Mae'r CCA yn cydnabod bod Caergybi yn cynnwys wardiau mwyaf difreintiedig yr Ynys, fodd bynnag, mae angen diwygio'r anghywirdeb ffeithiol sy'n dweud mai Caergybi yw tref fwyaf difreintiedig Gogledd a Chanolbarth Cymru. | Diwygio 5.2.3 er mwyn cynnwys cyfeiriad at berfformiad gwael wardiau mewn perthynas ag iechyd, addysg, yr amgylchedd ffisegol a diogelwch yn y gymuned, a diwygio'r testun hefyd er mwyn nodi bod Caergybi yn *'un o'r trefi mwyaf difreintiedig yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru'.* |
| | 5.3.2 | Mae iechyd hefyd yn broblem yn Nhudur. | Cytuno. Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011, cofnodir mai yn Nhudur y mae'r lefel uchaf o amddifadedd (iechyd) ar Ynys Môn. | Cynnwys cyfeiriad at lefelau iechyd cymharol isel yn Nhudur yn 5.3.2. |
| | 5.4.3 | Cyfeirir at Borthladd Amlwch. Anghytunir â'r honiad mai tai a mynediad i wasanaethau yw'r prif bryder, oherwydd bod yna feysydd eraill megis cyflogaeth, addysg sy'n rancio'n uwch. Ar | Cytuno. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi bod tai a mynediad yn broblemau penodol (ond mae'n casglu nad y rhain yw'r unig rai). | Diwygio 5.4.3 er mwyn cynnwys cyfeiriad at gyflogaeth ac addysg.<br><br>Diwygiad ar dudalen 133, i |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | dudalen 133 dylai 55bB fod yn 55dB. | | 55dB. |
| | Blwch 3.1 | Nodir bod "y sector rhentu preifat yn cynnwys y nifer mwyaf o adeiladu anaddas...". Anghywir, mae arolwg tai'r sector preifat yn nodi yn 4.1.14 bod y "cyfraddau uchaf o anaddasrwydd yn gysylltiedig â'r sector rhentu preifat, gyda fflatiau mewn adeiladau a addaswyd a thai o gyfnod cyn y rhyfel". Efallai y byddwch yn dymuno nodi bod cyfraddau anaddasrwydd wedi gostwng yn sylweddol o 4.3% ym 1996 i 2% yn 2008. | Nodwyd y sylwad, er nad yw'r Cyngor Sir yn bwriadu diweddaru'r Papur Testun Tai (y mae'r sylwad hwn yn gysylltiedig ag ef). | Dim newid. |
| A021: Gwasanaethau Tai | 2. Pwrpas CCA | Yn cytuno â'r pwrpas, ac yn hollol gefnogol i bwysigrwydd y CCA o ran ymdrin ag effeithiau'r GNN ar dai. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 3. Gweledigaeth | Yn cytuno â'r Weledigaeth, ac o safbwynt tai yn ystyried bod y buddsoddiad sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn cynnig cyfle i sbarduno datblygu tai newydd a chymorth tuag at seilwaith cysylltiedig er mwyn creu cymunedau cynaliadwy. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 4. Canllawiau ar y Prosiect Cyfan | Oherwydd perthnasedd tai i'r amcanion, awgrymir y gellid aralleirio Amcan 4 er mwyn nodi: Amcan 4 Sicrhau bod prosiect GNN Wylfa yn cynnal ac yn cyfoethogi ansawdd bywyd (yn cynnwys iechyd, tai, lles ac amwynderau) trigolion, ymwelwyr a gweithwyr yr Ynys yn ystod cyfnod ei adeiladu a'i weithredu). | Nodwyd y sylwad. Er bod tai yn gallu effeithio ar ansawdd bywyd trigolion, mae'n effaith anuniongyrchol (h.y. gall tai o safon isel effeithio ar iechyd, lles ac amwynder). Oherwydd hyn, ni chynigir unrhyw newid. | Dim newid. |
| | 9. Llety Gweithwyr Adeiladu | Yn cytuno â'r egwyddor, ac yn awgrymu gwelliant oherwydd bod y goblygiadau yn ymestyn y tu hwnt i ddarparu llety gweithwyr yn y tymor byr ac i oblygiadau o ran tai i boblogaeth | Cytuno. Mae EA10 yn trafod y posibilrwydd y bydd prosiect yr GNN yn effeithio ar y farchnad dai leol, anghenion a gofynion trigolion lleol. Felly ystyrir bod | Newid EA10 i 'Llety Gweithwyr Adeiladu ac Anghenion Tai Ynys Môn'. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | yr Ynys gyfan. Felly awgrymir rhoi Llety Gweithwyr Adeiladu ac Anghenion Tai Lleol fel teitl newydd i EA10. | diwygio'r teitl yn unol â'r awgrymiad yn briodol. | |
| | | Mae'r egwyddorion arweiniol, EA10, yn mynegi'n gywir y safonau fydd angen eu cymhwyso i letyau gweithwyr â phwrpas arbennig. Mewn perthynas â'r gofyniad a gynigir, sef y dylai hyrwyddwr y prosiect ddarparu Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu, dylid nodi y dylai hyn ystyried tystiolaeth ac ymchwil i'r farchnad dai sydd eisoes yn cael ei gynnal gan y Cyngor Sir. | Cytuno. Bu i'r Cyngor Sir gomisiynu adroddiad oedd yn ystyried effeithiau posibl prosiect yr GNN ar y farchnad dai, ac argymhellodd ddulliau o liniaru effeithiau ac o ddarparu gwaddol cadarnhaol yn y tymor hir. Mae nifer o'r argymhellion yn nrafft CCA GNN Wylfa, ond derbynnir y gallai cyfeirio at yr ymchwil fod o gymorth. | Cynnwys cyfeiriad at ymchwil diweddar y Cyngor Sir i'r goblygiadau posibl i'r farchnad dai fydd yn deillio o brosiect yr GNN. |
| | | Cymeradwyir y safbwynt y dylai "gwaddol tai" fod yn ganlyniad pwysig i'r prosiect, ac er bod pryderon yn cael eu mynegi'n aml ynglŷn â'r pwysau y gall mewnlifiad o weithwyr ei roi ar gyflenwad a phrisiau tai lleol, gellir rheoli hyn drwy'r cynigion, yn cynnwys y Ganolfan Dai, a awgrymwyd. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | | Mewn perthynas ag EA11, bydd y cynnig hwn yn fanteisiol i'r hyrwyddwr ac i drigolion Ynys Môn. Mae angen egluro a yw "sefydlu Gwasanaeth Cyngor ar Dai" yn ychwanegiad i'r cynnig i gael Canolfan Dai neu ai'r un peth ydyw. | Nodwyd y sylwad. Rhagwelir y bydd y Gwasanaeth Cyngor ar Dai yn rhan o'r gwasanaethau fydd yn cael eu darparu yn y Ganolfan Dai. | Dim newid. |
| A022: Conygar Wales | | Yn annog y Cyngor i ddarparu canllawiau cynllunio manylach ynglŷn â nifer o ddatblygiadau arfaethedig sydd â'r posibilrwydd o wneud cyfraniad sylweddol i lwyddiant economaidd GNN Wylfa: | | |
| | | Parc Cybi: Mewn lleoliad da i wasanaethu cyflenwyr haen 1 a 2 ond angen arian sefydlu er mwyn datblygu'r math o letyau sydd eu hangen. | Nodwyd y sylwad. Mae Parc Cybi yn Ardal Fenter (AF2). Mae gallu'r Cyngor Sir i ymateb yn hyblyg i ddatblygu ar yr Ynys yn | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae mewn lleoliad da i wasanaethu canolfan logisteg strategol fydd yn gwasanaethu'r GNN. Er mwyn datblygu y tu hwnt i'r arhosfa dryciau a'r ganolfan logisteg efallai y bydd angen i'r Cyngor fabwysiadu dull mwy hyblyg ac ymatebol o ymdrin â datblygu y gellid ei adlewyrchu yn CCA GNN Wylfa. | cael ei ddiffinio yn y polisi cynllunio mabwysiedig presennol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau a ddarperir yn nrafft CCA GNN Wylfa. Mae EA27 yn annog hyrwyddwr y prosiect i ystyried sut y gall datblygiadau cysylltiedig gefnogi'r safleoedd AF yng nghyd-destun y polisi presennol. | |
| | | Porthladd Caergybi. Cyfeiriad at y Papur Pwnc yr ystyrir ei fod yn canolbwyntio gormod ar drafnidiaeth ar y ffyrdd, er bod cludo nwyddau ar fôr yn cael ei ystyried yn fwy cynaliadwy. Mae diffyg ffocws ar y Porthladd yn bryder mawr, ac mae hyn yn cael ei waethygu gan yr hyn a geir ym Mhapur Pwnc Seilwaith (gweler tabl 3.1 nad yw'n cynnwys dim cyfeiriad at fuddsoddi mewn cludo ar y môr). Dylai CCA GNN Wylfa nodi fod y Porthladd yn rhan sylfaenol o'r anghenion seilwaith. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cydnabod pwysigrwydd Porthladd Caergybi, ond fel ymateb i hyn a sylwadau eraill a roddwyd yn ystod yr ymgynghoriad, bydd pwysigrwydd y Porthladd i'r economi yn cael ei atgyfnerthu. Mae EA27 yn nodi ei bod yn ofynnol hyrwyddwr y prosiect ymchwilio i ddefnyddio'r Porthladd ar gyfer cludo deunyddiau adeiladu, ac mewn mannau eraill mae'r CCA yn blaenoriaethu defnyddio rheilffordd a'r môr ar draul ffyrdd. | Atgyfnerthu'r cyfeiriadau at Borthladd Caergybi pan fo hynny'n briodol. |
| | | Glannau Caergybi: yn cefnogi bod y CCA yn ei gwneud yn ofynnol y bydd nifer sylweddol o letyau gweithwyr adeiladu yn cael eu darparu mewn lletyau rhent newydd yn y farchnad agored. Mae'r datblygiad Glannau sydd newydd gael ei gymeradwyo yn cynnig cyfle i ddarparu lletyau. Yn y tymor hir bydd y Glannau yn darparu lletyau o'r safon nad yw ar gael ar hyn o bryd yn y farchnad ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio. | Nodwyd y sylwad. Yn ychwanegol at y sylwad a wnaethpwyd, bydd y CCA yn cael ei ddiweddaru er mwyn cofnodi llwyddiant y cynnig ar gyfer Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. | Diweddaru'r CCA er mwyn adlewyrchu llwyddiant y cynnig ar gyfer Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. |
| A023: Ystâd Meurig | Canllawiau ynglŷn â'r Ardal: Coridor yr A5/A55 | Dylai'r CCA gyfeirio at unedau chwareli gwag posibl ar dir llwyd ar hyd y coridor sydd â mynediad da i'r A55 ar gyfer gwasanaethu datblygiadau dros dro neu barhaol sy'n | Nodwyd y sylwad. Mae CCA GNN Wylfa yn gefnogol i ddatblygiadau cysylltiedig ar gyrion yr A55, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r polisi cynllunio | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | gysylltiedig â'r GNN mewn lleoliad sy'n weledol gaeedig. | mabwysiedig presennol. Oherwydd hynny, dylid canolbwyntio ar leoli'r rhan fwyaf o ddatblygiadau o fewn ffiniau aneddiadau sydd wedi'u diffinio. Efallai y byddai logisteg cludo nwyddau yn briodol ar gyfer y safleoedd tir llwyd dan sylw, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â phwyntiau bwled perthnasol EA30 a'r polisi cynllunio mabwysiedig presennol. | |
| | Canllawiau ynglŷn â'r Ardal: Gweddill Ynys Môn. | Dylai'r CCA amlygu cyfleoedd ar gyfer datblygu sy'n gysylltiedig â thechnoleg yn Nhrac Môn, fydd yn golygu ailddefnyddio adeiladau a defnyddio'r trac rasio ceir fel cwrtil. Byddai hyn yn dod â budd economaidd i dde orllewin Ynys Môn. Dylid diwygio EA33 yn unol â hynny. | Yn y canllawiau polisi a geir yn EA33 ystyrir bod cyflogaeth yn ddigonol mewn perthynas â Thrac Môn a'i botensial i gyfrannu at brosiect yr GNN. | Dim Newid |
| A024: Partneriaeth Adfywiad Economaidd Ynys Môn | Pwrpas ac Amcanion | Mae'r CCA yn ddogfen gadarn a chynhwysfawr, mae'r pwrpas a'r amcanion yn cael eu diffinio'n glir, a chytunir â'r Weledigaeth. Mae'r sylwadau a wneir yn ymwneud â'r CCA a'r Papurau Pwnc, a dywedir y byddai'r Papurau Pwnc yn elwa o nodi mwy o faterion ac argymhellion. | Nodwyd y sylwad. Nid yw'r Cyngor Sir yn bwriadu diweddaru'r Papur Pwnc a ddefnyddiwyd i hysbysu'r CCA drafft yn unig. | Dim newid. |
| | Twristiaeth | Ystyrir y dylai Twristiaeth gael ei Bapur Pwnc ei hun.<br><br>Dylai'r CCA gynnwys cyfeiriad at 'Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru' 2013-2020. | Ni ystyrir bod angen paratoi papur pwnc arall ar dwristiaeth oherwydd bod hyn yn cael ei drafod yng nghyd-destun yr economi ehangach ym Mhapur Pwnc 4: Datblygiad Economaidd.<br><br>Cytunir y gellid cyfeirio at Bartneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020 yn Adran 4.2 yr CCA drafft. | Cynnwys cyfeiriad at Bartneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020 yn Adran 4.2 . |
| | Dadleoli | Yn pryderu ynglŷn â dadleoli swyddi a chartrefi ac yn ystyried y dylid rhoi mwy o sylw i hyn yn y | Anghytuno. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys canllawiau penodol a ddyluniwyd i | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | CCA gydag argymhellion cadarn i liniaru. | leihau effeithiau niweidiol ar y farchnad dai leol ac i greu manteision gwaddol (gweler EA-10) ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd o ran cyflogaeth yn lleol (EA1 a EA2). Nid yw'n eglur o'r ymateb hwn sut y gellid atgyfnerthu'r canllawiau yn y cyswllt hwn. | |
| | Llety | Ystyrir bod angen atgyfnerthu hyn yn y CCA. Pryderon ynglŷn â dadleoli'r stoc tai presennol ac yn argymell gwell ystyriaeth ynglŷn â'r economi ymwelwyr a mwy o gyfeirio at lety i dwristiaid. | Anghytuno. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys canllawiau penodol yn EA10 sy'n amcanu at reoli'r effeithiau ar y farchnad dai leol. Mae EA5 a EA12 hefyd yn benodol yn ystyried yr economi ymwelwyr a llety i dwristiaid. Nid yw'n eglur o'r ymateb hwn sut y gellid atgyfnerthu'r canllawiau yma. | Dim newid. |
| | Creu Swyddi a Chadwyn Cyflenwi Sgiliau. | Dylid rhoi mwy o sylw i bwysigrwydd hyrwyddo pynciau STEM yn y CCA. Dylid sefydlu camau i sicrhau bod ysgolion a cholegau wedi sefydlu strwythurau er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau. Hefyd mae angen mesurau i gefnogi sgiliau lleol nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Dylai'r CCA nodi bod trafodaeth gynnar ac ystyrlon yn ofynnol rhwng datblygwyr a darparwyr hyfforddiant er mwyn sicrhau bod hyfforddiant sgiliau priodol wedi ei sefydlu mewn da bryd. | Nodwyd y sylwad. Ystyrir bod EA2 yn darparu digon o arweiniad er mwyn gwneud y mwyaf o'r mynediad i swyddi lleol a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Fodd bynnag, cytunir y dylai EA2 nodi'n bendant bod angen trafodaeth gynnar rhwng hyrwyddwr y prosiect a darparwyr hyfforddiant ac y dylid cyfeirio at hyrwyddo pynciau STEM. | Diwygio EA2 er mwyn cyfeirio at yr angen am drafodaeth gynnar rhwng hyrwyddwr y prosiect a darparwyr hyfforddiant a hyrwyddo pynciau STEM. |
| | Buddion i'r Gymuned | Ni chyfeirir at y buddion gwaddol fydd yn dilyn y gwaith adeiladu, gallai gwneud penderfyniadau gwybodus ac integredig arwain at gyfleoedd i greu gwaddol cadarnhaol yn dilyn y gwaith adeiladu. | Anghytuno. Un o amcanion canolog CCA GNN Wylfa yw gwireddu buddion gwaddol parhaus ar gyfer economi a chymunedau'r Ynys. | Dim newid. |
| | | Dylai'r CCA gyfeirio at gais Caergybi: Greu | Cytuno. | Diweddaru'r CCA er mwyn cynnwys cyfeiriad at y cais |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Cymuned Gynaliadwy (bellach yn llwyddiannus). | | llwyddiannus. |
| A025: Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol | Amcanion | Mae'r amcanion yn eglur, ond mae angen mynegi y gall penderfyniadau gwybodus ac integredig yn ystod y camau cynllunio a chaniatáu arwain at fuddion gwaddol yn dilyn y gwaith adeiladu. | Anghytuno. Cyfeirir yn nrafft CCA GNN Wylfa drwyddo draw at yr angen i benderfyniadau gael eu hysbysu gan gronfa dystiolaeth gadarn. Mae'r CCA drafft yn hyrwyddo cydweithio rhwng hyrwyddwr y prosiect a chyrff eraill yn cynnwys y Cyngor Sir. | Dim newid. |
| | | Dylai'r 'cyd-destun' gynnwys cyfeiriad at yr orsaf bŵer bresennol. | Nodwyd y sylwad. Cyfeiriwyd eisoes at yr orsaf bŵer bresennol ym mharagraff 1.1.2. | Dim newid. |
| | | Amcan 2, dylid defnyddio 'masnachol' neu dylid ailddrafftio'r amcan o safbwynt y sector preifat. | Anghytuno. Nid pwrpas unrhyw un o'r amcanion yw cael eu drafftio o safbwynt y sector preifat. Yn hytrach, bwriedir iddynt adlewyrchu dyheadau'r Cyngor Sir ar gyfer prosiect GNN Wylfa. | Dim newid. |
| | Defnyddio tir | Cytunir â chlustnodi aneddiadau a bod Y Fali yn cael ei gydnabod fel lleoliad pwysig. Yn falch bod pwysigrwydd yr A55 a'r A5025 yn cael ei gydnabod. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | | Yn 5.2 dylid cyfeirio at hen Safle Great Lakes ac ystâd Ddiwydiannol Amlwch. | Cytuno, ond cyfeirir eisoes at hen safle Great Lakes ym mharagraff 5.4.5. | Nodi ystâd ddiwydiannol Amlwch fel cyfle yn EA29 a'r testun ategol. |
| | | Dylid rhoi sylw amlycach i gyfleusterau hamdden. | Anghytuno. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys egwyddor arweiniol benodol mewn perthynas â chyfleusterau hamdden. Felly, nid yw'n eglur sut y gellid rhoi mwy o amlygrwydd i hamdden. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | 5.1 a 5.7 uno'r safle a Chemaes? | Anghytuno. Mae EA26 yn darparu canllawiau penodol i hyrwyddwr y prosiect mewn perthynas â phrif safle'r GNN. Mae EA32 yn y cyfamser yn ymdrin â'r effeithiau negyddol a'r buddion ehangach posibl fydd yn deillio o brosiect yr GNN gyda phwyslais penodol ar ddatblygu cysylltiedig. O ganlyniad i hyn, ni ystyrir bod uno dwy adran y canllawiau yn briodol. | Dim newid. |
| | Iechyd | Dylai'r ddogfen hysbysu'r datblygwr y dylid lleihau/lliniaru effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o'r rhai cadarnhaol, a ellid atgyfnerthu'r materion hyn o fewn fformat adrodd y papurau testun? | Nodwyd y sylwad. Ystyrir bod drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys canllawiau eglur sy'n amcanu at leihau'r effeithiau negyddol fydd yn deillio o brosiect yr GNN a gwneud y mwyaf o'r buddion.<br><br>Nid yw'r Cyngor Sir yn bwriadu diweddaru'r papurau pwnc. Er hyn, ystyrir mai un o brif agweddau'r papurau pwnc yw nodi sut y gall y CCA ymateb i heriau a chyfleoedd a gyflwynir gan brosiect yr GNN. | Dim newid. |
| | | Dylai'r CCA awgrymu bod y datblygwr yn cydweithio â chyrff iechyd y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ffeithiol gytbwys yn cael ei darparu ar faterion iechyd. | Nodwyd y sylwad. Mae EA7 yn nodi'n eglur y dylai hyrwyddwr y prosiect weithio â'r Cyngor Sir a'r bwrdd iechyd lleol. Mae'r camau lliniaru a nodir yn y canllawiau yn cynnwys darparu gwybodaeth ar y risgiau i iechyd cymunedau lleol, ymwelwyr a busnesau. | Dim newid. |
| | | Storio Dŵr ar y safle - byddai paragraff sy'n egluro pam y bydd gwastraff yn cael ei storio a'r dewisiadau eraill a ystyriwyd yn fuddiol. | Cytuno. Mae EA17 yn nodi y dylid cyfiawnhau'r cynigion mewn perthynas â gwastraff dros dro. Fodd bynnag, gallai hyn gynnwys cyfeiriad at ystyried | Diwygio EA17 er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod cynigion mewn perthynas â storio gwastraff dros dro yn cael eu cyfiawnhau'n llwyr, |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | dewisiadau eraill. | gan roi ystyriaeth i ddewisiadau eraill rhesymol. |
| | Twristiaeth a Llety | Mae twristiaeth yn bwysig iawn ac mae'n haeddu ei bapur pwnc ei hun. Mae'n debygol y bydd yr effaith ar y seilwaith ymwelwyr, delwedd a chanfyddiad yn fawr iawn. | Nodwyd y sylwad. Cydnabyddir pwysigrwydd twristiaeth i economi'r Ynys. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys adran benodol (Adran 4.2) ar dwristiaeth ac mae pwysigrwydd twristiaeth yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau lleoliadol pan fo hynny'n briodol.<br><br>Ni ystyrir bod angen paratoi papur pwnc arall ar dwristiaeth oherwydd bod hyn yn cael ei drafod yng nghyd-destun yr economi ehangach ym Mhapur Pwnc 4: Datblygiad Economaidd. | Dim newid. |
| | | Ni roddir digon o bwyslais ar groesi Môr Iwerddon mewn perthynas â thwristiaeth. Mae yna nifer sylweddol o ymweliadau crwydrol ar draws Ynys Môn er mwyn cyrraedd y llongau. | Cytuno. | Diwygio paragraff 4.6.7 er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd croesi Môr Iwerddon a thrafnidiaeth gysylltiedig o gwmpas yr Ynys. |
| | | Mae angen i EA12 ymdrin â llety gweithwyr adeiladu yn fanylach gan gyfeirio at ddadleoli ymwelwyr o'r lletyau hynny. | Anghytuno. Mae EA12 yn cynnwys gofyniad i ystyried yr effeithiau fydd yn deillio o ddarparu llety i weithwyr adeiladu yn y sector llety twristiaid, ac mae'n nodi camau lliniaru posibl. Hefyd, mae EA5 yn nodi bod y Cyngor Sir yn disgwyl y bydd y datblygiad yn cefnogi'r economi ymwelwyr ehangach. | Dim newid. |
| | | Yn Ffigwr 4.2 nid yw'r arfordir treftadaeth yn ymddangos o dan y dynodiadau. | Cytuno. | Diwygio Ffigwr 4.2 er mwyn cynnwys yr Arfordir Treftadaeth. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Yn EA5, cwestiynir pam y cyfeirir at Groeso Cymru ac nid Datblygu Economaidd y Cyngor Sir neu bartneriaeth DMP. | Cytuno. | Cynnwys cyfeiriad at y Cyngor Sir a Phartneriaeth DMP yn EA5. |
| | | Dylid cynnwys tlodi ac amddifadedd fel thema allweddol ym mhob maes. | Nodwyd y sylwad. Ymdrinnir â thlodi ac amddifadedd yn y canllawiau lleoliadol o dan thema gymdeithasol ac economaidd pan fo hynny'n briodol. | Dim newid. |
| | | Yn EA12 dylid ystyried delwedd a chanfyddiadau. | Nodwyd y sylwad. Ymdriniwyd â chanfyddiad a delwedd yr Ynys eisoes yn EA5. | Dim newid. |
| | Caergybi a'r Ardal | Dylid cynnwys yr hyn oedd yn gynwysedig yn 2il gais llwyddiannus Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn 5.2 a'i ddefnyddio i hysbysu'r bennod.<br><br>Awgrymir ychwanegu'r canlynol yn 5.2.4:<br><br>"...at y diben hwn mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cronfa ymgeisio o £7.8 miliwn ar gyfer cynorthwyo prosiectau adfywio a thai yng Nghaergybi yn 2014-17, o dan fframwaith adfywio trefol Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.<br><br>Mae'r cais llwyddiannus, Caergybi: Creu Cymuned Gynaliadwy yn rhaglen uchelgeisiol er mwyn trawsnewid un o drefi mwyaf difreintiedig Cymru. Ei brif amcan yw darparu ymateb wedi ei gydlynu i ddatblygiadau mawr a ddisgwylir yn neu'n agos i Gaergybi yn ystod y pum mlynedd | Cytuno. | Diwygio paragraff 5.2.4 er mwyn adlewyrchu canlyniad cais LlLlLlA. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | nesaf fel rhan o statws Ardal Fenter a Rhaglen Ynys Ynni. | | |
| | | Tudalen 102 Diwygio'r troednodyn i 'Mae ceisiadau llwyddiannus Cam 1 a Cham 2 ar gael ar wefan y Cyngor Sir'. | Cytuno. | Diwygio'r troednodyn. |
| | | Mater Allweddol 5.2: Dylid rhoi amlygrwydd ychwanegol i'r Porthladd. | Mae pwysigrwydd y Porthladd yn cael ei amlygu yn 5.2.3. Caiff hefyd ei nodi fel safle AF yn 5.2.8. Nodir bod mynediad i'r Porthladd yn fater allweddol ym mharagraff 5.3.12. | Dim newid. |
| | Swyddi a Sgiliau | Dylid rhoi mwy o bwyslais ar STEM. | Cytuno. | Diwygio EA2 er mwyn cyfeirio at hyrwyddo pynciau STEM. |
| | | Dylid nodi manteision a dymunoldeb addysg ddwyieithog i'r gweithlu fydd yn symud i'r Ynys. Cynefino gorfodol â'r iaith Gymraeg a diwylliant i'r holl weithwyr a'u teuluoedd. | Nodwyd y sylwad. Mae EA13 eisoes yn nodi camau i gynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg a diwylliant yn cynnwys cynefino a gwersi Cymraeg i weithwyr adeiladu a'u teuluoedd. | Dim newid. |
| | | EA13: Dylid cyfeirio at bwysigrwydd dod â phobl â sgiliau i Ynys Môn fel ffordd o gyfyngu ar weithlu crwydrol a chefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant. | Cytuno. | Diwygio EA13 er mwyn cyfeirio at farchnata i ddenu trigolion (cyn-drigolion) â sgiliau yn ôl i Ynys Môn. |
| | | EA5: Dylid ystyried pwynt bwled ychwanegol mewn perthynas â marchnata a hyrwyddo digidol. | Ymdrinnir eisoes â marchnata lleoliadau yn EA5. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'n bwysig cydnabod y bydd yr effeithiau a'r buddion lleol yn cael eu teimlo hefyd o gwmpas y rhanbarth. | Nodwyd y sylwad. Cydnabyddir potensial GNN Wylfa i yrru economi Gogledd Cymru ym mharagraff 1.1.4, ac fe'i hadlewyrchir yn yr amcanion a'r canllawiau, yn arbennig mewn perthynas â'r economi. Fodd bynnag, pan fo'n briodol, cytunir y gellid cyfeirio mwy at yr effeithiau rhanbarthol ehangach yn nhestun ategol y CCA drwyddo draw (er nad ystyrir ei bod yn briodol i'r CCA gynnwys canllawiau mewn perthynas ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill). | Diwygio'r CCA (pan fo'n briodol) er mwyn cydnabod potensial effeithiau trawsffiniol. |
| | Gwaddol a Seilwaith | EA6: Awgrymir defnyddio'r geiriau 'integreiddio' a 'chynaliadwy', yn ogystal â chyfleusterau - mae'n ymwneud â gweithgareddau a gwasanaethau. | Cytuno. | Diwygio EA6 er mwyn nodi: "Dylid integreiddio gwasanaethau a chyfleusterau newydd a darparu budd cynaliadwy a pharhaus i gymunedau'r Ynys.' |
| | | EA9: Dylid cynnwys cyfeiriad at gyfleusterau a rennir ar gyfer gweithwyr a'r gymuned. | Cytuno. | Ychwanegu pwynt bwled arall yn EA9 er mwyn adlewyrchu y dylai cyfleusterau gael eu rhannu pan fo'n bosibl |
| | | EA14: Efallai y dylid cyfeirio yma at waddol yn dilyn y gwaith adeiladu (cynllunio strategol wedi'i integreiddio). | Cytuno. | Diwygio EA14 er mwyn cynnwys cyfeiriad at waddol yn dilyn y gwaith adeiladu. |
| | | EA15: Mae buddsoddi mewn cyfleustodau yn hanfodol er mwyn lliniaru effeithiau niweidiol. Dylai buddsoddi greu buddion cymdeithasol ac economaidd eang nad ymdrinnir â hwy yn y | Nodwyd y sylwad. Bydd angen buddsoddi mewn seilwaith cyfleustodau er mwyn lliniaru'r effeithiau niweidiol ar y ddarpariaeth bresennol. Nid oes yna sail | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | CCA. | polisi dros ddisgwyl y byddai hyn yn darparu buddion ehangach. Er hyn, mae'r canllawiau yn cydnabod y bydd y Cyngor Sir yn cefnogi cynigion sy'n gwella'r ddarpariaeth cyfleustodau ar yr Ynys er budd ei chymunedau. | |
| | | EA23: A ddylid cyfeirio at strategaeth y Cyngor Bwrdeistref Sirol? | Nid yw'n briodol i EA23 gynnwys cyfeiriad at gyfraniadau budd cymunedol oherwydd nad yw'r rhain yn rhan o'r broses gynllunio ffurfiol. | Dim newid. |
| | | EA24: Dylid cynnwys gwaddol adeiladau yn dilyn y gwaith adeiladu ac ehangu'r budd cymdeithasol er mwyn cynnwys buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. | Nodwyd y sylwad. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir yn ystyried bod y pwyntiau a godir eisoes yn cael eu trafod yn EA24, ac nad oes angen eu hailadrodd yma. | Dim newid. |
| | | EA26: integreiddio cyfleusterau neu rannu cyfleusterau safle rhwng y datblygwr a chymuned Tregele. Mae angen polisi malltod eglur gan y datblygwr. | Nodwyd y sylwad. Ymdrinnir eisoes â'r gofyniad i ddarparu cyfleusterau a rennir, wedi'u hintegreiddio yn EA26 (o dan y pwynt bwled cyntaf). Ni ystyrir ei bod yn briodol cynnwys cyfeiriad at falltod cynllunio yn y CCA. | Dim newid. |
| | | EA30: Gellid diffinio canolfan gorfforaethol yn well. | Nodwyd y sylwad. Byddai'r Ganolfan Gorfforaethol yn gyfleuster ar hyd yr A55 fyddai'n osgoi teithio heb angen i'r safle (ar gyfer cyfarfodydd, briffio etc.) yn ystod y gwaith adeiladu. Nid oes mwy o fanylion yn hysbys ar hyn o bryd. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | EA31: A ymdrinnir yn ddigonol â chyfleon i wella seilwaith cymdeithasol? | Nodwyd y sylwad, fodd bynnag, nid oes yna'r un cyfle'n hysbys o ran seilwaith cymdeithasol. | Dim newid. |
| | | Mesur llwyddiant - dim dull ar gyfer mesur, a ddylid ystyried targedau? | Nodwyd y sylwad. Ni ystyrir ei bod yn briodol nodi targedau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae EA25 yn nodi y dylai hyrwyddwr y prosiect a'r Cyngor Sir ddatblygu trefniadau ar gyfer monitro a ddylai gynnwys clustnodi targedau'n seiliedig ar dystiolaeth. | Dim newid. |
| | Papurau Pwnc: Sylwadau Cyffredinol | Eu gwneud yn neilltuol weledol, gan ddefnyddio lluniau sy'n berthnasol i'r pwnc. Maent yn wan o ran materion allweddol ac argymhellion. Dylid cael ymateb sy'n gyfatebol i'r materion a nodir, ar brydiau ceir prinder synergedd.<br><br>Dylid gwahanu Datblygiad Economaidd a Thwristiaeth i fod yn byncaiu ar wahân.<br><br>Papur Pwnc 4 Datblygiad economaidd a Thwristiaeth: mae'r ffigyrau a nodir ar gyfer swyddi a gwerth yn wahanol i ardaloedd eraill a nodir yn rhywle arall, 4000 o swyddi a £240 miliwn.<br><br>Sgiliau - mae angen gwybodaeth yn gynnar er mwyn sicrhau bod y gronfa sgiliau yn gallu ymateb.<br><br>Papur Pwnc 5: Trafnidiaeth 3.4.9, awgrymir ychwanegu, 'ar hyn o bryd mae yna brinder cyfleoedd i oddiweddyd ar ffordd un ffrwd yr | Nodwyd y sylwadau. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor Sir yn bwriadu adolygu'r papurau pwnc. Hefyd, ni ystyrir y byddai'r diwygiadau a gynigir yn effeithio mewn gwirionedd ar gynnwys drafft CCA GNN Wylfa.<br><br>Mewn perthynas benodol â'r data am dwristiaeth, mae'r ffigyrau a nodir ym Mhapur Pwnc Datblygiad Economaidd yn deillio o ddata STEAM 2010. Roedd data diweddarach ar gael yn ystod gwaith paratoi'r CCA drafft ei hun (ar gyfer 2012). Mae'r data mwyaf diweddar (fel y cyfeirir ato ym mharagraff 4.2.1 y CCA drafft) yn dangos bod y sector dwristiaeth yn cyfrannu tua 4,000 o swyddi a £240 miliwn mewn refeniw. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | A5025 rhwng Wylfa a'r Fali ac mae hyn yn cyfrannu at ei hanes gwael o ran damweiniau'.<br><br>4.6.1 awgrymir ychwanegu, '...Lleihau effeithiau negyddol posibl megis ciwio ac oedi a achosir gan waith adeiladu a symudiadau traffig cysylltiedig'. | | |
| A026 | Cyffredinol | Mae ymgynghori yn rhan angenrheidiol o'r broses gynllunio, ond mae'n ffug. Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i leoli'r orsaf bŵer yn agos i ganolfannau poblogaeth presennol sydd angen y pŵer. | Nodwyd y sylwad. Nid yw rhoi sylwadau ar leoliad y prif safle yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae hyn wedi cael ei wneud eisoes gan Lywodraeth y DU ac fe'i cefnogir gan bolisi cenedlaethol ar ffurf NPS EN-6. | Dim newid. |
| | | Awgrymir y byddai'n well cadw aneddiadau 3 km oddi wrth yr orsaf a phrynu'r holl eiddo presennol o fewn y radiws hwn ar gyfer eu defnyddio gan weithwyr adeiladu. | Nodwyd y sylwad. Mae NPS EN-6 yn nodi (ym mharagraff 2.7.2) bod gan y rheoleiddwyr rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod pobl a'r amgylchedd yn cael eu diogelu a'u gwarchod mewn perthynas â dylunio, adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Y rheoleiddwyr yw Cyfoeth Naturiol Cymru, Swyddfa'r Rheoleiddiwr Niwclear a'r Adran Drafnidiaeth. Nid yw sicrhau prynu gorfodol yr eiddo sydd o fewn 3km ar sail iechyd a diogelwch yn rhan o gylch gwaith y Cyngor Sir. Er y byddai defnyddio eiddo sy'n agos i'r safle yn lleihau amseroedd teithio, mae'n annhebygol y byddai hynny yn arwain at fuddion gwaddol yn y tymor hir fyddai'n fwy na'r cyfleoedd fyddai efallai'n bodoli yn aneddiadau presennol Caergybi, Llangefni ac Amlwch. | Dim newid. |
| | | Dylid ystyried bod gwledydd eraill yn cau | Ymdriniwyd â mater diogelwch niwclear yn y sylwad uchod. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | gorsafoedd pŵer niwclear. | | |
| | | Cwestiynir diogelwch y dechnoleg 'dŵr berw' arfaethedig. | Fel uchod. | Dim newid. |
| | | Yn holi ynglŷn â newid yn yr hinsawdd ac effeithiau posibl ar yr orsaf bŵer yn ychwanegol at weithgaredd seismig a thonnau llanw canlyniadol. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn ystyried newid yn yr hinsawdd gan gyfeirio'n benodol at safleoedd datblygu cysylltiedig yn EA19. Bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel penderfynwr, fod yn fodlon bod y CCA yn cynnwys mesurau addasu fydd yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd. | Dim newid. |
| | | Yn gofyn am ystyriaeth ynglŷn â chynlluniau ymgilio oddi ar yr Ynys a sut y byddai llygredd ym Môr Iwerddon yn cael ei reoli. | Yn y DU y SRhN sy'n penderfynu ar yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. Mae hyn yn cael ei weithredu o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (RhYPAGG)<br><br>Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddodd SRhN egwyddorion diwygiedig ar gyfer penderfynu ar ardaloedd cynllunio argyfwng oddi ar y safle RhYPAGG o gwmpas safleoedd â thrwydded niwclear yn y DU. Mae hyn yn golygu bod SRhN yn ystyried ffactorau ymarferol a strategol lleol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun wrth benderfynu ar yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am y broses a ddefnyddir gan y SRhN ar gael drwy fynd i http://www.onr.org.uk/depz-onr- | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | principles.htm.<br><br>Ar ôl i'r SRhN hysbysu ynglŷn â'r ardal sydd angen cynllun argyfwng ar ei chyfer, mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori â'r holl asiantaethau sydd â chyfraniad i'w wneud wrth ei weithredu.<br><br>Yn dilyn ymgynghori â'r asiantaethau perthnasol a'r gweithredwyr, mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gynhyrchu ei gynllun argyfwng oddi ar y safle o fewn 6 mis. Bydd y cynllun yn ystyried ystod o wrth-gamau sy'n gymesur â'r risgiau a nodwyd, yn cynnwys llochesu neu ymgilio. Bydd y cynllun yn cael ei brofi mewn ymarferiad argyfwng sy'n cynnwys yr Awdurdod lleol, yr heddlu, y rheoleiddiwr, y swyddfa dywydd, cyrff iechyd cyhoeddus ac asiantaethau eraill fyddai'n rhan  o unrhyw ddigwyddiad. Byddai'r penderfyniad i ymgilio neu i lochesu yn cael ei wneud  yn seiliedig ar y ffactorau penodol a wynebir ar y diwrnod.<br><br>Bydd Cynllun Argyfwng yr Awdurdod Lleol yn cael ei ystyried bob tair blynedd, ar ôl i'r gweithredwr nodi'r peryglon ar y safle a'r risgiau i'r cyhoedd, neu pan fo'r gweithredwr yn gwneud newid sylweddol i weithgaredd ar y safle. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd niwclear newydd yn cael eu hystyried o dan RhYPAGG. | |
| A027 | | Mae'r hanfodol bod hawliau tramwy cyhoeddus yn parhau i fod yn agored neu fod dewisiadau | Nodwyd y sylwad.  Mae EA5 yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect ystyried | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | eraill yn cael eu darparu. | effeithiau datblygu ar hawliau tramwy cyhoeddus. Ceir rhagor o ystyriaeth ynglŷn â hawliau tramwy yng nghanllawiau Ardaloedd Chwiliad. Mae EA5 yn nodi gwelliannau strategol i rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus fel ffordd o liniaru unrhyw effeithiau lleol fydd yn deillio o'r datblygiad. | |
| | | Pryderu a fydd yr arfordir a'r tir i'r gogledd yn parhau'n agored neu beidio. | Nodwyd y sylwad. Fel uchod, un cam lliniaru penodol a nodwyd yw y dylai hyrwyddwr y prosiect gynnal a, phan fo'n bosibl, gwella mynediad i'r arfordir mewn perthynas â gwelliannau i Lwybr yr Arfordir. | Dim newid. |
| | | Yn pryderu fod gwaith dymchwel eisoes wedi dechrau ac nad yw'n ymddangos bod hynny'n angenrheidiol (e.e. yr Hen Dŷ Cwch). | Nodwyd y sylwad. Rhoddodd y Cyngor Sir ganiatâd i'r gwaith y cyfeirir ato yn yr ymateb hwn, ac felly ystyrir ei fod yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. | Dim newid. |
| | | Mae'n dra phwysig bod unrhyw gyfleuster cyhoeddus a ddarperir, megis gwarchodfeydd natur, yn ddarostyngedig i ymrwymiad cyfreithiol i'w cynnal yn y dyfodol. | Mae EA23 yn nodi bwriad y Cyngor i sicrhau trefniadau cyfreithiol â hyrwyddwr y prosiect ar gyfer creu a chynnal cyfleusterau newydd neu gyfleusterau digolledu priodol allai o bosibl gynnwys gwarchodfeydd natur. | Dim Newid |
| A028 Strydoedd Diogel | Trafnidiaeth | Adran 4.6. Dylid newid y tri phwynt bwled cyntaf i:<br><br>• Llleihau effeithiau niweidiol y datblygiad ar seilwaith trafnidiaeth strategol allweddol.<br><br>Lleihau effeithiau niweidiol y datblygiad | Ystyrir bod y pwyntiau bwled newydd a argymhellir, er eu bod yn briodol ynddynt eu hunain, yn cynrychioli nodau ac amcanion, ond pwrpas y pwyntiau bwled yw awgrymu gwir gamau lliniaru, sef gwireddu'r amcanion a awgrymir. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | ar seilwaith trafnidiaeth lleol allweddol.<br><br>• Llleihau effaith y datblygiad ar welliannau i'r seilwaith trafnidiaeth yn y tymor hir.<br><br>Darparu llwybrau dymunol a diogel ar gyfer teithio a thrafnidiaeth i ddefnyddwyr heblaw modurwyr mewn aneddiadau a rhwng yr aneddiadau yr effeithir arnynt fwyaf, a'r safle ei hun.<br><br>Sicrhau nad yw'r llwybrau hynny'n hygyrch i draffig moduron cyflym neu drwm, yn arbennig y traffig fydd y datblygiad yn ei greu. | Nodwyd y sylwad. Ymdrinnir ag argymhellion i gynnwys llwybrau diogel a dymunol mewn aneddiadau a rhwng aneddiadau yn EA14 sy'n cynnwys gofyniad i annog cyfleoedd teithio i ddefnyddwyr heblaw modurwyr (a restrir fel cerddwyr a seiclwyr), yn cynnwys darpariaeth newydd yn unol â strategaethau presennol. | Dim newid. |
| A029 | Cyffredinol | Mae'r CCA yn ddiffygiol a dylid ei ohirio nes y bydd y diffygion wedi'u cywiro, yn cynnwys methiant o ran y dadansoddiad o gostau cyfle sydd wedi cyfiawnhau cefnogaeth y Cyngor i'r orsaf newydd.<br><br>Dylid ei ohirio hefyd oherwydd bod y CCA yn gynamserol gan nad fydd y CGDLl yn cael ei fabwysiadu am ddwy flynedd arall.<br><br>Cyhoeddi dogfen gefndirol gyda manylion am yr holl ymgynghoriadau, trafodaethau etc. rhwng y Cyngor a phartïon eraill.<br><br>Cyhoeddi cofrestr ar wahân o gysylltiadau rhwng y Cyngor a hyrwyddwr y prosiect.<br><br>Sicrhau bod y ddogfennaeth uchod ar gael i'r cyhoedd a'i bod yn cael ei diweddaru'r rheolaidd.<br><br>Ymgynghori o'r newydd ar y CCA ar ôl | Mae'r Cyngor Sir yn nodi'r pwyntiau a godwyd. Nid yw'r Cyngor Sir yn cytuno bod drafft CCA GNN Wylfa yn ddiffygiol nac yn gynamserol nac wedi'i baratoi yn unol â phroses sy'n ddiffygiol neu'n amhriodol. Mae statws y CCA yn gyffredinol wedi ei hen sefydlu yn ôl y gyfraith ac nid oes angen ei egluro'n fanylach. Mae perthynas y CCA â'r Cynllun Datblygu, y CDU a Ataliwyd a'r CGDLl arfaethedig wedi eu hegluro'n arbennig o eglur. Mae'r Cyngor Sir yn cytuno y bydd angen i'r CCA fod yn gyson â'r CGDLl a fabwysiedir a bwriedir adolygu'r CCA wedi i'r CGDLl gael ei fabwysiadu.<br><br>Mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghori ar y CCA drafft wedi cael eu | Diwygio'r Rhagair er mwyn dileu'r cyfeiriadau at y broses ymgynghori. Bydd pwrpas y CCA yn cael ei bwysleisio er mwyn darparu mwy o eglurder a phendantrwydd. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | mabwysiadu'r CGDLl. | crynhoi yn y Rhestr Ymatebion hon. | |
| | | Dylid nodi pwrpas hwyluso 'r CCA yn y rhagair a dylai'n rhesymol gynnwys y pwynt bwled arweiniol cyntaf ym mharagraff 1.2.2. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn nodi ei safbwynt yn gywir ac yn ddiamwys o'r cychwyn.<br><br>Dylai Adran 1.5 nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu gosod yr holl ymgynghoriadau a dderbyniwyd mewn dogfen ar wahân. | Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i gyfathrebu clir â'r cyhoedd ar ffurf cyhoeddusrwydd ar ei wefan, datganiadau i'r wasg ac adroddiadau i Bwyllgorau yn unol â'r amgylchiadau. Bydd hyn yn ychwanegol at y deunyddiau ymgynghori a gynhyrchir gan ymgeiswyr am ganiatâd datblygu a phroses y Cyngor o reoli'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r rhain. Bydd y Cyngor hefyd yn glynu'n gadarn at ofynion Deddfau Llywodraeth Leol, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ynglŷn â datgeliad. Y tu hwnt i hynny, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer unrhyw gofrestr na chyhoeddi cyfathrebiadau rhyngddo ac unrhyw drydydd parti, naill ai mewn perthynas â mabwysiadu'r CCA neu benderfynu ar unrhyw gais ar gyfer caniatâd cynllunio y gall cymhwyso'r CCA fod yn berthnasol iddo. Ni ystyrir y byddai mabwysiadu polisi adrodd mor eang ac amwys yn cynorthwyo'r broses o gyfathrebu clir â'r cyhoedd, ac nid oes gan y Cyngor yr adnoddau i allu rheoli proses o'r fath yn effeithiol. | |
| | Diffyg statudol | Mae'r cyngor wedi methu â nodi sefyllfa gyfreithiol (deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth) y CCA.<br><br>Dylai'r ddogfen nodi a yw'n orfodol yn ôl y gyfraith a pha bartïon all weithredu os bydd hyrwyddwr y prosiect yn torri'r CCA, yn achos toriadau lluosog ac i ba raddau y bydd y Cyngor yn ail-ymgynghori os bydd angen gwneud addasiadau dilynol i'r EAion.<br><br>Mae'r Cyngor wedi methu â nodi a fu ymgynghori ffurfiol/anffurfiol â hyrwyddwr y prosiect ynglŷn ag unrhyw EA.<br><br>Paragraff 1.1.6: a fwriedir i'r CCA sefyll ar ei draed ei hun ac a yw uwchlaw neu islaw canllawiau cynllunio eraill?<br><br>Paragraff 1.1.9: sut ellir dibynnu'n gynhwysol ar y CDU a ataliwyd fel y cynllun datblygu presennol; gyda pha awdurdod statudol, cyfreithiol neu weinyddol y mae'r Cyngor yn gallu gwreiddio'r CCA arfaethedig mewn CGDLl | | |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | nad ydyw wedi'i fabwysiadu hyd yma?<br><br>Paragraffau 1.2.3 a 2.3.2: ymddengys bod yna wrthddweud ynglŷn ag a all y CCA greu polisi newydd gan ei fod yn cydnabod nad oes yna bolisi GNN Wylfa yn bodoli yn y cynllun datblygu presennol. A yw'r Cyngor yn ceisio osgoi prosesau arferol ar gyfer mabwysiadu polisi drwy ddefnyddio CCA, ac a fydd y CCA yma yn dod, drwy absenoldeb unrhyw ddewis arall, yn gynllun datblygu ar gyfer safle a phrosiect Wylfa? | | |
| | Gweledigaethau ac Amcanion | Mae'r weledigaeth yn ddiffygiol oherwydd ei bod yn methu â chydnabod nodwedd sylfaenol adweithyddion niwclear, sef cynhyrchu gwastraff ymbelydrol a'r goblygiadau tymor hir sy'n deillio o hynny. Mae hi hefyd yn ddiffygiol oherwydd ei bod yn methu â chydnabod y broses o ddatgomisiynu ac adfer safle. Dylai'r Cyngor rwymo hyrwyddwyr y prosiect i ymrwymiadau a disgwyliadau eglur ynglŷn â datgomisiynu. | Anghytuno. Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu ar egwyddor pŵer niwclear a phriodoldeb y safle, ac nid yw ymdrin â'r mater hwn yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae NPS EN-6 yn nodi ym mharagraff 1.1.1 bod 'Y Llywodraeth yn credu y dylai cwmnïau ynni gael y dewis i fuddsoddi mewn gorsafoedd pŵer niwclear'.<br><br>Ynglŷn â datgomisiynu, mae'r Cyngor Sir yn glynu at ei safbwynt fel y'i nodir ym mharagraff 1.2.6 y CCA drafft. | Dim newid. |
| | | Beth yw dyheadau'r Cyngor ynglŷn â chael gwared â storfeydd gwastraff ymbelydrol ar y safle? A yw'r Cyngor yn bwriadu cynnal CGD? | Mae Polisi Cenedlaethol NPS EN-6 yn nodi safbwynt Llywodraeth y DU ynglŷn â storio yn y tymor hir. Ynglŷn â'r mater o storio dros dro ar y safle, mae'r Cyngor Sir wedi nodi ei safbwynt yn EA17. Bydd hyn yn cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys gofyniad i'r datblygwr asesu effeithiau storio dros dro, yn cynnwys effeithiau radiolegol. | Yn ychwanegol at hyn, ac fel ymateb i sylwadau eraill a dderbyniwyd, bydd cyfeiriad ychwanegol yn cael ei gynnwys yn EA17 at effeithiau ymbelydrol posibl a'r angen i'w hasesu. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Cyngor Sir eisoes wedi nodi ei fod yn gwrthod cynigion ar gyfer CGD (gweler http://www.anglesey.gov.uk/empty-nav/news/press-releases-2014/april-2014/anglesey-will-not-accept-nuclear-waste/122675.article) | |
| | EA17: Storio Gwastraff Niwclear | Ail-bwysleisio paragraff 4.4.8 yn ddiamwys ac eglur. Yn benodol, a fydd y Cyngor yn trefnu ymgynghoriad lleol cyhoeddus ar gyfer unrhyw gynnig sy'n cynnwys storio gwastraff niwclear yn achos datblygiadau cysylltiedig , er eu bod ar safle Wylfa. | Nodwyd y sylwad. Nid yw ymdrin â materion mewn perthynas â'r egwyddor o storio gwastraff niwclear yn y tymor hir o fewn cwmpas CCA GNN Wylfa. | Dim newid. |
| | | Cywiro EA17 fel bod y pwynt bwled olaf yn cyfeirio at gyfranogiad ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn hytrach na 'trafodaeth rhwng y partïon', er mwyn sicrhau tryloywder llwyr. | Cytuno. Gellid ychwanegu cyfeiriad at 'ymgynghoriad cyhoeddus'. | Cynnwys cyfeiriad at 'ymgysylltu cyhoeddus' yn EA17. |
| | | Hefyd, dylai'r Cyngor nodi a fyddai'n cefnogi dirprwyo'r penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw gynnig ar gyfer storfeydd gwastraff dros dro i'r Arolygiaeth Gynllunio (o dan Ddeddf Gynllunio 2008). Dylai hefyd ddatgelu unrhyw amgylchiadau allai arwain at hyn. | Mae'r cwestiwn ynglŷn â ph'un a ellir ymdrin yn gyfreithiol â storio gwastraff niwclear dros dro fel rhan o'r GCD (ac felly drwy wneud cais i'r Arolygaeth Gynllunio) neu fel datblygiad cysylltiedig (ac felly drwy wneud cais i'r Cyngor Sir) yn dibynnu ar fanylion y cynnig y mae hyrwyddwr prosiect GNN Wylfa yn ei ddatblygu ac ar sut y dehonglir darpariaethau perthnasol Deddf Gynllunio 2008.<br><br>Nid pwrpas y CCA yw nodi sut y bydd y Cyngor yn ymateb. Fodd bynnag, o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â gwastraff a storio gwastraff fel ymateb i'r ymgynghoriad ar y CCA, bydd y Cyngor Sir yn ysgrifennu at Horizon ac yn gofyn iddynt | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | ymdrin yn fanwl â'r materion hyn, a amlinellir yng nghwmpas y CCA, yn yr ymgynghoriad PAC1 sydd i ddod. | |
| | Amrywiol | Dim eglurhad ynglŷn â pham nad yw'r Cyngor wedi ystyried EAion ar gyfer:<br><br>-Achosion o ymchwydd storm arfordirol eithafol neu faith yng nghyd-destun lefelau'r môr yn codi;<br><br>-Effaith pylsiau swmani estron anferthol ar ardaloedd arfordirol. | Nodwyd y sylwad. Mae EA19 drafft CCA GNN Wylfa yn ymdrin ag addasu i newid yn yr hinsawdd ac yn nodi beth y disgwylir i hyrwyddwr y prosiect ei wneud i sicrhau bod y datblygiad yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cynnwys achosion o dywydd eithafol. Fodd bynnag, ystyrir y gallai EA26, sy'n nodi egwyddorion datblygu allweddol mewn perthynas â'r prif safle, gynnwys pwynt(iau) bwled penodol mewn perthynas â'r angen i sicrhau bod yr GNN yn gallu gwrthsefyll risg llifogydd yn cynnwys llifogydd o ganlyniad i ymchwydd storm a swnami. | Diwygio EA26 er mwyn cynnwys cyfeiriad at yr angen i sicrhau bod y datblygiad yn gallu gwrthsefyll ymchwydd storm a swnami. |
| | | Mae'r Cyngor wedi methu egluro ei gefnogaeth a'i hyrwyddiad diamod i'r prosiect a thrwy hynny i'r CCA. Mae'n ymddangos bod yr holl CCA yn seiliedig ar gynorthwyo hyrwyddwr y prosiect. | Anghytuno. Dyluniwyd y canllawiau a geir yn nrafft CCA GNN Wylfa er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol sy'n deillio o brosiect yr GNN a gwneud y mwyaf o'r buddion. | Dim newid. |
| A030: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Cyffredinol | Mae angen atgyfnerthu'r dulliau o ymdrin ag effeithiau rhanbarthol, lliniaru a phartneriaethau rhanbarthol yn y CCA. Mae'r Datganiad Polisi Cynllunio Strategol yn ystyried bod rhaglenni sgiliau/cynlluniau prentisiaethau, cyflenwi tai a llwybr Rheilffordd a Ffordd A55 traws-Ewropeaidd yn ffactorau cymunedol strategol hanfodol yn ogystal â datblygu'r seilwaith | Nodwyd y sylwad. Prif ffocws CCA GNN Wylfa yw Ynys Môn oherwydd ei bwrpas, fel y nodir yn adran 1.2 y CCA drafft, yw, ymysg pethau eraill, bod yn ystyriaeth berthnasol wrth ystyried ceisiadau am ddatblygiadau cysylltiedig a hysbysu Adroddiad y Cyngor ar yr Effaith Leol. Mae gallu'r CCA i ystyried ac ymdrin ag | Ychwanegu testun ategol i'r EA er mwyn cyfeirio at yr angen i ystyried cysylltiadau â rhaglenni sgiliau sy'n bodoli'n rhanbarthol ac ar yr Ynys megis Llunio'r Dyfodol. Potensial i ddiwygio partneriaid cyflawni o dan |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | trafnidiaeth priodol er mwyn cynorthwyo i wireddu hynny.<br><br>O ran y pwysau sydd ei angen, mae'n bwysig ei fod yn cael ei hysbysu gan bolisi sy'n cael ei fabwysiadu'n lleol o'r dechrau. | effeithiau rhanbarthol yn gyfyngedig oherwydd nad yw'r Cyngor yn ystyried y byddai sefydlu canllawiau ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol eraill yn briodol.<br><br>Er hyn, cyfeirir at yr A55 traws-Ewropeaidd ym mharagraff 4.6.5 (Euroroute 22), at bwysigrwydd y rheilffordd, at amcan penodol y CCA (Amcan 2), at ehangu'r buddion i economi Gogledd Cymru ac at ddatblygu sgiliau, (EA2).<br><br>Derbynnir bod cyfeirio at bartneriaethau sgiliau rhanbarthol ehangach, yn arbennig yng nghyd-destun sgiliau, yn briodol, er enghraifft prosiect Llunio'r Dyfodol Menter Môn sy'n cynnwys arian gan Wynedd, a gellid cyfeirio o dan Amcan 2 at rai o'r cyrff eraill a restrir mewn mannau eraill yn sylwadau'r ymatebwyr  (gweler isod). | Amcan 2 y CCA - gweler isod. |
| | Gweledigaeth ac Amcanion | Mae'r weledigaeth fel y'i nodir ym Mharagraff 3.1.3 yn benodol ar gyfer Ynys Môn, ac nid yw'n cynnwys rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Ystyrir bod CBS Conwy yn bartner cyflawni allweddol o ran cyflawni'r amcan yn unol â 3.2.3 y CCA.  Byddai Bwrdd Sgiliau Conwy yn croesawu'r cyfle i weithio ar Raglen Ddatblygu'r Gadwyn Gyflenwi. | Nodwyd y sylwad.  Pwrpas CCA GNN Wylfa yw darparu canllawiau ar sut y bydd polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol presennol ac arfaethedig yn cael eu cymhwyso.   Felly, ni fyddai'n briodol iddo ymdrin yn benodol â materion y tu hwnt i'r Ynys.  Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r ddogfen er mwyn cydnabod potensial effeithiau rhanbarthol pan fo hynny'n briodol, a gellid nodi cyrff trawsffiniol fel partneriaid cyflawni allweddol yn Adran 3.2. | Cynnwys mwy o gyfeiriadau at effeithiau lleol yn y testun ategol pan fo hynny'n briodol.<br><br>Nodi bod Fforwm Strategol Ynys Ynni yn bartner cyflawni allweddol yn Adran 3.2. |
| | | Gall effeithiau fydd yn deillio o'r galw am lety ymestyn i awdurdodau lleol ffiniol. Potensial i | Nodwyd y sylwad.  Dylai CBS Conwy ystyried comisiynu model dwysedd petai | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | greu "model dwysedd' er mwyn nodi amcan o faint o weithwyr fydd angen llety mewn parthau teithio penodol. Dylai'r model hefyd ystyried dadleoli. Ar hyn o bryd nid yw CDLl Conwy yn cyfeirio at Wylfa Newydd, ac mae angen deall y goblygiadau. | hyn yn helpu i ddeall effeithiau posibl ar ei farchnad dai, mewn cysylltiad â'r Cyngor Sir. Nes bod dadansoddiad o niferoedd y gweithwyr a'r math o weithwyr ar gael, gall model o'r fath fod yn gynamserol. | |
| | | Gallai mwy o gystadleuaeth am letyau rhent ar yr Ynys, o ganlyniad i fewnlifiad o weithwyr adeiladu, o bosibl wthio trigolion lleol oddi ar yr Ynys er mwyn chwilio am lety, a gall hyn roi mwy o bwysau ar argaeledd tai yng Nghonwy. | Nodwyd y sylwad. Derbynnir y gall y galw am letyau ar Ynys Môn ddadleoli trigolion i awdurdodau cyfagos os na fydd niferoedd, lleoliad a'r mathau o letyau gweithwyr adeiladu yn cael ei gynllunio'n briodol. Mae CCA GNN Wylfa yn amcanu at sefydlu canllawiau a chamau lliniaru wedi eu hargymell er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol ar breswylwyr yn y farchnad dai leol bresennol, a thrwy hynny, lleihau unrhyw bosibilrwydd o ddadleoli arwyddocaol. | Dim newid. |
| | | Yn croesawu creu Cronfa Dai y dylid ei hymestyn i gynnwys awdurdodau cyfagos os gwireddir yr effeithiau a nodir mewn unrhyw astudiaeth gytunedig ar ddwysedd. | Nodwyd y sylwad. Byddai'n briodol i CBS Conwy drafod y posibilrwydd o sefydlu cronfa dai ar gyfer ei ardal gyda hyrwyddwr y prosiect. Nid yw hyn yn fater ar gyfer CCA GNN Wylfa. | Dim newid. |
| | | Byddai lletyau gwyliau gwag yn darparu hwb i'r economi leol yn ystod y tymor tawel. Gallai rhent ystafelloedd sengl hefyd fod yn fuddiol i berchnogion tai lleol. Mae Conwy yn glynu at ei safbwynt y dylai swm cymesur o arian lliniaru gael ei roi i'r rhanbarth ehangach, yn ddarostyngedig i dystiolaeth model dwysedd. | Nodwyd y sylwad. Fel awdurdod cyfagos, bydd CBS Conwy yn ymgynghorai statudol fel rhan o'r cais GCD. Felly, bydd yn gallu darparu tystiolaeth er mwyn arddangos ei safbwynt y bydd yna gymaint o effaith ar lety twristiaeth yn ei ardal fel y bydd angen lliniaru. | Dim newid. |
| | | Byddai Conwy yn croesawu'r gwahoddiad i fod yn rhan o Raglen Datblygu Cadwyn Gyflenwi ac | Nodwyd y sylwad. | Dim Newid |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | unrhyw fforwm reoli busnes arfaethedig. | | |
| | | Mae Amcan 2 y CCA yn ymdrin â chyfleoedd a buddion economaidd ehangach. Fodd bynnag, cefnogir y rhestr, pan gyfeirir at Ogledd Cymru er enghraifft o ran uwchraddio sgiliau gweithlu'r rhanbarth. Dylai'r tabl sy'n rhestru Partneriaid Cyflawni Allweddol a Chynlluniau/Rhaglenni Allweddol gynnwys rhanddeiliaid a strategaethau rhanbarthol eraill e.e. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, cynlluniau prentisiaeth rhanbarthol /isranbarthol amrywiol sy'n gysylltiedig â'r sector adeiladu e.e. Cydgynllun Prentisiaeth Adeiladu Gogledd Cymru. | Mae'r Cyngor Sir yn cytuno y dylid nodi'r partneriaid/cynlluniau cyflawni. | Ymestyn y rhestr partneriaid/cynlluniau o dan Amcan 2 er mwyn cynnwys y rhai y cyfeiriwyd atynt. |
| | | Mae angen ystyried mwy hefyd ar yr effeithiau economaidd gymdeithasol ar Wynedd, Conwy a'r Parc Cenedlaethol (e.e. os y'u hystyrir at bwrpas teithio i'r gwaith, ond hefyd o ran cyfleoedd economaidd). | Nodwyd y sylwad. Er bod yna bosibilrwydd y bydd yr effeithiau economaidd gymdeithasol fydd yn deillio o brosiect yr GNN yn ymestyn i Gonwy, Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol, cyfrifoldeb yr awdurdodau hyn fydd gofyn am i faterion o'r fath gael eu hystyried gan hyrwyddwr y prosiect (e.e. wrth ymateb i'r adroddiad cwmpasu ac yn y pen draw wrth wneud sylwadau am y Datganiad Amgylcheddol). Mae Amcan 2 yn cynnwys amcan i wneud y mwyaf o'r buddion i fusnesau yng Ngogledd Cymru. Gall y buddion yma ddeillio o economi gryfach ar Ynys Môn, a hyn yn ffocws EA1 a EA2. | Dim newid. |
| | | Adran 5.8 - mae yna Egwyddor Arweiniol ar gyfer 'gweddill Ynys Môn' ond a ddylid hefyd | Anghytuno. Mae ffocws CCA GNN Wylfa yn ymestyn i Ynys Môn yn unig wrth geisio | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | cael adran, ac Egwyddor o bosibl, ar gyfer rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Hefyd yn cwestiynu a yw egwyddor datblygu 'cronedig' yn cael ei ystyried parthed effaith mewn perthynas â phrosiectau rhanbarthol mawr eraill e.e. datblygu'r carchar newydd ger Wrecsam a'r galw parhaus am sgiliau STEM sy'n gysylltiedig â strategaeth twf AIRBUS. | dadansoddi polisi Cynllunio Lleol mabwysiedig. Felly, ni ystyrir ei bod yn briodol cynnwys egwyddorion arweiniol sy'n ceisio arwain o ran math, maint a lleoliad datblygiadau sydd y tu allan i ffiniau'r awdurdod. | |
| | Yr Iaith Gymraeg | Dylai Amcan 5 a'r asesiad Effaith gyfeirio at randdeiliaid allweddol, megis Mentrau Iaith. | Cytuno. Mae'r Cyngor Sir yn cytuno y dylid nodi Mentrau Iaith Môn fel Partner Cyflawni pwysig. | Cynnwys Mentrau Iaith Môn fel partner cyflawni allweddol o dan Amcan 5. |
| | | EA13 Yr Iaith Gymraeg - ystyried camau lliniaru ychwanegol fel yr hyrwyddir yn NCT 20 h.y. dosbarthu gofodol (effaith ar ardaloedd ble ceir % uchel o siaradwyr Cymraeg, ble mae'r Iaith Gymraeg wedi cael ei nodi fel rhan arwyddocaol o ffabrig cymdeithasol y gymuned gyfan neu ran ohoni); codi tai newydd fesul cam; tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol; contractau gwaith lleol; cefnogaeth i ddarparu llefydd mewn ysgolion Cymraeg. Gwerthfawrogir y cyfeirir at rai o'r rhain mewn mannau eraill yn y CCA, ond byddai cyfeirio atynt yma eto yn ddefnyddiol. | Cytuno. Gellid cynnwys peth o'r camau lliniaru a nodir fel enghreifftiau o dan y pwynt bwled perthnasol yn EA13. | Ychwanegu cyfeiriad at enghreifftiau mwy penodol o gamau lliniaru o dan y pwynt bwled perthnasol yn EA13. |
| | Ymrwymiadau Cynllunio | EA23 Ymrwymiadau Cynllunio - yn gofyn a ystyriwyd y posibilrwydd o ddefnyddio'r broses Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) wrth geisio cyfraniadau tuag at seilwaith, o ystyried amserlen cyflawni Wylfa a Rheoliadau ASC a gwaharddiad ar gyfraniadau Adran 106 o fis Ebrill 2015. | Bydd ASC yn cael ei ystyried fel rhan o broses y CGDLl. Mae ASC angen CDLl mabwysiedig a bydd yn destun Archwiliad/Ymchwiliad ar wahân. | Dim newid. |
| A031 | Economi a Thrafnidiaeth | Dylai ei gwneud yn amlwg bod busnesau bychain ar Ynys Môn sy'n cyflogi pobl leol yn | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at sicrhau bod unigolion | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | cael eu hannog ac yn llwyddo i ennill tendrau rhaglen adeiladu gorsaf bŵer newydd Wylfa a datgomisiynu Magnox. | a busnesau lleol yn derbyn y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer cystadlu am dendrau perthnasol. | |
| | | Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi lobio dros werth buddsoddi mewn busnesau lleol a'r economi leol. Bydd yna bwysau anferthol ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, a thybir bod y Cyngor yn ymwybodol o'r newidiadau fydd yn digwydd ar yr Ynys. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r newidiadau all ddigwydd o ganlyniad i brosiect yr GNN. Yr ymwybyddiaeth hon sydd wedi arwain at baratoi CCA GNN Wylfa, sy'n gyffredinol yn amcanu at sicrhau bod effeithiau niweidiol ar wasanaethau a chyfleusterau lleol yn cael eu lliniaru a bod cyfleoedd yn cael eu canfod er mwyn darparu buddion gwaddol parhaus drwy gyfoethogi gwasanaethau a chyfleusterau presennol a darparu rhai newydd. | Dim newid. |
| | | Yn ymwybodol y bydd y rhwydwaith drafnidiaeth yn cael ei ehangu er mwyn galluogi cludo nwyddau adeiladu. Mae'r Ffederasiwn wedi bod yn lobio dros drydaneiddio'r brif reilffordd, codi pont newydd neu 'ychwanegiad' i Bont Britannia. Bydd y tagfeydd ar yr A55 yn sylweddol oni bai bod buddsoddi yn yr arfaeth. Mae Llywodraeth Iwerddon hefyd wedi mynegi pryder ynglŷn â gohiriadau fydd yn deillio o Bont Britannia fydd yn effeithio ar y cwmnïau llongau. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cydnabod y mater ynglŷn â thagfeydd, a'r cyfeiriad yn benodol at Bont Britannia. Bydd angen i hyrwyddwr y prosiect ddangos y gellir lliniaru'r posibilrwydd o dagfeydd o ganlyniad i'r prosiect. Gall y camau lliniaru a gynigir gynnwys defnyddio rheilffordd a bydd angen sicrwydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol (yng nghyd-destun y CCA) y gellid gwireddu lliniaru o'r fath. | Dim newid. |
| | Sgiliau ac Addysg | Mae myfyrwyr a phlant ysgol yn cael eu hannog i ddilyn astudiaethau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant niwclear a chyfleoedd posibl o ran cyflogaeth yn y dyfodol. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | Twristiaeth | Dylai Bwrdd Twristiaeth Gogledd Cymru gynyddu cyllidebau hysbysebu er mwyn annog | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | mewnfudwyr i ymweld â'r prif atyniadau gyda'r bwriad o ymweld â neu dalu am lety tra'u bod yn gweithio yn Wylfa. | y prosiect gefnogi marchnata lleoliadol yn EA5. | |
| | Gwasanaethau | Mae'n rhaid i'r Heddlu fod yn ymwybodol o'r problemau posibl fydd yn deillio o fewnlifiad o weithwyr adeiladu. | Nodwyd y sylwad. Bydd angen i hyrwyddwr y prosiect nodi ac asesu'r potensial am effeithiau economaidd gymdeithasol yn cynnwys troseddu ac anrhefn. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei wneud drwy ymgynghori â'r Heddlu. Mae testun ategol EA23 drafft CCA GNN Wylfa yn rhestru camau er mwyn lleihau troseddu ac anrhefn oherwydd y posibilrwydd o fod angen trefniant cyfreithiol. | Dim newid. |
| A033 | 7. Poblogaeth a Chymunedau | Dylai hyrwyddwr y prosiect gynnwys meddygon teulu lleol yn ogystal â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn adolygu'r ddarpariaeth gofal iechyd. Dylid cynnal astudiaeth fanwl er mwyn ymchwilio i effeithiau gweithwyr adeiladwyr, ffrindiau a theuluoedd a'r diwydiannau gwasanaethau cysylltiedig. Dylid datblygu gweledigaeth ar gyfer cyfleusterau gwell mewn meddygfeydd, cymarebau llai o ran meddygon a chleifion a gwell seilwaith gofal iechyd. | Nodwyd y sylwad. Mae EA23 drafft CCA GNN Wylfa yn nodi y bydd yn ofynnol efallai i'r Cyngor Sir gyfrannu tuag at y gofynion gofal iechyd fydd yn deillio o'r GNN. Er y gallai cyfraniadau o'r fath gynnwys arian ar gyfer cyfleusterau newydd neu well mewn meddygfeydd, ni ystyrir ei bod yn briodol manylu oherwydd bydd y math o welliannau fydd eu hangen yn ddibynnol ar yr effeithiau a nodir.<br><br>Yn y cyswllt hwn, mae EA7 yn nodi y bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect weithio â'r Bwrdd Iechyd er mwyn nodi effeithiau posibl a chamau lliniaru, ac mae EA6 yn nodi y dylai hyrwyddwr y prosiect sicrhau bod cyfleusterau gofal iechyd priodol ar gael er mwyn gwasanaethu prosiect yr GNN. | Dim newid. |
| A034 | Cyffredinol | Yn cyfeirio at lythyr gan Yr Adran Ynni a Newid | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Hinsawdd sy'n egluro'r broses o ymgynghori â'r cyhoedd yn achos PSCA, ac sy'n gofyn am gyfle yn y dyfodol i gyfarch gwrandawiad ffurfiol agored. Mae'n nodi mai yn ystod y cam hwnnw y bydd cyfle ar gael i fynegi barn am dderbynioldeb GNN Wylfa neu fel arall. | cymryd bydd yr Arolygaeth Gynllunio yn cynnal gwrandawiadau agored ar ôl cyflwyno'r cais GCD ar gyfer y prif safle. | |
| | Pwrpas CCA | Pryder bod dehongliad y Cyngor o bolisi cenedlaethol a'r ymgynghoriad hwn yn disodli unrhyw ymgynghori â'r cyhoedd ar lefel genedlaethol. Hefyd yn cwestiynu sut y gall cyngor sydd wedi ei ethol yn lleol ystyried gweithredu polisi cenedlaethol gan nodi na fu refferendwm cenedlaethol ynglŷn â GNN Wylfa. | Nodwyd y sylwad. Nid yw cylch gwaith CCA GNN Wylfa yn cynnwys derbynioldeb gorsaf niwclear newydd neu'r egwyddor o ddatblygu yn Wylfa. Roedd hwn yn benderfyniad a wnaethpwyd gan Lywodraeth y DU. Nodir pwrpas y CCA yn Adran 1.2. | Dim newid. |
| | | Yn cwestiynu sut y gellir diffinio pŵer niwclear fel 'ynni carbon isel' (tudalen 5) yn arbennig pan gyflwynir tystiolaeth mewn mannau eraill bod y CCA yn dangos nad yw hyn yn wir. Hefyd dylid ystyried y deunyddiau fydd yn cael eu defnyddio wrth adeiladu a gweithredu a'r dull o ddatgomisiynu sy'n cynnwys storio a diogelwch hen danwydd yn y tymor hir. | Nodwyd y sylwad. Mae Llywodraeth y DU yn disgrifio niwclear fel 'ynni carbon isel'. Derbynnir fod PCC6 yn eithrio niwclear o'r hyn mae'n ystyried fel 'ynni carbon isel', ond tybir fod hyn yn bodoli oherwydd, at bwrpas PCC6, nid yw niwclear yn gynwysedig yn ei gylch gwaith cynllunio. Mae'r Cyngor Sir yn derbyn y bydd symiau sylweddol o garbon yn cael ei ddefnyddio wrth adeiladu'r GNN, ac felly mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi sut y gellid lliniaru hyn yn EA18. | Dim newid. |
| | | Cyfeiriad at 4.6.2 ac i'r '1 miliwn tunnell' o goncrit, ac felly'r tanwydd ffosil fydd ei angen i'w gynhyrchu. Cwestiwn ynglŷn â gallu'r porthladdoedd a'r rheilffordd i wasanaethu'r drafnidiaeth cludo fydd yn gysylltiedig â'r GNN ac y byddai tagfeydd ar y rhwydwaith yn effeithio | Nodwyd y sylwad. Amcan cychwynnol yw'r cyfeiriad, ac mae'r Cyngor Sir yn deall y bydd yn cael ei gywreinio gan hyrwyddwr y prosiect wrth i'r dyluniad ddatblygu. Mae'r Cyngor yn amcanu at flaenoriaethu trafnidiaeth ar reilffyrdd a dŵr yn hytrach na | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | ar ddefnyddwyr presennol ac yn arwain at golled economaidd yn hytrach na buddion. Gall effeithiau ar y rhwydwaith effeithio ar dwristiaeth hefyd. | ffyrdd er mwyn lleihau tagfeydd, a bydd angen i hyrwyddwr y prosiect sicrhau unrhyw welliannau i'r seilwaith fyddai'n angenrheidiol er mwyn cynnal trafnidiaeth o'r fath. Pan ddefnyddir trafnidiaeth ar y ffyrdd, mae drafft CCA GNN Wylfa yn gofyn i hyrwyddwr y prosiect nodi ble gall tagfeydd ddigwydd a chymryd camau lliniaru. | |
| | | Gall presenoldeb yr GNN effeithio ar ganfyddiad presennol twristiaid o Ynys Môn. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa (yn Adran 4.2) yn amlygu y gall prosiect yr GNN effeithio ar ganfyddiad ymwelwyr â'r Ynys, ac mae EA9 yn amcanu at sicrhau bod hyrwyddwr y prosiect yn rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau o'r fath. | Dim newid. |
| | Gwastraff | Nid yw'n bosibl i'r datblygwr ddangos beth mae'r CCA yn ei geisio mewn perthynas â gwastraff niwclear, h.y. na fydd storio yn effeithio'n niweidiol ar gymunedau lleol o ystyried y bydd angen ei storio am 140 o flynyddoedd. Mae pob cymuned wedi gwrthod storio daearegol, felly nid oes yna gyfleusterau ar gael. Yr unig ffordd o ddatrys y broblem yw gwrthod pob datblygiad niwclear newydd. | Nodwyd y sylwad. Nid yw egwyddor pŵer niwclear a storio gwastraff niwclear yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r rheoleiddwyr niwclear. Fodd bynnag, mae'r CCA drafft yn cydnabod bod yna oblygiadau i'r Ynys a'i fod yn fater y gall y Cyngor Sir ddymuno ymateb iddo yn ei Adroddiad ar yr Effaith Leol. Yn y cyswllt hwn, mae EA17 yn galw ar y datblygwr i ddarparu gwybodaeth am yr effeithiau tebygol ac i liniaru'r rhai sy'n niweidiol. Nid yw'n gofyn i hyrwyddwr y prosiect ddangos na fydd yna effeithiau. | Dim newid. |
| | Effeithiau trawsffiniol | Yn pryderu y bydd yr effeithiau fydd yn deillio o niwclear yn ymestyn y tu hwnt i Ynys Môn, Gogledd Cymru a'r DU ac i Iwerddon, ac yn cyfeirio at bolisi Llywodraeth Iwerddon a'r | Nodwyd y sylwad. Nid yw egwyddor pŵer niwclear a storio gwastraff niwclear yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r rheoleiddwyr | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | ymarferiadau y mae wedi ymgymryd â hwy yn achos tân yn Wylfa A.<br><br>Cyfeiriad at astudiaeth o'r Almaen, KIKK, sy'n cysylltu pŵer niwclear â lwcemia mewn plant. | niwclear. | |
| | | Dim cyfeiriad yn y canllawiau at reswm y Llywodraeth dros ddymuno cael ynni niwclear newydd a chysylltiad hynny â'r angen am arfau niwclear. Ail nodi'r angen am refferendwm cenedlaethol a thynnu sylw at yr effeithiau ar y rhai sy'n cloddio am wraniwm. | Nodwyd y sylwad. Nid yw egwyddor pŵer niwclear yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r rheoleiddwyr niwclear. | Dim newid. |
| A035 | Papur Pwnc 5 | Y ffordd orau o gludo'r offer mwyaf i Wylfa fyddai defnyddio ysgraffau gwaelod gwastad oherwydd bod hyn yn arbed costau gwella ffyrdd ac yn osgoi'r broblem ynglŷn â lled llwytho cymharol gyfyngedig ar y rheilffyrdd. Mae'r rheilffordd yn fwy addas ar gyfer cludo llwythi mawr o gerrig, concrit a bariau atgyfnerthu dur. Y posibilrwydd o gael rheilffordd i Rosgoch (yr hen safle Shell) a gwell ffordd i'r safle. Byddai angen gwelliannau o Gaerwen a Thwnnel Holland. Dylid gwneud y defnydd lleiaf posibl o gludo ar y ffyrdd. Mae yna gynsail o gludo deunyddiau mewn swmp ar y rheilffordd, megis y llwch codi a'r sment a gludwyd ar reilffordd i werydau storio yng ngorsaf Bangor yn ystod adeiladu'r A55. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa, a hysbyswyd gan Bapur Pwnc 5, yn amcanu at flaenoriaethu cludo ar reilffordd a dŵr yn hytrach na ffyrdd. Ystyrir bod yr union gamau fydd hyrwyddwr y prosiect yn eu dewis i symud offer a deunyddiau drwy'r dulliau hyn yn rhy fanwl ar gyfer y CCA.<br><br>Dynodir bod safle Rhosgoch yn Ardal Fenter, AF8. Mae'r CCA drafft yn nodi bod y safle'n briodol ar gyfer datblygu mewn cysylltiad â'r GNN. | Dim newid. |
| | | Paragraff 2.4.10: Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru 2205: ni lwyddodd hwn i wireddu ei amcanion. | Nodwyd y sylwad. Rhestrir y strategaeth fel dogfen bolisi, nid yw'r Papur Pwnc yn rhoi sylwadau ar lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant dogfennau. | Dim newid. |
| | | Paragraff 02/04/2012: 'dymchwel y rhwystr seicolegol ynglŷn â thrafnidiaeth rheilffordd', | Nodwyd y sylwad. Cymerwyd y cyfeiriad hwn o Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | beth mae hyn yn ei olygu? | Cymru. | |
| | | 'Ysgogi newid moddol': sut a phryd? | Nodwyd y sylwad. Cymerwyd y cyfeiriad hwn o Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru. | Dim newid. |
| | | 'Gwella'r profiad cyffredinol ar drenau': a yw hyn yn golygu teithio am ddim? | Nodwyd y sylwad. Mae hyn yn cyfeirio at ansawdd y daith, megis cyflwr y trenau, yr amgylchedd yn ac o gwmpas y gorsafoedd trenau. | Dim newid. |
| A036: Comisiynydd yr Iaith Gymraeg | Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Mae'r NCT20 newydd yn dweud y dylid seilio asesiadau ar dystiolaeth gadarn. Mae'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad i'w chael yn Adran 5 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Nid oes yna ymdrech i fapio maint y datblygiadau a sefyllfa'r iaith Gymraeg. Er enghraifft, dim data i ddangos sut mae'r datblygiad wedi cyfrannu at newidiadau i'r Iaith Gymraeg a newidiadau demograffig. Hefyd, dim data sy'n berthnasol i'r datblygiad dan sylw. Er enghraifft, gellid ystyried natur ieithyddol a demograffig y gweithlu presennol. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn derbyn mai ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd sy'n berthnasol i'r datblygiad dan sylw a'r gweithlu presennol yn Wylfa A. Nid yw'r Cyngor yn dal y wybodaeth hon. Wrth gyflwyno ei gais GCD, bydd angen i hyrwyddwr y prosiect ddarparu AEIG. Ystyrir ei bod yn fwy priodol i'r ddogfen honno gynnwys y dystiolaeth angenrheidiol. Pwrpas AEIG yn achos CCA GNN Wylfa yw asesu effeithiau posibl canllawiau'r CCA ar yr Iaith Gymraeg yn hytrach na'r GNN ei hun. | Dim newid. |
| | | O ran yr Asesiad ei hun yn adran 6, mae'r ymateb i'r cwestiwn am y boblogaeth yn cynnwys y datganiad, "Gall datblygiadau newydd ddylanwadu ar symudiad y boblogaeth mewn ardal. Gall effeithio'n gadarnhaol drwy sefydlogi poblogaethau neu hyrwyddo twf drwy fewnfudo". Efallai bod hynny'n wir, ond ni cheir tystiolaeth yn adran 5 yr asesiad sy'n cefnogi'r datganiad. Mae methu cysylltu "datblygiad" ag iaith a mewnfudo yn adran 5 yn wendid sylweddol yn yr asesiad. | Nodwyd y sylwad. Mae'r AEIG yn ymwneud â chymhwyso'r canllawiau polisi a geir yn y CCA, yn hytrach na'r effeithiau fydd yn deillio o'r GNN ei hun. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Ychydig o ystyriaeth yn unig i'r effaith ar weithlu parhaol tymor hir, faint o swyddi, y tebygolrwydd o gael eu llenwi gan y boblogaeth leol. | Nodwyd y sylwad. Ni ddarparwyd gwybodaeth fanwl gan hyrwyddwr y prosiect hyd yma am nifer y swyddi fydd yn cael eu creu yn ystod y cam gweithredu. Felly, ni yw'n bosibl rhagfynegi faint o gyfleoedd cyflogaeth fydd ar gael i bobl leol. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i hyrwyddwr y prosiect ei ystyried wrth baratoi AEIG fydd yn cael ei gyflwyno gyda'r cais ar gyfer y prif safle. Rôl CCA GNN Wylfa yw darparu canllawiau polisi, ac felly, rôl y AEIG ategol yw ystyried i ba raddau y bydd y canllawiau hyn yn effeithio'n negyddol neu'n gadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg. | Dim newid. |
| | | Cwestiwn 2 ar fewnfudo a chwestiwn 3 ar allfudo. Mae'r diffyg gwybodaeth mewn perthynas â niferoedd y swyddi tymor hir/parhaol yn wendid, sy'n golygu bod asesu effaith mewnfudo bron yn amhosibl. Mae cynllunio manwl mewn perthynas â sgiliau yn y farchnad lafur leol a chydweithio ag ysgolion a cholegau yn amlwg yn bwysig er mwyn creu effaith gadarnhaol ar y swyddi fydd yn cael eu cynnig gan y prosiect. Gall hyn arwain at ostyngiad mewn allfudo er enghraifft, a disgwylir y bydd cynllunio'n cael ei dargedu er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o swyddi yn cael eu rhoi i'r boblogaeth leol. Fodd bynnag, mae prinder tystiolaeth benodol yn yr asesiad yn golygu ei bod yn anodd iawn asesu effaith y prosiect ar fudo yn gyffredinol. | Nodwyd y sylwad. Fel uchod, roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol gan hyrwyddwr y prosiect ar y pryd ar gyfer yr GNN yn seiliedig ar dechnoleg adweithydd gwahanol. Nes bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu sy'n berthnasol i'r dechnoleg newydd, mae'n anodd i'r Cyngor Sir ragfynegi lefelau tebygol yr effeithiau negyddol a chadarnhaol. Er nad yw'n gallu gweithio â rhifau gwirioneddol, mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi gofyniad i wella sgiliau a pherfformiad addysgol yr Ynys, a dylai hynny fod yn fanteisiol i'r rhai fydd yn ceisio gwaith yn y prif safle. Mae'r cyfeiriad yn EA2. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r prinder tystiolaeth hefyd yn ei gwneud yn anodd asesu'r effaith debygol ar ysgolion lleol. Nid yw'r asesiad yn nodi maint y gweithlu parhaol na faint fydd efallai'n mewnfudo i lenwi'r swyddi. | Nodwyd y sylwad. Fel uchod, nid yw maint y gweithlu parhaol yn wybyddus, ac mae drafft CCA GNN Wylfa yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect asesu'r effeithiau y gall y prosiect eu hachosi ar ysgolion (h.y. galw am lefydd ychwanegol mewn ysgolion). Yn ychwanegol at hyn, mae'r CCA drafft yn nodi y bydd y Cyngor Sir yn gofyn i hyrwyddwr y prosiect ariannu'r angen am gyfleusterau addysgol ychwanegol petai eu hangen (EA2 a 23). | Dim newid. |
| | | Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad bod y prosiect yn debygol o effeithio'n gadarnhaol ar 16 o'r cwestiynau a ystyriwyd. Yn seiliedig ar y bylchau yn y dystiolaeth a'r data, mae'n anodd derbyn y casgliad hwn. Byddai'n fwy rhesymegol, yn seiliedig ar y prinder gwybodaeth yn yr asesiad, i ddod i'r casgliad ei bod yn "anhysbys" beth fydd yr effeithiau ar nifer o'r pynciau ar hyn o bryd, a bod angen mwy o waith ymchwil. | Nodwyd y sylwad. Mae'r casgliadau a nodir yn yr AEIG yn ymwneud â pherfformiad y canllawiau a geir yn nrafft CCA GNN Wylfa yn hytrach na phrosiect yr GNN ei hun, ac ystyrir eu bod yn rhai dilys. | Dim newid. |
| | | Wrth gyflwyno'r sylwadau uchod, rydym yn ymwybodol y bydd asesiadau eraill ar iaith yn dilyn, ac yn nodi ei bod yn hanfodol bod y dystiolaeth fwyaf cadarn a phenodol posibl yn cael ei defnyddio fel sail i'r gwaith hwnnw. Yr hyn a amlygir yn y CCA a'r AEIG yw'r angen gwirioneddol am fwy o ymchwil a dadansoddi, ac efallai y bydd angen buddsoddi mewn cyngor arbenigol er mwyn gwneud hynny. Neu, mae yna berygl na fydd hi'n bosibl asesu'r effaith yn ddigonol, a bydd hynny'n ei dro yn amharu ar ymdrechion i gynllunio camau lliniaru effeithiol a | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn derbyn bod yna ofyniad i gynnal mwy o ymchwil er mwyn deall yn iawn y potensial am effeithiau negyddol a chadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg o ganlyniad i brosiect yr GNN. Cyfrifoldeb hyrwyddwr y prosiect fydd comisiynu a chyhoeddi'r ymchwil.<br><br>Mae drafft CCA GNN Wylfa (yn EA13) yn gofyn am asesiad ieithyddol manwl fel rhan o'r cais ar gyfer y prif safle, a bod datganiadau iaith neu asesiadau effaith ar | Yn EA13, cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd ystyried effeithiau cronnol ar yr Iaith Gymraeg fyd yn deillio o'r prif safle a datblygiadau cysylltiedig. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | phriodol. | iaith yn cael eu cyflwyno gydag unrhyw gais am ddatblygiadau cysylltiedig. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall datblygu'r prif safle a safleoedd cysylltiedig yn gyfun greu effeithiau cronnol. | |
| A037: Cyngor Gwynedd | Pwrpas y CCA | Pwrpas y CCA yw darparu canllawiau ar sut fydd polisïau cael eu cymhwyso, ac yn yr achos hwn mae'n nodi sut y bydd polisïau Cynllun Datblygu presennol yr Ynys a Chynllun Datblygu Unedol Ynys Môn yn cael eu cymhwyso. Felly, ni fyddai'n briodol iddo ymdrin â materion y tu hwnt i'r Ynys. Fodd bynnag, bydd yr effeithiau tebygol fydd yn deillio o'r GNN yn ymestyn y tu hwnt i'r Ynys. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | Amcan 1. | Yn cyfeirio ar Ardal Fenter Ynys Môn, ond nid yw'n cyfeirio at y gwerth ychwanegol a allai ddeillio o gydweithio â'r tair Ardal Fenter yn y gogledd, ac yn arbennig Ardal Fenter Eryri sydd hefyd yn canolbwyntio ar y sector ynni, a gallai greu gweithgaredd i gefnogi'r agenda ynni yn y rhanbarth. | Cytuno. Gellid cyfeirio yn y CCA at weithgareddau Ardaloedd Menter eraill yng Ngogledd Cymru . | Yn 3.2.2 ychwanegu cyfeiriad at gyfleoedd i gydweithio â'r Ardaloedd Menter eraill yng Ngogledd Cymru. |
| | Amcan 2. | Dim cyfeiriad at awdurdodau eraill fel partneriaid allweddol. | Cytuno. | Ymestyn partneriaid datblygu allweddol Amcan 2 er mwyn cynnwys awdurdodau cyfagos. |
| | Amcan 6. | Mae'r amcan yn debygol o effeithio ar rwydweithiau teithio sy'n ymestyn y tu hwnt i'r Ynys, ond ni chyfeirir at hyn. Bydd y coridor trafnidiaeth / teithio yn ymestyn yn llawer pellach na'r Ynys tua'r dwyrain ac i'r de. | Nodwyd y sylwad. Cyfeirir at brif reilffordd Gogledd Cymru a Chynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru. Er y gall CCA GNN Wylfa gydnabod y bydd yr effeithiau yn ymestyn y tu hwnt i'r Ynys, ystyrir ei bod yn amhriodol ymdrin â'r materion hyn yn y ddogfen ac eithrio cyfeirio atynt mewn testun ategol. | Ychwanegu cyfeiriadau yn nhestun ategol 4.6 er mwyn cydnabod bod yr effeithiau ar rwydweithiau trafnidiaeth yn debygol o ymestyn i'r rhanbarth ehangach. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Ceir nifer o gyfeiriadau at Raglen Ynys Ynni ac at fforwm Strategol Ynys Ynni, ond dim eglurhad bod y rhaglen yn cynnwys partneriaid trawsffiniol, a bod yna ddisgwyliad/dibyniaeth ar y partneriaid trawsffiniol i gynorthwyo i sicrhau bod y buddion yn aros yn 'lleol'. | Nodwyd y sylwad.  Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod y Rhaglen a'r Fforwm yn cynnwys partneriaid trawsffiniol ac y dylai hynny gael ei adlewyrchu yn CCA GNN Wylfa. | Egluro y bydd partneriaid trawsffiniol yn bwysig er mwyn gwireddu'r buddion all ddeillio o ganlyniad i'r GNN. |
| | Cysylltiadau â Chynlluniau eraill | Er nad yw'n briodol nodi sut y byddai polisïau Cynllun Datblygu Gwynedd yn cael eu cymhwyso, dylid cydnabod y CCA a'r berthynas o ran y CGDLl, yr angen i ddangos cydweithio trawsffiniol wrth baratoi cynllun datblygu, a'r bartneriaeth drawsffiniol bresennol.<br><br>Awgrymir y dylid ychwanegu adran neu adrannau cyffredinol ar ddechrau'r ddogfen sy'n nodi, er bod y ddogfen yn canolbwyntio ar y buddion i economi'r Ynys, y bydd yna berthynas ddwy ffordd rhwng yr Ynys a'r ardal ehangach, o ran y canlynol:<br><br>• Darparu cyfleoedd fydd yn ymestyn ymhellach na'r bont o ran cyflogaeth a datblygu cwmnïau yn y gadwyn gyflenwi<br>• Y cyfle sy'n bodoli i weithwyr a chwmnïau sy'n y gadwyn gyflenwi yn yr ardal ehangach gyfrannu at GNN Wylfa<br>• Y cyfle y gall trafodaethau rhanbarthol eu creu o ran ymateb i bryderon am faint y gweithlu sydd ei angen er mwyn cadw'r buddion yn "lleol"<br>• Y gwerth ychwanegol a all ddeillio o gydweithio â'r tair Ardal Fenter yn y gogledd, ac yn arbennig Ardal Fenter Eryri sydd hefyd yn canolbwyntio ar y sector ynni, a gall greu gweithgaredd i gefnogi'r | Nodwyd y sylwad.  Mae'r Cyngor Sir yn derbyn y dylid rhoi cydnabyddiaeth ychwanegol i botensial effeithiau rhanbarthol y tu hwnt i Ynys Môn a bydd yn ystyried y geiriad a awgrymir. | Atgyfnerthu cyfeiriadau presennol at effeithiau rhanbarthol yn y testun ategol. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | agenda ynni yn y rhanbarth.<br>• Gweledigaeth Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn dangos sut mae'r datblygiad yn chwarae rhan yn yr uchelgais ehangach ar gyfer Gogledd Cymru.<br><br>Hyn, yn ogystal â'r angen i gydnabod y berthynas drawsffiniol yn y papurau pwnc. | | |
| | Diweddaru Cynlluniau a Pholisïau | Argymell bod gwybodaeth ffeithiol yn cael ei ddiweddaru cyn mabwysiadu e.e. cyhoeddwyd fersiynau diwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru a NCT23 ers paratoi'r ddogfen a'r papurau pwnc, ac mae targed tai fforddiadwy'r Llywodraeth wedi codi. | Cytuno. | Diweddaru'r cynlluniau a'r rhaglenni y cyfeirir atynt yn nrafft CCA GNN Wylfa pan fo hynny'n briodol. |
| A038 | | Datganiad bod yr ymgynghoriad hwn yn cynrychioli'r tro cyntaf i'r Cyngor ymgynghori â'r Cynghorau Cymuned ynglŷn â'r rhaglen Niwclear Newydd. | Nodwyd y sylwad.  Hyrwyddwr y prosiect sy'n gyfrifol am ymgynghori ynglŷn â'r GNN.  Mae'r Cyngor Sir, fel awdurdod cynllunio lleol, wedi penderfynu darparu canllawiau cynllunio ar ffurf CCA GNN Wylfa, ac oherwydd hynny cynhaliwyd ymgynghoriad.  Llywodraeth y DU sydd wedi penderfynu ar egwyddor pŵer niwclear a phriodoldeb y prif safle yn Wylfa. | Dim newid. |
| | | Beirniadaeth am nad yw'r cyfnod o chwe wythnos o ymgynghori yn darparu digon o amser. | Nodwyd y sylwad.  Mae'r Cyngor Sir yn credu bod chwe wythnos yn darparu digon o amser i ymateb i'r ymgynghoriad a bod hynny'n gyson ag ymgynghoriadau eraill ar ddogfennau polisi cynllunio. | Dim newid. |
| | Gweledigaeth ac Amcanion. | Yn ystyried y ceir anghywirdebau mewn perthynas â'r cyfeiriad at niwclear fel ynni carbon isel. Nid yw'r gadwyn niwclear yn hollol garbon isel. Mae'n rhaid cloddio am wraniwm, ei falu a'i gyfoethogi a'i gludo o wledydd mor bell â | Nodwyd y sylwad.  Mae Llywodraeth y DU yn disgrifio niwclear fel 'ynni carbon isel'. NPS EN-6, mae'r paragraff yn nodi: Bydd unrhyw orsaf bŵer niwclear newydd fydd yn cael ei chaniatáu o dan Ddeddf | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Namibia, Niger, Awstralia, Canada a Kazakstan. Dylid hefyd ystyried yr holl allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd am gyfnod o wyth i ddeng mlynedd o leiaf. Nid yw'r broses o ddatgomisiynu a delio â gwastraff yn garbon niwtral. Dylid hefyd cwestiynu'r datganiad bod ynni niwclear yn fforddiadwy. Cyfeirir at y ffaith bod Comisiynydd Cystadleuaeth yr Undeb Ewropeaidd yn cynnal ymchwiliad llawn ar hyn o bryd i'r ddêl ynglŷn â'r pris y cytunwyd arno gan gwmni EDF a Llywodraeth San Steffan ar gyfer Hinkley Point C. | Gynllunio 2008 yn chwarae rôl hanfodol bwysig wrth ddarparu cyflenwadau trydan dibynadwy a chymysgedd ynni diogel ac amrywiol wrth i'r DU newid i fod yn economi carbon isel.<br><br>Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y bydd adeiladu'r GNN yn cynhyrchu allyriadau carbon, ac o ganlyniad, mae wedi cynnwys EA18 yn nrafft CCA GNN Wylfa sy'n amcanu'n gyffredinol at liniaru newid yn yr hinsawdd. | |
| | | Mae'r amcan ar dudalen 27 ynglŷn â'r GNN yn cynnal a chyfoethogi ansawdd bywyd, yn ymwneud â hunaniaeth gymunedol ac yn gwarchod ei hamgylchedd arbennig yn amheus. Ni fydd gorsaf pŵer niwclear newydd yn gwireddu hyn. Ni fydd nifer sylweddol o weithwyr adeiladu, er enghraifft, yn gwarchod hunaniaeth gymunedol. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn credu y dylai hyrwyddwr prosiect yr GNN amcanu at wireddu'r amcan a nodir yn Amcan 4. Mae'r EAion a geir yn nrafft CCA GNN Wylfa yn nodi ffyrdd o wireddu'r amcan hwn, ac mae'n cynnwys gofynion i liniaru pan fo effeithiau negyddol yn cael eu creu. | Dim newid. |
| | Papurau Pwnc | Nodir bod 'gwendidau a bygythiadau' yn fwy na'r 'cryfderau a chyfleoedd'. Papur Pwnc 9, gwastraff - mae yna gyfeiriad arwynebol iawn at yr angen i storio gwastraff ymbelydrol dros dro ar y safle ymysg tudalennau sy'n manylu am bob math o wastraff domestig ac adeiladu. Oherwydd mai'r bwriad gyda Wylfa B yw defnyddio tanwydd wraniwm dwysedd uwch yn yr adweithydd dros gyfnod hirach, byddai'r gwastraff ymbelydrol ddwywaith mor boeth a | Nodwyd y sylwad. Nid yw egwyddor pŵer niwclear a storio gwastraff niwclear yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r rheoleiddwyr niwclear. Fodd bynnag, mae'r CCA drafft yn cydnabod bod yna oblygiadau i'r Ynys a'i fod yn fater y gall y Cyngor Sir ddymuno ymateb iddo yn ei Adroddiad ar yr Effaith Leol. Yn y cyswllt hwn, mae EA17 yn galw ar y datblygwr i ddarparu gwybodaeth am yr effeithiau tebygol ac i liniaru'r rhai sy'n niweidiol. Nid yw'n gofyn i hyrwyddwr y | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | dwywaith mor ymbelydrol â'r gwastraff o'r tanwydd presennol. Fel y cyfeiriwyd eisoes, mae Horizon yn cydnabod y bydd yn rhaid storio'r gwastraff hwn ar y safle am 160 o flynyddoedd, sef y cyfnod sy'n ddigonol i'r gwastraff oeri cyn ei symud i safle claddu gwastraff. Dylid nodi yma nad oes safle wedi cael ei nodi ar gyfer y gwastraff a gynhyrchir o sefydliadau niwclear Prydain yn ystod y chwe deg mlynedd diwethaf, heb sôn am safle storio ychwanegol ar gyfer gwastraff o adweithyddion niwclear trydedd genhedlaeth. Mae'r diffygion yn y papur pwnc penodol hwn yn adlewyrchu methiant y Cyngor Sir i nodi perygl sylfaenol ynni niwclear. Hyd yn oed petai gorsaf pŵer niwclear newydd arfaethedig yn cynhyrchu trydan yn ddiogel, mae'r broblem o warchod y gwastraff ymbelydrol gwenwynig sy'n bygwth iechyd pobl a'r amgylchedd am filoedd o flynyddoedd, yn ystyriaeth allweddol. Mae'r archwiliad hollol annigonol i wastraff ymbelydrol ym Mhapur Pwnc 9 ac yn y brif ddogfen yn anghymwynas fawr â thrigolion Ynys Môn. | prosiect ddangos na fydd yna effeithiau.<br><br>O ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â gwastraff a storio gwastraff, bydd y Cyngor Sir yn ysgrifennu at Horizon ac yn gofyn iddynt ymdrin yn fanwl â'r materion hyn, a amlinellir yng nghwmpas y CCA, yn yr ymgynghoriad PAC1 sydd i ddod. | |
| | Cyfleustodau | Yn y brif ddogfen yn Adran 4.7, Cyfleustodau, cyfeirir at gyflenwad dŵr ym mharagraff 4.7.3 fel a ganlyn:<br><br>"Mae Drafft Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (2013) Dŵr Cymru yn nodi y byddai yna ddiffyg o | Nodwyd y sylwad. Cyfrifoldeb statudol Dŵr Cymru yw sicrhau bod yna ddigon o ddŵr i gyflenwi busnesau a chymunedau'r Ynys, yn cynnwys gorsaf bŵer niwclear arfaethedig. Mae'r dyfyniad a gymerwyd o Ddrafft Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn dangos bod Dŵr Cymru yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd yna gynnydd yn y | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | ran cyflenwad/galw am ddŵr ar yr Ynys yn 2023/24, ond gallai'r diffyg hwn fod yn fwy a gall ddigwydd yn gynharach o ganlyniad i weithredu'r orsaf bŵer niwclear."<br><br>Codwyd y mater hwn gan Horizon tua dwy flynedd a hanner yn ôl pan fu sôn am yr angen am lawer mwy o ddŵr ar gyfer adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer niwclear newydd. Ar y pryd heriwyd Horizon i ddangos a oedd hynny'n golygu creu cronfa ddŵr newydd. Ni roddwyd ateb clir, dim ond ymdrech i leddfu pryderon drwy honni na fyddai angen creu cronfa ddŵr newydd. Fodd bynnag, mae cynnwys paragraff 4.7.3 yn dangos bod yna fygythiad ychwanegol i dir Cymru oherwydd yr angen am lawer mwy o ddŵr ar gyfer Wylfa B. Dylai Horizon a Chyngor Sir Ynys Môn ddatgelu o ble'n union fydd y dŵr ychwanegol yn dod. Mae'r adran hon o'r brif ddogfen yn enghraifft o'r hyn sy'n cuddio o dan yr wyneb ynglŷn â'r prosiect anferthol hwn. Fel yn achos yr archwiliad arwynebol ac annigonol i'r cwestiwn ynglŷn â chynhyrchu a storio gwastraff ymbelydrol, ychydig iawn o wybodaeth a roir i'r cyhoedd ynglŷn â'r cwestiynau mawr. | galw, o ganlyniad i bwysau datblygiadau cyffredinol a phwysau'r galw penodol all ddeillio o'r GNN. Bydd Dŵr Cymru yn nodi'r angen am unrhyw seilwaith ychwanegol fydd ei angen i fodloni unrhyw ragolygon am gynnydd yn y galw. Petai angen caniatâd cynllunio neu GCD ar unrhyw seilwaith newydd, bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno a bydd gan y Cyngor Sir a rhanddeiliaid eraill gyfle i gymeradwyo/gwrthod neu i roi sylwadau.<br><br>Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cydnabod y bydd yr GNN efallai yn golygu y bydd angen gwella'r seilwaith dŵr er mwyn sicrhau na effeithir yn negyddol ar gymunedau a busnesau presennol, ac mae EA15 yn nodi gofynion y Cyngor mewn perthynas â hyn. | |
| | | Mae'n achos pryder gweld Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu fel gwas i gwmni rhyngwladol mawr fel Hitachi a'i is-gwmni, Horizon. Mae'n gwbl annerbyniol bod y Cyngor yn ailgylchu | Nodwyd y sylwad. Fel y nodwyd uchod, Llywodraeth y DU benderfynodd ynglŷn ag egwyddor pŵer niwclear a dewis Wylfa fel lleoliad posibl. Felly nid yw herio penderfyniad Llywodraeth y DU yn rhan o | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | propaganda llafurus y diwydiant niwclear. Yr agwedd yw creu swyddi beth bynnag fo'r gost i'r amgylchedd, iechyd pobl, i holl ffabrig ieithyddol a diwylliannol Ynys Môn. Mae yna lwybr mwy rhesymol y gall Cyngor Sir Ynys Môn ei ddilyn, drwy hyrwyddo sawl math o ynni adnewyddadwy. Mae'r technolegau amrywiol hynny, boed yn ynni gwynt, solar, llanwol ac yn y blaen, yn aeddfedu'n dda ac yn dod yn rhatach. Nid ydynt yn bygwth iechyd pobl na'r amgylchedd. Ein dyletswydd ar ran cenedlaethau'r dyfodol yw dewis y llwybr adnewyddadwy hwnnw a pheidio â chreu problem enfawr iddynt drwy ddatblygu cenhedlaeth newydd o orsafoedd niwclear a chynhyrchu mynydd arall o wastraff gwenwynig fydd yn beryglus am filoedd o flynyddoedd. | gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol y gall adeiladu a gweithredu cyfleuster o'r fath greu effeithiau negyddol a buddion cadarnhaol sylweddol i economi, cymunedau ac amgylchedd yr Ynys. Yn y cyd-destun hwn y penderfynodd y Cyngor baratoi'r CCA, a'i bwrpas, ymysg eraill, yw darparu cyngor a chanllawiau ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor yn credu sy'n faterion lleol uniongyrchol ac anuniongyrchol pwysig.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddion cadarnhaol posibl all ddeillio o ynni adnewyddadwy. Sefydlwyd Rhaglen Ynys Ynni'r Cyngor er mwyn hyrwyddo ystod ehangach o dechnolegau ynni ac er mwyn gosod Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil, datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu yn y maes ynni. Y technolegau sy'n cael eu cynnwys yn y Rhaglen yw gwynt, llanwol, biomas a solar. | |
| A039 | Cyffredinol | Nifer o gyfeiriadau at 'mae'r Cyngor yn gobeithio..' 'dylai'r hyrwyddwr..' sy'n awgrymu bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r prosiect a'i fod yn barod i obeithio'r gorau. | Anghytuno. Nid y cyngor Sir yw'r corff penderfynu mewn perthynas â'r prif safle, ac ni all CCA GNN Wylfa ffurfio polisi newydd i'r Cyngor ychwaith. Felly, pwrpas y CCA (fel y nodir ym mharagraff 1.2.2) yw arwain yr ymgeisydd a'r penderfynwr ynglŷn â disgwyliadau'r Cyngor ar gyfer y datblygiad. | Dim newid. |
| | EA 17 | Yn cwestiynu a yw'r Cyngor yn bod y hollol agored ynglŷn â storio gwastraff niwclear dros | Nodwyd y sylwad. Nid yw storio gwastraff niwclear yn rhan o gylch gwaith CCA GNN | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | dro. Ym mharagraff cyntaf EA17, rhoir yr argraff mai mater i'w drafod ar ôl adeiladu'r orsaf bŵer yw storio dros dro - hynny yw, os bydd ei angen. Mewn gwirionedd, byddai'r hyrwyddwyr angen sicrwydd o'r cychwyn bod ganddynt yr hawl i storio dros dro, ac mae'r awgrym bod hyn yn rhywbeth na phenderfynwyd arno eisoes yn codi amheuon.<br><br>Hefyd, byddai'n fuddiol gweld cyfeiriad at y dulliau y penderfynwyd arnynt ar gyfer symud y gwastraff peryglus hwn ar ôl y cyfnod 'dros dro', faint bynnag fo hyd y cyfnod hwnnw. | Wylfa. Mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r rheoleiddwyr niwclear.<br><br>Mae paragraff 4.8.6 y CCA yn nodi: *Fodd bynnag, dylid ystyried cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff (megis storio dros dro) sydd naill ai'n rhan o ddatblygiad GNN neu'n rhan o ddatblygiad cysylltiedig.*<br><br>Cymerwyd y testun hwn o ddatganiad cynllunio cenedlaethol y Llywodraeth, NPS EN-6 (paragraff 2.11.5). O dan yr amgylchiadau y mae'r Llywodraeth yn eu hamlinellu yn 2.11.5 ac sydd felly'n cael eu nodi yn y CCA, byddai'r Cyngor , fel ymgynghorai statudol, yn cael cyfle i roi sylwadau yn ei Adroddiad ar yr Effaith Leol, neu yn achos datblygiad cysylltiedig gall benderfynu ar dderbynioldeb y cynnig. Felly drafftiwyd EA17 i ddarparu canllawiau i hyrwyddwr y prosiect ynglŷn â'r wybodaeth y bydd angen iddo ei darparu er mwyn cyfiawnhau unrhyw gynnig. | |
| | Gweledigaethau/Amcanion/Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant | Mae'r datganiad ar dudalen 25 [tudalen 23 yn y fersiwn Saesneg] ynglŷn â "Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa...yn cyfoethogi hunaniaeth a neilltuedd lleol" yn un sy'n anodd ei gredu, ac mae'n anodd credu y byddai unrhyw un arall yn ei gredu ychwaith. Hefyd, bydd y mesurau y | Nodwyd y sylwad. Pwrpas CCA GNN Wylfa yw darparu canllawiau a chyngor fydd yn arwain at wneud y mwyaf o'r buddion economaidd i'r Ynys. Ar yr un pryd, mae'r CCA drafft yn amcanu at gefnogi cymunedau a gwarchod yr | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfeirir atynt yn EA13 yn aneffeithiol.<br><br>Gellid dadlau bod cyfleoedd datblygu economaidd yn bwysicach na ffactorau ieithyddol a byddai cydnabod hynny'n fwy onest na cheisio cyflwyno dadl wan dros warchod yr iaith. | amgylchedd. Mae'r CCA drafft yn cydnabod y gall effeithiau negyddol ddeillio o'r prosiect, a phan fo hynny'n debygol o ddigwydd, mae'n nodi awgrymiadau ar gyfer lliniaru/digolledu. Nid yw'r awgrymiadau hyn yn gynhwysfawr a chyfrifoldeb hyrwyddwr y prosiect fydd nodi camau lliniaru neu ffyrdd o ddigolledu. Bydd y Cyngor Sir yn ystyried y camau hyn yn erbyn yr amcanion a nodir yn y CCA a'r prif ganllawiau a geir yn y EAion perthnasol. | |
| | Trafnidiaeth | Pam nad oes yna gyfeiriad o gwbl yn y canllawiau at gamau i warchod pobl Ynys Môn rhag ôl-effeithiau damwain? Nid fyddai'r hyrwyddwyr na'r Cyngor yn barod i gydnabod y gall damwain ddigwydd, ac ni fyddent eisiau achosi pryder i bobl drwy dderbyn posibilrwydd o'r fath yn agored a'u bod trwy hynny yn tanseilio eu hachos dros adeiladu ar yr Ynys. Mae'r diffyg cyfeiriad at symud tyrfaoedd yn dilyn damwain naill ai'n esgeulustod neu'n ddiffyg didwylledd arswydus | Nodwyd y sylwad. Mae EA7 yn nodi y gall y Cyngor Sir ofyn am gamau i gyfyngu ar oriau gwaith adeiladu ac i reoli traffig. Hefyd, mae'n nodi y gellir gosod amodau er mwyn rheoli llwybr traffig a chyfanswm y symudiadau dyddiol gan gerbydau. Mae'n ofynnol hefyd i nodi'r goblygiadau posibl i iechyd yr Ynys a'r rhanbarth ehangach (yn cynnwys ysbytai) a'r gwasanaethau argyfwng a'r adnoddau a ddarperir (gweler EA23).<br><br>Yn y DU y SRhN sy'n penderfynu ar yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. Mae | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | hyn yn cael ei weithredu o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (RhYPAGG)<br><br>Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddodd SRhN egwyddorion diwygiedig ar gyfer penderfynu ar ardaloedd cynllunio argyfwng oddi ar y safle RhYPAGG o gwmpas safleoedd â thrwydded niwclear yn y DU. Mae hyn yn golygu bod SRhN yn ystyried ffactorau ymarferol a strategol lleol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun wrth benderfynu ar yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am y broses a ddefnyddir gan y SRhN ar gael drwy fynd i http://www.onr.org.uk/depz-onr-principles.htm.<br><br>Ar ôl i'r SRhN hysbysu ynglŷn â'r ardal sydd angen cynllun argyfwng ar ei chyfer, mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori â'r holl asiantaethau sydd â chyfraniad i'w wneud wrth ei weithredu.<br><br>Yn dilyn ymgynghori â'r asiantaethau perthnasol a'r gweithredwyr, mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gynhyrchu ei gynllun argyfwng oddi ar y safle o fewn 6 mis. Bydd y cynllun yn ystyried ystod o wrth-gamau sy'n gymesur â'r risgiau a nodwyd, yn cynnwys llochesu neu ymgilio. Bydd y cynllun yn cael ei brofi mewn ymarferiad argyfwng sy'n cynnwys yr Awdurdod lleol, yr heddlu, y rheoleiddiwr, y swyddfa dywydd, cyrff iechyd cyhoeddus ac asiantaethau eraill | |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | fyddai'n rhan o unrhyw ddigwyddiad. Byddai'r penderfyniad i ymgilio neu i lochesu yn cael ei wneud yn seiliedig ar y ffactorau penodol a wynebir ar y diwrnod.<br><br>Bydd Cynllun Argyfwng yr Awdurdod Lleol yn cael ei ystyried bob tair blynedd, ar ôl i'r gweithredwr nodi'r peryglon ar y safle a'r risgiau i'r cyhoedd, neu pan fo'r gweithredwr yn gwneud newid sylweddol i weithgaredd ar y safle. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd niwclear newydd yn cael eu hystyried o dan RhYPAGG. | |
| A040: Pobl Atal Wylfa B | 2. Pwrpas | Er y derbynnir bod y datblygiad yn cael ei hyrwyddo ac y bydd yn cael ei ystyried gan Lywodraeth y DU, nid oes yna reswm i'r Cyngor ei gefnogi. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa. Mae'r Cyngor Sir yn hollol ymwybodol o'r effeithiau niweidiol posibl allai cynllun o'r fath eu creu. Yn y cyd-destun hwn, rôl CCA GNN Wylfa yw helpu i sicrhau y byddai unrhyw effeithiau negyddol fyddai'n deillio o'r prosiect yn cael eu lleihau a'r buddion yn cael eu chwyddo. | Dim newid. |
| | | Mae'n rhy gynnar i ymgynghori ar y CCA cyn mabwysiadu'r CDLl arfaethedig. Hefyd, dylid cynllunio dau CDLl er mwyn ymdrin â senarios 'gyda Wylfa' a 'heb Wylfa'. | Anghytuno. Sail CCA GNN Wylfa yw polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol presennol. Er nad yw'r CCA yn ategu'r CGDLl, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, mae'n amcanu at fod yn gyson â'r cyfeiriad | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | a nodir yn y cynllun arfaethedig.<br><br>Mae'r CGDLl yn cael ei baratoi yng nghyd-destun polisi'r DU sy'n cefnogi datblygu gorsaf bŵer niwclear yn Wylfa. O ganlyniad i hyn, ni ystyrir bod paratoi dau CGDLl yn briodol. Petai polisi Llywodraeth y DU yn newid mewn perthynas â datblygiad niwclear yn Wylfa, yna gallai hynny ysgogi adolygiad cynnar o'r CGDLl. | |
| | | Mae'r CCA yn ddiffygiol oherwydd nad yw'n delio â datgomisiynu Wylfa B ac ychydig o gyfeirio a wneir at wastraff niwclear. | Anghytuno. Am y rhesymau a nodir ym mharagraff 1.2.6 drafft CCA GNN Wylfa, nid yw'r CCA yn ystyried datgomisiynu'r GNN oherwydd yr anhawster o ran rhagfynegi cyfeiriad polisi cynllunio yn y dyfodol a'r amgylchiadau amgylcheddol ac economaidd gymdeithasol cyffredinol fydd efallai'n bodoli bryd hynny (sy'n debygol o fod ymhen 50 mlynedd). | Dim newid. |
| | | Dim cyfeiriad at gynllunio at argyfwng. | Yn y DU y SRhN sy'n penderfynu ar yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. Mae hyn yn cael ei weithredu o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (RhYPAGG) | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddodd SRhN egwyddorion diwygiedig ar gyfer penderfynu ar ardaloedd cynllunio argyfwng oddi ar y safle RhYPAGG o gwmpas safleoedd â thrwydded niwclear yn y DU. Mae hyn yn golygu bod SRhN yn ystyried ffactorau ymarferol a strategol lleol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun wrth benderfynu ar yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am y broses a ddefnyddir gan y SRhN ar gael drwy fynd i http://www.onr.org.uk/depz-onr-principles.htm.<br><br>Ar ôl i'r SRhN hysbysu ynglŷn â'r ardal sydd angen cynllun argyfwng ar ei chyfer, mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori â'r holl asiantaethau sydd â chyfraniad i'w wneud wrth ei weithredu.<br><br>Yn dilyn ymgynghori â'r asiantaethau perthnasol a'r gweithredwyr, mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gynhyrchu ei gynllun argyfwng oddi ar y safle o fewn 6 mis. Bydd y cynllun yn ystyried ystod o wrth-gamau sy'n gymesur â'r risgiau a nodwyd, yn cynnwys llochesu neu ymgilio. Bydd y cynllun yn cael ei brofi mewn ymarferiad argyfwng sy'n cynnwys yr Awdurdod lleol, yr heddlu, y rheoleiddiwr, y swyddfa dywydd, cyrff iechyd cyhoeddus ac asiantaethau eraill fyddai'n rhan o unrhyw ddigwyddiad. Byddai'r penderfyniad i ymgilio neu i lochesu yn cael ei wneud yn seiliedig ar y ffactorau penodol a wynebir ar y diwrnod. | |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd Cynllun Argyfwng yr Awdurdod Lleol yn cael ei ystyried bob tair blynedd, ar ôl i'r gweithredwr nodi'r peryglon ar y safle a'r risgiau i'r cyhoedd, neu pan fo'r gweithredwr yn gwneud newid sylweddol i weithgaredd ar y safle. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd niwclear newydd yn cael eu hystyried o dan RhYPAGG. | |
| | | Yn deall bod fersiwn fyrrach o'r CCA wedi cael ei baratoi ar gyfer y cyhoedd ond nad yw wedi cael ei ddefnyddio. Yn gofyn am rownd ychwanegol o ymgynghori gan ddefnyddio ffurf sy'n haws ei hysbysu a'i dreulio. | Anghytuno. Ni ddarparodd y Cyngor Sir fersiwn fyrrach o ddrafft CCA GNN Wylfa a'i farn yw bod yr ymgynghoriad ar y CCA wedi ateb y gofynion statudol angenrheidiol, ei fod yn gynhwysfawr ac yn briodol. | Dim newid. |
| | 3. Gweledigaeth | Yn anghytuno â'r Weledigaeth. Nid yw'r swyddi yn gynaliadwy, bydd ansawdd bywyd yn gwaethygu a bydd cymeriad unigryw'r ardal leol dan fygythiad. Mae'r pwyslais yn rhy gadarnhaol ac ychydig o gyfeirio a wneir at y peryglon sy'n gysylltiedig â'r math hwn o ddatblygiad. | Anghytuno. Pwrpas y Weledigaeth yw nodi dyheadau'r Cyngor ynglŷn â'r hyn yr hoffai ei wireddu yn y tymor canolig a hir. | Dim newid. |
| | 4. Amcanion | Yn anghytuno â'r amcanion.<br><br>Amcan 1. Mae'r Cyngor yn dibynnu ar Wylfa B fel prif elfen cyflawni Rhaglen Ynys Ynni. Mae hyn ar draul dewisiadau 'ynni gwyrdd' eraill. Mae'r Alban yn enghraifft sy'n dangos y gall y rhain fod yn ysgogwyr allweddol o ran yr | Anghytuno. Mae'r GNN yn un o nifer o brosiectau sy'n rhan o Raglen Ynys Ynni. Mae'n bwysig nodi bod prosiectau arfaethedig eraill yn cynnwys cynlluniau ynni gwynt ar y môr ac ynni llanwol. At y diben hwn, mae Amcan 1 drafft CCA GNN | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | economi. Mae sefydliad yr ymatebydd wedi cynhyrchu "Maniffestos Môn" sy'n nodi sut y gellir cefnogi datblygiad economaidd yr Ynys. | Wylfa yn amcanu at hyrwyddo datblygiadau ynni carbon isel. | |
| | | Amcan 2. Bydd y prosiect yn denu gweithwyr o du hwnt i'r Ynys a Gogledd Cymru. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd prosiect yr GNN yn arwain at weithwyr yn mewnfudo. Fel ymateb, mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at wneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth fydd y prosiect yn ei gynhyrchu i drigolion lleol. | Dim newid. |
| | | Amcan 3. Mae'r risgiau i gymunedau lleol yn fwy na'r buddion a dybir. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn llawn sylweddoli y gallai prosiect GNN Wylfa, os na chaiff ei gynllunio'n briodol, effeithio'n niweidiol ar gymunedau'r Ynys. Fodd bynnag, amcan canolog drafft CCA GNN Wylfa yw lleihau'r effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o'r buddion yn y cyswllt hwn. | Dim newid. |
| | | Amcan 4. Yn methu gweld sut y bydd ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr yn gwella. | Nodwyd y sylwad. Mae'r amcan yn amcanu at sicrhau y bydd ansawdd bywyd trigolion yr Ynys a'r ymwelwyr yn gwella. Hyn sy'n sail i’r fframwaith trosfwaol ar gyfer y canllawiau dilynol a geir yn nrafft CCA GNN Wylfa. | Dim newid. |
| | | Amcan 5. Yn methu gweld sut y bydd mewnlifiad o weithwyr yn cryfhau hunaniaeth unigryw. | Nodwyd y sylwad. Mae'r amcan hwn yn amcanu at warchod ac atgyfnerthu hunaniaeth yr Ynys. Hyn sy'n sail i | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | fframwaith trosfwaol y canllawiau dilynol a geir yn nrafft CCA GNN Wylfa sy'n cynnwys camau a ddyluniwyd i leihau'r effeithiau posibl fydd yn deillio o fewnlifiad o weithwyr ac yn sicrhau y bydd ansawdd bywyd trigolion yr Ynys ac ymwelwyr yn gwella. | |
| | | Amcan 6. Amcan clodwiw, ond nid yw'n realistig. | Anghytuno. Pwrpas CCA GNN Wylfa yw sicrhau bod seilwaith a chyfleusterau yn fanteisiol i gymunedau'r Ynys a chefnogi prosiect yr GNN. | Dim newid. |
| | | Amcan 7. Amhosibl ei wireddu. | Anghytuno. Mae'r amcan yn amcanu at sicrhau bod prosiect GNN Wylfa yn gwarchod a chyfoethogi amgylchedd yr Ynys. Hyn sy'n sail i fframwaith trosfwaol y canllawiau dilynol a geir yn nrafft CCA GNN Wylfa sy'n cynnwys camau a ddyluniwyd i leihau'r effeithiau niweidiol posibl sy'n gysylltiedig â phrosiect yr GNN ar yr amgylchedd ac yn gwneud y mwyaf o'r buddion. | Dim newid. |
| | 5. Canllawiau | Ddim yn cytuno. Nid yw amaeth yn cael ei nodi fel pwnc ar wahân er bod 26.2% o'r busnesau yn | Nodwyd y sylwad. Er bod y Cyngor Sir yn cydnabod pwysigrwydd amaeth i'r economi leol, ni ystyrir bod angen cynnwys pwnc | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | perthyn i'r sector hwn. | penodol ar gyfer y sector yma. Mae EA3 yn amcanu at warchod busnesau presennol ( all gynnwys gweithgareddau amaethyddol) tra bod EA20 yn amcanu at leihau faint o'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas a gollir. | |
| | | Byddai disgwyl i'r strwythurau sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi'r gymuned a chynnal trefn gael eu trafod o dan bwnc ar wahân. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn ystyried yr ymdrinnir yn ddigonol â seilwaith cymunedol a'r ddarpariaeth gwasanaethau yn Adran 4.2 drafft CCA GNN Wylfa | Dim newid. |
| | | Cynsail y ddogfen yw y gellir lliniaru "effeithiau niweidiol sylweddol" yn effeithiol. Mae hyn yn amhosibl oherwydd natur eithriadol beryglus y diwydiant niwclear, ac oherwydd bod hwn yn brosiect mor anferthol mewn ardal hyfryd sydd â phoblogaeth gymharol isel. Yr unig reswm dros leoli gorsaf bŵer niwclear yn Wylfa yw nad oes yna boblogaeth uchel fyddai angen ei hadleoli petai damwain yn digwydd. Wedi'r cyfan, mae'n rhesymol cynhyrchu trydan mor agos â phosibl i'r ardal ble mae'r galw ar ei fwyaf, hynny yw, mewn ardaloedd ble mae'r boblogaeth yn uchel. | Nodwyd y sylwad. Nid pwrpas CCA GGN Wylfa yw mynegi barn am briodoldeb prosiect GNN Wylfa, a pholisi'r DU sydd wedi sefydlu'r egwyddor ynglŷn â hynny. | Dim newid. |
| | 6. Datblygiad Economaidd | Ddim yn cytuno. Mae'r cynsail fod Wylfa B yn llesol i'r Ynys yn anghywir. Mae canolbwyntio ar Wylfa B wedi amharu ar ddatblygiad economaidd yr Ynys, a cheir cyfeiriadau at | Anghytuno. Mae prosiect yr GNN yn un o nifer o brosiectau sy'n rhan o Raglen Ynys Ynni. Mae'n bwysig nodi bod prosiectau arfaethedig eraill yn cynnwys cynlluniau | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | ddiffyg ymatebion cadarnhaol gan y Cyngor i "Maniffesto Môn". Mae dibyniaeth ar niwclear newydd gyda phroblemau posibl ynglŷn â chymhorthdal (cyfeiriad at Hinkley C) yn golygu na fydd gan y Cyngor gynlluniau i droi atynt pe na bai'n digwydd.<br><br>Sylwadau ar rai Egwyddorion Arweiniol unigol: | ynni gwynt ar y môr ac ynni llanwol. | |
| | | EA1. Nid yw niwclear yn garbon isel pan ystyrir y broses adeiladu. | Nodwyd y sylwad. Mae Llywodraeth y DU yn diffinio cynhyrchu niwclear fel ynni carbon isel. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gweithgareddau adeiladu yn debygol o arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fel ymateb, mae EA18 drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at leihau allyriadau drwy dechnegau dylunio ac adeiladu. | Dim newid. |
| | | EA2. Er ei fod yn glodwiw ar y cychwyn, mae'n seiliedig ar y cynsail y bydd Wylfa'n cael ei adeiladu. | Nodwyd y sylwad. Natur CCA GNN Wylfa yw tybio y bydd prosiect yr GNN yn mynd yn ei flaen. | Dim newid. |
| | | EA3. Bydd difrod i dir ac amgylchedd yn anochel. Pam cyfeirio at ddatgomisiynu yn groes i 1.2.6. | Nodwyd y sylwad. Mae'r cyfeiriad at ddatgomisiynu yn EA3 yng nghyd-destun safleoedd datblygiadau cysylltiedig (yn ystod y cyfnod adeiladu'n unig y bydd nifer ohonynt yn angenrheidiol, ac felly bydd angen eu datgomisiynu) ac nid yr GNN ei | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | hun. | |
| | | EA4. Er y bydd yna gyfleoedd efallai i fusnesau lleol, y profiad wrth adeiladu Wylfa A oedd colli gweithwyr a aeth i weithio yno. Mae'n well ariannu datblygiad economaidd o fath arall, a chyfeiriad at ffatri dyrbinau gwynt Siemens. | Nodwyd y sylwad. Un o brif ddibenion Rhaglen Ynys Ynni yw cynyddu'r nifer o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i drigolion yr Ynys a chodi lefelau incwm. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys nifer o fesurau a ddyluniwyd i gefnogi'r amcan hwn. Yn y cyd-destun hwn, dyhead y Cyngor Sir yw bod mathau eraill o ddatblygiadau ym maes ynni, megis ynni gwynt ar y môr, yn cyfrannu at wella incwm. | Dim newid. |
| | 7. Twristiaeth | Anghytuno, nid yw'n bosibl creu amgylchiadau gwaeth nag adeiladu gorsaf bŵer niwclear a cheisio cynnal "Ynys sy'n gofalu am ei hasedau naturiol ac sy'n croesawu ymwelwyr". Yn cwestiynu'r effeithiau ar dwristiaeth wrth i weithwyr feddiannu gwestai/lletyau gwely a brecwast. Mae'n amhosibl i'r datblygwr beidio effeithio'n niweidiol ar yr economi twristiaeth, ac mae dibynnu ar Groeso Cymru yn twyllo'r cyhoedd. | Nodwyd y sylwad. Mae'r canllawiau a geir yn nrafft CCA GNN Wylfa yn benodol yn amcanu at sicrhau na fydd prosiect yr GNN yn effeithio'n niweidiol ar dwristiaeth, yn cynnwys mewn perthynas â'r sector lletyau. | Dim newid. |
| | 8. Poblogaeth a Chymunedau | Yn anghytuno ac yn dyfynnu: "Nid yw diogelwch yr GNN yn cael rhagor o ystyriaeth yn y CCA hwn". Y rheswm a roir yw mai cyfrifoldeb Swyddfa'r Rheoleiddiwr Niwclear a Chyfoeth Naturiol Cymru yw rheoleiddio diogelwch. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn darparu canllawiau sy'n benodol leol ar bolisi cynllunio cenedlaethol a lleol presennol. Mae NPS EN-6 (ym mharagraff 3.2.10) yn nodi y dylai'r Arolygaeth | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwaith y Cyngor Sir yw gwarchod iechyd a bywydau trigolion yr Ynys. Felly dylid dangos mwy o ddiddordeb yn y pwnc. Codwyd cwestiynau mewn perthynas â chynllunio at argyfwng. Hefyd, mae'n hanfodol monitro iechyd pobl yn y tymor hir. | Gynllunio weithredu ar y sail y bydd y gyfundrefn reoleiddio yn cael ei gymhwyso a'i orfodi'n briodol er mwyn gwarchod iechyd pobl. Ni all y CCA fod yn ysgogwr polisi newydd ac felly ni all ystyried yr effeithiau ar iechyd sy'n gysylltiedig â gweithredu'r GNN. | |
| | | Mae paragraffau 4.3.10 i 4.3.13 EA9 yn cyfeirio at liniaru effaith mewnlifiad o weithwyr i'r Ynys. Ni fyddai'n bosibl integreiddio mewnlifiad o'r fath yn llwyddiannus, a byddai natur ein cymunedau yn newid am byth, yn cynnwys effaith niweidiol ar yr Iaith Gymraeg. Nid yr unigolion yw'r broblem, ond yr anhawster ynglŷn ag integreiddio'r niferoedd arfaethedig. | Nodwyd y sylwad. Mae mewnlifiad o weithwyr adeiladu sy'n gysylltiedig â phrosiect yr GNN yn anochel. Fel ymateb, mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys amrywiaeth o ganllawiau er mwyn cefnogi integreiddio gweithwyr adeiladu â chymunedau presennol yr Ynys. Hefyd, mae'r CCA yn amcanu at sicrhau y byddai cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â phrosiect yr GNN o fudd i drigolion lleol, a gall hynny helpu i leihau'r nifer o weithwyr o du hwnt i'r Ynys. | Dim newid. |
| | 9. Llety Gweithwyr Adeiladu | Ddim yn cytuno. Yn cwestiynu niferoedd yr anheddau a nodwyd gan Gynghorau Ynys Môn a Gwynedd ac yn nodi y dylid pennu nifer y tai drwy ymgynghori'n uniongyrchol â chymunedau lleol. Yn credu bod nifer yr anheddau a nodir wedi cael ei ysgogi gan Wylfa B. Cyfeiriad at geisiadau blaenorol i ddatblygu dau fersiwn o'r CDLl. Adeiladu tai fforddiadwy, ond dylid seilio'r | Nodwyd y sylwad. Mae'r gofynion ynglŷn â thai a geir yn y CGDLl arfaethedig y tu hwnt i gwmpas y CCA hwn, a bydd yn destun ymgynghoriad ac archwiliad ar wahân mewn Archwiliad Cyhoeddus beth bynnag. Fodd bynnag, mae'r CCA drafft yn amcanu at sicrhau na fydd lletyau gweithwyr adeiladu yn effeithio'n niweidiol ar y farchnad dai leol, ac y bydd hynny, | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | niferoedd ar yr hyn sydd ei angen. | pan fo'n bosibl, yn creu gwaddol drwy ateb anghenion lleol yn cynnwys tai fforddiadwy.<br><br>Fel y nodir uchod, ni ystyrir bod paratoi dau CGDLl yn briodol. Petai polisi Llywodraeth y DU yn newid mewn perthynas â datblygiad niwclear yn Wylfa, yna gallai hynny ysgogi adolygiad cynnar o'r CGDLl. | |
| | 10. Yr iaith Gymraeg a threftadaeth Ddiwylliannol | Ddim yn cytuno. Yn ddiolchgar bod y cyngor yn cydnabod yr iaith Gymraeg, ond yn siomedig nad yw'n cael adran a phapur pwnc ar wahân. Mae'n hanfodol bod ystyriaethau ieithyddol yn rhan o'r broses gynllunio. Rydym yn credu bod darparu swyddi addas i bobl leol yn rhan ganolog o gefnogi'r iaith, ond os mai'r pris i'w dalu yw mewnlifiad o bobl ddi-gymraeg bydd yr Iaith Gymraeg yn gwanhau. Byddai'n llawer gwell datblygu economi amlweddog ac amrywiol heb orddibyniaeth ar un prif gyflogwr neu un sector penodol. Mae maint prosiect Wylfa B yn rhy fawr i alluogi llwyddiant mesurau i gefnogi a chryfhau'r Iaith Gymraeg. Mae ffigyrau'r cyfrifiad yn dangos pa mor anodd yw gwneud hynny o dan yr amgylchiadau presennol. Mae'n debygol y bydd yr holl ymdrechion i ddysgu Cymraeg ac i integreiddio mewnfudwyr yn aflwyddiannus, hyd yn oed os bydd y datblygwr yn cyfrannu. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cytuno bod yr Iaith Gymraeg yn fater cynllunio allweddol. Yn y cyd-destun hwn, mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys adran ar wahân ar yr Iaith Gymraeg a diwylliant (Adran 4.5). Ymdrinnir â'r iaith Gymraeg hefyd ym Mhapur Pwnc 10: Poblogaeth a Chymuned, mae'r CCA drafft ei hun wedi bod yn destun Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg.<br><br>Un o amcanion pwysig yr CCA drafft yw gwarchod, a phan fo'n bosibl, atgyfnerthu'r Iaith Gymraeg a diwylliant (gweler EA13). Fodd bynnag, nid rôl y CCA yw ystyried egwyddor datblygu gorsaf bŵer niwclear yn Wylfa. Mae hynny wedi'i sefydlu ym mholisi'r DU. | Dim newid. |
| | 11. Trafnidiaeth | Ddim yn cytuno. Bydd trafnidiaeth a thraffig yn | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | hunllefus fel mae enghreifftiau o ddatblygiadau tebyg o gwmpas Ewrop yn ei ddangos. Ni fydd hyd yn oed defnyddio rheilffyrdd a dŵr yn ddigon i leddfu'r cynnydd mewn traffig. | Wylfa yn cydnabod bod y prosiect GNN yn debygol o gynhyrchu nifer sylweddol o symudiadau cerbydau allai effeithio ar rwydwaith trafnidiaeth presennol yr Ynys. Fel ymateb, mae EA14 yn nodi bod y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect asesu effeithiau'r GNN ar drafnidiaeth yn llawn a pharatoi Cynllun Trafnidiaeth manwl. Mae'r CCA drafft hefyd yn nodi mesurau er mwyn helpu i leihau trymder y traffig sy'n gysylltiedig â phrosiect GNN Wylfa a (gan ddefnyddio gwaith cronfa ddata presennol) ble mae gwelliannau i rwydwaith seilwaith trafnidiaeth yn debygol o fod yn angenrheidiol. | |
| | 12. Cyfleustodau | Ddim yn cytuno. Mae'r ddogfen yn cydnabod y pwysau fydd ar gyfleustodau os bydd Wylfa B yn cael ei hadeiladu. Mae EA15 yn nodi ffyrdd o liniaru'r risgiau ond, unwaith eto, mae'n rhaid cwestiynu maint y prosiect mewn ardal fel Ynys Môn. Pwy fydd yn cael blaenoriaeth os bydd yna brinder dŵr? Wylfa B? Trigolion yr Ynys? Busnesau eraill ar yr Ynys? Ffermwyr llaeth? Pam na chyfeirir at y ffaith bod trafodaethau wedi cael eu cynnal eisoes â Dŵr Cymru? Mae hyn mor sylfaenol fel ei bod bron yn anghredadwy nad yw hyn wedi cael ei drafod yn | Nodwyd y sylwad. Fel yr amlygwyd yn yr ymateb, mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi'n eglur bod angen i hyrwyddwr y prosiect, mewn cysylltiad â Dŵr Cymru, ystyried cyflenwad dŵr a'r galw am ddŵr. Fel cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y mater hwn, mae'r Cyngor hefyd wedi comisiynu Astudiaeth Cylch Dŵr sydd wedi amlygu y gallai galw ychwanegol fyddai'n gysylltiedig â phrosiect yr GNN roi pwysau sylweddol ar gyflenwadau dŵr.<br><br>Fel ymateb, mae EA15 a EA21 yn nodi'n | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | fanwl hyd yma. | eglur bod y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect/darparwyr cyfleustodau uwchraddio seilwaith mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd yna brinder dŵr yn deillio o brosiect yr GNN. | |
| | 13. Gwastraff | Ddim yn cytuno. Byddai Wylfa B yn cynhyrchu gwastraff hynod radiowenwynig newydd ac ychwanegol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a byddai'n beryglus am gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Pam fod Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn ofni cyfaddef a derbyn y bydd Wylfa B yn cynhyrchu symiau anferthol o wastraff ymbelydrol a gwenwynig peryglus iawn? Pam fod y Cyngor Sir yn ei weledigaeth (adran 3.1 y brif ddogfen) yn gwadu ei fod yn frwdfrydig yn croesawu ac yn dathlu cynhyrchu mynydd o wastraff niwclear yn Wylfa, gwastraff y mae'r Cyngor yn gweddïo bydd yn cael ei symud i ardd gefn Cyngor Sir rhywun arall? Mae'r Cyngor yn hamddenol yn honni ym mharagraff 1.3.8 Papur Pwnc 9: Gwastraff nad oes cyfrifoldeb statudol ar CSYM i ddarparu cyfleusterau ar gyfer gwastraff niwclear, ac ar yr un pryd mae'n llawen yn hyrwyddo swm enfawr o wastraff niwclear ymbelydrol iawn ar Ynys Môn y bydd angen ei ynysu a'i storio am filoedd o flynyddoedd gan effeithio ar genedlaethau'r dyfodol. Mae gwastraff niwclear yn fater sy'n cael llai o sylw | Nodwyd y sylwad. Mae'r egwyddor o ddatblygu gorsaf niwclear newydd eisoes wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth y DU yn NPS EN-6. Mae paragraff 2.11.5 NPS En-6 yn nodi "Ni ddylai cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff...gael eu hystyried gan y CCS." O ganlyniad i hynny, mae'r sgôp i CCA GNN Wylfa ystyried egwyddor cynhyrchu a storio gwastraff niwclear yn gyfyngedig. Mae'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer trwyddedu a gweithredu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y cyswllt hwn yn fater i Swyddfa'r Rheoleiddiwr Niwclear (SRhN).<br><br>Er hyn, mae'r Cyngor Sir yn cydnabod yn llwyr bryderon y cyhoedd mewn perthynas â storio gwastraff dros dro, ac yn y cyswllt hwn mae EA17 yr CCA drafft yn amcanu at sicrhau na fydd unrhyw gynigion ar gyfer cyfleusterau o'r fath yn creu effeithiau economaidd gymdeithasol niweidiol. Hefyd, o ystyried yr ymateb hwn a | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | yn y ddogfen na rheoli gwastraff cynaliadwy. Nodir (paragraff 4.8.6) y "dylid ystyried cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff (megis storio dros dro) sydd naill ai'n rhan o ddatblygiad GNN neu'n rhan o ddatblygiad cysylltiedig". Onid storio dros dro yw'r bwriad yn Wylfa B, er bod y cyfnod dros dro yn gyfnod o dros ganrif, ac felly dylai CSYM fod yn rhan o'r broses? Ni ellir cyfiawnhau cynhyrchu mwy o wastraff niwclear pan nad yw problem cael gwared â gwastraff presennol wedi cael ei ddatrys. Cyflwynir achos Cumbria fel enghraifft o rywle'n gwrthod bod yn lleoliad ar gyfer storio tymor hir. | sylwadau a dderbyniwyd gan eraill ynglŷn â gwastraff a storio gwastraff, bydd y Cyngor Sir yn ysgrifennu at Horizon ac yn gofyn iddynt ymdrin yn fanwl â'r materion hyn, a amlinellir yng nghwmpas y CCA, yn yr ymgynghoriad PAC1 sydd i ddod. | |
| | 14. Newid yn yr Hinsawdd | Yn anghytuno bod niwclear yn ynni carbon isel. Nid yw'r cyfeiriad at liniaru yn ystod y gwaith adeiladu yn ddiffuant. Pe na bai yna ddatblygiad ni fyddai angen lliniaru yn erbyn defnyddio carbon ar gyfer adeiladu. Nodir (4.9.4) bod y Cyngor Sir yn cefnogi ynni adnewyddadwy, a chefnogir hyn. Y broblem yw, hyd yma, nid yw'r adnoddau o ran pobl na deunyddiau wedi cael eu cyfeirio at y maes hwn. | Nodwyd y sylwad. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth y DU yn diffinio cynhyrchu niwclear fel ynni carbon isel. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gweithgareddau adeiladu yn debygol o arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fel ymateb, mae EA18 drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at leihau allyriadau drwy dechnegau dylunio ac adeiladu. | Dim newid. |
| | 15. Yr Amgylchedd Naturiol | Mae'r safle a glustnodwyd ar gyfer Wylfa B yn ddeg gwaith mwy o ran arwynebedd tir na'r Wylfa presennol. Felly, mae'n hollol amhriodol trafod camau i liniaru effeithiau gwaith adeiladu Wylfa B ar fioamrywiaeth, geoamrywiaeth a'r | Nodwyd y sylwad. Nodir safle'r orsaf pŵer niwclear newydd arfaethedig yn NPS EN-6, ac o ganlyniad nid yw lleoliad yr GNN yn fater ar gyfer CCA GNN Wylfa. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y posibilrwydd y | Cynnwys cyfeiriad at lwybr yr Arfordir yn EA20, EA26 a'r testun ategol. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | tirlun. | bydd adeiladu a gweithredu'r GNN yn creu effeithiau amgylcheddol sylweddol, ac fel ymateb, mae'r CCA drafft yn nodi'n eglur beth yw safbwynt y Cyngor mewn perthynas â'r angen i warchod a chyfoethogi amgylchedd naturiol yr Ynys (gweler EA20). Mae EA20 hefyd yn sefydlu set o egwyddorion datblygu allweddol mewn perthynas â'r prif safle sy'n cynnwys mesurau i leihau'r effeithiau fydd yn deillio o ddatblygu ar y prif safle ar amgylchedd naturiol yr Ynys. | |
| | | Nodir bod "bron holl arfordir Ynys Môn wedi'i ddynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol" (paragraff 4.10.1). Mae'n rhyfedd nodi mai un o'r ychydig eithriadau i hyn yw'r ardal ble bwriedir adeiladu Wylfa B. I lygaid y lleygwr, nid oes llawer iawn o wahaniaeth, os o gwbl, rhwng yr ardaloedd ffiniol a Wylfa, os tynnir ymaith yr orsaf bŵer bresennol. Buasem yn dadlau bod hyn yn gyfleus iawn i ddatblygwr y safle. | Nodwyd y sylwad. Dynodwyd ardaloedd arfordirol Ynys Môn fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn 1966 a chadarnhawyd hynny ym 1967, ac mae'n ddynodiad cenedlaethol. Felly, nid yw ei ddynodiad yn fater ar gyfer y Cyngor Sir na CCA GGN Wylfa. Fodd bynnag, mae'r CCA drafft yn cynnwys gofyniad i hyrwyddwr y prosiect leihau'r effeithiau ar y tirlun a'r effeithiau gweledol sy'n gysylltiedig â datblygu'r prif safle mewn perthynas â'r AHNE (gweler EA26). | |
| | | Fel y soniwyd eisoes, mae Llwybr yr Arfordir hefyd yn yr ardal, a byddai Wylfa B yn effeithio'n niweidiol ar y llwybr. | Nodwyd y sylwad. | Cynnwys cyfeiriad at lwybr yr Arfordir yn EA20, EA26 a'r testun ategol. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhan ganolog o'r pwnc hwn yw'r ffaith nad oes yna drafodaeth o gwbl ynglŷn ag effaith deunyddiau ymbelydrol ar yr amgylchedd, ar raddfa fawr neu fach. Dylid cynnwys hyn. | Gweler y cynnwys uchod. | Dim newid. |
| | 16. Amgylchedd Hanesyddol | Byddai bodolaeth Wylfa B yn bygwth yr holl Amgylchedd Hanesyddol. Petai trychineb megis Fukushima yn digwydd, byddai'n rhaid i ni anghofio am dreftadaeth ein cyndeidiau. Byddai hyn o bosibl yn golygu methu cynnal seremoni arwisgo tywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon. | Nodwyd y sylwad. Fel y nodwyd uchod, mae'r egwyddor o ddatblygu gorsaf niwclear newydd ar Ynys Môn eisoes wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth y DU. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys canllawiau penodol a ddyluniwyd i warchod a chyfoethogi amgylchedd hanesyddol yr Ynys. | Dim newid. |
| | 17. Hwyluso Datblygu | Ddim yn cytuno. Gweler y sylwadau a restrir ym mharagraff 4.12.3. Nid yw'n eglur i ni sut y bydd yr holl fesurau yma'n cael eu hariannu - dylai hyn fod yn dryloyw, a heb y posibilrwydd o lygredd nac elwa personol. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi nad yw Cyfraniadau Budd Cymunedol yn dylanwadu ar y broses gynllunio ffurfiol (paragraff 4.12.5 a 4.12.6). Ddim o blaid defnyddio pwerau statudol CSYM i hyrwyddo Wylfa B. I'r gwrthwyneb, dylid defnyddio'r pwerau i atal y datblygiad. Yn sicr, ddim o blaid defnyddio pwerau statudol i fwlio trigolion lleol er mwyn hwyluso'r ffordd i gwmni masnachol rhyngwladol wneud elw. | Nodwyd y sylwad. Yn dilyn cyngor cyfreithiol, mae'r Cyngor Sir yn hyderus bod ganddo brotocolau cadarn ar gyfer delio â swyddogaethau statudol ac anstatudol. Cyflwynwyd papur i Weithrediaeth y Cyngor Sir ym mis Tachwedd 2012 sy'n egluro'n eglur na ellir ystyried buddion cymunedol anstatudol fel rhan o'r broses benderfynu statudol.<br><br>Ers hynny mae'r Cyngor Sir wedi adolygu ei drefniadau llywodraethu mewnol ac wedi drafftio protocolau mewnol ac allanol ynglŷn â sut i ddelio â buddion cymunedol statudol ac anstatudol. Am fwy o | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | wybodaeth gweler:: http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s1180/Wylfa%20Nuclear%20New%20Build%20-%20Discharge%20of%20Function.pdf?LLL=0 | |
| | 18. Monitro | Ddim yn hyderus y bydd y gweithredu a'r monitro yn effeithiol oherwydd mae'n ymddangos bod y Cyngor yn gwbl gefnogol i'r prosiect. | Anghytuno. Mae'r Cyngor Sir wedi bod yn weithgar gefnogol i'r datblygiad oherwydd ei botensial economaidd (h.y. creu swyddi, sgiliau, cadwyn gyflenwi etc.). Bydd angen i ni fonitro'r amodau yn effeithiol etc. er mwyn gwneud yn saff ein bod yn sicrhau'r buddion yma. | Dim newid. |
| | 19. Canllawiau ynglŷn â'r Ardal | Bydd y brif effaith weledol ar yr ardal wrth ymyl Wylfa B. Bydd y cyfnod adeiladu yn hunllef i drigolion lleol, ac ni fydd unrhyw gamau i liniaru'r effeithiau niweidiol hyn yn llwyddo, er gwaethaf bwriad y Cyngor a'r datblygwr. Eto, mae hyn yn adlewyrchu anferthedd yr holl brosiect. O ran gweddill yr Ynys, rydym yn credu y bydd datblygu Wylfa B yn arwain at effeithiau niweidiol yn y tymor hir mewn sawl cyswllt, fel y disgrifiwyd yn gynharach yn ein tystiolaeth. Er enghraifft, byddai gwaith ar y ffordd ac yna'r traffig arnynt yn creu effaith niweidiol. Cyfeirir hefyd at beilonau yn croesi'r Ynys fyddai'n cael eu codi'n benodol o ganlyniad i Wylfa B. Mae rhyw fath o fygythiad yn wynebu pob ardal os | Nodwyd y sylwad. Fel y nodwyd uchod, mae'r egwyddor o ddatblygu gorsaf niwclear newydd ar Ynys Môn eisoes wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth y DU. Un o brif amcanion drafft CCA GNN Wylfa yw lleihau'r effeithiau fydd yn deillio o brosiect yr GNN (yng Nghemaes ac o gwmpas yr Ynys) a gwneud y mwyaf o'r buddion. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | bydd Wylfa B yn cael ei adeiladu. | | |
| A041 | Pwrpas | Ddim yn deall y pwrpas. Wedi synnu gweld datganiadau ar y byrddau arddangos o blaid y datblygiad arfaethedig. Felly, cwestiynir gwerth yr ymgynghoriad yn arbennig gan fod pobl yn wirioneddol bryderus yn dilyn y trychinebau sydd wedi achosi marwolaethau ac afiechydon ar raddfa anferth. Mae'n ymddangos nad yw'r Cyngor yn gweithredu'n ddiduedd. | Anghytuno. Ni all pwrpas CCA GNN Wylfa ymestyn i roi sylwadau ar deilyngdod gorsaf niwclear newydd yn Wylfa, ac fe ddeliwyd â'r mater ar lefel genedlaethol (Y DU). Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod yna bosibilrwydd y bydd yna fuddion economaidd yn deillio o hyn cyn belled â'u bod yn cael eu cynllunio'n briodol. Felly, pwrpas y CCA yw nodi beth fydd gofynion y Cyngor ar gyfer hyrwyddwr y prosiect er mwyn iddo baratoi ei Adroddiad ar yr Effaith Leol ac ymateb yn gadarnhaol i unrhyw geisiadau cynllunio am ddatblygiadau cysylltiedig. | Dim newid. |
| | Gweledigaeth | Mae'r ymgynghoriad yn ffug ac mae'n amcanu at hwyluso'r datblygiad. Bydd y prosiect yn arwain at greu llygredd fydd yn beryglus am nifer o flynyddoedd. | Anghytuno. Mae'r ymgynghoriad yn ofyniad statudol. Nid yw llygredd tymor hir sy'n ganlyniad i storio gwastraff niwclear yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i'r Rheoleiddwyr Niwclear. | Dim newid. |
| | Amcanion | Ddim yn cytuno â'r amcanion. Mae'r Cyngor yn ymgyrchu o blaid y datblygiad ac mae'n ymddangos ei fod yn barod i ganiatáu storio gwastraff am nifer o flynyddoedd i ddod. | Anghytuno. Pwrpas CCA GNN Wylfa yw nodi pa wybodaeth fydd y Cyngor Sir yn ei ddisgwyl i hyrwyddwr y prosiect ei ddarparu wrth gyflwyno'r GCD ac unrhyw geisiadau Cynllunio Tref a Sir. Hefyd, mae'n nodi canllawiau polisi, yn seiliedig ar bolisi mabwysiedig presennol, er mwyn cynghori hyrwyddwr y prosiect ynglŷn â phriodoldeb unrhyw safleoedd y byddant yn ystyried eu cyflwyno fel rhan o'r prosiect ehangach. Mae gallu'r Cyngor i weithredu fel penderfynwr mewn perthynas â storio gwastraff niwclear yn gyfyngedig, a byddai | |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | ond yn codi petai hyrwyddwr y prosiect yn penderfynu cyflwyno cais penodol fyddai'n cael ei ddosbarthu fel 'datblygiad cysylltiedig'. Fel arall, perthyn i gylch gwaith y Rheoleiddwyr Niwclear mae penderfynu ar briodoldeb storio gwastraff. | |
| | Meysydd pwnc a nodwyd | Mae hwn yn ymgynghoriad ffug. Ymarferiad cysylltiadau cyhoeddus yn unig yw hwn er mwyn hwyluso'r datblygiad. | Anghytuno. Mae'r ymgynghoriad yn amcanu at geisio adborth ar ddrafft CCA GNN Wylfa a'r dogfennau ategol. Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu hystyried a newidiadau'n cael eu gwneud i'r CCA pan fo hynny'n briodol. Nid yw cylch gwaith y CCA yn ymestyn i briodoldeb neu ddiffyg priodoldeb yr GNN | Dim newid. |
| | 6. Datblygiad Economaidd | Nid yw'r orsaf bŵer bresennol wedi dod â ffyniant na datblygiadau i'r Ynys. Ar ôl 40 mlynedd o Wylfa, mae arfordir gogleddol yr Ynys ymysg yr ardaloedd tlotaf ym Mhrydain. | Nodwyd y sylwad. Un o brif amcanion cynhyrchu CCA GNN Wylfa yw sicrhau y gwneir y mwyaf o'r buddion economaidd all ddeillio o'r GNN. Dyma un o'r pethau ysgogodd y Cyngor Sir i sefydlu Rhaglen Ynys Ynni a'r llwyddiant dilynol wrth ennill statws Ardal Fenter. | Dim newid. |
| | 7. Twristiaeth | Bydd twristiaid yn cadw draw o arfordir gogleddol yr Ynys os bydd yna orsaf bŵer hyd yn oed mwy yn difetha'r golygfeydd a thunelli o lygredd peryglus o bosibl yn cael ei storio ar y safle. | Nodwyd y sylwad. Mae CCA GNN Wylfa yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect asesu'r posibilrwydd y bydd yna effeithiau negyddol ar economi ymwelwyr yr Ynys, a sefydlu mesurau i sicrhau y bydd lliniaru/digolledu am unrhyw effeithiau negyddol a ganfyddir. | Dim newid. |
| | 8. Poblogaeth a Chymunedau | Mae'r strategaeth y tu ôl i'r orsaf bŵer bresennol wedi methu â chreu twf economaidd ar yr Ynys yn ystod y 40 mlynedd diwethaf. Mae pobl ifanc yn gadael i chwilio am waith ac mae'r cyflogau | Nodwyd y sylwad. Fel y nodir uchod, un o amcanion CCA GNN Wylfa yw sicrhau y gwneir y mwyaf o'r buddion economaidd fydd o bosibl yn deillio o'r GNN (gweler | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | a'r lefelau cyflogaeth ymysg yr isaf ym Mhrydain. | EA1 a EA2 yr CCA drafft). | |
| | 13. Gwastraff | Bydd y datblygiad arfaethedig yn cynhyrchu tunelli o lygredd fydd yn beryglus am nifer o flynyddoedd os nad canrifoedd i ddod. Ni all y cyngor na neb arall fod yn sicr y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu delio â'r llygredd cynyddol hwn. | Nodwyd y sylwad. Nid yw storio gwastraff niwclear yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r rheoleiddwyr niwclear.<br><br>Mae paragraff 4.8.6 y CCA yn nodi: *Fodd bynnag, dylid ystyried cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff (megis storio dros dro) sydd naill ai'n rhan o ddatblygiad GNN neu'n rhan o ddatblygiad cysylltiedig.*<br><br>Cymerwyd y testun hwn o ddatganiad cynllunio cenedlaethol y Llywodraeth, NPS EN-6 (paragraff 2.11.5). O dan yr amgylchiadau y mae'r Llywodraeth yn eu hamlinellu yn 2.11.5 ac sydd felly'n cael eu nodi yn y CCA drafft, byddai'r Cyngor , fel ymgynghorai statudol, yn cael cyfle i roi sylwadau yn ei Adroddiad ar yr Effaith Leol, neu yn achos datblygiad cysylltiedig gall benderfynu ar dderbynioldeb y cynnig. Felly drafftiwyd EA17 i ddarparu canllawiau i hyrwyddwr y prosiect ynglŷn â'r wybodaeth y bydd angen iddo ei darparu os bydd yn ceisio cyfiawnhau unrhyw gynnig. | Yn EA17, cynnwys cyfeiriad at effeithiau radiolegol posibl a'r angen i'w hasesu. |
| | 14. Newid yn yr Hinsawdd | Mae'r Ynys yn lle delfrydol i ddatblygu ynni adnewyddadwy yn hytrach na chanolbwyntio cymaint ar orsaf bŵer. Petai dim ond ychydig o'r arian a'r ymdrech sy'n cael ei wastraffu ar orsaf bŵer yn cael ei roi tuag at ynni adnewyddadwy, | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod manteision cynhenid yr Ynys o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Dyma pam y datblygodd y Cyngor Raglen Ynys Ynni sy'n amcanu at harneisio'r gymysgedd | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | byddai hynny'n fuddiol iawn i'r amgylchedd. | gyfoethog o ffrydiau ynni, yn cynnwys niwclear, gwynt, llanwol, biomas a solar, ynghyd â phrosiectau gwasanaethu cysylltiedig y mae'r Cyngor yn ystyried eu bod yn darparu potensial mawr ar gyfer gwireddu enillion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer Ynys Môn a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Gan gyfeirio at CCA GNN Wylfa, mae EA18 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion ymgorffori ynni adnewyddadwy ar y safle pan fo hynny'n ddichonadwy. | |
| | 15. Yr Amgylchedd Naturiol | Ddim yn cytuno. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 17. Hwyluso Datblygu | Ymarferiad cysylltiadau cyhoeddus er mwyn hwyluso un canlyniad. Dim ond cyfle i'r cyhoedd ddylanwadu ar fanylion cymharol ddibwys. Yn y cyfamser, mae trefnwyr yr ymgynghoriad yn gweithio tuag at wireddu canlyniad penodol, sef, caniatáu datblygiad. | Anghytuno. Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir ymgynghori ynglŷn â CCA GNN Wylfa. Ystyrir y sylwadau a dderbynnir a bydd y ddogfen yn cael ei diwygio yn ôl yr hyn sy'n briodol. | Dim newid. |
| A042 | Pwrpas y CCA | Cytuno. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 3. Gweledigaeth | Rwy'n bryderus iawn ynglŷn â goblygiadau storio gwastraff. Nodwyd cyfnod o 75 mlynedd, ond rwy'n deall mai'r cyfnod cywir ar gyfer storio gwastraff poeth ar y safle yw 160 o flynyddoedd. Mae angen bod yn eglur ynglŷn â hyn. Ac ni cheir eglurhad ynglŷn â sut y bydd yn cael ei storio h.y. fel y gwneir yn Ffrainc mewn casgenni concrit mewn adeiladau concrit sydd yr un maint â dau gae pêl-droed? Storio gwastraff yn y tymor hir - 2,000 o flynyddoedd - o dan y ddaear yn yr ardal leol? Yn seiliedig ar bobl leol yn elwa ar y | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y pryder a fynegir gan gymunedau lleol mewn perthynas â gwastraff niwclear. Fodd bynnag, nid yw storio tymor hir yn fater sydd yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r Rheoleiddiwr Niwclear (ac eithrio'r amgylchiadau penodol y cyfeirir atynt yn NPS EN-6 a EA17 y CCA drafft.<br><br>O ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â gwastraff a storio gwastraff, bydd | Yn EA17, cynnwys cyfeiriad at effeithiau radiolegol posibl a'r angen i'w hasesu. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | swyddi fydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r orsaf bŵer? Beth am agosrwydd cronfa ddŵr Llyn Alaw? Gyda chynnydd sylweddol mewn glawiad blynyddol, sut y gall hi fyth fod yn bosibl cael adroddiad diogelwch ar lefelau "diferiad dŵr", neu adroddiad ar lefelau dŵr disgwyliedig? Nid cheir ychwaith fanylion am berchnogaeth ar wastraff. Ai gwastraff o'r Wylfa  Newydd yn unig fydd yn cael ei storio yno, neu a fydd gwastraff o ardaloedd eraill yn cael ei gario yno? Pwy fydd yn talu am y gost ariannol o storio'r gwastraff? Pwy fydd yn gyfrifol am ei gadw'n ddiogel o ystyried y cyfnod o 160 o flynyddoedd yn y tymor byr a 2,000 o flynyddoedd yn y tymor hir? Sut ellir gwarantu cyfrifoldeb dros gyfnodau mor hir? Os bydd damwain yn digwydd, pwy fydd yn gyfrifol? Pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun i ymgilio'n ddiogel? Pwy fydd yn digolledu'r boblogaeth ac yn talu i ddelio â'r effeithiau gwenwynig?<br><br>Mae'n amhriodol edrych ar y buddion tymor byr pan nad yw'r goblygiadau tymor hir wedi cael eu datrys. | y Cyngor Sir yn ysgrifennu at Horizon ac yn gofyn iddynt ymdrin yn fanwl â'r materion hyn, a amlinellir yng nghwmpas y CCA, yn yr ymgynghoriad PAC1 sydd i ddod. | |
| | 4. Amcanion | Mae 6,000 o swyddi yn rhai tymor byr a dros dro ac ni fydd hyn yn datrys sefyllfa economaidd yr Ynys. Bydd yr Ynys yn dioddef effeithiau "ffyniant a methiant" yn union fel y digwyddodd pan adeiladwyd yr hen orsaf bŵer. Ni lwyddodd yr hen orsaf bŵer i gadw'r bobl ifanc ar yr Ynys. Dylai'r CCA roi mwy o ystyriaeth i economi'r Ynys yn dilyn y cyfnod adeiladu. Sut effaith fydd presenoldeb Wylfa Newydd a'r storfa gwastraff niwclear yn ei achosi pan fydd busnesau twristiaeth a busnesau bwyd yn ceisio denu | Nodwyd y sylwad.  Un o'r amcanion sydd ymhlyg wrth gynhyrchu CCA GNN Wylfa yw sicrhau y gwneir y mwyaf o'r buddion economaidd o ganlyniad i brosiect yr GNN. Dyma un o'r pethau ysgogodd y Cyngor Sir i sefydlu Rhaglen Ynys Ynni a'r llwyddiant dilynol wrth ennill statws Ardal Fenter.<br><br>Mae'r CCA drafft yn EA2 yn amcanu at sicrhau bod cymunedau lleol yn derbyn yr addysg a'r sgiliau priodol ar gyfer manteisio | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | buddsoddiad ar yr Ynys? | ar y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir gan brosiect yr GNN, yn ystod y gwaith adeiladu a'r gweithredu. Hefyd, dylai uwchraddio sgiliau gefnogi llwybrau i'r sector ynni adnewyddadwy sy'n ail elfen bwysig yn Rhaglen Ynys Ynni. | |
| | 5 -10 | Yn anghytuno â'r cwestiwn a ofynnir, yn cyfeirio at gwestiynau blaenorol. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 11. Trafnidiaeth | Yn dweud bod yr A55 eisoes wedi anharddu Ynys Môn ac nad oes angen ffordd fawr arall fydd yn anharddu arfordir y dwyrain. Mae'r Ynys yn rhy fach i allu ymdopi â gorsaf bŵer mor fawr a thraffyrdd enfawr. Byddai effeithiau'r rhain ar yr economi dwristiaeth yn niweidiol. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa (gweler EA14) yn nodi safbwynt y Cyngor Sir mewn perthynas â thrafnidiaeth, sef y dylai hyrwyddwr y prosiect flaenoriaethu rheilffyrdd a dŵr yn hytrach na ffyrdd. Pan fo angen gwelliannau i'r system ffyrdd, dylai'r rhain fod yn gymesur a bydd y Cyngor yn ystyried y posibilrwydd y bydd yna effeithiau ar yr amgylchedd ( yn cynnwys y tirlun) wrth ystyried eu cynaliadwyedd. | Dim newid. |
| | 12 -18 | Yn anghytuno â chwestiynau 12-18. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 19 Canllawiau ynglŷn â'r Ardal | Mae'r ymgynghoriad ar y CCA yn awgrymu bod Ynys Môn ar ei gliniau ac nad oes dewis ganddi ond derbyn y diwydiant niwclear. Mae hwn yn gynsail anghywir. Nid storfa gwastraff niwclear gwenwynig yw'r dyfodol i'r Ynys. Ni fyddai unrhyw Sir arall yn y wlad yn croesawu dyfodol o'r fath, ond mae'r prinder manylion ynglŷn â'r gwastraff yn creu ansicrwydd ynglŷn â chyfeiriad y Cyngor hwn. | Nodwyd y sylwad. Nid yw'r Cyngor Sir yn cydnabod cyflwr yr economi fel y'i cyflwynir gan yr ymatebydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall yr GNN greu buddion economaidd cadarnhaol fel rhan o'r Rhaglen Ynys Ynni ehangach os caiff hynny ei gynllunio'n briodol. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r materion ynglŷn â gwastraff niwclear, fodd bynnag cyfrifoldeb y rheoleiddiwr niwclear yw'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer trwyddedu a gweithredu cyfleusterau storio gwastraff. | Yn EA17, cynnwys cyfeiriad at effeithiau radiolegol posibl a'r angen i'w hasesu. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | O ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â gwastraff a storio gwastraff, bydd y Cyngor Sir yn ysgrifennu at Horizon ac yn gofyn iddynt ymdrin yn fanwl â'r materion hyn, a amlinellir yng nghwmpas y CCA, yn yr ymgynghoriad PAC1 sydd i ddod. | |
| A043 | Y Cam Adeiladu | Bydd 6,000 o weithwyr, a nifer sylweddol ohonynt yn dod o du allan i Ogledd Cymru, yn effeithio'n sylweddol negyddol ar yr iaith Gymraeg. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y posibilrwydd y bydd yna effeithiau negyddol ar yr Iaith Gymraeg ac mae EA13 drafft CCA GNN Wylfa yn nodi gofyniad i hyrwyddwr y prosiect ddarparu asesiad effaith ar yr iaith ar gyfer cynigion o faint priodol. Hefyd, os canfyddir effeithiau negyddol, bydd y Cyngor yn gofyn i hyrwyddwr y prosiect ddarparu camau lliniaru. | Dim newid. |
| | Y safle | Mae safle Wylfa B yn ddeg gwaith mwy na safle presennol Wylfa. Byddai prosiect mor anferth yn effeithio'n niweidiol ar ddiwydiant twristiaeth Ynys Môn, yn arbennig ar hyd arfordir y gogledd. Yn cwestiynu pwy fyddai'n dod ar wyliau i ardal sy'n cynnal un o'r prosiectau adeiladu mwyaf yn Ewrop. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y posibilrwydd y bydd yna effeithiau negyddol ar y diwydiant twristiaeth o ganlyniad i brosiect yr GNN, ac mae'n nodi nifer o EAion sy'n ymdrin yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r mater hwn yn nrafft CCA GNN Wylfa. Mae Adran 4.2 a EA5 y CCA drafft, er enghraifft, yn ymdrin â'r posibilrwydd y bydd yna effeithiau uniongyrchol ar y diwydiant twristiaeth ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect sicrhau na fydd gweithgareddau'n effeithio'n niweidiol ar y sector. Ble canfyddir y posibilrwydd y bydd yna effeithiau negyddol, bydd y Cyngor yn gofyn i hyrwyddwr y prosiect sefydlu | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | camau lliniaru a/neu ddigolledu. | |
| | Trefniadau mewn argyfwng | Yn gofyn sut fyddai'r Cyngor a'r datblygwr yn delio ag argyfwng difrifol a gollyngiad ymbelydrol o Wylfa B a sut y byddid yn ymgilio oddi ar yr Ynys. | Nodwyd y sylwad. Yn y DU y SRhN sy'n penderfynu ar yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. Mae hyn yn cael ei weithredu o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (RhYPAGG)<br><br>Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddodd SRhN egwyddorion diwygiedig ar gyfer penderfynu ar ardaloedd cynllunio argyfwng oddi ar y safle RhYPAGG o gwmpas safleoedd â thrwydded niwclear yn y DU. Mae hyn yn golygu bod SRhN yn ystyried ffactorau ymarferol a strategol lleol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun wrth benderfynu ar yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am y broses a ddefnyddir gan y SRhN ar gael drwy fynd i http://www.onr.org.uk/depz-onr- | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | principles.htm.<br><br>Ar ôl i'r SRhN hysbysu ynglŷn â'r ardal sydd angen cynllun argyfwng ar ei chyfer, mae'r Cyngor Sir yn ymgynghori â'r holl asiantaethau sydd â chyfraniad i'w wneud wrth ei weithredu.<br><br>Yn dilyn ymgynghori â'r asiantaethau perthnasol a'r gweithredwyr, mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gynhyrchu ei gynllun argyfwng oddi ar y safle o fewn 6 mis. Bydd y cynllun yn ystyried ystod o wrth-gamau sy'n gymesur â'r risgiau a nodwyd, yn cynnwys llochesu neu ymgilio. Bydd y cynllun yn cael ei brofi mewn ymarferiad argyfwng sy'n cynnwys yr Awdurdod lleol, yr heddlu, y rheoleiddiwr, y swyddfa dywydd, cyrff iechyd cyhoeddus ac asiantaethau eraill fyddai'n rhan  o unrhyw ddigwyddiad. Byddai'r penderfyniad i ymgilio neu i lochesu yn cael ei wneud  yn seiliedig ar y ffactorau penodol a wynebir ar y diwrnod.<br><br>Bydd Cynllun Argyfwng yr Awdurdod Lleol yn cael ei ystyried bob tair blynedd, ar ôl i'r gweithredwr nodi'r peryglon ar y safle a'r risgiau i'r cyhoedd, neu pan fo'r gweithredwr yn gwneud newid sylweddol i weithgaredd ar y safle. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd niwclear newydd yn cael eu hystyried o dan RhYPAGG. | |
| | Gwastraff | Yn ystyried bod Papur Pwnc 9: Gwastraff yn ddiffygiol o ystyried y prinder cyfeiriadau | Nodwyd y sylwad.  Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y pryder a fynegir gan | Yn EA17, cynnwys cyfeiriad at effeithiau radiolegol posibl |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | arwyddocaol i wastraff niwclear, ac yn nodi nad oes gan Lywodraeth y DU storfa danddaearol i gadw gwastraff gwenwynig a grëwyd dros y 60 mlynedd diwethaf heb sôn am un cwbl ar wahân ar gyfer gwastraff peryglus iawn o orsafoedd pŵer newydd megis Hinkley C a Wylfa B. | gymunedau lleol mewn perthynas â gwastraff niwclear. Fodd bynnag, nid yw storio tymor hir yn fater sydd yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r Rheoleiddiwr Niwclear (ac eithrio'r amgylchiadau penodol y cyfeirir atynt yn NPS EN-6 a EA17 y CCA drafft.) | a'r angen i'w hasesu. |
| A044 | Cyffredinol | Yn gwrthwynebu adeiladu Wylfa B ac yn ystyried y byddai'n well buddsoddi'r arian mewn ynni adnewyddadwy, ac ynni llanwol yn benodol. | Nodwyd y sylwad. Nid pwrpas CCA GNN Wylfa yw penderfynu ar egwyddor datblygiad niwclear yn Wylfa. Mae'n benderfyniad a wnaethpwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y cyfraniad pwysig sydd gan ynni adnewyddadwy i'w wneud i ddatblygiad economaidd yr Ynys, ac at y diben hwn mae Rhaglen Ynys Ynni yn bwriadu hyrwyddo diwydiannau megis ynni gwynt ar y môr, llanwol, biomas a solar. | Dim newid. |
| | | Mae'r datblygiad yn cynhyrchu gwastraff gwenwynig, bydd effeithiau'r gwaith adeiladu ar yr Iaith Gymraeg yn niweidiol ac mae'r dystiolaeth ynglŷn â Wylfa A yn awgrymu nad yw'r math yma o brosiectau yn fuddiol i economi Cymru. | Nodwyd y sylwad. Nid yw gwastraff niwclear yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i bolisi cenedlaethol.<br><br>Mae'r Cyngor Sir yn derbyn y bydd yna efallai effeithiau ar yr Iaith Gymraeg a'r economi ac felly mae wedi paratoi ystod o Egwyddorion Arweiniol yn y CCA drafft er mwyn rhoi arweiniad i hyrwyddwr y prosiect ynglŷn â'r wybodaeth fydd y Cyngor yn disgwyl ei derbyn a'r gofynion i liniaru pan nodir unrhyw effeithiau negyddol. | Dim newid. |
| | | Dylid cyfeirio arian cyhoeddus oddi wrth holltiad niwclear a thuag at ymdoddi niwclear. | Nodwyd y sylwad. Nid yw cymhorthdal cyhoeddus yn fater sy'n rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| A045 | Cyffredinol | Er bod gan Gyngor Sir Ynys Môn rôl o ran dylanwadu ar y penderfyniad (a'i wrthod), gellir gweld yn 1.2.4 bod y CCA a phob un o'r papurau pwnc yn cefnogi'r prosiect ac yn osgoi ymateb i unrhyw ddadl yn erbyn y prosiect hyd yn oed pan y'u nodir yn y ddogfen. | Nodwyd y sylwad. Nid pwrpas CCA GNN Wylfa yw penderfynu ar egwyddor datblygiad niwclear yn Wylfa. Mae'n benderfyniad a wnaethpwyd gan Lywodraeth y DU.<br><br>Mae'r GNN yn un o ystod o dechnolegau ynni sy'n rhan o Raglen Ynys Ynni. Mae'r Cyngor Sir yn credu y gallai hyn gyfrannu bron i £25 biliwn i economïau Ynys Môn a Gogledd Cymru yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Ystyrir bod hyn yn cynrychioli cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i roi hwb sylweddol i'r economi. | Dim newid. |
| | Gwastraff | Mae problem gwastraff niwclear yn cael ei guddio o fewn y gwasanaeth sy'n delio â gwastraff domestig, adeiladu, masnachol a diwydiannol. Mae'n gwbl gamarweiniol defnyddio "Mae polisi presennol wedi ei sefydlu i reoli gwaredu gwastraff niwclear" fel un o'r Cryfderau. Efallai bod yna "bolisi" ond nid oes yna gyfleuster yn bodoli ar gyfer gwaredu gwastraff niwclear er, pan sefydlwyd Wylfa A, arweiniwyd pobl i gredu y byddai yna gyfleuster digonol ar gael i drin a storio gwastraff ymbelydrol. | Nodwyd y sylwad. Mater i Lywodraeth y DU yw polisi gwastraff niwclear a storio, ac nid yw'n rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa.<br><br>O ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â gwastraff a storio gwastraff, bydd y Cyngor Sir yn ysgrifennu at Horizon ac yn gofyn iddynt ymdrin yn fanwl â'r materion hyn, a amlinellir yng nghwmpas y CCA, yn yr ymgynghoriad PAC1 sydd i ddod. | Yn EA17, cynnwys cyfeiriad at effeithiau radiolegol posibl a'r angen i'w hasesu. |
| | | Mae'r CCA a'r papurau pwnc yn defnyddio iaith gamarweiniol. Er enghraifft, pan geir problem sy'n amhosibl ei datrys, mae'r Cyngor Sir am 'liniaru effeithiau negyddol' pryd y dylai'n ddiamheuol warchod buddion cymunedol drwy eu hatal. | Anghytuno. Ysgrifennwyd amcanion CCA GNN Wylfa mewn modd sy'n datgan bod y Cyngor Sir yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect 'sicrhau' yr ymdrinnir â materion penodol. Er hyn, mae'r EAion yn cydnabod y gall y datblygiad arwain at effeithiau niweidiol mewn rhai achosion. Yn yr achosion hyn, mae'r Cyngor Sir yn gofyn i'r datblygwr nodi ac ymrwymo i | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | liniaru a/neu ddigolledu. | |
| | | Mae'r CCA yn nodi bod yr GNN yn "darparu cyfle unwaith mewn oes i drawsnewid economi a chymunedau'r Ynys". Dywedwyd yr un peth pan sefydlwyd Wylfa A. Os felly, sut bod gan Ynys Môn y gwerth ychwanegol gros isaf ym Mhrydain? Hefyd, mae yna ddigon o dystiolaeth sy'n dangos bod y mewnlifiad sylweddol yn ystod y cyfnod adeiladu wedi niweidio'r Iaith Gymraeg. | Nodwyd y sylwad. Mae'r GNN yn rhan o fenter ehangach gan y Cyngor Sir, Rhaglen Ynys Ynni. Drwy weithredu'n rhagweithiol, mae'r Cyngor yn credu y gall sicrhau buddion economaidd sylweddol o ganlyniad i'r prosiectau a gynllunnir ar hyn o bryd ar gyfer yr Ynys. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi canllawiau polisi'r Cyngor ac mae'n offeryn allweddol ar gyfer sicrhau bod y buddion yma'n cael eu gwireddu. | Dim newid. |
| A046 | Cyffredinol | Nid yw'r Cyngor yn cymryd o ddifrif ei ymateb i drigolion. Gofynnir sut y bydd yn ymateb i argyfyngau, yn cynnwys ymosodiadau terfysgol. | Nodwyd y sylwad. Yn y DU y SRhN sy'n penderfynu ar yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. Mae hyn yn cael ei weithredu o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (RhYPAGG) | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |
| | | Nid yw'n ystyried yn iawn yr effeithiau ar yr Iaith Gymraeg, twristiaeth, iechyd, tai a'r amgylchedd. Y mater mwyaf difrifol yw gwastraff niwclear. Er yn derbyn yr angen am ddatblygiad economaidd, yr awgrym yw y gellid cyflawni hyn yn well drwy ganolbwyntio ar ynni adnewyddadwy. | Nodwyd y sylwad. Mae CCA GNN Wylfa yn cynnwys amcanion a EAion sy'n ymdrin â'r materion y cyfeiriwyd atynt. Llywodraeth y DU a'r rheoleiddiwr niwclear sy'n bennaf gyfrifol am wastraff niwclear, ac felly nid yw'n rhan o gylch gwaith y CCA. Fodd bynnag, o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â gwastraff a storio gwastraff, bydd y Cyngor Sir yn ysgrifennu at Horizon ac yn gofyn iddynt ymdrin yn fanwl â'r materion hyn, a amlinellir yng | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | nghwmpas y CCA, yn yr ymgynghoriad PAC1 sydd i ddod. | |
| A047 | 5 Canllawiau ar gyfer yr Holl Brosiect | Mae yna brinder dealltwriaeth o anghenion cymunedol ieithyddol yr Iaith Gymraeg yn yr adroddiad hwn, fel ym mhob adroddiad blaenorol, a bydd hyn nawr yn cael ei egluro. Mae 3.2 yn darparu amlinelliad cyffredinol, ond camarweiniol iawn o sefyllfa'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn yn 2011, o ganlyniad i ddefnyddio Wardiau Etholaethol ac nid Cymunedol. Dylai'r map fod wedi cael ei seilio ar y Cymunedau a'r Wardiau sydd ynddynt er mwyn cael y darlun mwyaf cywir posibl. Fodd bynnag, o leiaf mae'n rhoi syniad bras o sefyllfa'r Iaith Gymraeg ar Ynys Môn fel iaith gymunedol, er bod ardaloedd megis Bodedern, oherwydd ei bod yn cael ei chynnwys yn yr un ardal â safle'r Awyrlu a'r cyffiniau, yn is nag y dylai fod. Felly, dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'r tair haen uchaf, 71.2-80.0, 62.0-71.1 a 52.5-61.0 fel Canolfannau'r Iaith Gymraeg ar Ynys Môn, ynghyd ag ardaloedd megis cymunedau Bodedern.<br><br>Dylid datblygu polisïau iaith Cymunedol Ranbarthol ar Ynys Môn fel sail i bob datblygiad ym mhob maes. Oni bai fod hyn yn cael ei wneud, bydd y difrod yn parhau, oherwydd diffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r cymunedau Cymraeg sydd ar ôl ar Ynys Môn.<br><br>Er mwyn atal diflaniad yr Iaith Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw, mae'n rhaid trawsnewid polisi cynllunio a datblygu mewn perthynas â rhannau mwyaf Cymraeg Ynys Môn - Môn Cymraeg. Prif ganolfan gymunedol Môn Cymraeg yw | Nodwyd y sylwad. Mae'n rhaid alinio CCA GNN Wylfa â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol presennol, ac oherwydd hynny, ni ystyrir ei bod yn briodol iddo ddatblygu polisïau iaith cymunedol ranbarthol na darparu ymateb polisi i'r materion strategol a nodir yn yr ymateb hwn (e.e. mewn perthynas â maint twf ym maes tai), ac mae llawer o'r rhain yn faterion ehangach nad ydynt yn perthyn i gynllunio. Fodd bynnag, un o amcanion allweddol CCA GNN Wylfa yw gwarchod a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a diwylliant (gweler EA13 yn arbennig). | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Llangefni, ond mae ymchwil yr ymatebydd yn dangos bod newid ieithyddol cynyddol wedi digwydd yn y dref ers c. 1997 oherwydd cynnydd yr adeg honno yn y ganran o siaradwyr di-gymraeg a symudodd i'r dref. Mae'r ymatebydd yn nodi bod hyn yn ganlyniad polisïau 'dall' a ddenodd 'weithwyr allweddol' i'r dref i haenau uchaf busnesau a gwasanaethau heb unrhyw bolisi iaith yn y gweithle, fel yr hyn a geir yn Quebec a Fflandrys. Mae yna nifer o ganolfannau Môn Cymraeg posibl cyfagos. Bodedern - canolfan fyddai wedi gallu cael ei datblygu i fod yn drefgordd Môn Cymraeg eilaidd erbyn heddiw, a fyddai wedi Gwarchod Cymreictod Bro Alaw a chymunedau Caergeiliog, Bryngwran a Gwalchmai.<br><br>Mewn perthynas â 4.1, gellid datblygu Polisi Cynllunio ar gyfer y dyfodol: dim adeiladu tai yn yr ardaloedd hyn oni bai fod yno angen yn lleol a hynny ar sail atal newid ieithyddol. Polisi Addysg: Sefydlu Ysgolion Cymunedol Cyfrwng Cymraeg ar gyfer yr holl ystod oedran yn y canolfannau hyn. Polisi Iechyd Cymunedol: Adleoli, i'r mannau y mae angen gwasanaethau meddygol. Datblygu Polisi Datblygu Cymunedol tymor hir yn y cymunedau hyn. Sicrhau deddfwriaeth gan Senedd Cymru fydd yn gosod yr Iaith Gymraeg fel iaith sy'n gynyddol bwysig mewn swyddi sy'n ymwneud â gweithio â'r cyhoedd. Symud tuag at arwyddion cyhoeddus Cymraeg yng nghymunedau Môn Cymraeg (gyda'r symbolau sy'n ofynnol ar gyfer siaradwyr di-gymraeg) yn ystod y degawd nesaf.<br><br>Dyma fydd effaith tymor hir Canolfan Menai, hyd | | |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | at Langefni ac ar draws i Frynsiencyn a Niwbwrch ac Aberffraw o ganlyniad i ddatblygiad economaidd allai fod yn niweidiol i'r Iaith Gymraeg yn yr ardaloedd ble mae ganddi'r gobaith gorau o oroesi. | | |
| | 7. Twristiaeth | Mae'n rhaid gwarchod rhag torcyfraith eto fel y digwyddodd ym Mhenrhos. | Nid yw'r sylwad yn ddilys. Ni thorrwyd unrhyw gyfraith ac mae'r Cyngor Sir yn hyderus bod y penderfyniad a wnaethpwyd mewn perthynas â Thir a Llynnoedd yn gyfreithiol gadarn. | Dim newid. |
| | 11. Trafnidiaeth | Yr hyn a argymhellir fel ateb cost-effeithiol ar gyfer Ynys Môn ac Arfon yw sefydlu'r hyn a elwir yn Statsbahnen (Tram-drenau), o Fangor i Langefni ac i Fethesda a Chaernarfon i ddechrau, ac yna maes o law i Lanberis a Phenygroes ac i Gaergybi ac Amlwch. Gyda chyfleuster parcio a theithio yng nghyffiniau Bangor e.e. Llanfairpwllgwyngyll, Llangefni a'r Felinheli.<br><br>Yn achos Pont Britannia, argymhellir newid cyfeiriad tair ffordd yn unol â llif y traffig. Hefyd, dylid ystyried o ddifrif (ar lefel Ewropeaidd) datblygu trefniant cludo nwyddau trawsgyfandirol ar reilffordd o Gaergybi i borthladdoedd yn nwyrain Lloegr e.e. Hull, Harwich a Dover. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa (yn EA14) yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor Sir mewn perthynas â thrafnidiaeth, sef y dylai hyrwyddwr y prosiect ffafrio rheilffyrdd a dŵr yn hytrach na ffyrdd. Mae'r CCA drafft ym mharagraff 4.6.6 hefyd yn cydnabod bod Pont Menai a Phont Britannia yn gweithredu'n agos at eu capasiti llawn ar adegau brig a bod y traffig ar ei drymaf yn ystod yr haf. Mae'r GO yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect archwilio cyfleoedd i gyflwyno gwelliannau seilwaith wedi ei gydlynu, gan ystyried buddsoddiadau strategol eraill. | Dim newid. |
| | 18. Gweithredu a Monitro | Yn cwestiynu'r strategaeth petai gollyngiad ymbelydrol difrifol yn digwydd neu ddigwyddiad fyddai'n ansefydlogi adweithyddion presennol neu unrhyw rai yn y dyfodol. Yn holi am y polisi ymgilio ar gyfer y ddwy Ynys. | Nodwyd y sylwad. Yn y DU y SRhN sy'n penderfynu ar yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. Mae hyn yn cael ei weithredu o dan | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (RhYPAGG)<br><br>Darperir ateb llawnach i gwestiynau tebyg a ofynnwyd uchod. | |
| A048 | 2. Pwrpas y CCA | Yn deall y pwrpas ond yn cwestiynu priodoldeb datblygu pŵer niwclear ar yr Ynys, o ystyried y posibilrwydd y bydd effeithiau tymor hir yn deillio o newid yn yr hinsawdd a newid daearegol. | Nodwyd y sylwad. Nid yw egwyddor pŵer niwclear yn Wylfa yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i bolisi Lywodraeth y DU a'r un mwyaf perthnasol yw NPS EN-6. Mae Cyfrol 2 Atodiad C NPS EN-6 yn nodi rhestr o'r safleoedd a ystyrir yn briodol gan Lywodraeth y DU, sydd wedi ystyried materion megis newid yn yr hinsawdd. | Dim newid. |
| | | Hefyd, mae'n cwestiynu doethineb cynnal ymgynghoriad ar Wylfa cyn cwblhau materion cynllunio ar y cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn, ac yn wir cyn penderfynu'n derfynol ar aildrefnu arfaethedig Llywodraeth Leol yng Nghymru. | Anghytuno. Nid yw CCA GNN Wylfa yn ategol i'r CGDLl, er ei fod wedi caei ei ddrafftio mewn perthynas â drafft y Strategaeth CGDLl a Ffefrir. Mae'r angen i sefydlu'r CCA yn gynnar yn natblygiad prosiect yr GNN yn hanfodol er mwyn sicrhau y gwneir y mwyaf o'r buddion cadarnhaol a bod yr effeithiau negyddol yn cael eu lleihau. Felly, ni fyddai'n briodol disgwyl am fabwysiadu'r CGDLl nac unrhyw aildrefnu llywodraeth leol posibl. | Dim newid. |
| | 3. Gweledigaeth | Yn cydnabod potensial anferth yr Ynys Ynni, ond yn gofyn i'r Cyngor 'feddwl y tu allan i'r bocs' a chanolbwyntio ar dechnolegau morol a nwy a biomas o bosibl yn Rhosgoch. | Nodwyd y sylwad. Mae Ynys Ynni yn rhaglen ag iddi ystod eang sy'n cynnwys technolegau biomas a morol yn ogystal â niwclear. | Dim newid. |
| | 4. Amcanion | Yn argymell cyfeirio at ddefnyddio tram-drenau a ffyrdd o liniaru tagfeydd ar Bont Britannia yn cynnwys ail lefel. Dim cyfeiriad at oes gwastraff | Nodwyd y sylwad. Ni ystyrir ei bod yn briodol i CCA GNN Wylfa gyfeirio at gynigion penodol ynglŷn â thrafnidiaeth, y | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | niwclear o dan yr amcan perthnasol. | gellir neu na ellir eu hariannu/cyflawni gan hyrwyddwr y prosiect. Fodd bynnag, mae'r CCA drafft (yn EA14) yn blaenoriaethu rheilffyrdd a dŵr yn hytrach na ffyrdd ac yn amcanu at sicrhau y bydd unrhyw fuddsoddiad a wneir gan hyrwyddwr y prosiect yn ystyried mentrau strategol ehangach mewn perthynas â thrafnidiaeth. | |
| | Datblygiad Economaidd | Yn cyfeirio at Wylfa A a phrinder unrhyw fudd economaidd a ddeilliodd o hynny. Yn cyfeirio at broblemau mewnfudo yn ystod cyfnod ei adeiladu. Ychydig o ymdrech a wneir i egluro faint o'r gweithlu 'mewn gwirionedd' fydd yn cael eu cyflogi o Ynys Môn yn ystod y gwaith adeiladu neu pa raddau sgiliau y byddai disgwyl iddynt eu cyflawni. Yn annog mabwysiadu technolegau ynni morol. | Nodwyd y sylwad. Yn EA1 a EA2 mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi ein canllawiau polisi a ddyluniwyd i leihau unrhyw effeithiau economaidd negyddol ac i wneud y mwyaf o'r buddion. Yn EA2 mae'n benodol yn nodi gofynion y Cyngor i hyrwyddwr y prosiect gefnogi datblygiad addysg a sgiliau er mwyn galluogi cymunedau lleol i fanteisio ar y buddion economaidd posibl fydd efallai ar gael yn ystod cyfnod adeiladu a gweithredu'r GNN. | Dim newid. |
| | Poblogaeth | Yn cwestiynu'r gweithdrefnau petai damwain niwclear yn digwydd. Hefyd yn cyfeirio at yr Iaith Gymraeg ac at yr angen i ddeall patrwm y newid mewn cymunedau ble mae'r iaith yn cael ei siarad ers y 1930au. Nodir ei bod wedi cael ei disodli gan y Saesneg fel yr iaith gyffredin yn Llangefni erbyn y 1990au. | Nodwyd y sylwad. Mater i SRhN yw'r weithdrefn ymgilio ac ymatebwyd i hyn mewn atebion uchod. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o broffil daearyddol newidiol cymunedau Cymraeg ar Ynys Môn a mater yr Iaith Gymraeg. Mae EA13 drafft CCA GNN Wylfa yn ymdrin â'i phwysigrwydd i hunaniaeth gymunedol yr Ynys a'i diwylliant. | Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |
| | Llety Gweithwyr Adeiladu | Yn gofyn am beidio rhoi llety i weithwyr adeiladu yn y cymunedau ar yr Ynys ble siaredir Cymraeg yn bennaf. Yn gofyn am gydnabod Ardaloedd Ieithyddol Eithriadol Sensitif ac Ardaloedd Ieithyddol Sensitif a'u bod yn cael yr un | Nodwyd y sylwad. Wrth asesu priodoldeb lleoliadau ar gyfer lletyau gweithwyr adeiladu, bydd y Cyngor Sir yn disgwyl y bydd safleoedd mawr (50+ o unedau) yn cael eu lleoli yn aneddiadau mawr | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | warchodaeth polisi â'r Parciau Cenedlaethol. | Caergybi, Amlwch a Llangefni (gweler EA10). Mae gan yr aneddiadau mawr yma'r lefel o ddarpariaeth gwasanaethau sy'n gyffredinol briodol i swm y lletyau gweithwyr adeiladu sydd eu hangen. Pan fo angen cyfleusterau ychwanegol, bydd y Cyngor yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect eu darparu, gan sicrhau y bydd yna ddefnydd gwaddol i'r gymuned leol yn y dyfodol. Dylai darparu cyfleusterau newydd neu gyfleusterau wedi'u gwella fod yn gymorth i gadw'r boblogaeth leol yn eu cymunedau.<br><br>Ystyrir bod dynodi Ardaloedd Ieithyddol Sensitif y tu hwnt i gwmpas y CCA a byddai'n fater i'w ystyried fel rhan o waith paratoi'r CGDLl. | |
| | Yr Iaith Gymraeg | Yn argymell defnyddio Cynllunio Ieithyddol Cymunedol a diffinio ardaloedd yn Ynys Môn fel 'Môn Gymraeg', ac y dylai hyn gynnwys holl gymunedau Canol neu Berfeddwlad Ynys Môn.<br><br>Mewn perthynas â 'Môn Gymraeg', rhoddir rhai awgrymiadau bras isod:-<br><br>Bro Cybi - Môn Gymraeg: Ynys Gybi, Llanfair-yn-neubwll a Llanfaelog.<br><br>Bro Parys - Môn Gymraeg: Llanbadrig, Amlwch a Penysarn.<br><br>Bro Goronwy - Môn Gymraeg: Moelfre, Benllech a Pentraeth.<br><br>Bro Aethwy - Môn Gymraeg: Biwmares a | Nodwyd y sylwad. Mae'r pwyntiau a godir y tu hwnt i gwmpas CCA GNN Wylfa ac ystyrir eu bod yn faterion i'w hystyried fel rhan o waith paratoi'r CGDLl. | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/ Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | Phorthaethwy | | |
| | Gweithredu a Monitro | Argymhellir paratoi Cynllun Gwarchod Cyhoeddus a monitro sefyllfa'r Iaith Gymraeg. | Nodwyd y sylwad. Mae EA25 yn nodi'r angen i sefydlu systemau i fonitro effeithiau'r GNN. Er y cydnabyddir nad yw'n manylu ynglŷn â'r pynciau y dylid ystyried eu monitro, byddai'r Cyngor Sir yn disgwyl y byddai dangosyddion a thargedau'n cael eu diffinio mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg. | Dim newid. |
| A049 | Cyffredinol - Manteision | Yn cwestiynu nifer y swyddi a ddisgwylir (6,000) ac oes y cyfnod gweithredu (40 mlynedd). | Nodwyd y sylwad. Pŵer Niwclear Horizon sydd wedi cyfeirio at 6,000 o swyddi adeiladu a 1,000 o swyddi parhaol. Bydd mwy o fanylion yn cael eu darparu yn ystod Cam 1 eu Hymgynghoriad Cyn-Ymgeisio (YCY 1) sydd wedi ei amserlennu ar gyfer Medi 2014.<br><br>Horizon sydd wedi cyfeirio at oes gynhyrchu o 40 mlynedd ar gyfer Wylfa Newydd, a bydd hyn hefyd yn cael ei gadarnhau drwy ymgynghoriad YCY 1. | Dim newid. |
| | Cyffredinol - Anfanteision | Yn cyfeirio at gynhyrchu a storio gwastraff niwclear lefel uchel ac isel. Hefyd, y cynnydd mewn traffig, y cynnydd mewn sŵn a llygredd, effeithiau gweledol adeilad mor fawr ac effeithiau'r peilonau fydd eu hangen i drawsgludo'r pŵer. Hefyd yn gofyn cwestiynau ynglŷn â phwy sy'n talu am y prosiect ac am y datgomisiynu dilynol, effeithiau ar yr Iaith Gymraeg, ffordd o ymgilio oddi ar yr Ynys petai damwain yn digwydd, a sut fydd y prosiect yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd. Yn nodi bod niwclear yn hen dechnoleg. | Nodwyd y sylwad. Nid yw storio gwastraff niwclear yn rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. Mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r rheoleiddwyr niwclear.<br><br>Mae'r CCA drafft yn cydnabod y posibilrwydd y bydd yna gynnydd mewn traffig o ganlyniad i adeiladu'r GNN ac yn amcanu i flaenoriaethu rheilffyrdd a dŵr yn hytrach na ffyrdd.<br><br>Nid yw effaith weledol peilonau yn rhan o gwmpas y CCA a byddai hyn yn destun | Yn EA17, cynnwys cyfeiriad at effeithiau radiolegol posibl a'r angen i'w hasesu.<br><br>Ychwanegu cyfeiriad yn y CCA at y gweithdrefnau deddfwriaethol ar gyfer cynllunio at argyfwng. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | cais GCD ar wahân.<br><br>Horizon fydd yn gyfrifol am dalu am gost y datblygiad. Fel rhan o broses trwyddedu'r safle y cyfeirir ati ym mhwynt 1 uchod, byddai angen i Horizon gyflwyno cynlluniau datgomisiynu manwl a dangos ymrwymiad i ariannu bond er mwyn talu am y gost o ddatgomisiynu.<br><br>Mae'r effaith ar yr Iaith Gymraeg yn rhan ganolog o'r CCA drafft. Mae'r ddogfen gyffredinol ei hun yn destun Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a bydd agweddau penodol o'r datblygiad hefyd yn destun Asesiadau Iaith Gymraeg manwl. Mae'r CCA drafft (yn nhudalen 63, Adran 4.5) yn nodi canllawiau mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg a Diwylliant.<br><br>Cyfrifoldeb y SRhN yw'r ffordd o ymgilio oddi ar yr Ynys a hi sy'n penderfynu ar yr ardal gynllunio argyfwng oddi ar y safle ar gyfer gorsafoedd niwclear ble ceir posibilrwydd o ollyngiad ymbelydrol oddi ar y safle fyddai efallai'n golygu bod angen cymryd gwrth-gamau megis ymgilio. Mae hyn yn cael ei weithredu o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001 (RhYPAGG) Darperir ateb llawnach fel ymateb i gwestiynau tebyg a ofynnwyd uchod gan ymatebwyr eraill.<br><br>Mae Newid yn yr Hinsawdd yn bwnc penodol yn y CCA drafft (gweler tudalen | |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | 75, adran 4.9).<br><br>Mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod pŵer niwclear yn rhan hanfodol o'r gymysgedd o gynhyrchu ynni sydd ei angen ar y DU.  Nid yw egwyddor pŵer niwclear yn fater sy'n rhan o gylch gwaith CCA GNN Wylfa. | |
| A050 | Cyffredinol | Yn cytuno â chwestiynau 2-7, 9, 17 yr holiadur. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| | 8. Llety Gweithwyr Adeiladu | Gallai mewnlifiad o weithwyr effeithio'n sylweddol ar y tair meddygfa yng Nghaergybi. Mae gan y meddygfeydd ar hyn o bryd 1940 o gleifion cofrestredig ar gyfartaledd, a bydd mewnlifiad o weithwyr yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd presennol. | Nodwyd y sylwad.  Mae Papur Pwnc 8, paragraff 4.5.3 yn nodi bod tua 1400 o gleifion i bob meddyg ar gyfartaledd ar restrau meddygfeydd o gwmpas Ynys Môn. Yn seiliedig ar hyn, ystyrir y byddai rhestrau o 1900+ yn cynrychioli cymhareb meddyg i glaf uchel yng nghyd-destun Ynys Môn.<br><br>Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cydnabod y posibilrwydd y bydd prosiect yr GNN yn effeithio ar allu gwasanaethau gofal iechyd presennol i ddelio â chynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i'r gweithlu adeiladu yn EA6.  Mae EA23 a phwyntiau bwled o dan baragraff 4.12.3 hefyd yn nodi gofyniad posibl i hyrwyddwr y prosiect gyfrannu tuag at gyfleusterau cymunedol yn cynnwys darpariaeth gofal iechyd. Nid yw EA27 Caergybi a'r Ardal yn cyfeirio'n benodol at gyfleusterau gofal iechyd a gellid cynnwys hyn fel cyfeiriad ychwanegol at yr ystyriaethau y dylai hyrwyddwr y prosiect eu darparu. | Cynnwys cyfeiriad yn nhestun ategol EA27 at bwysigrwydd darpariaeth gofal iechyd digonol yng Nghaergybi. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | 10. Trafnidiaeth | Bydd cynnydd mewn trafnidiaeth ar y ffyrdd yn arwain at dagfeydd allai effeithio'n anuniongyrchol ar wasanaethau meddygon ac ambiwlansys. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at flaenoriaethu rheilffyrdd a dŵr yn hytrach na ffyrdd. Mae hefyd yn amcanu at leoli datblygiadau newydd (ar wahân i'r prif safle) mewn lleoliadau sy'n hygyrch drwy ddulliau teithio cynaliadwy ac sy'n agos at wasanaethau a chyfleusterau presennol. Mae EA27 yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect sefydlu camau i leihau trymder y traffig rhwng Caergybi a phrif safle'r GNN. | Dim newid. |
| | 11. Cyfleustodau | Bydd yna bwysau ychwanegol ar wasanaethau a chyfleusterau presennol yn cynnwys y gwasanaethau gofal iechyd. | Gweler yr ymateb i Lety Gweithwyr Adeiladu (8) uchod. | Dim newid. |
| | 12. Gwastraff | Nid yw'n bosibl ateb y cwestiwn yn gadarnhaol nes bod Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd wedi cael ei gynnal er mwyn cadarnhau na fydd y cynnig yn effeithio ar y boblogaeth gyfagos. | Nodwyd y sylwad. Bydd yna ofyniad cyfreithiol ar hyrwyddwr y prosiect i gynnal AEA fel rhan o'r cais GCD. Hefyd, mae'r Cyngor Sir (yn EA7) yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect weithio â'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn nodi unrhyw effeithiau sylweddol ar iechyd a chamau lliniaru. | Yn EA17, cynnwys cyfeiriad at effeithiau radiolegol posibl a'r angen i'w hasesu. |
| | 13. Newid yn yr Hinsawdd | Mae angen mwy o wybodaeth cyn y gellir rhoi sicrwydd na fydd yna unrhyw effeithiau amgylcheddol. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl y bydd hyrwyddwr y prosiect yn darparu mwy o wybodaeth mewn perthynas ag effeithiau'r GNN ar newid yn yr hinsawdd maes o law ac fel rhan o'r AEA. Mae EA18 drafft CCA GNN Wylfa hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect ddarparu Cynllun Rheoli Carbon. | Dim newid. |
| | 14. Yr Amgylchedd Naturiol | Mae angen gwarchod adnoddau gwyrdd ac ardaloedd naturiol oherwydd bod y rhain yn | Cytuno. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cydnabod pwysigrwydd mannau gwyrdd ac | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | annog ac yn hyrwyddo gweithgareddau awyr agored all arwain at fanteision iechyd. | ardaloedd amwynderau o ran cefnogi ffyrdd o fyw iachach, ac mae EA8 yn nodi y bydd y Cyngor Sir yn gwrthod colli mannau agored. | |
| | 15. Amgylchedd Hanesyddol | Gallai mewnlifiad o weithwyr adeiladu effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol. Gallai gostyngiad yn yr ardaloedd hanesyddol y gall y boblogaeth ymweld â hwy effeithio'n negyddol ar lefelau gweithgaredd, a thrwy hynny ar iechyd. | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y posibilrwydd y bydd prosiect yr GNN yn effeithio'n negyddol ar amgylchedd hanesyddol yr Ynys. Fel ymateb, mae'r canllawiau a geir yn nrafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at sicrhau bod amgylchedd hanesyddol yr Ynys yn cael ei warchod a'i gyfoethogi. | Dim newid. |
| | 16. Hwyluso Datblygu | Ni ymdriniwyd yn briodol â gofal iechyd. Bydd yna effaith sylweddol ar Gaergybi. Bydd yna fwy o alw am gyfleusterau gofal iechyd ar wasanaeth sydd eisoes dan bwysau. | Anghytuno. Ceir canllawiau mewn perthynas â darpariaeth gofal iechyd yn EA6 a EA23 (yng nghyd-destun cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol). Er hyn, fel y nodir uchod cytunir y gellid cynnwys cyfeiriad penodol at ddarpariaeth yng Nghaergybi yn nhestun ategol EA27. | Cynnwys cyfeiriad yn nhestun ategol EA27 at bwysigrwydd darpariaeth gofal iechyd digonol yng Nghaergybi. |
| A051 | Cyffredinol | Cytuno â'r un cwestiynau â A050. Hefyd yr un sylwadau yn cael eu gwneud yn erbyn 8,10-16. | Fel yr atebion i A050. | Fel y newidiadau mewn perthynas ag A050. |
| A052: Dysgu Gydol Oes | Yr Iaith Gymraeg | Mae'r cyfeiriad at yr Iaith Gymraeg yn wan. Mae gwarchod y Gymraeg, Cymreictod a diwylliant yn bwysig. Mae yna ofyniad hefyd i ddarparu darpariaeth i blant sy'n hwyrddyfodiaid i'r Sir ac mae angen cynyddu nifer y canolfannau iaith er mwyn gwireddu hyn. | Anghytuno. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn benodol yn ystyried yr Iaith Gymraeg a diwylliant yn Adran 4.5. Mae EA13 yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect gynnal asesiad ar effaith prosiect yr GNN ar yr Iaith Gymraeg. Dangosol yn unig yw'r camau lliniaru a restrir, ac nid yw'n fwriad iddynt fod yn gynhwysfawr. Mae'n debyg y bydd angen ystod eang o fesurau, gan ystyried lefel a math yr effeithiau posibl a nodwyd drwy asesu manwl pan fydd | Cynnwys cyfeiriad yn EA13 at ganolfannau Iaith Gymraeg. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | manylion am faint a lleoliad y datblygiad a nifer y gweithwyr adeiladu/gweithredu yn hysbys. Fodd bynnag, ystyrir y gallai'r mesurau lliniaru dangosol a gynhwysir yn EA13 gynnwys darparu canolfannau iaith newydd neu gyfraniad tuag at rai presennol. | |
| | Niferoedd plant/disgyblion | Nid yw'n cael digon o sylw. Cyfeirir at y ddogfen sy'n nodi y bydd 3 neu 4 o ddisgyblon ychwanegol yn cyrraedd. Gall hyn orfodi angen am ddosbarthiadau ychwanegol ar gyfer y flwyddyn sylfaen neu ar lefel uwchradd. | Anghytuno. Ystyrir darpariaeth addysg yn Adran 4.3 drafft CCA GNN Wylfa yng nghyd-destun ehangach cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Mae'r CCA drafft yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr y prosiect sicrhau bod cyfleusterau priodol wedi'u sefydlu er mwyn ymateb i'r effeithiau anuniongyrchol fydd yn deillio o brosiect yr GNN, ac os bydd angen cyfleusterau ychwanegol neu well, y bydd y rhain yn cael eu hariannu gan hyrwyddwr y prosiect, gan ddarparu budd gwaddol pan fo'n bosibl. Nes bod mwy o wybodaeth yn cael ei ddarparu gan hyrwyddwr y prosiect mewn perthynas â nifer y gweithwyr adeiladu yr ystyrir sydd eu hangen erbyn hyn er mwyn cefnogi adeiladu'r GNN, y math o letyau a geisir a'u lleoliadau, mae'n anodd i'r Cyngor Sir restru'r hyn mae'n ystyried fydd yr effeithiau penodol, a'r ymyriadau penodol fydd eu hangen i ymdrin â hwy. | Dim newid. |
| | Ariannu | Mae angen bod yn eglur ynglŷn â'r hyn sydd ei angen a sut y telir am y costau ychwanegol. | Nodwyd y sylwad. Fel y nodwyd uchod, nes bod mwy o wybodaeth yn cael ei ddarparu gan hyrwyddwr y prosiect mewn perthynas â nifer y gweithwyr adeiladu yr ystyrir sydd eu hangen erbyn hyn er mwyn | Dim newid. |

| Ymatebydd | Cwestiwn ynglŷn â'r Ymgynghoriad/<br><br>Cyfeirnod CCA | Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|---|---|
| | | | cefnogi adeiladu'r GNN, y math o letyau a geisir a'u lleoliadau, mae'n anodd i'r Cyngor Sir restru'r hyn mae'n ystyried fydd yr effeithiau penodol, a'r ymyriadau penodol fydd eu hangen i ymdrin â hwy.<br><br>Er hyn, mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi’n eglur yn EA23 mai hyrwyddwr y prosiect ddylai fod yn gyfrifol am dalu am ddarparu cyfleusterau ychwanegol pan fo'r rhain yn angenrheidiol o ganlyniad uniongyrchol i brosiect yr GNN. | |

Mae **Tabl 2** yn cynnwys sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr arddangosiadau cyhoeddus, ymateb y Cyngor Sir i bob mater a godir a mynegiad ynglŷn â diwygio drafft CCA GNN Wylfa neu beidio a sut y dylid adolygu'r ddogfen.

**Tabl 2 Cofnod o Arddangosiadau Cyhoeddus**

| Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|
| Dim pryderon, yn edrych ymlaen at yr holl sgil effeithiau economaidd. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at wneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd i'r Ynys a rhanbarth Gogledd Cymru fydd yn deillio o brosiect yr GNN. | Dim newid. |
| Y cyfleoedd cyflogaeth yn gadarnhaol. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at sicrhau y bydd y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd fydd efallai'n cael eu creu drwy brosiect yr GNN (gweler EA2 yn arbennig). | Dim newid. |
| Angen cysyniadau gweledol ynglŷn â sut mae'n mynd i edrych ar y tirlun a sut fydd yn gweddu â'r hyn sydd gennym yn barod? | Nodwyd y sylwad. Ar hyn o bryd nid yw maint/dyluniad yr GNN yn hysbys. Mater i hyrwyddwr y prosiect fydd darparu cysyniadau gweledol. Er hyn, mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at warchod a chyfoethogi tirlun yr Ynys (gweler EA20). | Dim newid. |
| Mae'r seilwaith yn gadarnhaol, ond sut fyddwn yn ymdopi â'r holl bobl ychwanegol? | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn nodi'r posibilrwydd y bydd yna effeithiau ar y seilwaith presennol o ganlyniad i brosiect yr GNN. Ceir canllawiau penodol yn y CCA drafft sy'n amcanu at sicrhau na fydd yna unrhyw effeithiau niweidiol ar y seilwaith o ganlyniad i ddatblygiad newydd a, phan fo'n bosibl, ceisir cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth bresennol. | Dim newid. |
| Pryderon am ddiogelwch a thechnoleg yn dilyn digwyddiadau blaenorol yn Fukushima a | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn darparu canllawiau sy'n benodol leol ar bolisi | Dim newid. |

| Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|
| gorsafoedd eraill. | cynllunio cenedlaethol a lleol presennol. Mae NPS EN-6 (ym mharagraff 3.2.10) yn nodi y dylai'r Arolygaeth Gynllunio weithredu ar y sail y bydd y gyfundrefn reoleiddio yn cael ei gymhwyso a'i orfodi'n briodol er mwyn gwarchod iechyd pobl. Ni all y CCA fod yn ysgogwr polisi newydd ac felly ni all ystyried yr effeithiau ar iechyd sy'n gysylltiedig â gweithredu'r GNN. | |
| Dim problemau ynglŷn â diogelwch y datblygiad newydd. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| Mae angen edrych ar drafnidiaeth i'r safle - nid oes gan bawb gar - y tro cyntaf defnyddiwyd trafnidiaeth Wylfa Wessex ar gyfer gweithwyr. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn cynnwys canllawiau penodol mewn perthynas â thrafnidiaeth (gweler EA14) sy'n amcanu at sicrhau bod gweithwyr yn gallu cyrraedd y safle drwy ddulliau teithio cynaliadwy. | Dim newid. |
| Tai i bobl allweddol mewn tai newydd i'r gweithwyr. | Nodwyd y sylwad. Mae Adran 4.4 drafft CCA GNN Wylfa yn nodi canllawiau'r Cyngor Sir mewn perthynas â llety gweithwyr adeiladu. Mae'r canllawiau yma'n amcanu at sicrhau na fydd y mewnlifiad o weithwyr yn effeithio'n niweidiol ar y farchnad dai leol a, phan fo'n bosibl, y ceisir cyfleoedd i greu buddion parhaol i gymunedau'r Ynys. | Dim newid. |
| Da i fusnesau lleol, fel yr oedd yr hen Wylfa. | Nodwyd y sylwad. Mae CCA GNN Wylfa yn cynnwys canllawiau a ddyluniwyd i gefnogi gallu busnesau lleol i elwa o'r GNN (gweler, er enghraifft, EA4) ac i annog hyrwyddwr y prosiect i greu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi leol (gweler EA1). | Dim newid. |

| Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|
| Byddwn yn creu 1000 o swyddi â chyflog da a gwariant mewn cymunedau Lleol. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at sicrhau y bydd y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd fydd efallai'n cael eu creu drwy brosiect yr GNN (gweler EA2 yn arbennig). | Dim newid. |
| Cyfleoedd am swyddi newydd i bobl leol. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at sicrhau y bydd y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd fydd efallai cael eu creu drwy brosiect yr GNN (gweler EA2 yn arbennig). | Dim newid. |
| Gorau po gyntaf: parthed agor yr orsaf. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| Gormod o bobl ifanc yn gadael yr Ynys - dim swyddi ar hyn o bryd, gall Wylfa newid hyn. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at sicrhau y bydd y gweithlu lleol, yn cynnwys pobl ifanc, yn gallu manteisio ar y cyfleoedd fydd efallai cael eu creu drwy brosiect yr GNN (gweler EA2 yn arbennig). | Dim newid. |
| Safle @Wylfa – Pam fod CADW wedi cydnabod hyn ? A ellid adnewyddu hwn yn hytrach na'i warchod. | Nid yw'n eglur beth mae'r ymateb hwn yn ei gyfeirio ato. Fodd bynnag, mae'r canllawiau a geir yn nrafft CCA GNN Wylfa (gweler EA22) yn amcanu at warchod a chyfoethogi asedau treftadaeth ddiwylliannol a'u lleoliadau. | Dim newid. |
| Ddim yn dymuno gweld gwaith yn cael ei gynnal ar / drwy dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. | Nodwyd y sylwad. Mae hwn yn fater i hyrwyddwr y prosiect ei ystyried (er bod egwyddor datblygu prif safle'r GNN arfaethedig eisoes wedi cael ei sefydlu mewn polisi cenedlaethol (Y DU)). Er hyn, mae EA20 drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at warchod a chyfoethogi amgylchedd naturiol yr Ynys yn cynnwys yr arfordir. | Dim newid. |
| Beth yw'r sefyllfa parthed: cario deunyddiau i'r ardal dros y môr - mae angen deall mwy am MOLF + | Nodwyd y sylwad. Nid yw'r dull arfaethedig ar gyfer cludo deunyddiau i'r prif safle yn hysbys ar hyn o | Dim newid. |

| Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|
| morglawdd. | bryd. Fodd bynnag, mae EA14 drafft CCA GNN Wylfa yn nodi beth yw disgwyliadau'r Cyngor Sir mewn perthynas â thrafnidiaeth ac yn amcanu'n gyffredinol at flaenoriaethu defnyddio rheilffyrdd a dulliau cludo ar ddŵr. Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr y prosiect baratoi Cynllun Trafnidiaeth fydd yn nodi'n fanwl eu dull arfaethedig o gludo deunyddiau i/o'r safle. | |
| Ddim eisiau defnyddio Clorin mewn dŵr gorlifo - effaith ar yr amgylchedd lleol. | Nodwyd y sylwad. Mae hwn yn fater penodol sy'n berthnasol i ddyluniad/gweithredu'r GNN ac felly nid yw'n rhan o gwmpas CCA GNN Wylfa. Er hyn, mae'r CCA drafft yn amcanu at warchod a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol yn cynnwys mewn perthynas â'r amgylchedd dŵr (gweler, er enghraifft, EA21). | Dim newid. |
| Y Papur Pwnc ar yr Amgylchedd Naturiol yn ddefnyddiol iawn. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| Os gwelwch yn dda, a gawn ni wybodaeth ategol syml / cryno er mwyn hysbysu'r safbwyntiau'n well? | Nodwyd y sylwad. Mae'r Cyngor Sir yn credu bod yr ymgynghoriad ar CCA GNN Wylfa wedi cyflawni'r anghenion statudol angenrheidiol, a'i fod yn gynhwysfawr a phriodol. | Dim newid. |
| Gwneud y mwyaf o'r holl welyau gwag sydd ar gael mewn lletyau preifat o gwmpas yr Ynys. | Nodwyd y sylwad. Er mwyn sicrhau na fydd y mewnlifiad o weithwyr adeiladu yn effeithio'n niweidiol ar y farchnad dai leol, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu Datganiad Sefyllfa ar Lety Gweithwyr Adeiladu GNN Wylfa. Yn unol â'r Datganiad Sefyllfa hwn, mae drafft CCA GNN Wylfa yn galw am ddarparu lletyau fydd yn cynnwys traean wedi ei adeiladu'n bwrpasol, traean yn eiddo rhentu preifat a thraean yn rhan o'r lletyau | Dim newid. |

| Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|
| | twristiaeth. | |
| Mae pobl leol angen hyfforddiant mewn sgiliau a chliriad diogelwch ar gyfer swyddi ar safle niwclear. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at sicrhau y bydd y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd fydd efallai cael eu creu drwy brosiect yr GNN. Yn y cyd-destun hwn, mae EA2 yn ymdrin yn benodol â chreu swyddi a datblygu sgiliau. | Dim newid. |
| Sicrhau bod cardiau sgiliau yn hyblyg: Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianyddol a chefnogaeth i dalu am gost achrediad L + hygyrch | Nodwyd y sylwad. Ystyrir bod defnyddio cardiau sgiliau y tu allan i gwmpas CCA GNN Wylfa. | Dim newid. |
| Mae'n bwysig sicrhau bod pobl leol yn cael swyddi newydd - byddai hyn yn beth da i Ynys Môn. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at sicrhau y bydd y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd fydd efallai cael eu creu drwy brosiect yr GNN (gweler EA2 yn arbennig). | Dim newid. |
| Prosiect / datblygiad rhagorol fydd yn effeithio'n fawr iawn ar adfywiad economaidd o gwmpas Ynys Môn a Gogledd Cymru. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at wneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd i'r Ynys a rhanbarth Gogledd Cymru fydd yn deillio o brosiect yr GNN. | Dim newid. |
| Mae pŵer niwclear mor ddiogel ag y gall diogel fod, a bu i Wylfa ddangos diogelwch o'r safon uchaf. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |
| Mae'n rhaid cynnig cyfleoedd / cyflogaeth a rhoi hyfforddiant nawr er mwyn sicrhau'r gronfa sgiliau er mwyn ateb y gofynion, ym maes adeiladu neu wedi hynny fel rhan o'r Wylfa Newydd. | Nodwyd y sylwad. Mae drafft CCA GNN Wylfa yn amcanu at sicrhau y bydd y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd fydd efallai cael eu creu drwy brosiect yr GNN. Yn y cyd-destun hwn, mae EA2 yn ymdrin yn benodol â chreu swyddi a datblygu sgiliau.<br><br>Fodd bynnag, dylai EA2 gynnwys gofyniad pendant | Diwygio testun ategol EA2 er mwyn cyfeirio at yr angen am weithredu camau hyfforddi amserol. |

| Sylwad | Ymateb | Argymhelliad / Diwygiad a Gynigir |
|---|---|---|
| | am drafodaeth gynnar rhwng hyrwyddwr y prosiect a darparwyr hyfforddiant. | |
| Mae'n rhaid iddynt sicrhau y bydd yna swyddi i bobl leol anabl hefyd. | Cytuno. | Diwygio testun ategol EA2 i gynnwys cyfeiriad at yr angen i sicrhau y bydd grwpiau anabl yn gallu manteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth fydd yn cael eu creu gan brosiect yr GNN. |
| Dim problemau ynglŷn â diogelwch y datblygiad newydd. | Nodwyd y sylwad. | Dim newid. |

# Talfyriadau

| | |
|---|---|
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| Cyngor Sir | Cyngor Sir Ynys Môn |
| GCD | Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| AEA | Asesiad Effaith Amgylcheddol |
| Rhy | Rhaglen Ynys Ynni |
| EA | Egwyddorion Arweiniol |
| ARhC | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| RhHBCTPh | Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig |
| CGDLl | Cydgynllun Datblygu Lleol |
| GDLl | Gorchymyn Datblygu Lleol |
| DPC | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| SRhN | Swyddfa'r Rheoleiddiwr Niwclear |
| YCY | Ymgynghoriad Cyn-Ymgeisio |

| | |
|---|---|
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| DTC | Datganiad Tir Cyffredin |
| SDdGA | Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| STEM | Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg. |
| CDU | Cynllun Datblygu Unedol |
| CCA GNN Wylfa | Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa: Canllawiau Cynllunio Atodol |


CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk

www.anglesey.gov.uk

# Trosolwg o Geisiadau Cynllunio ar gyfer yr Orsaf Niwclear Newydd

# New Nuclear Build (NNB) Planning Applications Overview






www.ynysmon.gov.uk
www.anglesey.gov.uk
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

This page is intentionally left blank